# LLAWLYFR AR CDLlau

## Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru









**2il Argraffiad**

**Awst 2015**

OGL © Hawlfraint Y Goron 2015 26106 ISBN: 978-1-4734-4830-8

# Cynnwys


## 1. Cyflwyniad

1.1 Diben y Llawlyfr
1.2 Sut y mae'r Llawlyfr yn ymwneud â chyngor arall
1.3 Rhestr Termau

## 2. Proses, Ffurf a Chynnwys

2.1 Proses Integredig o Baratoi CDLlau
2.2 Amcanion Allweddol / Ffocws System y CDLlau
2.3 Elfennau CDLlau
2.4 Ffurf a Strwythur y CDLl
2.5 CDLlau ar y Cyd a Chydweithio
2.6 Argaeledd Dogfennau
2.7 Hysbysiadau
2.8 Y Defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg

## 3. Cyflwyniad i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd, sy'n Ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol (ASS), a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

3.1 Cyflwyniad
3.2 Cefndir
3.3 Eithriadau Posibl rhag AAS
3.4 Camau
3.5 Ymgynghori

## 4. Cytundeb Cyflawni

4.1 Rôl y Cytundeb Cyflawni
4.2 Ymgynghori ar y Cytundeb Cyflawni
4.3 Amserlen – Materion Ymarferol sy'n ymwneud â'r Broses o'i Pharatoi
4.4 Cynllun Cynnwys Cymunedau – Materion Ymarferol o ran ei Baratoi
4.5 Cytundeb Cyflawni – Fersiwn Terfynol ac Adolygu
4.6 Crynodeb o'r Tasgau wrth Baratoi'r Cytundeb Cyflawni

## 5. Casglu Tystiolaeth ac Amcanion

5.1 Cyflwyniad
5.2 Adolygu
5.3 Datblygu'r Sail Dystiolaeth
5.4 Nodi Materion ac Amcanion
5.5 Tasgau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd
5.6 Crynodeb o Dasgau Casglu Tystiolaeth ac Amcanion

## 6. Opsiynau Strategol a'r Dewis Strategaeth

6.1 Cyflwyniad
6.2 Nodi Opsiynau Strategol
6.3 Asesu Opsiynau
6.4 Paratoi Dogfennau Cynigion Cyn-Adneuo
6.5 Ymgynghoriad Cyhoeddus ar y Dewis Strategaeth
6.6 Crynodeb o'r Opsiynau Strategol a'r Tasgau ar gyfer Paratoi'r CDLl

## 7. Paratoi ac Adneuo CDLlau

7.1 Cyflwyniad
7.2 Paratoi'r CDLl Adneuo
7.3 Canllawiau Cynllunio Atodol
7.4 Adneuo'r CDLl
7.5 Paratoi ar gyfer Cyflwyno
7.6 Delio â newidiadau hwyr; Newidiadau Penodol
7.7 Crynodeb o'r Tasgau Adneuo

## 8. Cyflwyno, Archwilio a Mabwysiadu

8.1 Cyflwyniad
8.2 Cyflwyno
8.3 Archwilio
8.4 Mabwysiadu
8.5 Crynodeb o'r Tasgau Cyflwyno, Archwilio a Mabwysiadu

## 9. Monitro

9.1 Cyflwyniad
9.2 Egwyddorion ar gyfer sefydlu Fframwaith Monitro
9.3 Datblygu Targedau a Dangosyddion Monitro
9.4 Adroddiad Monitro Blynyddol
9.5 Crynodeb o'r Tasgau Monitro ac Adolygu

## 10. Adolygu a Diwygio

10.1 Adolygu ac Adroddiad yr Adolygiad
10.2 Diwygio
10.3 Crynodeb o'r Tasgau Adolygu a Diwygio

## 11. Rôl Llywodraeth Cymru, Her yn yr Uchel Lys a Dirymu

11.1 Ymwneud Llywodraeth Cymru
11.2 Pwerau Llywodraeth Cymru
11.3 Her yn yr Uchel Lys
11.4 Dirymu

**12. Darpariaethau Trosiannol**

12.1 Darpariaethau Trosiannol ac Arbed (2015)
12.2 Rheoliad 20/21 Cam y Safleoedd Amgen
12.3 Rheoliad Cyn-Adneuo 14
12.4 Adroddiad Adolygu
12.5 Darpariaethau Trosiannol ac Arbed (2005)

## Atodiadau:

**Atodiad A Rhestr Wirio Sicrwydd Ansawdd**

**Atodiad B Ymgyngoreion ar gyfer CDLlau**

## Ffigurau:

Ffigur 1.1 Diagram o’r Broses o Baratoi Cynllun Datblygu Lleol

Ffigur 2.1 Prif Gamau’r Broses o Baratoi CDLl

Ffigur 4.1 Y Cytundeb Darparu

Ffigur 5.1 Casglu Tystiolaeth ac Amcanion

Ffigur 6.1 Opsiynau Strategol a Chyn-adneuo (Dewis a Ffefrir)

Ffigur 6.2 Tabl enghreifftiol ar gyfer asesiad o opsiynau yn erbyn amcanion integredig y CDLl/Arfarniad o Gynaliadwyedd

Ffigur 6.3 Fframwaith ar gyfer arfarnu effeithiau opsiwn mewn cynllun

Ffigur 7.1 CDLl Paratoi ac Adneuo

Ffigur 8.1 Cyflwyno, Archwilio a Mabwysiadu

Ffigur 9.1 Monitro

Ffigur 10.1 Adolygu

------------------

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Diben y Llawlyfr

1.1.1 Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol hwn yn ddogfen gyfeirio ar-lein i ymarferwyr sy'n paratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) neu'n cyfrannu at y broses o'i baratoi ac mae'n rhoi cyngor ymarferol a thechnegol ar sut i baratoi neu ddiwygio CDLl.

1.1.2 Mae'r fersiwn hon o'r Llawlyfr (2015) yn cynnig dull mwy integredig o ymgorffori arfarniad o gynaliadwyedd, yn esbonio newidiadau sy'n ymwneud â gweithdrefnau darpar safleoedd a safleoedd amgen a'r profion cadernid, ac yn ymhelaethu ar y cyngor ar sut i gynllunio gwaith adolygu a diwygio.

**Cofiwch:**

**i. Dylid ystyried y Llawlyfr ochr yn ochr â'r bennod sy'n ymdrin â CDLlau ym Mholisi Cynllunio Cymru.**

**ii. Yn gyffredinol drwy'r Llawlyfr mae cyfeiriadau at CDLl yn cynnwys CDLl cychwynnol neu unrhyw fersiwn ddiwygiedig ddilynol; ond gweler hefyd pennod 10 Adolygu a Diwygio, yn arbennig mewn perthynas â'r weithdrefn ddiwygio fer.**

## 1.2 Sut y mae'r Llawlyfr yn ymwneud â chyngor arall

1.2.1 Mae'r Llawlyfr yn anstatudol ac nid yw'n gyfystyr â pholisi cenedlaethol. Mae rheoliadau a pholisi cenedlaethol ar system y CDLlau wedi'u cyhoeddi ar wahân. Mae'r canlynol yn arbennig o berthnasol a dylid eu darllen ar y cyd â'r Llawlyfr:-:

- Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol, 2004, Rhan 6.
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 O.S.2005/2839(Cy.203) – *(“Rheoliadau CDLlau”)*[1].
- Polisi Cynllunio Cymru *argraffiad diweddaraf* (Llywodraeth Cymru).

[1]Fel y'u diwygiwyd, gan gynnwys gan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015 O.S.2015/1598(Cy.197) *(“Rheoliadau Diwygio 2015”)*

- Cynllunio'ch Cymuned (Canllaw Cyhoeddus ar Gynlluniau Datblygu Lleol [2006] (Llywodraeth Cymru). (- i'w ddiweddaru)
- Archwiliadau Cynlluniau Datblygu Lleol: Canllaw Gweithdrefnol [2015] (Arolygiaeth Gynllunio Cymru).
- CDLlau: Paratoi ar gyfer cyflwyno – Canllaw ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol [2015] (Arolygiaeth Gynllunio Cymru).
- Y gofynion statudol ar gyfer Asesiad Amgylcheddol Strategol, Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

1.2.2 Mae'r Llawlyfr yn adlewyrchu canllawiau archwilio a gyhoeddwyd gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru[2] sydd ar gael ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio.

## 1.3 Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| Deddf 2004 | Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. |
| Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) | Bydd hwn yn asesu i ba raddau y mae polisïau yn y cynllun datblygu lleol yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus (Rheoliad 37 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005. |
| Llinell sylfaen | Disgrifiad o sefyllfa bresennol ardal y dylid mesur newid yn ei herbyn. |
| Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth | Cynllun sy'n pennu amcanion a chamau gweithredu ar gyfer sicrhau bioamrywiaeth, gyda thargedau mesuradwy, sy'n anelu at warchod a gwella byd natur ar draws cymunedau drwy ddwyn pob buddiant ynghyd drwy gynnwys sectorau megis amaethyddiaeth a busnes yn ogystal â'r cymunedau eu hunain. Caiff camau gweithredu eu datblygu a'u cymryd mewn partneriaeth ac wrth wneud hynny adlewyrchir blaenoriaethau lleol yn ogystal â'r anghenion o ran bioamrywiaeth. |
| Darpar Safle | Mae Darpar Safleoedd yn safleoedd a enwebir gan unrhyw un i'w hystyried gan yr ACLl fel dyraniadau mewn CDLl sy'n datblygu. |
| Cofrestr o Ddarpar Safleoedd | Cofrestr o ddarpar safleoedd a luniwyd yn dilyn cais am ddarpar safleoedd gan yr ACLl. |
| Ardoll Seilwaith Cymunedol | Mae'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn dâl cynllunio, a gyflwynwyd gan Ddeddf Cynllunio 2008 fel adnodd i awdurdodau cynllunio lleol er mwyn helpu i ddarparu seilwaith er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu eu hardal. Daeth i rym ar 6 Ebrill 2010 drwy Reoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010. |
| Panel Dinasyddion | Nifer gynrychioliadol o drigolion, a ddewisir ar hap, ac yr ymgynghorir â hwy yn rheolaidd ar amrywiaeth o faterion a gwasanaethau lleol. |
| Cymuned | Pobl sy'n byw mewn ardal ddaearyddol ddiffiniedig, neu sy'n rhannu buddiannau eraill ac sydd felly yn ffurfio |

[2] Yr Arolygiaeth Gynllunio, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ (ffôn: 029 2082 3892/1581).

| | |
|---|---|
| | cymunedau buddiant. |
| Cynllun Cynnwys Cymunedau | Yn nodi cynllun a pholisïau prosiect ACLl ar gyfer cynnwys cymunedau lleol, gan gynnwys busnesau, wrth baratoi cynlluniau datblygu lleol. Cyflwynir y Cynllun Cynnwys Cymunedau i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r Cytundeb Cyflawni er mwyn iddi gytuno arni. |
| Strategaeth Gymunedol | Mae'n ofynnol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) (Rhan 2: Adrannau 37-46) gyda'r nod o wella lles cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd eu hardaloedd. Gweler y "Cynllun Integredig Sengl". |
| Datblygu consensws | Proses o gynnal deialog cynnar â grwpiau buddiant a dargedir er mwyn deall safbwyntiau perthnasol a chytuno ar gamau gweithredu. |
| Ymgynghori | Proses ffurfiol lle y gofynnir am sylwadau ar bwnc penodol neu gyfres o bynciau, neu ddogfen ddrafft. |
| Corff Ymgynghori | Awdurdod sydd â chyfrifoldebau amgylcheddol y mae effeithiau gweithredu cynlluniau a rhaglenni o bwys iddo ac y mae'n rhaid ymgynghori ag ef o dan y Rheoliadau AAS; h.y. Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Cadw. |
| Ymgynghoriad | Prosiect ymgynghori unigol sy'n canolbwyntio ar amcan diffiniedig ac sydd fel arfer yn rhan o raglen ymgynghori gyffredinol. |
| Dangosydd Cyd-destunol | Dangosydd a ddefnyddir i fonitro newidiadau yn y cyd-destun y caiff y cynllun ei weithredu ynddo. |
| Cytundeb Cyflawni | Dogfen sy'n cynnwys amserlen yr ACLl ar gyfer paratoi'r CDLl ynghyd â'i Gynllun Cynnwys Cymunedau, a gyflwynir i Lywodraeth Cymru er mwyn iddi gytuno arni. |
| Dogfennau Adneuo | Gweler "dogfennau CDLl". |
| Polisïau rheoli datblygu | Cyfres o bolisïau sy'n seiliedig ar feini prawf a fydd yn sicrhau bod pob datblygiad yn yr ardal yn cyflawni'r nodau a'r amcanion a nodir yn y Strategaeth. |
| Dulliau o gynnal deialog | Technegau rhyngweithio gwahanol sy'n creu deialog parhaus rhwng ac ymhlith grwpiau yr effeithir arnynt. |
| Ymgysylltu | Proses sy'n annog trafodaethau o sylwedd mewn cymuned. Ymgais ragweithiol i gynnwys unrhyw grŵp o bobl/rhan o'r gymuned. |
| Adroddiad Amgylcheddol | Dogfen ofynnol o dan y Rheoliadau AAS sy'n nodi, yn disgrifio ac yn arfarnu effeithiau sylweddol tebygol gweithredu'r cynllun ar yr amgylchedd. Gweler Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. |
| Sail Dystiolaeth | Dehongliad o wybodaeth/data Sylfaenol neu wybodaeth/data arall i ddarparu'r sail ar gyfer polisi cynllun. |
| Newidiadau Penodol | Nifer fach iawn o newidiadau arfaethedig i'r CDLl adneuo cyn ei gyflwyno, sy'n adlewyrchu darnau o dystiolaeth, ond nad ydynt wrth wraidd y cynllun. |
| Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | Y broses o sgrinio opsiynau a'u hasesu'n briodol sy'n ofynnol o dan Ran 6 o Bennod 8 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'i diwygiwyd) |


| | |
|---|---|
| | (Rheoliadau Cynefinoedd) - fel proses iteraidd gydnabyddedig sy'n helpu i nodi'r effaith sylweddol debygol ar gynllun neu raglen a (lle y bo'n briodol) asesu effeithiau andwydol ar gyfanrwydd safle Ewropeaidd. Mae angen i'r asesiad gael ei gynnal gan awdurdod cymwys o ran cynlluniau neu brosiectau sy'n debygol o gael effaith sylweddol (ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill) ar “safle Ewropeaidd” (gweler paragraff 5.1.2 o TAN 5), neu fel mater o bolisi “safle Ewropeaidd” neu safle Ramsar arfaethedig, o dan ddarpariaethau Erthygl 6(3) o Gyfarwyddeb yr UE 92/43/ECC (y Gyfarwyddeb Cynefinoedd), rheoliadau 61 a 102 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (fel y'u diwygiwyd) 2010, a rheoliad 25 o Reoliadau Morol oddi ar yr Arfordir (Cynefinoedd Naturiol ac ati) 2007. |
| Dangosydd | Mesur o amrywiadau dros amser, a ddefnyddir yn aml i fesur p’un a gyflawnwyd amcanion ai peidio. |
| Adroddiad Cychwynnol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | Term a ddefnyddir yn CDLlau Cymru i gyfeirio at Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, a gynhyrchir yn ystod cam y Dewis Strategaeth. Mae’n asesu’r opsiynau CDLlau yn erbyn fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Yna caiff yr adroddiad ei ddatblygu yn ystod cam y CDLl Adneuo a chaiff y fersiwn terfynol ei lunio ochr yn ochr â’r Datganiad Mabwysiadu. |
| Cynnwys | Term cyffredinol i gynnwys technegau cyfranogi ac ymgynghori. |
| LANDMAP | LANDMAP yw'r fethodoleg a fabwysiadwyd yn ffurfiol ar gyfer asesu tirwedd yng Nghymru. Felly, dylid unrhyw waith tirlunio ac asesiadau o'r effeithiau sy'n deillio o effaith cynigion ar y dirwedd yng Nghymru gynnwys LANDMAP. |
| Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) | Y cynllun datblygu statudol gofynnol ar gyfer ardal pob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru o dan Ran 6 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.<br>- Cynllun defnydd tir sy’n destun archwiliad annibynnol, a fydd yn ffurfio’r cynllun datblygu statudol ar gyfer ardal awdurdod lleol at ddibenion y Ddeddf. Dylai gynnwys gweledigaeth, strategaeth, polisïau ar draws yr ardal ar gyfer mathau o ddatblygiadau, dyraniadau tir, a lle y bo angen polisïau a chynigion ar gyfer ardaloedd newid a gwarchodaeth allweddol. Rhaid dangos polisïau a dyraniadau’n ddaearyddol ar y Map o’r Cynigion sy’n rhan o’r cynllun. |
| Dogfennau CDLl (neu CDLl Adneuo) | Mae'r rhain yn cynnwys y CDLl Adneuo, adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, adroddiad ar yr ymgynghoriad cychwynnol, y gofrestr o ddarpar safleoedd, Adroddiad yr Adolygiad (os yw'n briodol), unrhyw ddogfennau ategol perthnasol. |
| Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) | Awdurdod cynllunio sy’n gyfrifol am baratoi CDLl; h.y. Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol, neu Awdurdod |

| | |
|---|---|
| | Parc Cenedlaethol. |
| Partneriaeth strategol leol | Partneriaethau o randdeiliaid sy'n dwyn ynghyd ddarparwyr gwasanaeth, y sector preifat, y sector cymunedol a'r sector gwirfoddol i nodi a diwallu anghenion lleol yn fwy effeithiol ac mewn ffordd gydgysylltiedig; fel arfer yn cymryd rhan yn y broses o lunio'r Cynlluniau Integredig Sengl. |
| Cynllun Llesiant Lleol | O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) caiff Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu sefydlu ar gyfer pob ardal awdurdod lleol; y bwriad yw y bydd pob un yn paratoi Cynllun Llesiant i ddisodli'r Cynllun Integredig Sengl erbyn mis Ebrill 2018 (a.30). |
| Newidiadau Materion yn Codi (MAC) | Newidiadau ar ôl cyflwyno CDLl, lle y daw'r Arolygydd penodedig i'r casgliad bod angen newid er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd i'r archwiliad. |
| Cynllun Morol | Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a luniwyd o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. |
| Lliniaru | Mesurau i osgoi, lleihau neu leddfu effeithiau niweidiol sylweddol. |
| Cynllun Rheoli Parciau Cenedlaethol | Mewn ardaloedd parciau cenedlaethol y Cynllun Rheoli Parciau Cenedlaethol yw'r ddogfen bolisi gyffredinol strategol, sy'n cydgysylltu ac yn integreiddio cynlluniau, strategaethau a chamau gweithredu eraill lle y maent yn effeithio ar ddibenion a dyletswyddau'r Parc; dylai liwio'r CDLl. Mae'n bwysig bod y Cynllun(iau) Integredig Sengl yn cyd-fynd â'r Cynllun Rheoli Parciau Cenedlaethol. |
| Gwrthrychol | Datganiad o'r hyn a fwriedir, gan nodi i ba gyfeiriad y dymunir ei newid o ran tueddiadau. |
| Dangosydd Canlyniadau | Dangosydd sy'n mesur canlyniad uniongyrchol y cynllun. Mae'r dangosyddion hyn yn mesur cynnydd wrth gyflawni amcanion, targedau a pholisïau'r cynllun. |
| Cymryd rhan | Proses lle y gall rhanddeiliaid a'r gymuned gydgysylltu â'r rhai sy'n llunio cynlluniau. |
| Partneriaid | Adrannau awdurdod lleol/parciau cenedlaethol eraill a chyrff statudol eraill lle y bydd y CDLl yn helpu i gyflawni rhai o amcanion eu strategaethau. Efallai y bydd disgwyl i bartneriaid gyfrannu at y broses o lunio rhannau perthnasol o'r CDLl. |
| Dogfennau cynigion cyn adneuo | Ymhlith y rhain mae'r weledigaeth, opsiynau strategol, dewis strategaeth, polisïau allweddol, adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, y gofrestr o ddarpar safleoedd, Adroddiad yr Adolygiad (os yw'n briodol). |
| Cam cyn-adneuo | Y camau cynnwys ac ymgynghori cyn adneuo; mae'r Llawlyfr y cyfeirio at gam yr Opsiynau Strategol a'r Dewis Strategaeth sy'n ymwneud â'r weithdrefn lawn ar gyfer cynlluniau; mae llai o ofynion yn gysylltiedig â'r weithdrefn fer ar gyfer diwygio cynlluniau. |
| Adroddiad yr Adolygiad | Yr adroddiad sy'n ofynnol o dan A69 o Ddeddf 2004 a/neu Reoliad 41; er mwyn penderfynu ar y weithdrefn ar gyfer |

| | |
|---|---|
| | diwygio'r CDLl a ddilynir yn seiliedig ar asesiad clir o'r hyn a ystyriwyd a'r hyn sydd angen newid a pham, yn seiliedig ar dystiolaeth. |
| Pennu cwmpas Arfarniad o Gynaliadwyedd | Y broses o benderfynu ar gwmpas a manylder Arfarniad o Gynaliadwyedd, gan gynnwys yr effeithiau ar gynaliadwyedd a'r opsiynau y mae angen eu hystyried, y dulliau asesu i'w defnyddio, a strwythur a chynnwys Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. |
| Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) | Cytundeb ag asiantaeth statudol sy'n nodi'r safonau y bydd yn anelu at eu cyrraedd, a'r costau sy'n codi. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn cytuno ar un gyda'r ACLl mewn perthynas ag archwiliad o CDLl, gan nodi'r terfynau amser tebygol a chost yr archwiliad a rhoi canllawiau clir i'r ACLl ar natur ei gyfrifoldebau. |
| Y weithdrefn ddiwygio fer | Gall fod yn briodol ar gyfer amgylchiadau lle nad yw'r materion dan sylw yn ddigon pwysig i gyfiawnhau cynnal y weithdrefn lawn ar gyfer diwygio cynlluniau. |
| Cynllun Integredig Sengl | Mae'n cyflawni'r dyletswyddau statudol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru ("Cydamcanu – Cydymdrechu", Llywodraeth Cymru 2012), gan gynnwys Strategaethau Cymunedol; fe'i llunnir gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol. Gweler "Cynllun Llesiant Lleol" a fydd yn disodli Cynlluniau Integredig Sengl". |
| Effaith sylweddol | Effeithiau sy'n sylweddol yng nghyd-destun y cynllun (rhydd Atodiad 1 o'r Rheoliadau AAS feini prawf ar gyfer pennu arwyddocâd tebygol effeithiau ar yr amgylchedd). |
| Dangosydd Effeithiau Sylweddol | Dangosydd sy'n mesur effeithiau sylweddol y cynllun. |
| Dyraniadau safle-benodol | Dyraniadau o safleoedd (cynigion) ar gyfer defnydd penodol neu ddefnydd cymysg neu ddatblygiad a geir mewn cynllun datblygu lleol. Bydd polisïau yn nodi unrhyw ofynion penodol ar gyfer cynigion unigol. Dangosir dyraniadau ar fap cynigion y CDLl. |
| Cadernid | Er mwyn iddo gael ei fabwysiadu, mae'n rhaid i Arolygydd yr archwiliad benderfynu bod CDLl yn 'gadarn' (A64 o Ddeddf 2004). Nodir profion ac archwiliadau cadernid yn PCC (pennod 2) a'r Llawlyfr (pennod 8). |
| Rhanddeiliaid | Buddiannau y mae'r CDLl (a/neu'r AAS) yn effeithio arnynt yn uniongyrchol – cânt eu cynnwys fel arfer drwy gyrff cynrychioliadol. |
| Datganiad o Dir Cyffredin | Diben Datganiad o Dir Cyffredin yw nodi'r prif feysydd lle mae dau barti neu fwy yn cytuno ar fater penodol. |
| Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) | Term cyffredinol a ddefnyddir yn rhyngwladol i ddisgrifio asesiad amgylcheddol fel y'i cymhwysir at bolisïau a rhaglenni. Mae proses yr AAS yn deillio o ddeddfwriaeth Ewropeaidd ac fe'i diffinnir ar lefel Ewropeaidd – Cyfarwyddeb 2001/42/EC. Mae Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (y Rheoliadau AAS) yn gofyn am "asesiad amgylcheddol ffurfiol o gynlluniau a rhaglenni penodol, gan gynnwys y |

| | |
|---|---|
| | rhai ym maes cynllunio a defnydd tir”. |
| Canllawiau Cynllunio Atodol (CCAau) | Gwybodaeth atodol mewn perthynas â’r polisïau mewn CDLl. Nid ydynt yn rhan o’r cynllun datblygu ac ni chânt eu harchwilio’n annibynnol ond mae’n rhaid iddynt fod yn gyson ag ef a chyda pholisi cynllunio cenedlaethol. |
| Arfarniad o Gynaliadwyedd | Dull o arfarnu polisïau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy (h.y. ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd). Mae’n ofynnol i bob ACLl o dan A62(6) o Ddeddf 2004 gynnal arfarniad o gynaliadwyedd y CDLl. Mae’r math hwn o arfarniad o gynaliadwyedd yn ymgorffori’n llawn ofynion y Gyfarwyddeb AAS.<br>Yn y llawlyfr hwn, mae’r term yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol, oni bai y’i nodir yn glir fel arall. |
| Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | Mae hwn yn cynnwys yr amcanion a nodwyd yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd y caiff opsiynau CDLlau eu hasesu yn eu herbyn. |
| Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | Dogfen y mae’n ofynnol ei pharatoi fel rhan o’r broses arfarnu cynaliadwyedd i ddisgrifio ac arfarnu’r effeithiau sylweddol tebygol ar gynaliadwyedd os gweithredir y CDLl, ac sydd hefyd yn bodloni’r gofyniad am yr Adroddiad Amgylcheddol o dan y Rheoliadau AAS. O dan A62(6) o Ddeddf 2004 mae'n ofynnol i bob ACLl baratoi adroddiad ar ganfyddiadau'r arfarniad o gynaliadwyedd y CDLl.<br>- Caiff Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ei gynhyrchu’n gyntaf yn ystod cam y Dewis Strategaeth (a elwir yn Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Interim), yna ymhelaethir arno yn ystod cam y CDLl Adneuo a chaiff y fersiwn terfynol ei gynhyrchu ochr yn ochr â’r Datganiad Mabwysiadu. |
| Cynllun Gofodol Cymru (CGC) | Cynllun a luniwyd ac a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan A60 o Ddeddf 2004, sy’n nodi fframwaith strategol i lywio gwaith datblygu ac ymyriadau polisi yn y dyfodol, p’un a yw’r rhain yn ymwneud â rheoli cynllunio defnydd tir ffurfiol ai peidio. O dan A62(5)(b) o Ddeddf 2004 mae’n rhaid i awdurdod cynllunio lleol ystyried CGC wrth baratoi CDLl. |

**Ffigur 1.1: Diagram o'r Broses o Baratoi Cynllun Datblygu Lleol**



# 2. Proses, Ffurf a Chynnwys

## 2.1 Proses Integredig o Baratoi CDLlau

2.1.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio'r dybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy a dylai ACLlau sicrhau bod y cynllun a'i gynigion yn sicrhau datblygu cynaliadwy. Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC - y bennod sy'n ymdrin â Chynlluniau Datblygu) yn cynnwys gwybodaeth bwysig am y broses o baratoi CDLl sydd wedi'i hintegreiddio'n llawn â'r arfarniad o gynaliadwyedd (gweler Ffigur 2.1), gan bwysleisio bod angen dangos y CDLl yn gadarn drwy sicrhau ei fod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy.


2.1.2 Dylai arfarniad o gynaliadwyedd, sy'n ymgorffori AAS, fod yn elfen annatod o bob cam o'r broses o baratoi cynllun gan gynnwys casglu tystiolaeth, nodi materion, pennau amcanion, gwerthuso opsiynau ac ymgynghori. (Gweler Atodiad A Rhestr Wirio Sicrwydd Ansawdd.)

## 2.2 Amcanion Allweddol/Ffocws System y CDLlau

2.2.1 Nod system y CDLlau yw cyflawni'r **amcanion** canlynol:-

- Hwyluso Datblygu Cynaliadwy drwy baratoi a monitro'r CDLl drwy broses sy'n **integreiddio gwaith Arfarnu Cynaliadwyedd,** (sy'n ymgorffori gofynion Asesu Amgylcheddol Strategol), **â'r broses o lunio cynllun**.
- Selio'r gwaith o lunio CDLl ar **gynnwys cymunedau**'n effeithiol, er mwyn ystyried ystod eang o safbwyntiau, gyda'r nod o sicrhau consensws cyffredinol ynghylch strategaeth a pholisïau CDLlau.
- Sicrhau bod **polisïau wedi'u hintegreiddio** drwy lunio CDLlau sy'n fewnol gyson ac a integreiddir â'r prif bolisïau a strategaethau eraill yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol (gan osgoi ailadrodd diangen).
- Sicrhau **dull cyflym ac ymatebol** o lunio cynlluniau, gydag amserlenni cyhoeddedig ar gyfer paratoi cynlluniau, llai o fersiynau o'r cynllun cyn ei fabwysiadu, a gwaith monitro ac adolygu strategol rheolaidd er mwyn adlewyrchu amgylchiadau newidiol Cymru gyfoes yn well.
- Llunio cynlluniau sy'n **strategol, yn gryno ac yn unigryw** o ran nodi sut y bydd ardal yn datblygu ac yn newid, ar sail dealltwriaeth gadarn o gydberthnasau rhwng lleoedd, gan gynnwys ar draws ffiniau gweinyddol, ac sy'n ysgogi newid.
- Sicrhau **datblygu cynaliadwy**, gan ystyried gofynion o ran seilwaith, argaeledd adnoddau, dichonoldeb a ffactorau sy'n ymwneud â'r farchnad.

**Ffigur 2.1 Prif Gamau'r Broses o Baratoi CDLl**




D.S. Dylid paratoi'r cynllun, cynnal yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r ymgynghoriad mewn modd integredig.

## 2.3 Elfennau CDLlau

2.3.1 Dylai'r cynllun datblygu gynnwys strategaeth a chyfres integredig o bolisïau a chynigion safle-benodol[3] sy'n gysylltiedig â gweledigaeth y Cynllun Integredig Sengl[4] neu'r Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol perthnasol. Dylai fod yn seiliedig ar ddefnydd darbodus o adnoddau, dealltwriaeth glir o anghenion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal ac unrhyw gyfyngiadau ar ddiwallu'r anghenion hynny. Mae 'cadernid' y cynllun yn rhywbeth a gaiff ei brofi wrth ei archwilio ac, felly, dylai fod yn un o ystyriaethau allweddol yr awdurdod wrth baratoi ei CDLl (gweler adran 8.2.1). Dylai strategaeth a pholisïau'r CDLl:

i. ymwneud â daearyddiaeth yr ardal a bod yn seiliedig ar nodweddion ffisegol a demograffig, cysylltiadau mewnol ac allanol a chydberthnasau ag ardaloedd cyfagos;
ii. pwysleisio'r ffordd y caiff yr amcanion sy'n deillio o'r weledigaeth eu cyflawni a'r amserlen ar gyfer gwneud hynny;
iii. cael eu hategu gan dystiolaeth gynhwysfawr a chredadwy;
iv. bod yn ddichonadwy a dylai fod yn bosibl eu cyflawni o fewn cyfnod y cynllun;
v. bod yn gadarnhaol, gan bwysleisio'r canlyniadau sydd eu hangen er mwyn gwireddu gweledigaeth yr awdurdod;
vi. bod mewn iaith syml, diamwys a hawdd eu deall;
vii. cael eu paratoi gan sicrhau bod rhyngweithiadau rhwng polisïau'r cynllun yn cael eu hystyried a'u deall yn llawn; a
viii. dylai fod yn bosibl eu rhoi ar waith a dylent fod yn glir ynghylch dulliau monitro.

2.3.2 Dylai cynlluniau gynnwys trosolwg cryno o'u sail gyd-destunol a dadansoddol; dylid cynnwys y data ffeithiol manwl mewn dogfennau technegol/cefndir sydd wedi'u croesgyfeirio'n glir. Bydd crynodeb o'r cynllun a rhestr lawn o'r cynnwys yn helpu i sicrhau bod y cynllun yn haws ei ddarllen. Er bod yn rhaid i CDLlau ystyried polisïau cenedlaethol ni ddylent eu hailadrodd, ond yn hytrach dylent esbonio sut maent yn ymwneud â'r ardal leol ac, yn bwysicach na dim, y cysylltiad rhwng y ffordd y bydd polisi cenedlaethol a lleol yn cydweithio. Mewn achosion eithriadol gall fod rhesymau cyfiawn dros eithriadau i bolisi cenedlaethol, y byddai angen iddynt gael eu hategu gan dystiolaeth gadarn. Pan fo'r defnydd o'r Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol cymuned, dylid ystyried anghenion a buddiannau'r iaith wrth ffurfio polisïau a nodir yn y cynllun (PCC 4.13/TAN 20).

2.3.3 Dylai cynlluniau gynnwys unrhyw bolisïau defnydd tir mewn ardaloedd a ddynodwyd drwy gyfundrefnau eraill. Ni ddylai cynlluniau ddyblygu darpariaethau mewn cyfundrefnau deddfwriaethol eraill, er enghraifft, mewn deddfwriaeth sy'n ymwneud ag iechyd amgylcheddol, rheoleiddio adeiladu ac iechyd a diogelwch. Ni ddylai'r polisïau gynnwys datganiadau o fwriad na disgrifiadau o drefniadau gweinyddol. Ni ddylai cynlluniau geisio dynodi ardaloedd lle y bydd cyfleusterau neu grantiau arbennig ar gael, na lle y bydd trefniadau ymgynghori arbennig yn gymwys.

[3] Mae cynnig yn fath o bolisi.

[4] O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 caiff Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu sefydlu ar gyfer pob ardal ALl; y bwriad yw y bydd pob un yn paratoi Cynllun Llesiant Lleol i ddisodli'r Cynllun Integredig Sengl erbyn mis Ebrill 2018.

2.3.4 Dylai CDLlau gynnwys nifer fach o bolisïau cryno sy'n cwmpasu ardal gyfan, gan ganolbwyntio ar brif anghenion a chyfleoedd ardal. Dylid ystyried anghenion pob rhan o'r gymuned wrth benderfynu ar ddull gweithredu ac arddull y cynllun a'i bolisïau. Dylid osgoi jargon; os bydd angen defnyddio termau technegol, dylid esbonio'r rhain mewn rhestr termau. Ni ddylai CDLlau gynnwys polisïau i ymdrin â phob digwyddiad posibl ac ni ddylent fod yn hir, yn gymhleth, yn amwys nac yn rhy fanwl. Bydd hyn yn hwyluso'r broses o baratoi a mabwysiadu cynlluniau, yn rhoi canllawiau da i ddefnyddwyr cynlluniau a sicrhau bod penderfyniadau ynghylch rheoli datblygu yn llai cymhleth ac yn fwy tryloyw.

2.3.5 Gall polisïau ymwneud ag ardal gyfan y cynllun neu ran ohoni, gan nodi'r profion a ddefnyddir i farnu a ddylid caniatáu datblygiad ar safleoedd unigol. Gall gormod o bolisïau safle-benodol arwain at gynllun anhyblyg a all ddyddio a gorfod cael ei ddiwygio'n gynnar wrth i amgylchiadau newid.

2.3.6 Dylai awdurdodau ystyried nodi'r cynllun mewn ffordd a fyddai'n hwyluso'r gwaith o adolygu a diwygio'r cynllun hwnnw yn ddiweddarach. Er enghraifft, gall fod yn bosibl cynnal adolygiadau detholus o ran neu rannau o gynllun ar sail ddaearyddol os bydd y cynllun a fabwysiadwyd yn cynnwys adrannau â pholisïau a chynigion penodol ar gyfer is-ardaloedd o fewn y cynllun. Bydd hyn hefyd yn rhoi hyblygrwydd i ymdrin â materion sy'n codi mewn ardal benodol nad oeddent yn amlwg pan fabwysiadwyd y cynllun yn wreiddiol.

## 2.4 Ffurf a Strwythur y CDLl

2.4.1 Dylai'r CDLl gynnwys yr elfennau canlynol, (gan gadw Rhan 3 o'r Rheoliadau CDLlau a'r canllawiau polisi yn PCC):

- **Teitl ac is-deitl:** gweler Rheoliad 11; mae'n rhaid i'r is-deitl gynnwys y dyddiad y daw'r cyfnod y mae'r cynllun wedi'i baratoi ar gyfer ei gyfer i ben.

- **Cyflwyniad:** Crynhoi'r cyd-destun lleol ar gyfer cyfnod y cynllun, materion y mae angen mynd i'r afael â hwy yn y cynllun, amcanion a ffyrdd o hyrwyddo cynaliadwyedd.

- **Strategaeth:** gan gynnwys Gweledigaeth, materion strategol, nodau ac amcanion allweddol, polisïau allweddol, lleoliadau bras ar gyfer gwaith datblygu, lefel arfaethedig y newid, targedau allweddol a dehongliad gofodol o'r strategaeth. Fe'u dangosir gan ddefnyddio'r "diagram allweddol" - sef map diagramatig sy'n defnyddio symbolau a saethau cyffredinol, nid ar sail AO.

- **Polisïau datblygu i ardal gyfan** a fynegir yn gyffredinol lle y bo'n bosibl, gan gynnwys polisïau sy'n seiliedig ar bynciau: sy'n nodi meini prawf ar gyfer ystyried ceisiadau cynllunio. Gan gynnwys tai, cyflogaeth a darpariaeth fanwerthu. A ategir gan dablau darparu tai / cyflogaeth. Nad ydynt yn ailadrodd polisi cenedlaethol ond sy'n ymwneud ag ardal leol. Polisi sy'n ymdrin â thai fforddiadwy, rhwymedigaethau cynllunio, twristiaeth, mwynau, gwastraff, datblygu cynaliadwy, amwynder,

mynediad, parcio, dylunio, bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd, tirlunio, ac ati, fel y bo'n briodol.

- **Dyraniadau:** safleoedd i'w datblygu ac ardaloedd atal datblygu; polisïau sy'n ymwneud â'u darparu. Gellir cynnwys rhagor o fanylion men canllawiau cynllunio atodol.

- **Polisïau** a chynigion **ardal-benodol** ar gyfer ardaloedd newid neu warchodaeth allweddol: sy'n ymdrin â pholisïau sy'n benodol i'r ardal leol ar gyfer twf a nodwyd, datblygiadau cymysg mawr, ardaloedd adfywio neu ardaloedd uwchgynllun neu ardaloedd gwarchodaeth e.e. AHNEau neu ardaloedd cadwraeth.

    - Mewn **ardaloedd o newid allweddol,** nodi egwyddorion datblygu cyffredinol (y math o ddefnyddiau, eu maint cyffredinol a sut y cânt eu cyflwyno fesul cam, a'u cydberthnasau; dyraniadau safle penodol, annatod a'r seilwaith sydd ei angen); dylid cynnwys rhagor o fanylion megis cynllun defnyddiau o fewn y dyraniadau a gofynion dylunio manwl mewn canllawiau cynllunio atodol.

    - Mewn **ardaloedd gwarchodaeth arbennig**, dylai cynlluniau nodi'r polisïau a'r cynigion cadarnhaol ar gyfer camau gweithredu i warchod neu wella'r ardal, gan gynnwys diffinio ardaloedd lle y cynigir mesurau cadwraeth penodol ac ardaloedd a fydd yn ddarostyngedig i reolaethau penodol dros ddatblygu.

- **Cyfiawnhad rhesymegol** cryno i egluro polisïau a llywio'r broses o'u gweithredu, a nodi sut y caiff cynigion eu rhoi ar waith; dylid gallu gwahaniaethu'n hawdd rhwng y polisïau a'r cynigion a'r cyfiawnhad rhesymegol.

- **Map cynigion** ar sail Arolwg Ordnans: sy'n nodi pob un o bolisïau a chynigion y cynllun sydd ag elfen ofodol; sy'n dangos safleoedd a ddyrannwyd, ffiniau aneddiadau ac ardaloedd diogelu, ac ati; diffinio ardaloedd y caiff polisïau rheoli datblygu a nodwyd eu cymhwyso atynt, ond pan gaiff ffiniau gofodol eu pennu gan systemau eraill nid oes angen eu dangos ar y Map Cynigion - yn y sefyllfaoedd hyn gall fod yn fuddiol defnyddio Map Cyfyngiadau. Gall Map Cyfyngiadau ddangos, er enghraifft, ffiniau gofodol a bennwyd gan systemau eraill heblaw'r CDLl (e.e. gan Fapiau Datblygu TAN15, dynodiadau tirwedd statudol megis AHNEau); gall hyn fod yn fuddiol am ei bod yn hawdd diwygio'r map er mwyn ystyried newidiadau nas nodir gan y CDLl. Nid yw Map Cyfyngiadau, yn wahanol i Fap Cynigion, yn ofyniad statudol ac nid yw'r rhan o'r CDLl. Os caiff ei lunio, yna mae'n rhaid i'w statws fod yn glir; dylai'r CDLl gyfeirio ato a rhestrau'r dynodiadau a geir ynddo. Dylid dangos caniatadau cynllunio sy'n bodoli (h.y. ymrwymiadau) ar gyfer pob safle sydd uwchlaw trothwy a bennwyd gan yr awdurdod, nad ydynt yn safleoedd bach, ar y Map Cynigion, a'u cyflwyno fel rhestr yn nhestun y CDLl (gallai hyn fod yn atodiad).

Sail Arolwg Ordnans, gyda theitl y cynllun, y raddfa ac esboniad o'r nodiannau a roddwyd; croesgyfeiriadau o eglurhad y map at bolisïau a chynigion penodol; lle y bo'n bosibl, dylid defnyddio nodiannau a rennir gan awdurdodau cyfagos.

Dylid cynllunio ar gyfer yr ardal gyfan, gyda mapiau mewnosod unigol yn ymwneud ag aneddiadau os yw'n briodol; mae'n rhaid i fap mewnosod ddangos yr holl gynigion ar gyfer yr ardal a gwmpesir ganddo; mae'n rhaid dangos ffiniau mapiau mewnosod yn fanwl gywir ar y Map Cynigion ac ni ddylai'r cynigion a ddangosir ar fap mewnosod ymddangos ar y prif fap.

Fel rheol, ni ddylid dyrannu tir ar y Map Cynigion y tu hwnt i gyfnod y cynllun. Er enghraifft os cynigiwyd datblygu safle tai mawr y byddai ei raglen ddatblygu yn ymestyn y tu hwnt i gyfnod y cynllun, dim ond camau cychwynnol y datblygiad o fewn cyfnod y cynllun a ddylai gael eu dangos ar y Map Cynigion. Mae polisïau ar ddiogelu mwynau yn eithriad, lle y dylai tir gael ei ddyrannu ar y Map Cynigion y tu hwnt i gyfnod y cynllun, oherwydd yr angen i'w diogelu yn yr hirdymor er mwyn atal datblygiad parhaol arall rhag eu sterileiddio.

- **Fframwaith monitro:** gan gynnwys targedau a dangosyddion monitro.

## 2.5 CDLlau ar y Cyd a Chydweithio

2.5.1 Gall dau ACLl neu fwy gytuno i baratoi CDLl ar y cyd ar gyfer eu hardaloedd (adran 72 o Ddeddf 2004 a Rheoliad CDLl 36). Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd amgylchiadau lle mae cydweithio a pharatoi cynllun ar y cyd yn cynnig manteision o ran ansawdd y cynlluniau a gaiff eu llunio yn ogystal â mynd i'r afael â materion trawsffiniol yn effeithiol.

2.5.2 Lle mae dau ACLl neu fwy yn cytuno i baratoi neu ddiwygio CDLl ar y cyd, mae'n rhaid i bob ACLl gydymffurfio â'r gweithdrefnau ar gyfer paratoi'r CDLl ar y cyd neu ddiwygiad fel sy'n ofynnol pan fyddant yn paratoi CDLl neu ddiwygiad ar wahân. Mae'n rhaid i bob un o'r ACLlau baratoi / diwygio'r cynllun; ni ellir ei wneud yn unochrog gan awdurdod unigol.

2.5.3 Wrth baratoi eu CDLlau eu hunain, gall ACLlau ystyried ei bod yn fanteisiol cyflawni agweddau penodol ar y broses o lunio cynllun ar y cyd neu drwy drefniadau cydweithio.

## 2.6 Argaeledd Dogfennau

2.6.1 Cyn gynted ag sy'n ymarferol, dylid cyhoeddi'r CDLl a fabwysiadwyd ar wefan yr ACLl a threfnu ei fod ar gael i'w archwilio ym mhrif swyddfa'r ACLl (ac mewn mannau eraill yn unol â'r Cytundeb Cyflawni) ac i'w brynu am bris rhesymol.

2.6.2 Dylai awdurdodau ddarparu gwybodaeth am gynlluniau ar eu gwefannau. Mae gwaith mapio digidol yn galluogi awdurdod i ddarparu cynlluniau, mapiau a diagramau mewn cynlluniau mewn fformat cyfrifiadurol yn amodol ar fesurau diogelu hawlfraint priodol. Mae'n bwysig bod yr holl wybodaeth am y cynllun yn cael ei chadw gyda'i gilydd mewn un cyfeirlyfr ffynonellau sy'n hwyluso'r gwaith o gyd-berthnasu a dadansoddi'r cynllun a data eraill. Dylai mapiau cynigion fod ar gael ar ffurf electronig, er hwylustod ac fel y gallant fod yn ddeinamig ac ymateb i newid, wrth i CDLlau gael eu hadolygu ac wrth i bolisïau a chynigion gael eu diwygio. Fodd bynnag, p'un a yw'r cynllun ar gael mewn fformat digidol ai peidio, mae angen sicrhau bod copïau papur o bob dogfen yn ystod pob cam sy'n arwain at fabwysiadu'r cynllun, ar gael i'w harchwilio.

## 2.7 Hysbysiadau

2.7.1 Dylai ACLlau fodloni eu hunain eu bod yn cydymffurfio â'r holl ofynion yn y CDLl a'r Rheoliadau AAS ac ati o ran hysbysu neu gyhoeddusrwydd. Nid oes unrhyw fformat statudol ar gyfer hysbysiadau. Dylid drafftio hysbysiadau er mwyn sicrhau eu bod yn hawdd eu deall drwy roi esboniadau symlach a defnyddio iaith glir. Gellid cynnwys manylion cyswllt llinell gymorth lle y gellir cael esboniad o'r broses neu ddogfennau fformat amgen, ac mae cymorth ar gael i'r rhai na allant wneud sylwadau ysgrifenedig.

## 2.8 Y Defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg

2.8.1 Cyflwynodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ddyletswydd ar sefydliadau gan gynnwys ACLlau i gydymffurfio â safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae'r Safonau yn rhoi eglurder ynglŷn â'r gwasanaethau y dylid eu darparu yn Gymraeg ac yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn modd rhesymol a chymesur. Mae llawer o'r Safonau yn debygol o fod yn berthnasol i bob cam o'r broses o baratoi a diwygio CDLlau ond yn benodol i'r ffordd y mae ACLlau yn hysbysebu cynigion, yn ymgynghori â'r cyhoedd, yn cyfathrebu â'r rhai sy'n cyflwyno sylwadau ac yn gwneud trefniadau ar gyfer cynnal archwiliadau. Dylid nodi'r defnydd o'r Gymraeg mewn gohebiaeth yn y Cynllun Cynnwys Cymunedau. Mae cyfarfodydd cyn gwrandawiad yn darparu fforwm lle y gellir trafod cwestiynau ymarferol am yr ieithoedd a ddefnyddir yn sesiynau'r gwrandawiad fel y gall y sawl sydd am gymryd rhan ynddynt drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg wneud hynny'n effeithiol.

# 3 Cyflwyniad i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd, sy'n Ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS), a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

## 3.1 Cyflwyniad

3.1.1 Yn ogystal â'r gofynion o ran datblygu cynaliadwy o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (gweler PCC Pen.4), mae Adran 39 o Ddeddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau baratoi CDLlau gyda'r nod o gyfrannu at sicrhau datblygu cynaliadwy. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio'r dybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy a dylai ACLlau sicrhau bod y cynllun a'i gynigion yn sicrhau datblygu cynaliadwy.

3.1.2 Bydd arfarniad o gynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol yn chwarae rhan bwysig wrth ddangos bod y CDLl yn gadarn drwy sicrhau ei fod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy. Bydd yn cyfrannu at y cyfiawnhad rhesymegol o bolisïau.

3.1.3 Felly, dylai gwaith arfarnu cynaliadwyedd, gan gynnwys AAS, fod yn elfen annatod o bob cam o'r broses o baratoi'r cynllun gan gynnwys casglu tystiolaeth, nodi materion, pennau amcanion, gwerthuso opsiynau ac ymgynghori. Ni ddylai fod yn weithgaredd ‘ticio blwch’ a ychwanegir ar ddiwedd y broses.

3.1.4 Rhydd Ffigur 2.2 grynodeb o brif gamau’r broses o baratoi CDLl gydag Arfarniad o Gynaliadwyedd sy'n ymgorffori prosesau Asesu Amgylcheddol Strategol (AAS) y mae angen iddynt fod wedi'u hintegreiddio'n llawn neu gael eu cynnal ochr yn ochr â'i gilydd. Nod AAS yw gwella perfformiad amgylcheddol y cynllun a diogelu'r amgylcheddol ar lefel strategol. Dylai arfarniad o gynaliadwyedd fodloni holl ofynion y Rheoliadau AAS[5] felly ni ddylai fod angen AAS ar wahân. Mae’r defnydd o’r term Arfarniad o Gynaliadwyedd yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar CDLlau, gan gynnwys y Llawlyfr hwn, yn ymgorffori AAS.

3.1.5 Rhoddir cefndir cryno'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn y bennod hon, gyda disgrifiad manylach o’r tasgau ymhob un o’r penodau canlynol sy’n disgrifio pob prif gam yn y broses o baratoi CDLl. Hefyd rhoddir crynodeb o’r modd y gellir integreiddio prosesau ymgynghori i gwmpasu’r CDLl a’r Arfarniad o Gynaliadwyedd cysylltiedig.

## 3.2 Cefndir

- **Arfarniad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol**

3.2.1 Mae cynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer CDLlau yn ofynnol o dan Ddeddf 2004. Mae’r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cwmpasu effeithiau cymdeithasol ac economaidd CDLl yn ogystal â rhai amgylcheddol. Rhaid cynnal asesiad

[5] Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 - OS 2004/1656 (Cy.170) (y Rheoliadau AAS)

amgylcheddol (Rheoliadau 5 (2) a 5 (4) o'r Rheoliadau AAS) ar gyfer CDLlau a lunnir am y tro cyntaf a CDLlau sy'n cymryd lle hen rai. Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu mai ymgorffori gofynion y Gyfarwyddeb AAS yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd sydd orau ar gyfer cynlluniau datblygu. Yn eu hanfod mae gofynion yr arfarniad o gynaliadwyedd a'r Rheoliadau AAS yn eithaf syml ac yn adlewyrchu dull o lunio cynlluniau sy'n seiliedig ar synnwyr cyffredin fel y gellir integreiddio'r arfarniad o gynaliadwyedd, yn ei dro, yn y gwaith o baratoi cynllun. Er enghraifft, dylai gwybodaeth sylfaenol AAS fod yn rhan o sail dystiolaeth gyffredin ar gyfer cynlluniau, gellir integreiddio gwaith monitro AAS ar gyfer effeithiau sylweddol ag Adroddiad Monitro Blynyddol y cynllun. Fodd bynnag, dylid cofnodi'n glir yr agweddau hynny ar y gwaith sydd eu hangen yn benodol er mwyn bodloni'r Rheoliadau AAS fel y nodir yn Nhabl 3.1 a dylid cyfeirio atynt mewn strwythur adrodd cyffredin; h.y. Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (nid oes angen Adroddiad Amgylcheddol' ar wahân o dan Reoliad 12 o'r Rheoliadau AAS os gwneir hyn – gweler hefyd 6.4.4.1 isod).

## Tabl 3.1: Gofynion y Rheoliadau AAS 2004 Rhif 1656 (Cy.170)

| Cwestiynau allweddol | Gofyniad cyfatebol y Rheoliadau AAS (mae'n rhaid i'r 'adroddiad amgylcheddol' gynnwys…)<br>*D.S. Gweler Rheoliad 12 ac Atodlen 2 i'r Rheoliadau AAS (2004/1656)* |
|---|---|
| Beth mae'r cynllun yn ceisio ei gyflawni? | amlinelliad o'r cynnwys, prif amcanion y cynllun neu'r rhaglen a'r gydberthynas â chynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill (Atodlen 2(1)) |
| Beth yw'r cyd-destun polisi? | amlinelliad o'r cynnwys, prif amcanion y cynllun neu'r rhaglen a'r gydberthynas (os oes un) â chynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill (Atodlen 2(1)) |
| Beth yw'r amcanion cynaliadwyedd allweddol y mae angen eu hystyried? | amcanion diogelu'r amgylchedd, a bennwyd ar lefel ryngwladol, ar lefel y Gymuned Ewropeaidd neu ar lefel Aelod-wladwriaeth, sy'n berthnasol i'r cynllun neu'r rhaglen a'r ffordd y mae'r amcanion hynny ac unrhyw ystyriaethau amgylcheddol wedi'u hystyried wrth ei baratoi/pharatoi (Atodlen 2(5)) |
| Beth yw'r sefyllfa <u>ar hyn o bryd?</u> | yr agweddau perthnasol ar gyflwr presennol yr amgylchedd a'r ffordd y maent yn debygol o ddatblygu os na chaiff y cynllun neu'r rhaglen ei roi/rhoi ar waith (Atodlen 2(2))<br>nodweddion amgylcheddol yr ardaloedd y mae'n debygol yr effeithir arnynt yn sylweddol (Atodlen 2(3)) |
| Beth fydd y sefyllfa <u>heb</u> y cynllun? | yr agweddau perthnasol ar gyflwr presennol yr amgylchedd a'r ffordd y maent yn debygol o ddatblygu os na chaiff y cynllun neu'r rhaglen ei roi/rhoi ar waith (Atodlen 2(2)) |
| Beth yw'r materion allweddol gan gynnwys unrhyw broblemau sy'n ymwneud â chynaliadwyedd? | unrhyw broblemau amgylcheddol sy'n bodoli eisoes sy'n berthnasol i'r cynllun neu'r rhaglen gan gynnwys, yn arbennig, y rhai sy'n ymwneud ag unrhyw ardaloedd o bwys amgylcheddol penodol, megis ardaloedd a ddynodwyd yn unol â Chyfarwyddebau 79/409/EEC [Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig o dan y yfarwyddeb |

| | |
|---|---|
| | Adar] a 92/43/EEC [Ardaloedd Cadwraeth Arbennig o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd]" (Noder: ymdrinnir ag effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd yn benodol drwy Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (Atodlen 2(4)) |
| Beth fydd y sefyllfa gyda'r cynllun? | yr effeithiau sylweddol tebygol* ar yr amgylchedd, gan gynnwys ar faterion megis bioamrywiaeth, poblogaeth, iechyd pobl, planhigion, anifeiliaid, pridd, dŵr, aer, ffactorau hinsoddol, asedau materol, treftadaeth ddiwylliannol gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archeolegol, tirwedd a'r gydberthynas rhwng y ffactorau uchod (Atodlen 2(6))<br><br>* Dylai'r effeithiau hyn gynnwys effeithiau eilaidd, cronnol, synergaidd, byrdymor, tymor canolig a hirdymor, parhaol a dros dro, cadarnhaol a negyddol. |
| Sut y gallwn liniaru effeithiau andwyol (a chynyddu effeithiau cadarnhaol)? | y mesurau a ragwelir i atal a lleihau unrhyw effeithiau andwyol ar yr amgylchedd yn sgil gweithredu'r cynllun neu'r rhaglen a'u gwrthbwyso cymaint â phosibl (Atodlen 2(7)) |
| Beth yw'r ffordd orau o fonitro effeithiau'r cynllun? | disgrifiad o'r mesurau a ragwelir ynglŷn â monitro (Atodlen 2(9)) |

3.2.2 Mae'r Llawlyfr hwn yn defnyddio'r derminoleg 'asesiad integredig' i ddynodi'r dull integredig hwn o weithredu, ac eithrio lle yr amlygir gofynion penodol deddfwriaeth AAS.

3.2.3 Gall y broses arfarnu cynaliadwyedd integredig hon hefyd gwmpasu mathau eraill o waith arfarnu cynlluniau, er enghraifft dylid ystyried goblygiadau o ran cydraddoldeb[6], anabledd a'r Gymraeg fel rhan o effeithiau cymdeithasol y cynllun. Fodd bynnag, mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn wahanol i Arfarniad o Gynaliadwyedd o ran gweithdrefn a dylid ei gynnal ar wahân.

3.2.4 Ceir canllawiau cyffredinol ar y Gyfarwyddeb AAS a Rheoliadau AAS Cymru ar wefan Llywodraeth Cymru[7], gan gynnwys dogfen y cydweinyddiaethau 'A Practical Guide to the Strategic Environmental Assessment Directive' (2005), sy'n rhoi canllawiau defnyddiol ynghyd ag atebion i gwestiynau cyffredin. Rhydd y Llawlyfr hwn wybodaeth i gynorthwyo awdurdodau cynllunio lleol i gydymffurfio â'r Rheoliadau AAS ac felly'r Gyfarwyddeb. Fodd bynnag, ni fwriedir iddo fod yn ddehongliad cyfreithiol o'r Gyfarwyddeb. Mae'n rhaid i'r rhai sy'n cynnal asesiad integredig o gynllun sy'n ymgorffori AAS fodloni eu hunain ymhob achos, drwy gael cyngor cyfreithiol lle y bo angen, fod gofynion y Gyfarwyddeb wedi'u bodloni.

[6] Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) - OS 2011/1064 (Cy.155) (Rheoliad 8)
[7] http://gov.wales/topics/environmentcountryside/consmanagement/strategic-environmental-assessment/?skip=1&lang=cy
http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/sea/?skip=1&lang=cy

- **Cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Cynefinoedd**

3.2.5 Mae Rhan 6 o Bennod 8 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (y Rheoliadau Cynefinoedd) yn ei gwneud yn ofynnol i opsiynau gael eu sgrinio a'u hasesu'n briodol; y cyfeirir ato yn aml fel 'Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd' Ceir canllawiau i awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru yn TAN 5 - Cadwraeth Natur a Chynllunio[8], Atodiad 6; mae'n rhaid i awdurdodau cymwys fodloni eu hunain eu bod wedi cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau Cynefinoedd. Rhai pwyntiau allweddol i'w cofio yw:

- Wrth roi'r Rheoliadau Cynefinoedd ar waith mae'n rhaid cymhwyso'r egwyddor ragofalus. Dim ond ar ôl cadarnhau na fydd unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Ewropeaidd na safleoedd morol Ewropeaidd oddi ar yr arfordir (oni bai bod 'rhesymau hanfodol sydd er budd cyhoeddus tra phwysig' (IROPI)).

- Mae'n rhaid sgrinio opsiynau er mwyn nodi a ydynt yn debygol o gael effaith sylweddol ar safle Ewropeaidd neu safle morol Ewropeaidd oddi ar yr arfordir yn seiliedig ar amcanion cadwraeth y safleoedd perthnasol ac, os felly, gynnal 'asesiad priodol'.

- Ni ddylid datblygu unrhyw opsiwn y cadarnheir y caiff effaith andwyol ar gyfanrwydd safle Ewropeaidd neu safle morol Ewropeaidd oddi ar yr arfordir oni roddir mesurau lliniaru digonol ar waith, er mwyn osgoi effeithiau andwyol o'r fath.

- Mae'n well dadansoddi'r cynllun yn gynnar er y dylai gynnwys ddigon o fanylion fel y gellir gwneud asesiad ystyrlon. Os bydd angen 'Asesiad Priodol', mae'n annhebygol y caiff ei gynnal cyn y cam 'opsiynau a ffefrir' neu'r hyn sy'n cyfateb iddo oherwydd, cyn hynny, anaml y mae'r cynllun yn cynnwys digon o fanylion. Ar ba gam bynnag y byddwch yn cynnal yr ymarfer hwn, dylid ei ddiweddaru ar bob cam dilynol er mwyn cadarnhau ei fod yn berthnasol o hyd ac (os bydd argymhellion ar gyfer diwygiadau i'r cynllun wedi'u gwneud) er mwyn nodi'r newidiadau perthnasol a'u goblygiadau; dylid cadw trywydd archwilio clir.

- Fel ymgynghorai statudol mae'n rhaid ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae'n well gwneud hyn cyn gynted â phosibl yn y broses o baratoi cynllun ond yn sicr cyn i'r ACLl ystyried y cynllun i'w gymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus â'r ACLl oherwydd gallai'r ymgynghoriad â CNC arwain at ddiwygio'r cynllun.

3.2.6 Dylai'r adroddiad terfynol alluogi'r awdurdod cymwys i gadarnhau na fydd y cynllun yn amharu ar gyfanrwydd unrhyw safleoedd bywyd gwyllt o bwys rhyngwladol. Yn ddelfrydol, byddai hyn yn digwydd cyn cam adneuo'r ymgynghoriad ar y cynllun ac yn sicr cyn ei gyflwyno. Dim ond os cafwyd na fydd y cynllun yn amharu ar gyfanrwydd y safleoedd diffiniedig neu, os bydd yn gwneud hynny, yna a) nad oes unrhyw ddewisiadau amgen i'r cynllun, a b) bod Rhesymau Hanfodol sydd

[8] http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan5/?skip=1&lang=cy
http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan5/?skip=1&lang=cy

Er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig (IROPI) pam mae'n rhaid bwrw ymlaen â'r cynllun serch hynny, y bydd yn bosibl mabwysiadu'r cynllun (gweler TAN5). Gellir defnyddio canfyddiadau'r gwaith asesu hwn er mwyn llywio'r Arfarniad o Gynaliadwyedd, er enghraifft wrth asesu effaith opsiynau ar fioamrywiaeth.

## 3.3 Eithriadau Posibl rhag AAS

3.3.1 Dylid defnyddio Pennod 2 (paragraffau 2.5 a 2.6 a Ffig: 2) ac Atodiad 2 i ddogfen y cydweinyddiaethau ‘A Practical Guide to the Strategic Environmental Assessment Directive’ (2005) er mwyn helpu i nodi a oes angen AAS ac eithriadau posibl rhag y Gyfarwyddeb fesul achos.

3.3.2 Pan gaiff CDLl ei ddiwygio neu ei ddirymu, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, bydd angen cynnal ymarfer sgrinio. Pe bai fersiwn ddiwygiedig arfaethedig o CDLl yn cynnwys mân addasiadau (gan gynnwys dileu un neu ragor o bolisïau) neu pe bai'r nodi'r defnydd o ardaloedd bach yn lleol, dim ond os ystyrir ei fod yn debygol o gael effeithiau amgylcheddol sylweddol y mae'n debygol y bydd angen AAS arni.

3.3.3 Gall y gofyniad i gynnal AAS fod yn gymwys i CCAau er bod canllawiau o'r fath yn rhai anstatudol, os ystyrir y bydd y CDLl yn cael effeithiau amgylcheddol sylweddol nas ystyriwyd ac nad ymdriniwyd â hwy eisoes drwy'r arfarniad o gynaliadwyedd y CDLl, er enghraifft rhai briffiau / uwchgynlluniau safle. O dan Reoliad 9(1) o'r Rheoliadau AAS mae'r ofynnol i'r ACLl ddilyn gweithdrefn sgrinio drwy ymgynghori â'r Cyrff Ymgynghori[9] a gwneud penderfyniad ynghylch p'un a yw'n debygol y bydd effeithiau amgylcheddol sylweddol ai peidio. O dan Reoliad 11 o'r Reoliadau AAS, o fewn 28 diwrnod i wneud penderfyniad, mae'n rhaid i'r ACLl ei gyhoeddi ynghyd â datganiad o'r rhesymau dros ddod i'r penderfyniad hwnnw ac mae'n rhaid iddo hefyd hysbysu’r Cyrff Ymgynghori.

3.3.4 Os bydd yr ACLl yn penderfynu ei bod yn debygol y bydd y CCAau yn cael effaith amgylcheddol sylweddol, bydd yr AAS yn symud ymlaen i gam yr adroddiad cwmpasu. Os bydd yn penderfynu nad oes unrhyw effeithiau o’r fath yn debygol, cynghorir yr ACLl i gynnwys y penderfyniad a’r datganiad o resymau mewn dogfennau cysylltiedig yn ystod cyfnod ymgynghori’r CCAau drafft.

## 3.4 Camau

3.4.1 Nodir isod bum prif gam y broses o gynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd sydd angen eu hintegreiddio yn y broses o baratoi CDLl;

- Cam A – Cwmpasu. Gosod y cyd-destun a’r amcanion, nodi’r llinell sylfaen a phenderfynu ar y cwmpas.
- Cam B – Arfarnu. Datblygu a mireinio opsiynau ac asesu effeithiau.
- Cam C – Adrodd. Paratoi Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.

[9] Y Cyrff Ymgynghori dynodedig ar gyfer AAS yng Nghymru yw Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw.

- Cam D – Ymgynghori. Ymgynghori ar ddewis opsiwn y cynllun datblygu a chanfyddiadau Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.
- Cam E – Monitro. Monitro effeithiau sylweddol gweithredu'r cynllun datblygu.

3.4.2 Yn achos diwygio cynlluniau, efallai na fydd angen ailadrodd rhai elfennau o'r gwaith asesu, er enghraifft asesu'r strategaeth os bydd yn cael ei chario ymlaen. Fodd bynnag, bydd angen i'r ACLl nodi'n glir sut mae wedi adolygu'r arfarniad gwreiddiol o gynaliadwyedd a pham ei fod wedi dod i'r casgliad ei fod yn ddilys o hyd. Bydd yn rhaid i ddiwygiadau manwl i gynllun fodloni gofynion arfarniad o gynaliadwyedd ac mae'n debygol mai'r fethodoleg wreiddiol fydd yr un fwyaf priodol i'w defnyddio ar yr amod y sicrheir ei fod yn briodol o hyd.

3.4.3 Dangosir y gydberthynas rhwng camau'r CDLl a thasgau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn Nhabl 3.2 isod. Diwygiwyd teitlau rhai tasgau ychydig er mwyn eu hegluro.

**Tabl 3.2: Y Gydberthynas rhwng Camau'r CDLl a Thasgau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd**

| Cam y CDLl | Tasgau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd | Cyfeiriadau yn y Llawlyfr: |
|---|---|---|
| Cytundeb Cyflawni | Ystyried prif dasgau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn yr Amserlen a nodi prosesau ymgynghori'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn y Cynllun Cynnwys Cymunedau | 4.3<br>4.4 |
| | Sgrinio (ar gyfer y fersiwn ddiwygiedig o'r CDLl / CDLl newydd) | 5.5.1 |
| Casglu Tystiolaeth ac Amcanion | Adolygu polisïau, cynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill, ynghyd ag amcanion cynaliadwyedd | 5.2.1 |
| | Casglu gwybodaeth sylfaenol a gwybodaeth arall | 5.3 |
| | Nodi materion a phroblemau sy'n ymwneud â chynaliadwyedd | 5.4 |
| | Datblygu fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | 5.4 |
| | Paratoi adroddiad cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ac ymgynghori arno | 5.5.2 |
| Opsiynau Strategol a'r Dewis Strategaeth | Nodi opsiynau realistig | 6.2 |
| | Rhagfynegi a gwerthuso effeithiau'r opsiynau yng ngoleuni'r fframwaith asesu | 6.3 |
| | Ystyried ffyrdd o leihau effeithiau andwyol a sicrhau'r effeithiau buddiol mwyaf posibl | 6.3.4 |
| | Cynnig mesurau i fonitro effeithiau sylweddol gweithredu'r CDLl | 6.3.5 |
| | Paratoi Adroddiad cychwynnol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | 6.4.4 |
| | Ymgynghoriad cyhoeddus ar ddewis strategaeth y CDLl ac adroddiad cychwynnol cysylltiedig yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | 6.5.1 |

| | | |
|---|---|---|
| | Arfarnu newidiadau sylweddol o'r ymgynghoriad | 6.5.2 |
| Paratoi ac Adneuo CDLlau | Diweddaru Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | 7.2.3, 7.5.2 |
| | Ymgynghoriad cyhoeddus ar y CDLl Adneuo ac Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | 7.4 |
| Cyflwyno, Archwilio a Mabwysiadu | Mae'r arolygydd yn archwilio'r cynllun, gan gynnwys cydymffurfiaeth â gweithdrefnau cyfreithiol a rheoliadol (gwiriad cadernid).<br>Cyhoeddi Datganiad Mabwysiadu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd; fersiwn derfynol Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | 8.3.3 |
| Monitor ac Adolygu | Monitro er mwyn nodi effeithiau andwyol sylweddol ac ymateb iddynt. | 9.1, 9.2 |

*D.S. Os tybir bod y weithdrefn fer ar gyfer diwygio cynlluniau yn briodol efallai na fydd pob cam yn berthnasol - gweler 10.2*

3.4.5 Yn Atodiad A ceir rhestr wirio sicrwydd ansawdd ddefnyddiol ar gyfer ymarferwyr sy'n bwriadu cynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd fel rhan hanfodol o'r broses o baratoi CDLl. Dylid hefyd ei defnyddio i wirio'r CDLl adneuo ac Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd cyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

## 3.5 Ymgynghori

3.5.1 Nodir y prif ofynion ar gyfer cynnal ymgynghoriad ar y broses o baratoi CDLl yn y Rheoliadau CDLlau. Ceir dau brif gam, sef:

- Cam cynnwys lle y mae trafodaethau strwythuredig ag ymgyngoreion statudol a grwpiau cynrychioliadol yn berthnasol iawn.
- Cam ymgynghori sy'n gwahodd sylwadau gan y cyhoedd ar adroddiadau a gyhoeddwyd ar gyfer y ddau gam.

3.5.2 Ceir gofynion penodol ar gyfer cynnwys y Cyrff Ymgynghori (gweler Rheoliadau 10, 11, 12, 13 ac 16 o'r Rheoliadau AAS), ac mae hyn yn arbennig o bwysig ar gamau cynnar cynnal Arfarniad integredig o Gynaliadwyedd.

3.5.3 Noda'r Rheoliadau AAS dri phrif barti y mae'n rhaid ymgynghori â hwy wrth gynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol. Nodir y rhain isod.

- "Awdurdodau â chyfrifoldeb amgylcheddol", a elwir hefyd yn Gyrff Ymgynghori (y Gyfarwyddeb AAS: Erthyglau 5.4, 6.1 a 6.2). Yng Nghymru dyma'r Cyrff Ymgynghori a nodir yn Rheoliad 14 o'r Rheoliadau AAS; h.y. Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)[10] a Cadw (sydd bellach yn rhan o Lywodraeth Cymru).
- "Y cyhoedd", a ddylai gael cyfle cynnar ac effeithiol i fynegi eu barn ar y cynllun drafft a'r Adroddiad Amgylcheddol cysylltiedig cyn ei fabwysiadu (Erthyglau 6.1, 6.2). Diffinnir yr ymgyngoreion cyhoeddus yn Rheoliad 13 (2(b)) o'r Rheoliadau AAS. Cyflawnir hyn drwy ddau gam ymgynghori

[10] Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru gynt.

cyhoeddus y cynllun, sef ar Ddogfennau Cynigion y Dewis Strategaeth ac Adroddiad cychwynnol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Adroddiad Amgylcheddol, a'r CDLl Adneuo ac Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Adroddiad Amgylcheddol wedi'i ddiweddaru.

- Aelod-wladwriaethau eraill yr UE, lle mae'r cynllun neu'r rhaglen yn debygol o gael effaith sylweddol ar amgylchedd y wlad honno (Erthygl 7, a Rheoliadau 14 a 15 o'r Rheoliadau AAS). Disgwylir mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddai CDLlau yn cael effeithiau o'r fath, er y byddai'n arfer cyffredin ymgynghori ag unrhyw fuddiannau statudol cyfagos yn Lloegr (awdurdodau lleol, cyrff ymgynghori cyfatebol, Swyddfeydd y Llywodraeth, ac ati).

3.5.4 Mae rôl y Cyrff Ymgynghori yn arbennig o bwysig o ran bodloni gofynion AAS. Mae'r Cyrff Ymgynghori wedi nodi ar eu gwefannau sut y byddant yn ceisio ymateb i geisiadau awdurdod am sylwadau ar y pedwar cam ymgynghori a ragnodir yn y Gyfarwyddeb a'r Rheoliadau AAS a'r terfyn amser ar gyfer gwneud hynny, sef:

- Sgrinio (Erthygl 3(6) a Rheoliad 11 o'r Rheoliadau AAS).
- Cwmpasu (Erthygl 5(4) a Rheoliad 12 o'r Rheoliadau AAS).
- Cyflwyno Adroddiadau (Erthygl 6(2) a Rheoliad 13 o'r Rheoliadau AAS).
- Penderfyniad i fabwysiadu (Erthygl 9(1) a Rheoliad 16 o'r Rheoliadau AAS).

3.5.5 Mae'r Cyrff Ymgynghori yn canolbwyntio eu hymdrechion ar y cam cwmpasu. Yn ystod y cam cyflwyno adroddiadau byddant fel arfer yn bwrw golwg ar i ba raddau yr ystyriwyd unrhyw gyngor cynharach.

3.5.6 Mae Tabl 3.2 yn cysylltu prosesau ymgynghori CDLlau â'r rhai sy'n berthnasol i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd. Croesgyfeirir at yr adrannau perthnasol o'r Llawlyfr hwn sy'n cynnwys disgrifiad manylach.

**Tabl 3.3: Gofynion Ymgynghori CDLlau a Phrif Gamau Ymgynghori'r Arfarniad o Gynaliadwyedd**

| **Cam CDLl a'r Rheoliadau CDLlau /AAS cysylltiedig** | **Ymgynghori ar y CDLl** | **Ymgynghori ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd** |
|---|---|---|
| Cytundeb Cyflawni (Rheoliadau 3, 5 a 7 o'r Rheoliadau CDLlau) | Ymgysylltu / ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol ar y Cytundeb Cyflawni drafft fel y bo'n briodol; ei gynnwys ar y wefan. (adrannau 4.2, 4.5.2.3) | Trafod yr Amserlen a'r Cynllun Cynnwys Cymunedau gyda'r Cyrff Ymgynghori.  Ystyried sefydlu grŵp cyfeirio technegol i oruchwylio elfennau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd o'r gwaith asesu integredig. (adrannau 4.3.2f a 4.4.2.6) |

| | | |
|---|---|---|
| Casglu Tystiolaeth ac Amcanion (Paratoi CDLl / Rheoliad 14, 26A; Rheoliad 12(6) o'r Rheoliadau AAS) | Cynnwys grwpiau cymunedol, buddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol fel y bo'n briodol yn ôl yr ACLl (adrannau 5.3)<br>Cais am ddarpar safleoedd a datblygu cofrestr. (adran 5.3.4) | Cynnwys y Cyrff Ymgynghori yn gynnar. Cynnal ymgynghoriad ar Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd Cyfnod ymgynghori o bum wythnos. (adran 5.5.2) |
| Opsiynau Strategol a Chymryd Rhan yng Ngham Cyn Adneuo'r Dewis Strategaeth / Cyn Adneuo (Rheoliad 14 o'r Rheoliadau CDLlau, 26A; Rheoliad 12 o'r Rheoliadau AAS | Cynnwys cyrff ymgynghori penodol y CDLl a'r cyrff ymgynghori cyffredinol (adran 6.2.4). Awgrymu dulliau posibl o gynnwys y cyhoedd megis grwpiau ffocws ac ati a sicrhau bod gwybodaeth ar gael ar y we. | Sicrhau bod y grŵp cyfeirio technegol, sy'n debygol o gynnwys un o'r Cyrff Ymgynghori neu'r ddau ohonynt, yn parhau i gymryd rhan. |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus Cyn Adneuo *(nifer ar gyfer y weithdrefn ddiwygio fer)* (Rheoliad 15/16 o'r Rheoliadau CDLlau; Rheoliad 12 o'r Rheoliadau AAS) | Cyhoeddi dogfennau cynigion cyn adneuo'r CDLl ac ymgynghori arnynt (gan gynnwys y dewis strategaeth, y gofrestr o ddarpar safleoedd ac adroddiad yr adolygiad) (cyfnod statudol o chwe wythnos).<br>Defnyddio'r wefan; ymgynghori â chyrff ymgynghori penodol y CDLl a'r cyrff ymgynghori cyffredinol; hysbysiadau. (adran 6.5) | Ymgynghoriad cyhoeddus ar Ddewis Strategaeth y CDLl ac Adroddiad (cychwynnol) yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (sy'n cynnwys gwybodaeth am/croesgyfeiriadau at yr asesiad o opsiynau) (cyfnod gofynnol statudol yr AAS, sef pedair wythnos). (adran 6.4.4) |
| Paratoi ac Adneuo'r CDLl (Rheoliadau 17-19 o'r Rheoliadau CDLlau, 26B-D; Rheoliadau 12-13 o'r Rheoliadau AAS) | Adneuo'r CDLl drafft yn ffurfiol – cyhoeddi ac ymgynghori (cyfnod statudol o chwe wythnos). Defnyddio'r wefan. Ymgynghori â'r cyrff ymgynghori penodol a'r cyrff ymgynghori cyffredinol. Hysbyseb (adran 7.4). | Ymgynghoriad cyhoeddus ar y CDLl drafft ac Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (cyfnod gofynnol statudol yr ASS, sef pedair wythnos). (adran 7.2.3; 7.4.2) |
| Cyflwyno, Archwilio a Mabwysiadu (Rheoliad 22 o'r Rheoliadau CDLlau, 26D; Rheoliadau 16 o'r Rheoliadau AAS) | Cyflwyno'r CDLl ac Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (adrannau 7.6 ac 8.3).<br>Archwiliad annibynnol gan Arolygydd/Arolygwyr Cynllunio (adran 8.4).<br>Copïau o'r CDLl, Adroddiad yr Arfarniad o | Cyhoeddi adroddiad terfynol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r datganiad mabwysiadu. Hysbysu'r Cyrff Ymgynghori. (adran 8.4.2) |

| | | |
|---|---|---|
| | Gynaliadwyedd a’r datganiad mabwysiadu i’w rhoi i gyrff ymgynghori penodol a'r cyrff ymgynghori cyffredinol ac ati (adran 8.4). | |
| Monitro ac Adolygu (Rheoliad 37 o'r Rheoliadau CDLlau) | Cyflwyno'r Adroddiad Monitro Blynyddol (gan gynnwys canlyniadau monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd) a'i gyhoeddi ar y wefan (adran 9.4).<br>Ymgysylltu â chyrff ymgynghori y CDLl yn ystod yr adolygiad fel y bo'n briodol. (adran 10.1.4) | Ymgysylltu â'r Cyrff Ymgynghori yn ystod yr adolygiad fel y bo'n briodol. (adran 10.1.4) |

*D.S. Os tybir bod y weithdrefn fer ar gyfer diwygio cynlluniau yn briodol efallai na fydd pob cam yn berthnasol - gweler 10.2.*

# 4. Cytundeb Cyflawni

## 4.1 Rôl y Cytundeb Cyflawni

4.1.1 Er mwyn sicrhau dull cyflym ac ymatebol o lunio cynlluniau mae angen ymrwymo ymlaen llaw i raglen heriol a'r ffordd y caiff rhanddeiliaid eu cynnwys yn y broses.

4.1.2 Mae'r Cytundeb Cyflawni yn ddatganiad cyhoeddus cryno sy'n cynnwys **Amserlen** ar gyfer llunio CDLl neu Fersiwn Ddiwygiedig o CDLl yn dilyn adolygiad a'r **Cynllun Cynnwys Cymunedau**, gan nodi sut a phryd y gall rhanddeiliaid a'r gymuned gyfrannu.

4.1.3 Bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol ystyried nodau, cwmpas a blaenoriaethau'r CDLl a'r mathau mwyaf effeithiol o gyfranogiad, gan roi pwyslais ar gynnal deialog strwythuredig, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, â rhanddeiliaid allweddol ynghylch yr opsiynau.

4.1.4 Yr **egwyddorion allweddol** sy'n ategu'r gwaith o gynnwys cymunedau ym mhroses y CDLl yw:

i. creu'r amodau ar gyfer cynnwys pobl a chael adborth ganddynt yn gynnar pan all pobl weld bod ganddynt gyfle i ddylanwadu ar y cynllun;

ii. annog yr holl gyfranogwyr i ymrwymo i drafodaeth agored a gonest ynghylch dewisiadau amgen realistig ar gyfer gwaith datblygu er mwyn ceisio creu consensws;

iii. cydnabod bod angen mabwysiadau dulliau o ymgysylltu â'r gymuned, gan gynnwys busnesau, sy'n ceisio cynnwys y rhai nad ydynt yn cael eu cynnwys fel arfer.

4.1.5 Ar ôl cytuno arno, **mae'r Cytundeb Cyflawni yn ymrwymo'r ACLl i lunio ei CDLl neu'r Fersiwn Ddiwygiedig o'i CDLl yn unol â'r terfynau amser a'r prosesau ymgynghori a nodwyd.** Dylid sefydlu trefniadau craffu corfforaethol, sy'n annibynnol ar y tîm sy'n llunio'r cynllun, er mwyn monitro cynnydd. Mae Rheoliad 9(6) yn rhagnodi ar ba sail nad oes angen i ACLl gydymffurfio ag un o ofynion penodol ei Gynllun Cynnwys Cymunedau. h.y. os oes gan yr ACLl sail resymol dros gredu, os na fydd yn cydymffurfio â'r gofyniad, nad yw hynny'n debygol o atal unrhyw berson rhag cymryd rhan yn y broses o gyflawni swyddogaethau'r ACLl o dan Ran 6 o Ddeddf 2004. Caiff unrhyw wyriadau sylweddol o'r Amserlen a'r Cynllun Cynnwys Cymunedau y cytunwyd arnynt (na chytunwyd arnynt yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru a'u cyhoeddi) eu harchwilio gan yr Arolygydd o bosibl (gweler 8.2.1).

4.1.6 Mae'r Cytundeb Cyflawni yn ddull hanfodol o **reoli prosiect** ar gyfer yr awdurdod, a bydd yn gwneud y canlynol:

- Tanlinellu pwysigrwydd y CDLl o fewn yr awdurdod.
- Pennu terfyn realistig ar gyfer yr hyn y gall yr awdurdod ei wneud yn rhesymol o fewn yr amser a chyda'r adnoddau sydd ar gael, h.y. bydd

yn pennu disgwyliadau.

- Egluro cwmpas a dylanwad y cynllun, gan egluro'r cyfleoedd y bydd yn eu cynnig ar gyfer disgresiwn lleol yn ogystal â'r angen i barchu polisïau cenedlaethol a dynodiadau statudol ac ati.
- Sicrhau ymrwymiad cyllidebol ac adnoddau staff.
- Caniatáu cydgysylltu â'r broses o baratoi strategaethau a dogfennau eraill;
- Pennu fframwaith Arfarniad integredig o Gynaliadwyedd y CDLl, o ran adnoddau a rheoli proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd;
- Tynnu sylw'r gymuned at y broses o gymryd rhan yn y gwaith o baratoi neu ddiwygio'r CDLl, ac amlinellu'n gyffredinol sut y gallant gyfrannu.

4.1.7 Gellir cyflawni rhai o'r tasgau a nodir ym Mhennod 5 (Casglu Tystiolaeth ac Amcanion) nad ydynt yn rhan o waith arolygu na gwaith monitro sy'n mynd rhagddo wrth baratoi'r Cytundeb Cyflawni.

## 4.2 Ymgynghori ar y Cytundeb Cyflawni

4.2.1 Mae'r Rheoliadau CDLlau yn amlinellu'r gofyniad sylfaenol ar gyfer ymgysylltu ag eraill wrth lunio'r Cytundeb Cyflawni. Drwy gydol y broses o baratoi'r Cytundeb Cyflawni argymhellir y dylid cynnal trafodaethau parhaus â Llywodraeth Cymru, ac ymgyngoreion statudol eraill, er mwyn sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau yn cael eu deall a datblygu amserlenni. Dylai ACLlau ystyried lefel a ffurf fwyaf priodol ymgynghoriad ar eu Cytundeb Cyflawni i gyfateb i gyd-fynd â'r cyd-destun lleol; dylai fod yn gymesur ac yn amserol ac ni ddylai beri oedi i'r broses o baratoi'r cynllun. Gall ACLl ddewis ymgynghori ar eu Cytundeb Cyflawni drafft ag ACLlau cyfagos a grwpiau buddiant lleol neu genedlaethol. Y gofyniad yw cynnwys buddiannau lleol o'r fath yn y broses o'i baratoi, fel sy'n briodol yn ôl yr Awdurdod (Rheoliad 5).

4.2.2 O ran diwygio CDLl – gweler 4.5.2.3.


## 4.3 Amserlen – Materion Ymarferol sy'n ymwneud â'r Broses o'i Pharatoi

### 4.3.1 Sicrhau amserlen realistig a rheoli risg

4.3.1.1 Dylid nodi dyddiadau dechrau a gorffen penodol ar gyfer y camau hynny cyn adneuo'r CDLl. Hyd nes y caiff Cais Datblygu ei ailgyflwyno, gellir defnyddio amseriadau dangosol ar gyfer y camau ôl-adneuo. Mae angen ystyried sawl ffactor wrth amcangyfrif yr amseriadau hyn - fel y trafodir isod. Elfen hollbwysig yw'r angen i fod yn realistig ynghylch yr hyn y gellir ei gyflawni o fewn terfynau amser penodol a chyda'r adnoddau sydd ar gael.

4.3.1.2 Mae'n hanfodol bod CDLlau a fersiynau diwygiedig dilynol ohonynt yn cael eu llunio'n gyflym er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol a bod ymgyngoreion yn parhau i gyfrannu at y broses o lunio'r cynllun a lleihau nifer y newidiadau cyd-destunol yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'n rhaid bod yr amserlen yn cynnwys digon o amser i gyfranogi yn ystod y camau cynnar pan fydd fwyaf effeithiol.

**Ffigur 4.1: Y Cytundeb Darparu**




*Er nad yw Rheoliadau 5 a 7 yn gymwys wrth adolygu'r CDLl, dylai'r Awdurdod Cynllunio Lleol ystyried a yw unrhyw fath o ymgysylltu neu ymgynghori yn briodol gan roi sylw i Fyrddau Ymgynghori yr AAS

## 4.3.2 Ystyried ffactorau a allai ddylanwadu ar yr amserlen

Mae angen ystyried amryw o agweddau cyn llunio Amserlen:

**a. Proses gwneud penderfyniadau gan Aelodau:** Un o’r prif ddylanwadau ar unrhyw amserlen yw’r ffordd y mae Aelodau yn gwneud penderfyniadau. Mae paratoi cynllun yn ddyletswydd statudol ac mae'r amserlen yn ymrwymiad cyhoeddus gan yr Awdurdod ac, felly, mae'n hanfodol bod rolau a chyfrifoldebau yn glir a bod trefniadau effeithiol yn cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud yn gyflym. Er enghraifft, bydd defnyddio grŵp llywio Aelodau neu Aelod Cabinet i gymeradwyo camau canolradd y broses o baratoi cynllun yn sicrhau hyblygrwydd. Os bydd angen i ddogfennau drafft gael eu cymeradwyo gan Weithrediaeth neu Gyngor llawn, bydd angen gwneud darpariaeth briodol ar gyfer cylchoedd perthnasol neu gyfarfodydd arbennig. Mae angen pwysleisio, pan gymeradwyir y Cytundeb Cyflawni gan yr Awdurdod, y bydd y broses o baratoi'r cynllun yn cynnwys gwneud penderfyniadau anodd ac amserol sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn cyflawni ymrwymiad yr Awdurdod. Dylid ystyried cyfnodau etholiadau ac unrhyw hyfforddiant dilynol ar gyfer Aelodau newydd yn ogystal ag unrhyw waith ailstrwythuro mewnol disgwyliedig.

**b. Integreiddio â strategaethau eraill:** Dylai awdurdodau ystyried sut y bydd y broses o baratoi CDLl yn berthnasol i’r amserlenni ar gyfer paratoi strategaethau rhanbarthol neu strategaethau lleol eraill. Dylid cynnal trafodaethau a dargedir gyda’r partneriaid hyn sy’n gyfrifol am lunio polisïau, gan gofio y gallai’r CDLl fod yn un o’r ffyrdd o gyflawni’r strategaethau hyn (ac i’r gwrthwyneb). Dylid ystyried pryd y mae partneriaethau lleol allweddol yn cyfarfod wrth amserlennu trafodaethau ac adborth ar gamau cerrig milltir yn y broses o baratoi CDLl. Efallai y bydd yn ddefnyddiol cyflwyno’r amserlenni ar gyfer strategaethau allweddol eraill ochr yn ochr ag amlinelliad o’r amserlen ar gyfer y CDLl. Efallai y bydd cyfle i gyfuno tasgau e.e. cymryd rhan yn y broses o baratoi’r CDLl ar y cyd â diweddaru’r Cynllun Integredig Sengl neu’r Cynllun Rheoli Parciau Cenedlaethol.

**c. Cynnwys bras y CDLl:** Dylid datblygu dealltwriaeth o gwmpas a fformat bras y CDLl neu'r Fersiwn Ddiwygiedig arfaethedig cyn amcangyfrif amserlen. O ystyried nad yw awdurdodau yn dechrau o’r dechrau, mae’n hollbwysig adolygu’r cynllun presennol fel rhan o’r broses hon, gan gynnwys:

- Ei statws a pha mor gyfredol ydyw.
- Pa mor gyson ydyw â pholisïau cynllunio cenedlaethol a Chyfarwyddebau'r UE (fel y'u trawsysgrifwyd mewn Rheoliadau priodol).
- Ei gydberthynas â Chynllun Gofodol Cymru, strategaethau cenedlaethol perthnasol eraill, y Cynllun Integredig Sengl / Cynllun Rheoli Parciau Cenedlaethol, a strategaethau ardaloedd eraill.
- Pa mor dda y mae’n hyrwyddo ac yn cyflawni datblygu cynaliadwy.

**ch. Yr angen am CCAauau allweddol:** Dylai’r angen i adolygu neu ychwanegu Canllawiau Cynllunio Atodol allweddol fod yn rhan o’r ystyriaeth a roddir i ffurf y CDLl a, lle y bo’n bosibl, dylai gael ei adlewyrchu yn yr Amserlen. Golyga’r nod o lunio

CDLlau cryno (gweler adran 7.3 o'r Llawlyfr hwn) efallai y bydd CCAauau newydd yn angenrheidiol i ategu strategaeth neu bolisïau'r cynllun, neu i ddarparu canllawiau manylach ar brif ddyraniadau safleoedd; mae'n rhaid ystyried yr angen am AAS ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

**d. Dulliau gwaith CDLl:** Dylid penderfynu sut y caiff y CDLl/Fersiwn Ddiwygiedig ei lunio/llunio. Dylid ystyried y ffactorau canlynol wrth raglennu'r broses o lunio CDLl:

- Yr amser a ganiateir ar gyfer y prif astudiaethau technegol sydd eu hangen i fireinio sail dystiolaeth gadarn a/neu ychwanegu ati, a phwy fydd yn gwneud y gwaith hwn.
- Cydweithio ag awdurdod cyfagos neu grŵp rhanbarthol e.e. casglu/monitro gwybodaeth.
- Yr amser sydd ei angen ar gyfer cyfieithiadau, lle y bo'n gymwys.
- Y math o gyfraniad a wneir gan gymuned ynghyd â lefel y cyfraniad hwnnw.

**dd. Dulliau gweithio Arfarniad o Gynaliadwyedd:** dylid hefyd ystyried y canlynol ar gam cynnar:

- Sut y caiff y gwaith iteraidd ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ei integreiddio a'i drefnu o ystyried yr adnoddau a'r sgiliau sydd ar gael;
- Yr amser sydd ei angen i ychwanegu at adnoddau mewnol neu gomisiynu a briffio ymgynghorwyr lle y bo angen.
- Argaeledd gwybodaeth sylfaenol o fewn yr ACLl a'r tu allan iddo a, lle y bo angen, yr angen i ychwanegu ati.
- Y dulliau arfarnu i'w defnyddio ac unrhyw asesiadau ychwanegol sydd eu hangen (e.e. asesiadau anabledd, iechyd a'r Gymraeg).
- Yr amser ymgynghori statudol ar gyfer AAS a'r adnoddau a'r terfynau amser sydd eu hangen ar gyfer cyfraniadau gan y Cyrff Ymgynghori a sefydliadau perthnasol eraill.

**e. Adnoddau:** Ar ôl nodi'r broses a'r gofynion cyffredinol ar gyfer y CDLl a phroses integredig yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, dylid cynnal trafodaethau â phartneriaid polisi a chydweithwyr yn yr ACLl er mwyn sicrhau lefel briodol o adnoddau i ffurfio neu gynnal tîm CDLl a gwneud y gwaith technegol sydd ei angen er mwyn llenwi bylchau yn y sail dystiolaeth. Dylid ystyried hefyd yr angen am adnoddau ychwanegol i ymdrin ag unrhyw gynnydd disgwyliedig mewn llwyth gwaith, e.e. staff gweinyddol i ddosbarthu sylwadau, a staff proffesiynol i'w harchwilio. Efallai y bydd yn briodol defnyddio staff ag arbenigedd ym maes ymgynghoriadau cyhoeddus i helpu yn ystod cyfnodau pan fydd y gymuned yn chwarae rhan flaenllaw, a/neu secondio staff i'r ACLl o sefydliadau allanol. Mae angen cynnwys cost amcangyfrifedig yr archwiliad, gan gynnwys ar gyfer yr Arolygydd a Swyddog y Rhaglen (gweler adran 8.3.1), yng nghyllideb yr awdurdod.

### 4.3.3 Rheoli Risg

4.3.3.1 Dylai awdurdodau ystyried cynnwys nodyn ar asesu risg fel atodiad i'w Cytundeb Cyflawni.

4.3.3.2 Dylid nodi meysydd sy'n peri risg a/neu ansicrwydd mewn unrhyw raglen, a dylid ystyried trefniadau wrth gefn er mwyn sicrhau bod y broses o baratoi'r cynllun yn parhau ar y trywydd iawn.
Mae hefyd angen ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â throsiant staff, yn enwedig pan fo tîm CDLl yn fach, ynghyd â'r rhai sy'n gysylltiedig â gallu cyrff ymgynghori i ymdopi ag ymatebion pan gaiff sawl cynllun eu paratoi mewn un ardal.

4.3.3.3 Dylid caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd cyn ysgogi'r angen i newid yr Amserlen y cytunwyd arni yn ffurfiol. Mae angen cytuno ar hyn gyda Llywodraeth Cymru, ni ddisgwylid i lefel y goddefiant fod yn fwy na 2 fis fel arfer; byddai'r ddarpariaeth hon yn gymwys i'r broses gyfan ac nid yw'n gronnol.

### 4.3.4 Paratoi'r Amserlen

4.3.4.1 Noda'r adran hon drefn y prif dasgau sydd angen eu cwblhau wrth baratoi'r amserlen.

4.3.4.2 **Troi camau yn fformat terfyn amser.** Gellid cynhyrchu gwybodaeth am amseriad camau gwahanol ar ffurf siart Gantt, gyda'r golofn olaf yn rhoi gwybodaeth am yr adnoddau a ddyrannwyd. Efallai y bydd meddalwedd rheoli prosiect (megis Microsoft Project) yn ddefnyddiol. Mae rheoli prosiect yn broses barhaus a dylid ei defnyddio'n rheolaidd i fonitro cynnydd yn erbyn cerrig milltir, cwblhau tasgau hanfodol, cyd-ddibyniaethau tasgau, risgiau, ac ati.

4.3.4.3 Er y dylid rhoi gwybodaeth lawn i Lywodraeth Cymru am y niferoedd staff a'r costau ariannol a ymrwymwyd i'r broses o baratoi CDLl, dim ond y costau ariannol sydd eu hangen ar gyfer y fersiwn cyhoeddedig. Un ffordd o wneud hyn fyddai cynnwys gwybodaeth ariannol mewn atodiad cynllun busnes. Fel arall gellid defnyddio crynodeb gweithredol o'r Cais Datblygu llawn fel y ddogfen i'w chyhoeddi a'i dosbarthu'n ehangach.

4.3.4.4 **Trafod y rhaglen gyda phartneriaid allweddol sy'n llunio polisïau ac ymgyngoreion statudol.** Mae hyn yn sicrhau bod y broses o baratoi CDLl yn cael ei hintegreiddio â'r terfynau amser a ragwelwyd ar gyfer paratoi strategaethau cysylltiedig eraill, gan alluogi unrhyw ddarbodusrwydd maint i gael eu harchwilio, e.e. ymgynghoriad ar y cyd ar gynnig datblygu mawr. Mae hefyd yn rhybuddio asiantaethau a phartneriaid pan ddisgwylir cyfraniad ganddynt, gan roi'r cyfle iddynt raglennu'r gwaith hwn, ac ystyried p'un a allai unrhyw aelod o staff helpu gyda'r gwaith paratoi. Dylai'r amserlen bwysleisio ei bod yn fanteisiol cyflwyno safleoedd datblygu posibl/darpar safleoedd yn gynnar yn ystod y cam casglu tystiolaeth.

4.3.4.5 **Ymgynghori â'r Arolygiaeth Gynllunio.** Mae hyn yn caniatáu sicrhau y bydd Arolygydd yn debygol o fod ar gael i archwilio'r CDLl, ac yn galluogi'r Arolygiaeth Gynllunio i gynllunio ei llwyth gwaith. Mae hyn yn hanfodol pan gaiff camau dynodol eu hailgyflwyno fel rhai diffiniol. Mae hefyd yn caniatáu archwilio p'un

a neilltuwyd digon o amser ar gyfer y cyfnodau cyn archwilio ac ôl archwilio amrywiol.

4.3.4.6 Trafodir camau cwblhau a chamau cyflwyno dilynol yn adran 4.5.

## 4.4 Cynllun Cynnwys Cymunedau – Materion Ymarferol o ran ei Baratoi

### 4.4.1 Ystyriaethau cychwynnol

4.4.1.1 Un o amcanion allweddol y system CDLlau yw ceisio mwy o gonsensws a chryfhau cyfraniad cymunedau at y gwaith o lunio cynlluniau yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r broses o baratoi cynllun yn rhoi cyfle i ailystyried ffyrdd o gynnwys y gymuned mewn materion strategol, a cheisio ei chynnwys ar gam cynnar yn y broses o baratoi CDLl pan fydd fwyaf effeithiol.

4.4.1.2 Caiff trafodaethau strwythuredig eu ffafrio o ran datblygu'r weledigaeth, yr amcanion a'r opsiynau fel bod siawns realistig o gynnal deialog ailadroddol o fewn y terfyn amser. Gall fod yn ddefnyddiol i hwyluswyr mewnol neu allanol arwain trafodaethau o'r fath. Dylai'r dull hwn fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac osgoi codi disgwyliadau yn ormodol. Gall sefydlu grŵp rhanddeiliaid allweddol i ymateb i syniadau a mesur eu heffeithiolrwydd drwy gydol y broses baratoi fod yn un ffordd o sicrhau trafodaethau strwythuredig. Gallai'r grŵp hwn fod yn seiliedig ar Fwrdd Gwasanaethau Lleol presennol yr awdurdod. Gallai Grwpiau Cyswllt ar y Cyd helpu i baratoi'r cynllun ar y camau cynnar er mwyn nodi dulliau effeithiol o ymgysylltu â buddiannau gwirfoddol a chymunedol.

4.4.1.3 Mae'n fuddiol profi canlyniadau ymgynghoriad cyhoeddus yn erbyn rhai grŵp rheoli sy'n cynnwys aelodau o'r cyhoedd, megis panel neu fforwm dinasyddion. Yn aml mae gan y rhai sy'n ymateb i ymgynghoriadau safbwyntiau cryf iawn (gwrthwynebiadau fel arfer) o safbwynt personol. Caiff grŵp rheoli, ar y llaw arall, ei strwythuro fel ei fod yn cynrychioli'r gymuned ehangach. Byddai ei safbwyntiau yn ffurfio rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer y cynllun.

- **Materion i'r Cynllun Cynnwys Cymunedau**

4.4.1.4 Dylai awdurdodau lleol ateb y cwestiynau canlynol wrth baratoi eu Cynllun Cynnwys Cymunedau:

- **Ar gyfer pa fath o ddogfen y ceisir cynnwys y gymuned?** (e.e. CDLl, Fersiwn Ddiwygiedig o CDLl, Arfarniad o Gynaliadwyedd a mathau gwahanol o CCAauau, gan ymdrechu i sicrhau bod ei chyfraniad yn gymesur â'r ddogfen sy'n cael ei pharatoi, a'r cam paratoi).
- **Sut a phryd y ceisir cynnwys y gymuned?** (sicrhau bod y gymuned yn cael ei chynnwys ar gamau sy'n rhoi'r cyfle gorau iddi ddylanwadu ar y cynllun, gan wahaniaethu rhwng dulliau ffurfiol ac anffurfiol, cyfranogiad rhagweithiol ac ymgynghori; ystyried y defnydd o'r Gymraeg mewn gohebiaeth).

- **Pwy a gaiff ei gynnwys yn y broses?** (llunio proffil o'r gymuned a nodi'r ystod buddiannau fwyaf priodol, yn enwedig grwpiau anodd eu cyrraedd nad ydynt fel arfer yn cymryd rhan yn y broses o baratoi cynllun).

4.4.1.5 Nid oes un ateb cywir i'r cwestiynau hyn. Mae'n rhaid i'r Cynllun Cynnwys Cymunedau adlewyrchu amgylchiadau lleol a chydnabod terfynau adnoddau awdurdod a'r terfynau o ran yr hyn y gall ymarferion ymgysylltu ei gyflawni. Ni ddylid codi disgwyliadau y tu hwnt i'r hyn y gellir ei gyflawni.

4.4.1.6 Mae hefyd angen llunio dogfen sy'n briodol. Os bydd yn rhy gyffredinol ni fydd yn rhoi digon o ganllawiau i gymunedau ar sut a phryd y gallant gyfrannu. Os bydd yn rhy ragnodol, efallai y bydd goblygiadau o ran adnoddau i bawb dan sylw, yn ogystal â'r risg na fydd yn gyfredol.

4.4.1.7 Cyn paratoi'r Cynllun Cynnwys Cymunedau, mae'n ddefnyddiol ystyried unrhyw gyfleoedd neu rwystrau lleol i gyfranogi ynghyd â materion cyffredinol sy'n ymwneud â'r hawl i weld gwybodaeth. Ymhlith y rhain mae effeithiau dosbarthiad a dwysedd y boblogaeth, pa mor hawdd yw defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn ogystal â chostau cyhoeddi a llungopïo. Efallai y bydd hyn yn helpu i ysgogi syniadau ynghylch dulliau arloesol o gyrraedd sectorau gwahanol o'r gymuned.

### 4.4.2 Y tasgau i'w cyflawni wrth baratoi'r Cynllun Cynnwys Cymunedau

4.4.2.1 Noda'r adran hon drefn y prif dasgau i'w cyflawni wrth baratoi CCC.

4.4.2.2 **Nodi cynulleidfaoedd targed.** Dylai awdurdodau ystyried proffil eu cymuned (gan gynnwys dewisiadau o ran y Gymraeg), gan nodi pob rhan ohoni a phob grŵp cynrychioliadol. Yna dylent ystyried sut y gallai'r grwpiau hyn chwarae rhan yn y broses o baratoi CDLl, yn enwedig y rhai hynny a dangynrychiolir fel arfer. Mewn sawl achos efallai y gwneir hyn drwy gynrychiolwyr grwpiau cyfundrefnol sy'n bodoli eisoes neu drwy strwythurau presennol yr Awdurdod. Ar gyfer rhannau o'r gymuned a dangynrychiolir, megis pobl ifanc, Teithwyr a Sipsiwn, ynghyd â grwpiau lleiafrifoedd ethnig eraill, efallai y bydd angen cael cyngor arbenigol ar y ffyrdd gorau o ymgysylltu â grwpiau o'r fath.

4.4.2.3 **Asesu'r adnoddau sydd ar gael.** Gall rheoli cyfraniadau cymunedau gymryd llawer iawn o amser, ac mae'n bwysig nad yw'r tîm CDLl yn cael ei orymestyn. Fodd bynnag, mae'n hollbwysig sicrhau cyfraniadau o safon, yn enwedig ar ddechrau'r broses o baratoi CDLl. Bydd angen cydbwyso adnoddau â thasgau cynhyrchu a rheoli eraill. Mae angen i awdurdodau ystyried sut y gallant ddefnyddio adnoddau yn y modd mwyaf effeithiol drwy, er enghraifft, cyflogi hwyluswyr allanol, cyfuno ymarferion meithrin gallu a chynyddu adnoddau â mentrau eraill megis y Cynllun Integredig Sengl / Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol neu ddatblygu cronfa ddata ymgynghori ar gyfer yr awdurdod cyfan. Dylai awdurdodau hefyd gynnwys rhywfaint o hyblygrwydd yn eu Canllawiau Cynllunio Atodol fel y gellir gwneud gwaith ychwanegol os daw materion o sylwedd i'r amlwg.

4.4.2.4 **Ystyried pa ddulliau o gynnwys cymunedau i'w defnyddio a phryd.** Dylid canolbwyntio'n bennaf ar nodi sut y mae'r awdurdod yn bwriadu ceisio consensws mewn deialog strwythuredig. Bydd hyn yn cynnwys nodi pa ddefnydd a

wneir o unrhyw baneli dinasyddion lleol neu gofrestrau o bobl â buddiant. Dylai ACLlau ystyried yn ofalus gostau a manteision y dulliau amrywiol. Bydd y rhai sy'n sicrhau canlyniadau mwy strwythuredig yn y modd mwyaf effeithiol yn cyfrannu fwyaf at y sail dystiolaeth a chadernid y cynllun. Ceir cyngor ar arfer da gan y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI)[11] a chynllun Cyfranogaeth Cymru[12]. Bydd diben clir a chysylltiadau â'r broses o baratoi'r cynllun yn hanfodol.

4.4.2.5 **Trafod prosesau ar gyfer cymryd rhan ag Aelodau a grwpiau cynrychioliadol allweddol.** Dylai hyn nodi'r meysydd lle y mae lefel uchel o ddiddordeb yn debygol, a chyfyngiadau o ran y cyfleoedd a gallu'r gymuned a rhanddeiliaid i chwarae rhan yn y broses o baratoi CDLl. Mae trafodaethau o'r fath yn ddefnyddiol i ennyn diddordeb lleol, nodi dyheadau a blaenoriaethau, a rheoli disgwyliadau o ran chwarae rhan yn y broses. Gall y buddiannau hyn fod yn gynrychiolwyr ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol eisoes, ac os felly byddai'n effeithlon defnyddio'r corff hwn (gweler adran 4.4.1.2).

4.4.2.6 **Ystyried y dulliau ymgynghori i'w defnyddio yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.** Dylid dod i gytundeb â'r Cyrff Ymgynghori ar y dull mwyaf effeithiol o gyflawni'r hyn a gyfrannir ganddynt. Er enghraifft, gallai hyn fod drwy'r rhan a chwaraeir ganddynt mewn grŵp cyfeirio technegol i oruchwylio'r broses o integreiddio gwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Byddai hyn yn ychwanegol at y gofyniad ffurfiol o dan y Rheoliadau AAS i ymgynghori â hwy ar gamau diffiniedig yn y broses. Dylid hefyd ystyried y ffordd orau o gynnwys sefydliadau sy'n cynrychioli buddiannau economaidd a chymdeithasol.

4.4.2.7 **Nodi ymrwymiadau i adrodd yn ôl.** Bydd hyn yn amrywio, yn dibynnu ar y dulliau ymgynghori a ddefnyddir. Os cynhaliwyd sesiynau a hwyluswyd gyda rhanddeiliaid allweddol, dylid rhoi crynodeb o'r canfyddiadau a'r pwyntiau gweithredu i gyfranogwyr o fewn cyfnod rhesymol. Dylai awdurdodau nodi ffyrdd o ledaenu gwybodaeth am y cynnydd cyffredinol a wneir wrth baratoi'r cynllun, e.e. rhoi erthyglau mewn papurau newydd, diweddaru eu gwefan.

4.4.2.8 Dylai awdurdodau bennu safonau gofynnol ar gyfer cydnabod sylwadau ysgrifenedig (gan gynnwys negeseuon e-bost, deisebau[13] a chylchlythyrau). Byddai hefyd yn ddefnyddiol cynnwys gwybodaeth am gamau nesaf y broses yn y llythyr hwn. Rhaid sicrhau bod sylwadau ffurfiol yn ystod y cam adneuo ar gael i'r cyhoedd yn swyddfeydd ACLlau a dylid rhoi manylion ar ble y gellir eu harchwilio ar eu gwefan yn unol â Rheoliad 19 o ran y cynllun adneuo (gweler adran 7.4.4).

[11] Guidelines on Effective Community Involvement and Consultation (2007) RTPI a'r Consultation Institute; Nodyn Arfer Da 1 RTPI www.rtpi.org.uk

[12] Ceir rhagor o fanylion ar wefan Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru http://www.wcva.org.uk/training-and-events/participation-cymru

[13] Yn yr archwiliad mae'r Arolygwyr fel arfer yn argymell y dylai'r ACLl ddilyn ei weithdrefnau arferol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yn unol â'i Gynllun Cynnwys Cymunedau. Fel arfer dylid trin y prif ddeisebwr fel yr unig gyflwynwr. Mae'n rhaid cyflwyno'r ddeiseb lawn ar ei ffurf wreiddiol (yn amodol ar unrhyw ailolygiadau angenrheidiol), ond ni ddylai fod angen i'r ACLl gofnodi na chatalogio enwau/manylion cyswllt deisebwyr ar wahân.

4.4.2.9 Dylai awdurdodau hefyd ymgorffori'r dull o gynnwys cymunedau wrth baratoi mathau gwahanol o CCAauau (yn benodol i destun, briffiau datblygu neu ganllawiau dylunio).

4.4.2.10 Trafodir y canllawiau ar ymgorffori canlyniadau ymgynghoriadau yn yr Adroddiad Ymgynghori yn adrannau 6.6, 7.5.1 ac 8.2.2

## 4.4.3 Cynnwys a fformat y Cynllun Cynnwys Cymunedau

Rhagnodir cynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau yn Rheoliad 6 o'r Rheoliadau CDLlau. Dylai nodi 'egwyddorion' strategaeth yr awdurdod ar gyfer cyfranogi yn y CDLl a rhestru'r holl gyrff ymgynghori cyffredinol a phenodol hynny a gaiff eu cynnwys yn y broses o baratoi'r CDLl. Nodir y rhain yn Rheoliad 2 o'r Rheoliadau CDLlau. Erbyn hyn, nid oes angen rhoi gwybod am CDLl drwy osod hysbyseb leol mewn papur newydd lleol; fodd bynnag, gall ACLl benderfynu bod hwn yn ddull priodol ar gyfer ei amgylchiadau penodol.

4.4.3.2 Os ceir nifer fawr o grwpiau mewn ACLl, dim ond y grwpiau allweddol y bydd angen eu rhestru; gellir cyfeirio at gategorïau eraill yn gyffredinol. Ar gyfer ACLlau â nifer fach o grwpiau, dylid enwi grwpiau penodol ond dylid hefyd nodi y gall grwpiau newydd perthnasol gael eu ffurfio ar ôl llunio'r CCC.

4.4.3.3 Y dull symlaf o nodi'r technegau bwriadedig ar gyfer cynnwys cymunedau yw defnyddio tabl. Gall pob rhes ddangos cam yn y broses o baratoi CDLl, gyda'r colofnau'n dangos y math o ddulliau o gynnwys cymunedau, y technegau, yr amseriad a'r adnoddau arfaethedig.

4.4.3.4 Mae'r gofynion a'r ystyriaethau o ran cynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau fel a ganlyn:

**- Trosolwg o'r Cynllun Cynnwys Cymunedau:**

i. Mae'n rhaid i'r Cynllun Cynnwys Cymunedau ymdrin â'r materion a restrir yn Rheoliad 6 o'r Rheoliadau CDLlau a nodi 'egwyddorion' strategaeth yr awdurdod ar gyfer cyfranogi yn y CDLl.
ii. Unrhyw safonau corfforaethol o fewn awdurdod, trefniadau sefydledig ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned e.e. paneli dinasyddion, y Cynllun Integredig Sengl, neu Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, ymgynghoriadau eraill ar gyfer strategaeth/cynllun o fewn awdurdod sy'n gorgyffwrdd neu'n berthnasol.
iii. Rôl yr ACLl, swyddogion, y Pwyllgor Gweithredol a'r Aelodau.
iv. Datganiad ar y dull o greu consensws a sicrhau bod grwpiau anodd eu cyrraedd yn gallu cymryd rhan yn y broses.
v. Disgwyliadau ymgyngoreion statudol, asiantaethau, trydydd partïon/cyfranogwyr.
vi. Y potensial ar gyfer cydweithio neu ddefnyddio ymgynghoriadau ALl sy'n bodoli eisoes neu rai blaenorol.
vii. Defnyddio'r Gymraeg mewn gohebiaeth.

**- Ceisio Consensws:**

i. Trefniadau manwl/rhaglen ar gyfer cynnal deialog cynnar er mwyn ceisio consensws a datblygu cynllun adneuo cadarn.

ii. Dulliau o sicrhau cyfranogiad rhanddeiliaid allweddol a chroestoriad perthnasol o fuddiannau cymunedol, gan gynnwys cyfansoddiad cyffredinol unrhyw baneli dinasyddion/rhanddeiliaid.

iii. Trefniadau cyfranogi ar gyfer camau cynnar y cynllun pan fo cyfranogiad yn fwyaf effeithiol a phan all yr awdurdod fireinio'r cynllun, gan gynnwys esbonio'r mesurau i'w gwneud yn haws i grwpiau anodd eu cyrraedd gymryd rhan yn y broses. Darpariaethau ymgynghori ffurfiol ar gyfer camau eraill y cynllun.

iv. Fformat/strwythur cyffredinol digwyddiadau ac ymarferion arfaethedig ynghyd â’r canlyniadau a ddisgwylir.

v. Dulliau o roi adborth er mwyn hysbysu cyfranogwyr ac ymgyngoreion am y canlyniadau a'r ymgynghoriad ar effaith.

vi. Dull tryloyw o ystyried allbwn a defnyddio canlyniadau i lywio cynllun/polisïau/canllawiau drafft.

**- Gallai atodiadau’r Cynllun Cynnwys Cymunedau gynnwys y canlynol:**

i. Trefniadau cyhoeddusrwydd safonol gan gynnwys gwefan yr awdurdod:

ii. Adroddiad ar unrhyw ymgynghoriad ar Gynllun Cynnwys Cymunedau arfaethedig.

iii. Rhestr o gyrff/grwpiau ymgynghori/rhanddeiliaid.

iv. Rhestr o’r partneriaethau sy’n berthnasol i’r awdurdod.

v. Proffil a nodweddion cymuned.

vi. Trosolwg o’r risgiau a chynlluniau wrth gefn.

vii. Rhestr Termau

## 4.5 Cytundeb Cyflawni – Fersiwn Terfynol ac Adolygiad

### 4.5.1 Cyflwyno'r Cytundeb Cyflawni

4.5.1.1 Cyn cyflwyno'r Cytundeb Cyflawni, dylid cyfuno’r Amserlen a’r Cynllun Cynnwys Cymunedau i ffurfio’r Cytundeb Cyflawni. Dylai gael ei gymeradwyo drwy benderfyniad yr AALl yn unol â Rheoliad 9.

4.5.1.2 Dylid cynnwys sylwebaeth ategol gryno sy’n nodi sut y bodlonwyd meini prawf asesu Llywodraeth Cymru (gweler Atodiad A) gyda’r Cytundeb Cyflawni a gyflwynir i Lywodraeth Cymru er mwyn iddi gytuno arni. Rôl Llywodraeth Cymru yw sicrhau ei fod yn gadarn, yn realistig ac yn trafod prif ofynion paratoi cynllun. Ar ôl cytuno arno, mae'n rhaid rhoi cyhoeddusrwydd i’r Cytundeb Cyflawni a sicrhau bod

copïau ar gael i'w harchwilio ym mhrif swyddfeydd yr ACLl ac ar ei wefan, yn unol â Rheoliad 10. Dylid anfon dau gopi caled a chopi electronig o fersiwn gyhoeddedig derfynol y Cytundeb Cyflawni i Lywodraeth Cymru.

4.5.1.3 Dylid diweddaru gwefan y CDLl yn rheolaidd a nodi'n glir pa gam yn y broses o baratoi'r cynllun y mae'r ACLl wedi'i gyrraedd.

### 4.5.2 Adolygu'r Cytundeb Cyflawni yn rheolaidd, Ailgyflwyno a Diwygio

4.5.2.1 (Gweler 4.1.5) Mae'n rhaid i awdurdodau gyflawni targedau amserlenni. Dim ond fel eithriad y dylid ystyried amserlen ddiwygiedig (h.y. lle y ceir ffactorau y tu hwnt i reolaeth awdurdod sydd hefyd y tu hwnt i'r terfyn goddefiant a nodir yn y Cytundeb Cyflawni (gweler adran 4.3.3.3)). O dan yr amgylchiadau cyfyngedig hyn dylid cyhoeddi unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt ar wefan y CDLl.

4.5.2.2 Ar ôl i'r CDLl gyrraedd y cam adneuo dylid cyflwyno amserlen wedi'i diweddaru, gan newid yr amseriadau dangosol yn amseriadau diffiniol ar gyfer y camau sy'n weddill, i Lywodraeth Cymru er mwyn iddi gytuno arni a phan wneir hynny, roi cyhoeddusrwydd iddi; dylid anfon dau gopi caled i Lywodraeth Cymru.

4.5.2.3 Er mwyn llunio Fersiwn Ddiwygiedig o CDLl ( y gweithdrefnau diwygio llawn a byr – adran 10.2), ac ar ôl cael casgliadau Adroddiad yr Adolygiad, bydd angen Cytundeb Cyflawni diwygiedig; bydd angen Amserlen ar wahân ac efallai y bydd angen diwygio'r Cynllun Cynnwys Cymunedau. Er nad yw Rheoliadau 5 a 7 yn gymwys i fersiwn ddiwygiedig o CDLl (Rheoliad 3), dylai'r ACLl ystyried a fydd unrhyw waith ymgysylltu neu ymgynghori yn briodol.  Dylid cyflwyno'r Cytundeb Cyflawni i Lywodraeth Cymru ar ddechrau'r broses; ar ôl cytuno arno, mae'n rhaid i'r ACLl roi cyhoeddusrwydd iddo a hysbysu'r holl gyrff ymgynghori penodol, a'r cyrff ymgynghori cyffredinol hynny yr ystyria'r ACLl ei bod yn briodol eu hysbysu, fod y Cytundeb Cyflawni wedi'i ddiwygio. (Rheoliadau 9(4A)a(5), a 10(2))

4.5.2.4 Mae Llywodraeth Cymru yn monitro hynt CDLlau ddwywaith y flwyddyn, gan gymharu eu hynt yn erbyn y Cytundebau Cyflawni.

## 4.6 Crynodeb o'r Tasgau wrth Baratoi'r Cytundeb Cyflawni

| **Tasgau Integredig y CDLl** | **Tasgau Penodol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd** |
|---|---|
| Trafod yr amserlen â phartneriaid allweddol sy'n llunio polisïau.<br>Ymgysylltu / ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol ac ymgyngoreion statudol ar y Cytundeb Cyflawni drafft (yr amserlen a'r Cynllun Cynnwys Cymunedau) fel y bo'n briodol.<br>Ei gynnwys ar y wefan. (adrannau 4.2, 4.5.2.3) | Trafod yr Amserlen a'r Cynllun Cynnwys Cymunedau gyda'r Cyrff Ymgynghori.  Ystyried sefydlu grŵp cyfeirio technegol i oruchwylio elfennau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd o'r gwaith asesu integredig. (adrannau 4.3.2dd a 4.4.2.6)<br><br>Datblygu methodoleg arfarnu cynaliadwyedd (dylid integreiddio AAS yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ar yr amod y bodlonir gofynion y Rheoliadau |

| | |
|---|---|
| | AAS) a chytuno arni. |
| Cytuno ar y Cytundeb Cyflawni gyda Llywodraeth Cymru.<br>Cyhoeddi. | |
| Ei adolygu'n barhaus.<br>Diffinio amseriadau dangosol ar ôl ymgynghori ar adneuo. (adran 4.5.2.) | |


*D.S. Os tybir bod y weithdrefn fer ar gyfer diwygio cynlluniau yn briodol efallai na fydd pob cam yn berthnasol - gweler 10.2.*
*Gweler Tabl 3.3 am y gofynion o ran ymgynghori.*

# 5. Casglu Tystiolaeth ac Amcanion

## 5.1 Cyflwyniad

5.1.1 Dylai paratoi CDLl fod yn broses ymatebol ac iteraidd sy'n cynnwys atgyfnerthu'r sail dystiolaeth a fframweithiau monitro cysylltiedig er mwyn sicrhau bod cynlluniau yn berthnasol ac yn gyfredol o ran polisi cenedlaethol sy'n datblygu ac amgylchiadau sy'n newid ac yn seiliedig ar wybodaeth well. Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar rai tasgau paratoi y bydd yr ACLl eisoes yn eu cyflawni fel rhan o waith arolygu sy'n mynd rhagddo neu y dylai eu cyflawni ochr yn ochr â'r broses o lunio'r Cytundeb Cyflawni a/neu'n union ar ôl ei lunio (neu ei adnewyddu ar gyfer fersiwn ddiwygiedig o CDLl).

**Ffigur 5.1: Casglu Tystiolaeth ac Amcanion**




5.1.2 Cynlluniwyd y tasgau hyn i ddeall y cyd-destun ehangach, adolygu data a, lle y bo angen, ychwanegu atynt, er mwyn nodi'r prif faterion ac amcanion yr ymdrinnir â hwy yn y CDLl a gosod sylfeini'r cynllun.

5.1.3 Fel rhan o broses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd mae angen sail dystiolaeth er mwyn llywio'r gwaith o arfarnu opsiynau a'r cynllun sy'n datblygu. Mae'r dystiolaeth sydd ei hangen i ddatblygu'r cynllun a chynnal yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn debyg iawn ac, mewn gwirionedd, gellir dwyn seiliau tystiolaeth y cynllun a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd at ei gilydd yn effeithiol.

5.1.4 Mae'n rhaid i'r broses o gasglu tystiolaeth fod yn glir ei ffocws, yn gymesur ac yn uniongyrchol berthnasol i'r defnydd tir arfaethedig a nodir yn y cynllun. Dylid ei chyfyngu i'r hyn sydd ei angen i gyfiawnhau'r cynllun. Lle y bo'n bosibl, dylid cynnal astudiaethau ar y cyd ag awdurdodau cyfagos. Bydd angen adolygu a diweddaru rhywfaint o dystiolaeth megis gofynion a hyfywedd tai yn rheolaidd drwy gydol y broses o baratoi'r cynllun.

## 5.2 Adolygu

Mae angen cynnwys sawl elfen yn y broses o nodi'r materion allweddol i'w trafod yn y CDLl. Mae angen eu cofnodi er mwyn ffurfio rhan o'r sail dystiolaeth y mae'r CDLl yn seiliedig arni.

### 5.2.1 Adolygu'r cyd-destun polisi ehangach

5.2.1.1 Yr her yw adeiladu ar strategaethau a pholisïau eraill ac ychwanegu gwerth atynt yn hytrach na'u tanseilio neu eu dyblygu. Mewn rhai achosion, bydd croesgyfeiriadau penodol yn briodol. Dylai cyflwyniad y CDLl gydnabod hyn.

5.2.1.2 Mae'n bwysig ystyried polisi cenedlaethol - a rhyngwladol - a sut mae wedi newid ers paratoi'r cynllun datblygu sy'n bodoli. Ymhlith yr ystyriaethau perthnasol mae:

- A fabwysiadwyd unrhyw ddulliau polisi newydd (e.e. argraffiadau newydd o Bolisi Cynllunio Cymru, a Pholisi Cynllunio Mwynau Cymru, Nodiadau Cyngor Technegol neu Gyfarwyddebau'r UE sy'n datblygu/newydd a fabwysiadwyd) a/neu ddynodiadau newydd (e.e. safleoedd bywyd gwyllt Ewropeaidd neu genedlaethol) y mae angen eu hystyried.
- A oes unrhyw oblygiadau yn deillio o'r nodau llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?
- A yw polisi cenedlaethol yn ddigonol? Ni ddylai'r CDLl ddyblygu polisi cenedlaethol (yn PCC, PCMC) oni bai bod angen ei ddehongli ar lefel leol (gweler 7.2.2.3 ar ddrafftio polisi).
- Pa rôl y mae Cynllun Gofodol Cymru yn ei rhagweld ar gyfer yr ardal hon?
- A oes unrhyw fentrau neu leoliadau bras yn deillio o waith arall Llywodraeth Cymru y mae angen eu datblygu (e.e., Strategaethau Adfywio a chynlluniau gweithredu)?
- A oes unrhyw ddulliau neu gynigion o fewn y Strategaeth Amgylcheddol neu Strategaeth Trafnidiaeth Cymru y mae angen eu hadlewyrchu?
- A oes unrhyw oblygiadau yn deillio o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru?

- Mae'n bosibl bod y Cynllun Trafnidiaeth Lleol yn cynnwys mentrau y dylid eu hadlewyrchu mewn polisïau defnydd tir, neu gynigion trafnidiaeth y gellir eu cyflawni y mae angen mesurau diogelu arnynt.
- A oes unrhyw gynigion o strategaeth wastraff gyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru, "Tuag at Ddyfodol Diwastraff - Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned", 'Cynlluniau Sector' perthnasol, yn enwedig Cynllun y Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd, neu weithgarwch monitro gwastraff rhanbarthol y mae angen darparu ar eu cyfer.
- A oes unrhyw oblygiadau yn deillio o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau?
- A oes unrhyw ganllawiau neu ddata defnyddiol o strategaethau rhanbarthol eraill a/neu gynlluniau neu waith trawsffiniol, er enghraifft strategaethau adfywio rhanbarthol?

5.2.1.3 Mae adolygu cynlluniau a rhaglenni eraill yn rhan hanfodol o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd. Ni all unrhyw restr o gynlluniau, rhaglenni neu amcanion o'r fath fod yn ddiffiniol, ond gall cynlluniau a rhaglenni perthnasol gynnwys y canlynol: cynlluniau defnydd tir neu gynlluniau gofodol, cynlluniau sy'n ymdrin ag agweddau ar yr amgylchedd ffisegol, cynlluniau a rhaglenni ar gyfer sectorau penodol. Mae'r Rheoliadau AAS yn ei gwneud yn ofynnol i ystyried amcanion diogelu'r amgylchedd a bennir ar lefel ryngwladol, lefel Cymuned Ewropeaidd neu lefel genedlaethol. Bydd asesiadau amgylcheddol strategol a gynhaliwyd ar strategaethau cenedlaethol wedi nodi amcanion diogelu'r amgylchedd o ddogfennaeth ryngwladol ac ni ddylid dyblygu'r gwaith hwn ar lefel CDLl. Mae angen mabwysiadu dull gweithredu penodol ar gyfer y dasg hon yn genedlaethol/rhanbarthol er mwyn gwneud cyfraniad defnyddiol mewn modd amserol a dylai fod yn bosibl i ACLlau gydweithio a rhannu gwybodaeth â'i gilydd. Wrth gwrs, rhaid i bob ACLl fod yn gyfrifol am ei adolygiad ei hun o ddogfennau lleol. Mae angen adolygu'r cydberthnasau hyn yn barhaus wrth i Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ddatblygu a dylai'r adroddiad nodi'n glir lle y gellir dod o hyd i'r gwaith adolygu cynlluniau a rhaglenni yn nogfennau cefndir y CDLl.

## 5.2.2 Adolygu'r cyd-destun lleol

5.2.2.1 Dylai'r polisïau a'r cynigion sy'n gysylltiedig â CDLl fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth drylwyr o anghenion, cyfleoedd a chyfyngiadau'r ardal (PCC 2.5.4). Mae hyn yn golygu nodi newidiadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ers i'r cynllun blaenorol gael ei lunio yn ogystal â nodweddion y boblogaeth bresennol. Ar ôl i CDLl gael ei fabwysiadu dylai'r wybodaeth hon fod ar gael o'r gyfres o Adroddiadau Monitro Blynyddol. Dylid hefyd ystyried tueddiadau sy'n fwy amlwg ar lefel ranbarthol megis symudiadau yn y boblogaeth a marchnadoedd tai. Dylid nodi elfennau o'r gwaith hwn sy'n cyfateb i ran o linell sylfaen yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.

5.2.2.2 Dylid hefyd adolygu polisïau cynllunio sy'n bodoli eisoes, er enghraifft pa mor aml y cânt eu defnyddio wrth wneud penderfyniadau ynghylch rheoli datblygiadau a/neu eu heffeithiolrwydd mewn apeliadau diweddar.

Adolygu'r cyd-destun polisi – Awgrymiadau

- Dim ond cynlluniau a strategaethau sy'n uniongyrchol berthnasol y dylid eu hadolygu
- Nodwch amcanion cynaliadwyedd a geir mewn dogfennau perthnasol a thynnwch sylw atynt
- Peidiwch â chynnwys strategaethau rhyngwladol a chenedlaethol lle mae eu gofynion wedi'u cyfieithu gan ddogfennau rhanbarthol a lleol
- Sicrhewch mai'r dogfennau a adolygir yw'r fersiynau diweddaraf
- Nodwch gyfleoedd i gydweithredu ag ACLlau eraill oherwydd bydd goblygiadau cynlluniau lefel uwch yn aml yn gymwys i CDLlau a baratowyd gan awdurdodau cyfagos.
- Cofiwch y bydd yr ymgyngoreion statudol am weld dogfennau sy'n berthnasol i'w meysydd diddordeb a gynhwyswyd yn yr adolygiad
- Tynnwch y negeseuon allweddol o'r adolygiad o'r cyd-destun gan gynnwys yr amcanion cynaliadwyedd a nodwyd a'u defnyddio fel rhestr wirio wrth baratoi'r CDLl er mwyn sicrhau ei fod yn ystyried popeth sydd angen iddo ei ystyried

## 5.2.3 Adolygu strategaethau lleol

5.2.3.1 Mae'r gydberthynas â'r Cynllun Integredig Sengl statudol yn arbennig o bwysig am eu bod yn darparu'r fframwaith polisi strategol cyffredinol ar gyfer ardal yr awdurdod lleol. Lle mae ardal Cynllun Integredig Sengl yn gorgyffwrdd â Pharc Cenedlaethol mae'n bwysig bod y Cynllun(iau) Integredig Sengl yn cyd-fynd â Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Dylai CDLlau ddarparu mynegiant defnydd tir y weledigaeth a rennir o ran sut y bydd ardal yn newid. Dylai'r sawl sy'n gyfrifol am lunio'r CDLl ystyried y Cynllun Integredig Sengl a Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol (lle y bo'n berthnasol) er mwyn nodi'r agweddau hynny y mae angen eu mynegi'n ofodol. Os ceir gwrthdaro neu fylchau rhwng y Cynllun Integredig Sengl a ‘gweledigaeth’ y CDLl, dylai’r Bwrdd Gwasanaethau Lleol gymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch sicrhau cysondeb rhyngddynt.

5.2.3.2 Dylid adolygu cynlluniau gweithredol eraill hefyd er mwyn nodi a oes cynigion ar gyfer cyfleusterau newydd sy'n ymwneud ag ardal benodol. Os oes, dylid eu trosi’n dermau defnydd tir o fewn y CDLl er mwyn cynorthwyo’r broses o gyflawni’r strategaethau lleol allweddol eraill hyn.

5.2.3.3 Yn yr un modd efallai y bydd agweddau ar y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, a strategaethau tai lleol, datblygu economaidd, twristiaeth, iechyd a diogelwch, neu adfywio a allai gael eu hwyluso drwy bolisïau neu gynigion sy’n ymwneud â defnydd tir.

## 5.3 Datblygu'r Sail Dystiolaeth

### 5.3.1 Trosolwg

5.3.1.1 O dan A61 o Ddeddf 2004 mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol adolygu materion sy'n effeithio ar waith datblygu yn eu hardal yn barhaus gan gynnwys y prif nodweddion ffisegol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, maint a dosbarthiad y boblogaeth, cysylltiadau a thrafnidiaeth, ac ati a chydberthnasau ag ardaloedd cyfagos. Bydd y gwaith arolygu parhaus hwn yn rhan sylweddol o sail dystiolaeth y cynllun. Mae'r ddyletswydd hon ar wahân i'r ddyletswydd i lunio CDLlau o dan A62 o Ddeddf 2004 a bydd y gwaith arolygu hwn yn sicrhau manteisio o ran rheoli datblygu a swyddogaethau corfforaethol yn ogystal â CDLlau.

5.3.1.2 Dylai awdurdodau nodi'r materion allweddol y mae angen iddynt eu hadolygu'n barhaus er mwyn cyflawni eu dyletswydd o dan A61 gan ystyried y gofynion o ran paratoi arfarniad o gynaliawyedd a CDLlau a'r fframwaith monitro CDLlau ar ôl iddo gael ei roi ar waith. Dylid gwneud trefniadau i'r gwaith arolygu gael ei wneud yn barhaus gydag adroddiadau diweddaru rheolaidd ac yn rhanbarthol lle y bo'n briodol.

5.3.1.3 Bydd rhywfaint o'r wybodaeth sydd ei hangen o dan A61 a rhywfaint o'r wybodaeth arall sydd ei hangen yn gyffredinol i ardal sy'n fwy na'r awdurdod cynllunio unigol. Felly, mae manteision sylweddol yn gysylltiedig â rhannu adnoddau a gwybodaeth. Dylid cydweithio â'r rhai sy'n llunio cynlluniau neu strategaethau eraill.

5.3.1.4 Mae'n rhaid i dystiolaeth gadarn fod yn barod ac ar gael ar adeg pan all lywio'r gwaith o baratoi CDLl wrth i opsiynau gael eu datblygu a'u hasesu ac wrth i benderfyniadau gael eu gwneud. Ni ddylid ei chyflwyno'n ddiweddarach er mwyn cyfiawnhau polisïau neu gynigion rhagdybiedig ond mae'n rhaid diweddaru'r sail dystiolaeth yn rheolaidd a'i hadolygu yn ystod y broses baratoi fel y gall y CDLl ddangos bod cynigion y cynllun yn parhau i gael eu hategu gan y dystiolaeth. Mae'r gallu i ddangos bod y cynllun yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn yn ofyniad allweddol o ran cadernid (gweler 8.2.1). Er mwyn lleihau'r posibilrwydd y bydd amgylchiadau yn newid neu y daw tystiolaeth i law yn hwyr yn y broses, dylai'r broses o drosglwyddo o'r cynllun adneuo i'r cam archwilio gael ei chyflawni'n gyflym.

5.3.1.5 Cyn crynhoi neu gomisiynu gwaith arolygu dylai'r ACLl gymryd cam yn ôl ac ystyried yn ofalus yr hyn y gall CDLl ei gyflawni a'r hyn y mae am i'r cynllun ei gyflawni. Dylai nodi'n fras y math o bolisïau a chynigion y mae'n bwriadu eu datblygu ac wedyn pennu cwmpas y sail dystiolaeth y bydd arno ei hangen, yn ei farn ef. Bydd hyn yn rhoi ffocws i'r ymarfer a hefyd yn rhoi cyfle i bartïon eraill wneud sylwadau ar y dystiolaeth ar ddechrau'r broses pan ellir ymdrin â hwy. Dylid gofyn i randdeiliaid a phartneriaid allweddol ystyried digonolrwydd yr wybodaeth sydd ar gael eisoes ac unrhyw fylchau y dylid rhoi sylw iddynt ac wedyn eu cau'n gyflym.

5.3.1.6 Gallai awdurdodau gyhoeddi 'cais am dystiolaeth' a gwahodd cyflwyno data trydydd partïon, e.e. gan sefydliadau amgylcheddol â gwybodaeth am fioamrywiaeth neu Ffederasiwn yr Adeiladwyr Tai a allai ddarparu gwybodaeth am y galw posibl am

dai ychwanegol neu sefydliadau syrfewyr neu gyflogwyr sydd â gwybodaeth am y cyflenwad o safleoedd busnes/diwydiannol a'r galw amdanynt.

5.3.1.7 Dylid hysbysu trydydd partïon, os oes ganddynt dystiolaeth berthnasol, fod angen ei chyflwyno'n gynnar yn y broses er mwyn iddi gael ei hystyried yn briodol. Os bydd rhanddeiliaid eraill am weld cynigion penodol yn cael eu cynnwys mewn cynllun dylent ddarparu tystiolaeth ategol mewn modd amserol. Heb dystiolaeth ni fydd y ACLl yn gallu bodloni'r gofyniad ac ni ddylai'r broses o lunio cynllun gael ei hoedi arm y rheswm hwn.

5.3.1.8 Mater i'r Awdurdod yw penderfynu beth yw sail dystiolaeth gadarn/cyfredol/cymesur gan ddibynnu ar natur yr ardal a chwmpas a chynnwys arfaethedig y cynllun. Mae'n rhaid i'r Awdurdod fodloni ei hun fod ganddo ddigon o dystiolaeth i gyfiawnhau pam y gwnaeth ddewisiadau penodol ac y bydd y dystiolaeth yn dal dŵr pan greffir arni yn yr archwiliad. Yn y pen draw, mater i'r Arolygydd fydd penderfynu a yw'r sail dystiolaeth yn briodol yn yr archwiliad.

5.3.1.9 Nodir rhai o'r materion y gall fod angen eu hystyried isod. Ceir cyngor hefyd yn PCC a Chanllawiau'r Arolygiaeth Gynllunio.

5.3.1.10 Er mwyn sicrhau bod yr ymarfer casglu tystiolaeth yn un cymesur mae'n bwysig deall sut y caiff ei ddefnyddio i wneud y canlynol:-

- Helpu i nodi materion a phroblemau sy'n ymwneud â chynaliadwyedd a materion a phroblemau eraill sy'n ymwneud â defnydd tir y dylai'r cynllun geisio mynd i'r afael â hwy.
- Darparu'r llinell sylfaen ar gyfer rhagfynegi effeithiau strategaethau CDLl amgen yn ystod camau'r opsiynau strategol a nodi'r newid sy'n debygol o ddigwydd heb bolisïau CDLl newydd (y senario "gwneud dim" neu "weithredu yn ôl yr arfer/polisïau presennol" sy'n ofynnol yn yr AAS).
- Darparu meincnod y gellir cyflawni gwaith monitro cynlluniau/cynaliadwyedd yn y dyfodol yn ei erbyn

5.3.1.11 Dylai'r sail dystiolaeth ddisgrifio sefyllfa bresennol nodweddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yr ardal y mae'r cynllun yn debygol o gael effaith sylweddol arni.

5.3.1.12 Yn ogystal â chanolbwyntio ar nodweddion presennol yr ardal bydd angen i sail dystiolaeth y CDLl gynnwys gwybodaeth sylfaenol am ystod ehangach o ffactorau gan gynnwys y dadansoddiad o anghenion a galwadau'r ardal yn y dyfodol, a materion sy'n ysgogi newid.

5.3.1.13 Mae'n bwysig sicrhau bod y sail dystiolaeth yn cynnwys gofynion Atodlen 2 o Reoliadau AAS 2004 sy'n nodi'r amrywiaeth o faterion amgylcheddol y mae angen eu hystyried. Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ystyried materion amgylcheddol mewn mwy o fanylder na materion cymdeithasol neu economaidd. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod ACLlau yn meithrin dealltwriaeth gadarn o amodau sylfaenol cymdeithasol ac economaidd.

5.3.1.14 Mae'n rhaid sicrhau bod y gofynion o ran tystiolaeth yn gyffredinol yn gymesur, a'u bod yn canolbwyntio ar ddarparu'r wybodaeth i ategu penderfyniadau allweddol ynghylch prif ddarpariaethau'r cynllun. Dros amser, bydd gwaith monitro a gwaith adolygu'r cynllun yn y dyfodol yn rhoi cyfle i'w fireinio ymhellach.

5.3.1.15 Dylid canolbwyntio ar nodweddion y gall cynlluniau defnydd tir gael effaith uniongyrchol arnynt, a all wedyn gael eu hymgorffori yn y gwaith dilynol o ddatblygu opsiynau CDLlau a chynnal arfarniad integredig ohonynt.

5.3.1.16 Ymhlith y ffynonellau defnyddiol o wybodaeth sy'n bodoli eisoes mae:

- Arfarniadau a gwaith monitro Cynlluniau Datblygu Unedol blaenorol/sy'n bodoli, neu gynlluniau eraill, e.e. Cynlluniau Trafnidiaeth.
- Gwaith iechyd yr amgylchedd neu fioamrywiaeth a gynhaliwyd gan staff mewn adrannau awdurdodau lleol eraill (a ddylai ystyried cyfleoedd amgylcheddol yn ogystal â chyfyngiadau).
- Adolygiad o bolisïau, cynlluniau a rhaglenni eraill (fel uchod).

5.3.1.17 Pan geir bylchau yn nata lefel uchel yr arfarniad o gynaliadwyedd, bydd yn bwysig cofnodi unrhyw ansicrwydd neu risg sy'n deillio o hynny yn Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Dylid darparu ar gyfer llenwi unrhyw fylchau mawr ar gyfer adolygiadau o CDLlau yn y dyfodol.

5.3.1.18 Nid yw casglu gwybodaeth ar ei ben ei hun yn ddigon, mae'r ffordd y caiff ei chasglu at ei gilydd, ei chyfuno, ei dadansoddi ac wedyn ei defnyddio i lywio'r gwaith o lunio cynllun yn bwysicach. Mae'n rhaid rhoi sylw priodol i'r cydberthnasau hollbwysig rhwng pynciau wrth ddatblygu cynllun cadarn.

5.3.1.19 Dylai'r prif bwyntiau sy'n deillio o'r dadansoddiad o'r sail dystiolaeth gael eu nodi gyda rhanddeiliaid a phartneriaid cyflawni mewn ffordd sy'n llywio trafodaethau a phenderfyniadau ynghylch y materion allweddol y mae'r cynllun yn ceisio mynd i'r afael â hwy. Dylai'r materion a nodwyd o ran y cynllun a chynaliadwyedd fod yn sail i'r amcanion integredig, gan ymgorffori'r arfarniad o gynaliadwyedd a'r gwaith o ddatblygu'r opsiynau strategol. Dylai'r dadansoddiad, a'i effaith ar y broses o ddewis strategaeth a chynigion priodol, fod yn dryloyw a dylai'r gwaith hwn hefyd gael ei rannu â rhanddeiliaid.

5.3.1.20 Gall materion cynaliadwyedd gynnwys unrhyw ansicrwydd y mae angen ei ddeall a mynd i'r afael ag ef cyn y gellir ystyried yn hyderus fod y cynllun yn gynaliadwy. Dylai ACLlau nodi'n glir unrhyw 'broblemau amgylcheddol sy'n bodoli eisoes' sy'n wynebu'r ardal er mwyn dangos cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau AAS. Mae'n anochel y bydd y cam hwn yn cynnwys cwmpasu 'allan' unrhyw faterion nas ystyrir yn rhai pwysig neu na all y cynllun ymdrin â hwy ond dylid cofnodi'r sail resymegol i unrhyw benderfyniad i gwmpasu materion 'allan' yn ofalus.

5.3.1.21 Mae angen cysylltu materion â thystiolaeth drwy gyfeirio at wybodaeth sylfaenol sy'n disgrifio'r sefyllfa nawr a nodi tueddiadau hanesyddol neu dueddiadau tebygol yn y dyfodol sy'n dangos y sefyllfa heb y cynllun neu'n nodi bod angen mwy o dystiolaeth.

5.3.1.22 Dylai papurau pwnc a gwaith dadansoddi'r sail dystiolaeth gynnwys dimensiwn gofodol cryf. Un ffordd o wneud hyn yw cyfuno'r deunydd ar ffurf cyfres o broffiliau ardal/astudiaethau o aneddiadau e.e. trefi allweddol a'u cefnwlad, parthau topograffyddol, coridorau llwybrau neu gymdogaethau anheddiad mawr. Gallai'r proffiliau grynhoi'r materion, yr anghenion, y cyfyngiadau a'r cyfleoedd allweddol a darparu llwyfan ar gyfer datblygu opsiynau strategol a pholisïau sy'n unigryw i ardaloedd lleol neu sy'n llywio lleoedd. Gellir croesgyfeirio gwybodaeth ar y ffurf hon yn yr Adroddiad Cwmpasu ac Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd er mwyn bodloni gofynion AAS i ddisgrifio nodweddion amgylcheddol sylfaenol yr ardal.

## 5.3.2 Nodi materion sy'n ysgogi newid

5.3.2.1 Gall ffactorau allanol ehangach ddylanwadu ar ddyfodol yr ardal leol. Mae hyn yn bwysig o ran llywio'r strategaeth a pholisïau ar gyfer ymateb i newidiadau strwythurol allweddol, eu rheoli, a lle y bo'n bosibl ac yn briodol, mynd i'r afael â hwy. Ymhlith yr enghreifftiau o ffactorau allanol mae natur gystadleuol y diwydiant gweithgynhyrchu, tueddiadau amgylcheddol ehangach (megis newid yn yr hinsawdd), goblygiadau adnoddau dŵr, deddfwriaeth sy'n sbarduno newid (e.e. rheoli gwastraff), yr angen i ddarparu cartrefi ar gyfer y farchnad a chartrefi fforddiadwy.

5.3.2.2 Efallai y bydd rhagamcanion rhifol ar gael ar gyfer rhai ffactorau, e.e. tueddiadau o ran cyflogaeth a thai. Pan fydd y rhain yn ymwneud ag ardal ddaearyddol ehangach efallai y bydd yn bosibl ensynio'r rhwymedigaethau ar gyfer yr ardal leol.

5.3.2.3 Ar gyfer ffactorau eraill bydd angen dyfarnu, e.e. effeithiau manwl newid yn yr hinsawdd, lefelau teleweithio yn y dyfodol, gwerthiannau ar y rhyngrwyd, ailstrwythuro economaidd, newidiadau o ran caniatáu i bobl gael gafael ar wasanaethau, a newidiadau i dueddiadau twristiaeth.

5.3.2.4 Dylai'r gwaith hwn helpu i ddynodi graddfa pwysau twf tebygol a/neu batrymau tebygol a graddau'r dirywiad o fewn sectorau neu leoliadau amrywiol.

## 5.3.3 Astudiaethau o ddata a thestunau

5.3.3.1. Dylai awdurdodau adolygu digonolrwydd yr wybodaeth sydd ganddynt am feysydd sy'n hanfodol i baratoi CDLl a llinell sylfaen yr Asesiad o Gynaliadwyedd. Ymhlith y testunau pwysig mae'r angen a'r galw am dai, potensial mewnlenwi ac ailddatblygu ardaloedd trefol, adnoddau seilwaith ffisegol a chymdeithasol, rhagamcanion manwerthu, ardaloedd strategol lle ceir perygl o lifogydd, gosodiadau peryglus iawn, treftadaeth, asesu tirwedd, twristiaeth a llety gwyliau, a mwynau a gwastraff a'u rhyngberthnasau.

5.3.3.2 Efallai y bydd angen gwneud gwaith arolygu ychwanegol lle ceir bylchau mewn gwybodaeth am y sefyllfa bresennol, y galw yn y dyfodol a thueddiadau cyflenwi. Byddai hyn yn berthnasol iawn lle y gallai'r testun ddylanwadu'n sylweddol ar ffawd yr ardal leol, a'i gallu i ymdopi â newid. Mae angen i waith arolygu fod yn gymesur a dylid cyllidebu ar ei gyfer fel rhan o raglen barhaus, a'i gynnwys yn y Cytundeb Cyflawni. Gall adroddiadau monitro blynyddol (AMBau) ysgogi'r angen i

ddiweddaru astudiaethau o dystiolaeth; dylai ACLlau ystyried manteision diweddaru tystiolaeth sy'n bodoli eisoes er mwyn llywio Adroddiad yr Adolygiad.

Yr wybodaeth berthnasol iawn i'w hystyried fel rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer y CDLl yw:

Ffactorau sy'n ymwneud â galw, gan gynnwys:

- rhagolygon demograffig gan Lywodraeth Cymru neu amrywiadau y gellir eu cyfiawnhau'n lleol;
- dadansoddiadau o'r farchnad dai, arolygon o anghenion tai (gan gynnwys yr angen am gartrefi fforddiadwy) ac anghenion sipsiwn a theithwyr o ran llety;
- rhagamcanion economaidd gan gynnwys gwybodaeth am eiddo sy'n seiliedig ar y farchnad, cyfraddau cofrestru yn y gorffennol, swyddi gwag;
- rhagamcanion ar gyfer twf gwariant manwerthu;
- mwynau, gwastraff, anghenion o ran ynni adnewyddadwy;
- anghenion o ran mannau agored;
- crynodiadau gofodol amddifadedd a rhaglenni adfywio;
- demograffeg cymunedau Cymraeg.

Ffactorau sy'n ymwneud â chyflenwi, gan gynnwys:

- argaeledd tir ar gyfer tai, cyfraddau cofrestru ar gyfer dyraniadau tai, y cyfnod o amser rhwng yr adeg y mae safleoedd yn cael caniatâd cynllunio a'r adeg y darperir tai;
- potensial ar gyfer mewnlenwi, trawsnewid a datblygu tir a ddefnyddiwyd yn flaenorol;
- argaeledd tir cyflogaeth a thir manwerthu a hamdden / arwynebedd llawr a chyfraddau cofrestru;
- adnoddau seilwaith ffisegol a chymdeithasol;
- y gallu i ariannu seilwaith a chysylltiadau rhwng A.106 a'r Ardoll Seilwatih Cymunedol;
- hygyrchedd trafnidiaeth;
- cyfyngiadau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd, ecoleg, y dirwedd a threftadaeth;
- perygl mawr o lifogydd, peryglon, diogelwch y cyhoedd, halogi, materion sy'n ymwneud â sefydlogrwydd tir;
- dichonoldeb datblygiadau; cyfraddau datblygu (h.y. nifer yr anheddau a adeiledir fesul safle) yn seiliedig ar gyfraddau cwblhau realistig a gyda chytundeb y diwydiant datblygu; ac arwyddion o du'r farchnad.

5.3.3.3 Ni ddylid diystyru defnyddioldeb gwybodaeth ansoddol, lle mae wedi'i dogfennu'n briodol. Gall helpu i ddeall achosion tueddiadau ac amodau cyfredol a nodi'r ffactorau allweddol sy'n ysgogi newid, y rhwystrau i newid, a dulliau realistig o ddefnyddio polisïau cynllunio a fyddai'n gwneud gwahaniaeth. Er enghraifft, byddai'n werthfawr holi barn rhanddeiliaid busnes am ragolygon economaidd, barn y diwydiant eiddo am y potensial ar gyfer datblygu a'r rhwystrau i wneud hynny, barn gweithwyr tai proffesiynol am ffactorau'r farchnad ac anghenion tai, barn y gymuned a'r sector gwirfoddol ar faterion sy'n ymwneud â chynhwysiant cymdeithasol, barn darparwyr seilwaith ar amserlenni cyflawni arfaethedig,  ac ati.

5.3.3.4 Mae gwybodaeth am farn y gymuned leol a rhanddeiliaid eraill yn rhan bwysig o'r sail dystiolaeth. Dylai ACLlau geisio sicrhau bod y rhai sy'n cymryd rhan yn y broses yn ymwybodol, er mwyn i'w safbwyntiau gael sylw, ei bod yn bwysig eu bod yn ystyried y dystiolaeth ac yn ymwneud â dewisiadau realistig.

5.3.3.5 Ystyriaeth bellach wrth benderfynu ar yr wybodaeth sydd i'w chasglu ynghyd yw'r gyfres o ddangosyddion monitro datblygu cynaliadwy strategol rhagnodedig, y dangosyddion craidd ar gyfer CDLlau y mae Llywodraeth Cymru am weld pob ACLl yn eu defnyddio (gweler adrannau 9.3.2 a 3) ac, ar gyfer adolygu cynlluniau, y fframwaith monitro lleol ar gyfer CDLlau a fabwysiadwyd. Bydd argaeledd gwybodaeth sylfaenol yn ei gwneud yn bosibl i gynnal gwiriad realiti yn gynnar wrth benderfynu pa ddangosyddion lleol ychwanegol i'w defnyddio at ddibenion monitro.

5.3.3.6 Yn gyffredinol, dylai'r broses adolygu/tystiolaeth fod yn gymesur, ymwneud â chynllunio defnydd tir, bod yn ddigonol i fodloni gofynion y Rheoliadau AAS, ei gwneud yn bosibl i'r materion allweddol gael eu nodi a helpu i lunio amcanion ac opsiynau. Dylid dogfennu'r sail dystiolaeth yn glir mewn papurau pwnc neu gefndir gan gynnwys cyfeirio at yr elfennau o'r AAS sy'n rhan o Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.

Nodi'r llinell sylfaen  - awgrymiadau

- Lluniwch bapurau pwnc a phroffiliau ardal fel modd i ddogfennu'r sefyllfa o ran y llinell sylfaen a defnyddiwch y rhain yn sail i adroddiad cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd
- Defnyddiwch y papurau pwnc a'r proffiliau ardal fel modd i gyfuno'r negeseuon sy'n deillio o wahanol astudiaethau'r sail dystiolaeth (JHLA, LHMA, ac ati)
- Wrth gasglu gwybodaeth sylfaenol gofynnwch p'un a fydd yr wybodaeth yn bwysig o ran llunio a phrofi opsiynau ai peidio; mae'n bosibl y gallai gwybodaeth nad yw'n helpu i ddatblygu a gwerthuso dewisiadau amgen gael ei hepgor
- Peidiwch â chanolbwyntio ar gasglu data dangosyddion sir gyfan nad ydynt wedi'u dadgyfuno'n ofodol yn unig; maent yn annhebygol o fod yn hanfodol bwysig i lunio a phrofi opsiynau
- Sicrhewch fod lefel y dystiolaeth a gesglir yn adlewyrchu manylder y cynllun; er enghraifft, bydd angen gwybodaeth am nodweddion safleoedd strategol a'u cydberthnasau ag

| |
|---|
| ardaloedd cyfagos er mwyn hwyluso arfarniad cadarn<br>• Mapiwch ddata gan ddefnyddio system GIS lle y bo'n briodol (e.e. ar gyfer dynodiadau tirwedd a bywyd gwyllt, y perygl o lifogydd, amddifadedd); ystyriwch lunio mapiau troshaenu sy'n dangos cyfyngiadau a / neu gyfleoedd |

## 5.3.4 Anghenion ac argaeledd tir; darpar safleoedd

5.3.4.1 Dylid cynnal trafodaethau â **darparwyr gwasanaeth cyhoeddus**, gan gynnwys adran gwastraff trefol yr awdurdod ei hun, ynghyd ag iechyd a chyfleustodau, er mwyn nodi p'un a oes angen cynnwys safleoedd ar gyfer unrhyw gyfleusterau ychwanegol yn y CDLl. Er enghraifft, efallai y bydd angen a nodwyd am fannau agored ychwanegol mewn ardaloedd trefol neu safleoedd i fodloni gofynion Sipsiwn a Theithwyr. Efallai y bydd anghenion eisoes wedi'u nodi drwy'r Cynllun Integredig Sengl / Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol.

5.3.4.2 Efallai y bydd gan Gynghorau Tref a Chymuned ynghyd ag Aelodau lleol awgrymiadau ar gyfer safleoedd sy'n addas ar gyfer tai fforddiadwy a chyfleusterau lleol eraill.

5.3.4.3 Dylid ymgysylltu â **datblygwyr a thirfeddianwyr** yn gynnar er mwyn cael gwybodaeth am safleoedd datblygu posibl nas nodwyd eisoes mewn Cydastudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai (a drafodir yn TAN1). Bydd gweithgarwch ymgysylltu yn dangos bod modd cyflawni strategaeth y CDLl a bydd yr wybodaeth a gesglir yn ei gwneud yn bosibl i ymgynghori ynghylch pob darpar safle credadwy yn ystod cam y dewis strategaeth fel y gall sylwadau lywio'r cynllun adneuo. Mae'n hanfodol bwysig bod hyrwyddwyr safleoedd posibl yn deall, os cânt eu cyflwyno ar ôl cam y dewis strategaeth, ei bod yn annhebygol y gellir eu hystyried i'w cynnwys yn y cynllun. Dylid nodi'n glir mai'r cais am ddarpar safleoedd yw'r adeg gywir i gyflwyno safleoedd fel y gellir ymgynghori arnynt yn ddigonol er mwyn llywio'r broses archwilio.

5.3.4.4 Cyn ymgynghori ar eu dewis strategaeth dylai ACLlau gyhoeddi '**cais am ddarpar safleoedd**' ffurfiol (Rheoliadau 14) gan wahodd unrhyw un, gan gynnwys datblygwyr a thirfeddianwyr, i gyflwyno cynigion a nodi ar ba sail y maent yn cael eu cynnig. (O dan y weithdrefn ddiwygio fer, os bydd y diwygiad arfaethedig a gaiff ei adneuo yn cynnwys tir a nodwyd i'w ddatblygu, yna dylai fod wedi gwneud cais am ddarpar safleoedd yn flaenorol o dan Reoliad 26A.) Er mwyn sicrhau bod yr ymarfer yn un ymarferol gallai awdurdodau bennu trothwy o ran maint safle ar gyfer darpar safleoedd yn unol â ffocws strategol CDLlau. Fodd bynnag, byddai gwybodaeth am argaeledd safleoedd bach yn helpu ACLlau i ddangos maint tebygol y ddarpariaeth o'r ffynhonnell hon yn y dyfodol.

5.3.4.5 Wrth gyflwyno safleoedd, dylai datblygwyr a thirfeddianwyr gynnwys digon o ddata fel y gellir cynnal asesiad cadarn (gweler adran 6.4.1a 2) gan gynnwys tai fforddiadwy, seilwaith cymunedol a bod y datblygiad yn ariannol ymarferol.

5.3.4.6 Er mwyn osgoi codi disgwyliadau'n ormodol o ran datblygu mewn lleoliadau cwbl anaddas, dylai'r gwahoddiad i gyflwyno darpar safleoedd gael ei ategu gan ddatganiad cyhoeddus clir sy'n nodi'n fras y mathau o leoliadau a fyddai'n cael eu

hystyried yn gynaliadwy gyda gwahoddiad o’r fath. Dim ond rhan o’r ymarfer casglu gwybodaeth yw cyflwyno safleoedd a dylai'r ACLl bwysleisio na ddylid dehongli hyn fel ymrwymiad gan yr ACLl i gynnwys pob safle yn y CDLl.

5.3.4.7 Dylai’r awdurdod baratoi **cofrestr o ddarpar safleoedd** (Rheoliadau 14 a 26A), gyda data sylfaenol yn cael ei gasglu ar gyfer pob safle, gan gynnwys cyfyngiadau ffisegol, pa mor agos ydynt at wasanaethau lleol, hygyrchedd, ac ati a chyda sylfaen OS lle y bo’n bosibl.

5.3.4.8 Mae’r gofrestr o safleoedd yn adnodd pwysig a defnyddiol a gellir ychwanegu gwybodaeth ati:

- Pan fo mwy o fanylion ar gael gan ddarparwyr seilwaith yn ystod cam y dewis strategaeth (gweler Pennod 6).
- Pan fo safleoedd wedi'u dosbarthu'n rhai sy'n cyfrannu at y dewis strategaeth ac yn rhai nad ydynt yn cyfrannu ati.
- Yn ystod y cam adneuo er mwyn nodi asesiadau cynharach yr ACLl o'r safle, cofnodi achos y cynigiwr dros ei gynnwys ac unrhyw achos gan wrthwynebwyr dros ei ddileu ynghyd ag ymateb yr ACLl.

5.3.4.9 Dylai’r ACLl gymhwyso cyfres o **feini prawf neu ddull didoli** er mwyn dosbarthu safleoedd yn ôl pa mor dderbyniol ydynt i’w hystyried ymhellach. Bydd angen i feini prawf ymdrin â materion sy'n ymwneud â'r gallu i ddarparu safleoedd ac adlewyrchu amcanion integredig y cynllun er mwyn iddynt fodloni gofynion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Bydd dull gweithredu cynhwysfawr a systematig sy'n asesu effeithiau amgylcheddol sylweddol pob safle perthnasol yn llawn (h.y. sy'n cwmpasu'r pynciau a nodir yn y Rheoliadau AAS) yn helpu i osgoi'r angen i gynnal asesiad pellach ac yn lleihau oedi yn ddiweddarach. Er mwyn dangos bod cynllun yn gadarn pan gaiff ei archwilio bydd angen i ACLlau allu cyfiawnhau pam bod eu meini prawf a'r asesiadau cysylltiedig o safleoedd yn briodol. Felly, mae'n rhaid i'r broses hon fod yn dryloyw a chael ei dogfennu a dylid cyfeirio'n glir ati yn Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.

5.3.4.10 Mae'n bwysig gallu dangos nad oes unrhyw rwystrau sylfaenol i ddatblygu'r safleoedd a ddyrannwyd yn y cynllun a gallu nodi'r terfynau amser ar gyfer goresgyn cyfyngiadau. Felly, dylid trafod safleoedd posibl gydag ymgyngoreion statudol yn gynnar er mwyn nodi unrhyw faterion sylfaenol. Efallai na fydd maint safle yn dynodi ei effaith mewn termau cymdeithasol, economaidd nac amgylcheddol. Disgwylir i ddarparwyr seilwaith ac ymgyngoreion eraill ymateb yn gadarnhaol ac yn amserol gan gynnig cyngor ystyrlon ar y rhagolygon ar gyfer datblygiadau a/neu eu hamseriad. Fodd bynnag, ni ddylid cyflwyno rhestrau hir o bob darpar safle yn unig iddynt. Dylid eu cyfyngu i restr wedi'i hidlo ac wedi'i blaenoriaethu sy'n canolbwyntio ar y safleoedd hynny sydd â photensial rhesymol i gael eu dyrannu yn unol â'r strategaeth sy'n datblygu. Mewn rhai achosion, yn enwedig gyda safleoedd strategol mwy o faint, bydd angen cynnal asesiad technegol manylach cyn y gall ymgyngoreion ymateb. Dylai'r ACLl a'r ymgynghorai perthnasol gydweithio er mwyn nodi cwmpas unrhyw asesiad a ddylai fod yn gyfyngedig, yn ystod cam dyrannu'r cynllun, i'r hyn sydd ei angen i gadarnhau bod y safle yn dderbyniol mewn egwyddor. Efallai y bydd angen ceisio mewnbwn gan y tirfeddiannwr neu ddarpar ddatblygwr sy'n cynnig y safle.

5.3.4.11 Dylid anelu at ddefnyddio methodoleg asesu glir sy'n ymgorffori amcanion integredig y cynllun/meini prawf cynaliadwyedd er mwyn graddio safleoedd. Gall hyn wedyn lywio dyraniadau'r cynllun sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r strategaeth a nodi safleoedd wrth gefn posibl y gallai fod eu hangen yn ddiweddarach os bydd anghenion yn newid neu os na fydd safleoedd eraill yn cael eu hystyried i'w datblygu mwyach.

## 5.4 Nodi Materion ac Amcanion

5.4.1 Dylai'r Adroddiad Cwmpasu a'r adroddiadau dilynol ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd / yr Amgylchedd nodi lle y gellir dod o hyd i'r gwaith o nodi materion cynaliadwyedd (gan gynnwys problemau amgylcheddol fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau AAS).

5.4.2 Dylai gwaith dadansoddi'r sail dystiolaeth, yr adolygiad o gynlluniau a strategaethau eraill a gweithgarwch ymgysylltu â phartneriaid, cyrff ymgynghori a rhanddeiliaid oll gyfannu at y gwaith o nodi'r materion pwysig sy'n ymwneud â defnydd tir a chynaliadwyedd y bydd angen i'r cynllun roi sylw iddynt.

5.4.3 Mae gan aelodau'r awdurdod rôl arwain bwysig i'w chwarae o ran diffinio, yn fras, y materion allweddol, cyfeiriad yr ALl yn y dyfodol a'r math o le y mae'r awdurdod am i'r ardal fod. Gan weithio gyda'u partneriaid, dylai hyn eisoes fod wedi cael ei gyflawni drwy baratoi'r Cynllun Integredig Sengl neu Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol.

5.4.4 Felly, bydd ACLlau eisoes yn ymwybodol o sawl mater a phroblem sy’n ymwneud â chynaliadwyedd. Gellir nodi eraill ar sail:

- Profiad o Gynlluniau Datblygu Unedol/CDLlau blaenorol a chynlluniau eraill,
- Tyndra neu anghysondeb posibl mewn perthynas â pholisïau, cynlluniau a rhaglenni eraill fel y nodwyd yn yr adolygiad o amcanion cynaliadwyedd defnydd tir uchod (adran 5.6.2).
- Unrhyw orgyffwrdd, tyndra neu anghysondeb posibl rhwng yr amodau sylfaenol.
- Ymgynghori ag awdurdodau â chyfrifoldebau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ynghyd â rhanddeiliaid perthnasol eraill.

5.4.5 Lle y bo’n bosibl, dylid cysylltu unrhyw faterion a nodir â thystiolaeth drwy gyfeirio at yr wybodaeth sylfaenol a nodi tueddiadau hanesyddol neu dueddiadau tebygol yn y dyfodol.

5.4.6 Rhoddir enghraifft o sut i gofnodi materion allweddol sy’n ymwneud â chynaliadwyedd a amlygir drwy’r broses o gasglu tystiolaeth isod.

**Tabl 5.1: Enghraifft o gofnodi materion a phroblemau allweddol sy'n ymwneud â defnydd tir/cynaliadwyedd ar y lefel leol**

| Materion a phroblemau allweddol | Ffynhonnell |
|---|---|
| Gofal Cymdeithasol; | |
| 1. Mae gan y dref boblogaeth hŷn sy'n uwch na'r cyfartaledd, gyda phryderon yn cael eu codi ynghylch y bobl ifanc fedrus sy'n gadael yr ardal, ac anghenion y boblogaeth hŷn yn y dyfodol | Cynllun Gofodol Cymru (adolygiad o gynlluniau a rhaglenni eraill). Cyfrifiad (adolygiad o wybodaeth sylfaenol). |
| 2. Mae ardal y cynllun yn cynnwys rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y DU, gan gynnwys wardiau sy'n perthyn i'r 10% mwyaf difreintiedig yn y wlad. | Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (adolygiad o wybodaeth sylfaenol). Arsyllfa Wledig Cymru. |
| 3. Ceir tir pwysig a ddynodwyd yn amgylcheddol yn y dref sy'n cyfyngu arni. Mae'r lletemau glas yn nodwedd bwysig o'r dref a ddylai gael eu cynnal. | LANDMAP Cronfa Ddata Tirweddau (adolygiad o wybodaeth sylfaenol). |
| 4. Lleolir rhan ddeheuol y dref yn y gorlifdir. | TAN 15 a Cyfoeth Naturiol Cymru (Mapiau Cyngor Datblygu, adolygiad o wybodaeth sylfaenol). |
| Economaidd | |
| 5. Ceir tagfeydd mawr yn ystod oriau brig wrth gyffordd y draffordd. | Cynllun Gofodol Cymru (adolygiad o gynlluniau, rhaglenni eraill). Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (adolygiad o wybodaeth sylfaenol). Cynllun Trafnidiaeth Lleol (adolygiad o gynlluniau a rhaglenni eraill). |
| 6. Ceir prinder sgiliau yn y sector uwch-dechnoleg a'r sector iechyd. | Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd (adolygiad o wybodaeth sylfaenol). |

5.4.7 Dylid defnyddio'r materion allweddol a nodwyd mewn perthynas â chynllunio a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd i ddatblygu amcanion ac opsiynau cynaliadwy a chanolbwyntio ar gynnwys y cynllun.

5.4.8 Golyga'r gofyniad statudol cyffredinol newydd i sicrhau datblygu cynaliadwy y dylai proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd fod yn rhan annatod o'r broses o baratoi'r cynllun yn hytrach na dim ond gweithgaredd asesu ymylol. O ganlyniad, dylai amcanion CDLl gyd-fynd yn llwyr ag egwyddorion cynaliadwyedd. Bydd yn peri llai o ddryswch i randdeiliaid os caiff meini prawf asesu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd eu cynnwys gydag amcanion y cynllun fel y defnyddir un set o amcanion integredig i asesu opsiynau a nodi dewis strategaeth.

5.4.9 Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau y caiff materion o ran y cynllun sy'n ymwneud â chyflawni a materion cynaliadwyedd sy'n rhai ehangach fel arfer eu hadlewyrchu yn y set benodol o amcanion integredig a ddefnyddir at ddibenion asesu.

5.4.10 Dylid sicrhau cydbwysedd rhwng amcanion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Dylent i gyd fod yn faterion y gellir ymdrin â hwy drwy'r system cynllunio defnydd tir ac mae angen gallu rheoli'r niferoedd a ddewisir (12 hyd at uchafswm o 20). Mae angen i'r broses o ddewis amcanion amgylcheddol ystyried y testunau a restrir yn Atodlen 2 (6) o'r Rheoliadau AAS, ond mae angen ei theilwra yn unol â nodweddion yr ardal leol a'r materion sy'n codi ynddi. Lle y bo'n bosibl, dylai amcanion gael eu cyfleu ar ffurf dangosyddion a thargedau. Mae angen bod yn ofalus wrth ddewis geiriau, er enghraifft gall fod i 'lleihau i'r eithaf' a 'gostwng' ystyron gwahanol iawn. Felly, gall fod yn ddefnyddiol datblygu sylwebaeth fer ar gyfer pob amcan sy'n esbonio'r hyn y bwriedir iddo ei hyrwyddo a rhai cwestiynau cysylltiedig a fydd yn helpu i ddod ag effeithiau i'r amlwg.

5.4.11 Mae'n bwysig nodi materion a datblygu amcanion, dangosyddion a thargedau mewn ymgynghoriad â'r Cyrff Ymgynghori a rhanddeiliaid perthnasol, er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion statudol. Dylai'r ymarfer fod yn dryloyw a chael eu dogfennu'n glir er mwyn adlewyrchu'r Rheoliadau CDLlau a'r Rheoliadau AAS; (nid yw nodi amcanion / dangosyddion / targedau amgylcheddol yn un o ofynion proses yr AAS ond mae bellach yn arfer cyffredinol).

5.4.12 Dylai'r amcanion gael eu llywio gan bolisïau cynllunio ac amgylcheddol perthnasol Llywodraeth Cymru a pholisïau cynllunio ac amgylcheddol cenedlaethol ac Ewropeaidd perthnasol.

5.4.13 Bydd yr amcanion integredig (gan gynnwys yr amcanion cynaliadwyedd) yn darparu fframwaith asesu ar gyfer y cynllun gan ei gwneud yn bosibl i'r effeithiau ar gynaliadwyedd ac effeithiau eraill gael eu disgrifio, eu dadansoddi a'u cymharu. Maent yn feincnod ar gyfer profi effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y CDLl. Y gofyniad o ran yr AAS yw nodi 'effeithiau sylweddol' y dylai'r amcanion, y cwestiynau cysylltiedig a'r dangosyddion allu eu nodi. Mae Atodlen 1 o'r Rheoliadau AAS yn cynnwys cyfres o feini prawf perthnasol ar gyfer nodi pa mor sylweddol yw effeithiau gan gynnwys, er enghraifft, tebygolrwydd, hyd, a ellir eu gwrthdroi, pa mor aml y maent yn digwydd, effeithiau cronnol a gwerth adnodd penodol a pha mor agored ydyw i niwed.

### Datblygu amcanion integredig - awgrymiadau

- Cadwch nifer yr amcanion i nifer hydrin (12 hyd at uchafswm o 20).
- Datblygwch is-amcanion (neu feini prawf neu gwestiynau) ar gyfer pob amcan fel awgrymiadau ar gyfer y rhai sy'n cynnal yr arfarniad er mwyn dod ag effeithiau i'r amlwg.
- Lle y bo'n briodol, defnyddiwch setiau o amcanion sy'n bodoli eisoes (er enghraifft, mewn strategaethau lefel uwch perthnasol neu'r Cynllun Integredig Sengl / Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol), ond sicrhewch fod yr amcanion yn adlewyrchu diben a chwmpas y CDLl (h.y. yr hyn y gall ei gyflawni) a materion allweddol ar gyfer yr ardal.
- Ysgrifennwch yr amcanion gan ddefnyddio Cymraeg clir a

sicrhewch eu bod yn rhai strategol.

- Sicrhewch fod cydbwysedd rhesymol rhwng yr amcanion o ran materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.
- Sicrhewch eich bod yn deall goblygiadau pob amcan arfaethedig – er enghraifft, gall fod i 'lleihau i'r eithaf' a 'gostwng' ystyron gwahanol iawn.
- Edrychwch i weld a yw'r amcanion integredig yn gyson yn fewnol ac, os nad ydynt, ceisiwch ddatrys unrhyw densiynau yn gynnar.
- Rhowch sylwebaeth fer ar bob amcan er budd rhanddeiliaid, gan esbonio'r termau a ddefnyddir a'r hyn y mae'r amcan yn ceisio ei hyrwyddo.
- Sicrhewch fod yr amcanion yn adlewyrchu'r materion cynaliadwyedd allweddol hynny ar gyfer yr ardal y gall y cynllun ddylanwadu arnynt.
- Trafodwch y dull gweithredu a'r amcanion â Chyrff Ymgynghori'r AAS.
- Sicrhewch fod systemau a gweithdrefnau ar waith, neu y gellir eu rhoi ar waith, er mwyn monitro amcanion allweddol yn effeithiol.

5.4.14 Mae hefyd angen i amcanion y CDLl fod yn gyson â'i gilydd a gall fod yn ddefnyddiol profi cydweddoldeb mewnol yr amcanion gan ddefnyddio dull matrics. Gallai hyn helpu i nodi'r amcanion pwysicach ac unrhyw densiynau rhwng amcanion na ellir eu datrys er mwyn sicrhau bod sail gadarn i benderfyniadau dilynol ynghylch blaenoriaethau ac y gellir ystyried dewisiadau amgen a mesurau lliniaru. Dylid cofnodi hyn yn benodol yn y papurau cefndir ac Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.

5.4.15 Rhoddir enghraifft o sut y profir cydweddoldeb isod.

**Tabl 5.2: Matrics enghreifftiol ar gyfer cymharu amcanion**

| **Amcanion** | **Amcanion** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Amcan 1 | Amcan 2 | Amcan 3 | Amcan 4 |
| Amcan 1 | | Gwrthdaro posibl | Cadarnhaol / Cydweddu | Cadarnhaol / Cydweddu |
| Amcan 2 | | | Niwtral | Cadarnhaol / Cydweddu |
| Amcan 3 | | | | Niwtral |
| Amcan 4 | | | | |

**- Sylwadau ac argymhellion:**
Amcan 1 yn erbyn Amcan 2: Gwrthdaro posibl am mai nod Amcan 1 yw diogelu tir maes glas rhag cael ei ddatblygu, ond nod amcan 2 yw darparu digon o dir i ddiwallu

anghenion tai. Fodd bynnag, mae'r astudiaeth o gapasiti trefol wedi dangos, er mwyn diwallu’r angen am dai, y bydd angen datblygu tir maes glas i raddau. Argymhelliad: newid geiriad Amcan 1 y Cynllun i flaenoriaethu datblygiadau tir llwyd cyn tir maes glas, ond peidio â diystyru datblygiadau tir maes glas yn gyfan gwbl.

5.4.16 Pan fydd gwaith monitro neu adolygiad o gynllun yn nodi bod angen ystyried diwygio'r cynllun yn rhannol dylai'r ACLl esbonio yn ei Adroddiad ar yr Adolygiad y rhesymau pam mae'r materion gwreiddiol a nodwyd ac amcanion y cynllun / meini prawf AAS a ddefnyddiwyd yn dal i fod yn ddilys (gweler adran 10.1.5).

## 5.5 Tasgau’r Arfarniad o Gynaliadwyedd

5.5.0 Yn dilyn disgrifiad cychwynnol o’r broses sgrinio, noda’r adran hon y prif dasgau sydd ynghlwm â phennu cwmpas yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Gellir gwneud y gwaith hwn fel rhan o'r broses o baratoi'r cynllun (gweler adrannau 5.3 a 4) ond bydd angen dogfennu'r materion perthnasol mewn adroddiad cwmpasu.

### 5.5.1 Sgrinio

5.5.1.1 Mae'r Rheoliadau AAS a chanllawiau'r DU yn glir iawn ynghylch yr angen i gynnal AAS ar gyfer CDLlau ac, oni fydd penderfyniad sgrinio wedi dod i'r casgliad annhebygol nad oes angen AAS, nid yw'n ofynnol cyhoeddi barn sgrinio (na chynnal ymarfer sgrinio hyd yn oed). Os bydd yr ACLl o'r farn na chaiff CDLl unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol, sy'n annhebygol o ddigwydd, bydd angen cael cefnogaeth y Cyrff Ymgynghori a darparu tystiolaeth glir ar gyfer unrhyw benderfyniad a wneir o dan Rheoliad 9(1) o'r Rheoliadau AAS.

5.5.1.2 Pan gaiff cynllun ei adolygu ac y tybir bod angen ei ddiwygio neu lunio cynllun newydd i gymryd ei le dylid llunio a chofnodi barn sgrinio er mwyn nodi a yw'r AAS gwreiddiol yn cael ei ystyried yn ddilys o hyd neu, os bydd y strategaeth wedi newid, a oes angen cynnal AAS arall (gweler pennod 10). Mae angen cynnal ymarfer sgrinio hefyd ar gyfer dirymiadau.

### 5.5.2 Paratoi adroddiad cwmpasu’r Arfarniad o Gynaliadwyedd ac ymgynghori arno

5.5.2.1 Mae'r cam cwmpasu yn un o'r gofynion AAS. Er nad yw adroddiad cwmpasu ffurfiol yn orfodol, mae llunio un fel cam cychwynnol Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd sy'n datblygu yn rhoi cyfle i grynhoi'r negeseuon sy'n deillio o'r sail dystiolaeth a gasglwyd hyd yma, y materion cynaliadwyedd a nodwyd a'r amcanion integredig. Mae hefyd yn galluogi ACLlau i ddechrau'r broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid a chanfasio rhanddeiliaid ynghylch pa mor fanwl y bydd angen i'r arfarniad fod er mwyn helpu i fodloni gofynion y Rheoliadau AAS. Dylai'r adroddiad fod yn gymesur gan ganolbwyntio ar y materion mwyaf perthnasol. Dylai ymdrin yn gryno â'r materion canlynol neu nodi'n glir lle y rhoddir sylw iddynt yn nogfennau paratoi ac asesu integredig y cynllun.

- Adolygiad o gynlluniau, rhaglenni ac amcanion eraill sy’n berthnasol i’r CDLl, gyda gwybodaeth am synergeddau neu anghysondebau. Mae’r Rheoliadau

AAS yn ei gwneud yn ofynnol i ystyried amcanion diogelu'r amgylchedd a bennir ar lefel ryngwladol, lefel Cymuned Ewropeaidd neu lefel genedlaethol. – gweler adran 5.2

- Gwybodaeth sylfaenol allweddol sy'n disgrifio sefyllfa bresennol nodweddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yr ardal y mae'r cynllun yn debygol o gael effaith sylweddol arni. Amlinella Atodlen 2 o Reoliadau AAS 2004 yr amrywiaeth o faterion amgylcheddol y mae angen eu hystyried. – gweler adran 5.3
- Nodi materion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd sy'n ymwneud â chynaliadwyedd (gan gynnwys problemau amgylcheddol fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau AAS) ac amcanion ar gyfer cynllun cynaliadwy sy'n ffurfio fframwaith opsiynau/asesu cynlluniau integredig. - gweler adran 5.4
- Methodoleg arfaethedig gweddill yr arfarniad integredig gan gynnwys nodi lle y gall fod angen cynnal asesiadau manylach o rai materion ac amcanion megis hil, cydraddoldeb, y Gymraeg neu asesiadau o'r effaith ar iechyd.

5.5.2.2 Dylai ACLlau ystyried y ffordd orau o strwythuro eu sail dystiolaeth. Gellid dogfennu'r wybodaeth hon fesul pwnc gan ymdrin â'r cwestiynau allweddol o'r Rheoliadau AAS megis bioamrywiaeth, y perygl o lifogydd, tai, yr economi leol, gwastraff a dŵr. Gellid strwythuro pob papur pwnc o amgylch y cwestiynau allweddol o'r Rheoliadau AAS h.y. beth yw'r cyd-destun polisi, beth yw'r sefyllfa nawr, beth fydd y sefyllfa hen y cynllun, beth yw'r materion allweddol? At hynny, gellid isrannu ardal y cynllun a chyflwyno'r dystiolaeth a'r atebion i'r cwestiynau ar gyfer ardaloedd gofodol allweddol. Fodd bynnag, dylid llunio papur rhagarweiniol cyffredinol er mwyn crynhoi'r materion a'r problemau sy'n wynebu'r ardal gyfan gan gynnwys cysylltiadau rhwng y pynciau gwahanol.

5.5.2.3 Dylai'r Cyrff Ymgynghori chwarae rhan o ddechrau'r broses o baratoi'r adroddiad cwmpasu. Ar ôl ei ddrafftio, dylid defnyddio adroddiad cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd fel sail yr ymgynghoriad â'r Cyrff Ymgynghori. Mae'r cyrff hyn a ddiffinnir yn y Rheoliadau AAS ymhlith y cyrff ymgynghori Penodol a ddiffinnir yn y Rheoliadau CDLlau (gweler Atodiad B).

5.5.2.4 Mae hefyd yn ddymunol i'r ACLl ymgynghori â chyrff sy'n cynrychioli buddiannau cymdeithasol ac economaidd. Lle y bo'n bosibl dylid sicrhau cydbwysedd rhwng ymgyngoreion sy'n ymwneud â materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Os sefydlwyd grŵp cyfeirio technegol neu grŵp rhanddeiliaid allweddol ar gyfer yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, dylid eu cynnwys hefyd.

5.5.2.5 Noda Rheoliad 12(6) o'r Rheoliadau AAS y dylai'r Cyrff Ymgynghori gael pum wythnos i ymateb i wahoddiad awdurdod i gymryd rhan mewn ymgynghoriad ar y broses gwmpasu. Rhagwelir rhoi cyfnod tebyg o amser i'r holl ymgyngoreion ymateb ynghylch cwmpasu elfen yr Arfarniad o Gynaliadwyedd o broses asesu'r cynllun integredig.

5.5.2.6 Er mwyn helpu i sicrhau arfarniad cadarn mae'n bwysig bod yr wybodaeth a ddefnyddir i ragweld a gwerthuso effeithiau yn gyfredol ac yn berthnasol. Yn yr un modd, bydd angen ystyried barn rhanddeiliaid. Felly, dylid ystyried bod Adroddiad yr

Arfarniad o Gynaliadwyedd / Adroddiad ar yr Amgylchedd sy'n cynnwys yr adroddiad cwmpasu yn 'ddogfen fyw' a dylid ei diweddaru yn weddol reolaidd wrth i'r gwaith o baratoi'r cynllun fynd yn ei flaen.

## 5.6 Crynodeb o Dasgau Casglu Tystiolaeth ac Amcanion

| Tasgau Integredig y CDLl | Tasgau Penodol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd |
|---|---|
| | Cynnal, dogfennu a chyhoeddi'r Farn Sgrinio fel y bo'n briodol. (adran 5.5.1) |
| Cynnal cronfa ddata A61 gyfredol – yn barhaus.<br>Ei hadolygu ac ychwanegu ati os oes angen er mwyn sicrhau sail dystiolaeth gadarn / cyfredol / cymesur.<br>Ymgysylltu â rhanddeiliaid fel y bo'n briodol; ystyried yr angen am 'gais am dystiolaeth'. | Nodi cyflwr sylfaenol yr amgylchedd, a'r nodweddion amgylcheddol y mae'n debygol yr effeithir arnynt yn sylweddol. Rhagfynegi newid heb gynllun. |
| Adolygu'r cyd-destun polisi ehangach, gan gynnwys cynlluniau a strategaethau eraill er mwyn ystyried y gydberthynas. | Ystyried y gydberthynas â chynlluniau eraill.<br>Nodi amcanion diogelu'r amgylchedd Ewropeaidd/cenedlaethol |
| Nodi materion sy'n ymwneud â defnydd tir/cynaliadwyedd.<br>Cais am ddarpar safleoedd a datblygu cofrestr; ystyried safleoedd a enwebwyd. | Nodi materion a phroblemau yn gysylltiedig â chynaliadwyedd ar gyfer yr Arfarniad o Gynaliadwyedd |
| Datblygu cyfres o amcanion integredig ar gyfer cynllun cynaliadwy a fframwaith asesu (a fydd yn ymgorffori'r gofynion AAS).<br>Ystyried gofynion y fframwaith monitro o'r cychwyn. | Datblygu amcanion/meini prawf arfarnu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd a sefydlu Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. |
| Eu cofnodi mewn papurau cefndir a'u croesgyfeirio at adroddiad cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd. | Pennu cwmpas yr AAS gyda'r Cyrff Ymgynghori. Llunio Adroddiad Cwmpasu'r AAS ac ymgynghori arno. (pum wythnos) |

*D.S. Os tybir bod y weithdrefn fer ar gyfer diwygio cynlluniau yn briodol efallai na fydd pob cam yn berthnasol - gweler 10.2.*
*Gweler Tabl 3.3 am y gofynion o ran ymgynghori.*

# 6. Opsiynau Strategol a'r Dewis Strategaeth

## 6.1 Cyflwyniad

6.1.1 Dylai CDLlau anelu at fod yn strategol, yn gryno ac yn unigryw. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy:

- Sicrhau bod cynlluniau yn canolbwyntio ar y materion allweddol.
- Diwallu anghenion yr ardal o ran defnydd tir.
- Seilio cynlluniau ar weledigaeth glir y cytunwyd arni gan y gymuned a rhanddeiliaid, sy'n nodi'n glir ac yn gryno sut y bwriedir datblygu, newid neu ddiogelu lleoedd.
- Lunio strategaeth sy'n benodol ac yn unigryw i'r ardal a'r heriau a wynebir ganddi.
- Sicrhau bod CDLlau yn ychwanegu gwerth at bolisïau cenedlaethol, polisïau lleol allweddol a strategaethau mewn meysydd polisi eraill ynghyd â sicrhau eu bod yn ychwanegu gwerth atynt ac yn helpu i'w cyflawni (ond nad ydynt yn eu dyblygu'n ddiangen).
- Sicrhau bod strategaethau a pholisïau yn canolbwyntio ar brif ardaloedd newid a gwarchodaeth*.*
- Dileu polisïau sy'n rhy benodol a manwl.


6.1.2 Mae'r bennod hon yn rhoi arweiniad ar ofynion y broses yn ogystal â dechrau llunio cynnwys CDLl neu wneud diwygiadau sylweddol i CDLl drwy gynllun newydd a fydd yn ei ddisodli. Gwneir hyn drwy nodi a phrofi opsiynau strategaeth a pholisi yn erbyn amcanion integredig y CDLl/Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae hyn yn cyfateb i'r camau cyn-adneuo fel y cyfeirir atynt yn Rheoliadau 14 a 15 o'r Rheoliadau CDLlau. Ar gyfer amgylchiadau lle y daw Adroddiad yr Adolygiad o'r CDLl i'r casgliad yr ymddengys i'r ACLl nad yw'r materion dan sylw yn ddigon pwysig i gyfiawnhau cynnal y weithdrefn ddiwygio lawn, mae'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer gweithdrefn ddiwygio fer (Rheoliad 13A a Rhan 4A). Mae'r **canllawiau isod yn canolbwyntio ar broses cyn adneuo'r CDLl / gweithdrefn ddiwygio lawn** sy'n cynnwys ymgynghori cyn adneuo; nodir **y broses ddiwygio fer yn fanylach yn adran 10.2.** Fodd bynnag, mae llawer o'r negeseuon isod yn briodol i'r ddwy weithdrefn.

6.1.3 Mae cyfranogi ac ymgynghori â'r cyhoedd yn ystod y cam cyn adneuo yn hanfodol i sicrhau bod cymunedau a rhanddeiliaid yn ymgysylltu'n effeithiol â'r cynllun. Bydd trafodaeth gynnar ynghylch y sail dystiolaeth, opsiynau strategol, y dewis strategaeth a chynigion cysylltiedig yn hanfodol i greu consenswS. Mae'n rhaid i gydymffurfiaeth â gofynion Rheoliadau 14 a 15 o'r Rheoliadau CDLlau o ran cyfranogi ac ymgynghori â'r cyhoedd hefyd gydymffurfio â gofynion y Rheoliadau AAS bod dewisiadau amgen rhesymol i'r cynllun yn cael eu nodi a'u gwerthuso (gofyniad paratoi yw hwn – gweler adran 8.2.1).

6.1.4 Dylid cysylltu trafodaeth ynghylch materion ac opsiynau â materion lleoliadol a safleoedd dewisol i'w datblygu a dylai arwain at nodi'r dewis strategaeth gyffredinol a'i goblygiadau gofodol.

**Ffigur 6.1: Opsiynau Strategol a Chyn-adneuo (Dewis a Ffefrir)**

(O.N. Ar gyfer y weithdrefn ddiwygio fer: Mae Rheoliad 26A yn berthnasol (nid Rheoliadau 14 a 15) i bennu cwmpas y broses ddiwygio a llunio opsiynau amgen; mae'n bosibl y bydd cais am ddarpar safleoedd yn briodol os nad yw hynny eisoes wedi'i wneud.)




*Ar gyfer y weithdrefn ddiwygio fer mae Rheoliad 26A yn gymwys (nid Rheoliadau 14/15); er mwyn pennu cwmpas y broses ddiwygio a chreu opsiynau amgen; Hysbysu / gwahoddiad i gyflwyno sylwadau; gyda'r cais am ddarpar safleoedd ar y wefan os yw'n briodol.*

6.1.5 Bydd Adroddiad yr Adolygiad ac asesiad yr ACLlau yn destun ymgynghoriad a gwaith craffu drwy broses archwilio'r cynllun.

6.1.6 Ar gyfer amgylchiadau lle mae canfyddiadau Adroddiad yr Adolygiad o'r CDLl yn nodi bod y materion dan sylw yn ddigon pwysig i gyfiawnhau cynnal y weithdrefn ddiwygio lawn (ac nad yw Llywodraeth Cymru wedi ymyrryd), mae proses y dewis strategaeth a awgrymir ar gyfer CDLl newydd i gymryd lle hen un fel a ganlyn:

- Nodi ymlaen llaw y dull o lunio a phrofi opsiynau ac wedyn bod yn barod i'w gyfiawnhau.
- Sefydlu dulliau CCC ar gyfer cynnal deialog ac adeiladu consensws ac ati.
- Cais am ddarpar safleoedd, ynghyd â sefydlu / cynnal cofrestr o ddarpar safleoedd (gweler 5.3.4).
- Cyfranogiad rhanddeiliaid er mwyn helpu i ystyried goblygiadau'r sail dystiolaeth a'r materion cynllunio a godwyd er mwyn pennu'r amcanion ar gyfer y cynllun ac wedyn nodi opsiynau strategol realistig a fydd yn diwallu anghenion yr ardal yn y dyfodol, mynd i'r afael â'r materion a nodwyd a chyflawni'r amcanion.
- Dethol dewis strategaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar ôl cynnal asesiad tryloyw ac integredig mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol / ymgyngoreion (Rheoliad 14).
- Nodi safleoedd strategol sy'n hanfodol bwysig i weithredu'r strategaeth honno (ardaloedd newid). Dylid cyhoeddi'r gofrestr o ddarpar safleoedd sy'n nodi'r rhai sy'n addas, a'r rhai nad ydynt yn addas, a dylid gwahodd sylwadau fel rhan o'r ymgynghoriad.
- Diffinio meini prawf dewis safleoedd ar gyfer safleoedd llai o faint nad ydynt mewn ardaloedd newid sylweddol.
- Paratoi Dogfen Cynigion ar gyfer Dewis Strategaeth a dogfennau ategol perthnasol.
- Profi consensws drwy wahodd safbwyntiau ehangach (yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus cyn-adneuo) fel y nodir yn Rheoliad 15.

## 6.2 Nodi Opsiynau Strategol

### 6.2.1 Trosolwg

6.2.1.1 Un o elfennau pwysig y system CDLlau yw'r pwyslais ar nodi opsiynau realistig sy'n adlewyrchu'r dystiolaeth ac wedyn eu profi gan ddefnyddio amcanion integredig y CDLl/Arfarniad o Gynaliadwyedd.

6.2.1.2 Dylai opsiynau fod yn rhai gwirioneddol a rhesymol, dylent adlewyrchu'r dystiolaeth a materion/amcanion y cynllun, dylent ddiwallu anghenion yr ardal a dystiwyd, dylai fod modd eu cyflawni o fewn cyfnod y cynllun, dylent gydymffurfio â pholisi cenedlaethol ac ategu cynlluniau/strategaethau rhanbarthol neu gymdogaeth a dylent fod yn hyblyg ac yn gynaliadwy. Er mwyn llunio fersiwn ddiwygiedig o

gynllun, bydd angen i'r ACLl ystyried pa mor briodol yw'r opsiynau a ystyriwyd yn flaenorol.

6.2.1.3 Er mwyn bodloni gofynion AAS (y Rheoliadau AAS – Rheoliad 12 ac Atodlen 2(2)) mae angen nodi sut mae ardal y cynllun yn debygol o ddatblygu os na chaiff y cynllun ei roi ar waith. Mae nodi beth fyddai'r sefyllfa, o bosibl, heb y cynllun, h.y. y senario gweithredu yn ôl yr arfer, yn cynnwys gofyn sut y gallai polisïau, arferion a thueddiadau presennol newid yn y dyfodol os na cheir unrhyw ymyrraeth weithredol drwy'r CDLl. Dylid defnyddio'r sefyllfa gweithredu yn ôl yr arfer fel meincnod y gellir cymharu goblygiadau a pherfformiad opsiynau eraill yn ei erbyn. Fodd bynnag, os nad yw'n adlewyrchu'r dystiolaeth mwyach ac os nad yw'n opsiwn realistig mae'n rhaid nodi hyn yn glir mewn unrhyw ymgynghoriad.

6.2.1.4 Ceir pedair prif elfen lle y gellid ystyried amrywiadau ac opsiynau:

- Lefelau cyffredinol twf a newid y mae angen darparu ar eu cyfer.
- Dosbarthiad gofodol datblygiadau newydd (ardaloedd newid) a seilwaith.
- Polisi testun, a all gynnwys canllawiau rhifol (e.e. ar ddwysedd tai, lle y bo’n briodol), neu dargedau (e.e. ar greu ynni adnewyddadwy neu ddarparu cyfleusterau gwastraff).
- Polisi testun sy’n nodi egwyddorion ehangach a meini prawf ar gyfer datblygu, diogelu a lliniaru.

6.2.1.5 Dylai’r cam cyn-adneuo ddechrau drwy ganolbwyntio ar lefelau cyffredinol newid, a dosbarthiad gofodol datblygiadau newydd. Mae polisi testun yn debygol o ddeillio o ystyried y rhain.

6.2.1.6 Gallai nodi sawl **senario gofodol/cyfeiriad teithio** sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n dangos sut y gallai'r ardal ddatblygu'n realistig er mwyn cyflawni'r amcanion fod yn dechnegol ddadansoddol ddefnyddiol. Dylai’r rhain fod yn seiliedig ar ddyfarniadau technegol a pholisi sydd yn eu tro yn seiliedig ar yr amrywiaeth (ansoddol a meintiol) o egwyddorion sy’n ymwneud â thystiolaeth a pholisi a drafodwyd uchod. Gellid datblygu senarios gwahanol i gynnwys asesiad o:

- Linell sylfaen yr ardal, ei nodweddion amgylcheddol, amodau economaidd-gymdeithasol, a’r heriau a lefel a graddau’r twf a’r newid a ragwelir (gan gynnwys dim twf).
- Dosbarthiad gofodol y twf arfaethedig, a’r blaenoriaethau gofodol ar gyfer ardaloedd gwarchodaeth ac ardaloedd cadwraeth.
- Gofynion sy'n deillio o gynlluniau a strategaethau cenedlaethol/rhanbarthol.
- Asesiad o’r graddau y mae twf / newid a dystiwyd yn wahanol i’r senario “gweithredu yn ôl yr arfer” sy’n seiliedig ar dueddiadau, o ran lefel a chwantwm twf / newid a’i ddosbarthiad gofodol.
- Y “map llwybr” cyflawni bras o ymyriadau polisi a buddsoddiad sydd ei angen i gyflawni’r newid angenrheidiol.

- Asesiad lefel uchel o effeithiau negyddol a risgiau posibl, gan gynnwys sut y gellid eu lliniaru a'u rheoli.

6.2.1.7 Gallai'r senarios hyn fod ar ffurf disgrifiadau amgen o'r dyfodol. Er y dylent gael eu llywio gan dystiolaeth a rhagolygon perthnasol, gall y senarios fod yn ddisgrifiadol ac nid ydynt, o reidrwydd, yn seiliedig ar ragamcanion meintiol yn unig, e.e. manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd twf a thrwy ddull gweithredu dyheadol.

## 6.2.2 Lefelau twf/newid

6.2.2.1 Cyn nodi opsiynau, rhaid nodi'r galw eang am ddatblygiadau newydd yn yr ardal leol fel rhan o'r sail dystiolaeth (adran 5.4.2).

6.2.2.2 Mae amcanestyniadau rhifol o'r galw, yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael, yn fan cychwyn. Fel y nodir yn PCC mae'n rhaid i bob cynllun ddangos sut mae eu casgliadau yn ymwneud â'r amcanestyniadau diweddaraf a dangos drwy dystiolaeth sut maent yn cyd-fynd â'r amcanestyniadau diweddaraf neu'n gwyro oddi wrthynt. Yna mae angen eu mesur yn erbyn y weledigaeth ar gyfer yr ardal, tystiolaeth o unrhyw faterion sylweddol sy'n ymwneud ag adnoddau o fewn yr ardal, gan gynnwys tir ar gyfer tai a chyflogaeth, argaeledd tir y gellir ei ddatblygu, y potensial ar gyfer ailddatblygu, gofynion adfywio, seilwaith a chyfyngiadau amgylcheddol.

6.2.2.3 Rhaid i'r opsiynau twf oll fod yn bosibiliadau realistig sy'n ystyried polisïau cynllunio cenedlaethol, cynlluniau neu strategaethau cenedlaethol a strategol a dyheadau a materion sensitif lleol a fynegir drwy'r Cynllun Integredig Sengl (neu Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol lle y bo'n gymwys). Yn y rhan fwyaf o achosion mae'n debyg mai prin fydd yr opsiynau realistig ond bydd hyn yn dibynnu ar natur ardal yr ACLl, ei chymhlethdod a faint o le sydd i gynnwys senarios datblygu amgen. Mae opsiynau sy'n afrealistig, nad ydynt yn ymwneud â'r dystiolaeth, nad ydynt yn diwallu anghenion a nodwyd neu sy'n amlwg anghynaliadwy yn annhebygol iawn o fod yn gadarn. Gellir dwyn materion sy'n ymwneud ag ochr y galw a'r ochr gyflenwi ynghyd mewn nifer o ffyrdd er mwyn llunio nifer fach (2-4) o opsiynau twf/newid gwirioneddol.

6.2.2.4 Bydd opsiynau twf, sy'n adlewyrchu'r dystiolaeth yn briodol, yn dod o fewn ystod gul ond dylent gynnwys digon o ddarpariaeth wrth gefn fel y gall y cynllun ymateb i anghenion nas rhagwelwyd.

6.2.2.5 O dan amgylchiadau arbennig efallai y bydd yn bosibl cyfiawnhau dull 'yn seiliedig ar bolisi' o bennu maint y twf y darperir ar ei gyfer mewn cynllun ond bydd angen i'r achos fod yn glir iawn a dylai fod cysondeb rhwng gwahanol elfennau'r strategaeth.

6.2.2.6 Dylai'r cyfiawnhad dros ddewis lefel o dwf fod yn dryloyw ac yn rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer y cynllun. Bydd monitro gwybodaeth yn elfen bwysig o'r sail dystiolaeth hon, yn enwedig wrth i CDLlau gael eu hadolygu (gweler Pennod 9).

6.2.2.7 Er y bydd yn bwysig nodi gofynion rhifol dylai'r opsiynau hefyd gael eu mynegi yn nhermau cyfeiriad teithio cyffredinol y gellir ei ddefnyddio i ddisgrifio'r dewis strategaeth ac a fydd yn dal i fod yn ddilys hyd yn oed os bydd angen newid y ffigurau yn y dyfodol.

### 6.2.3 Dosbarthiad gofodol

6.2.3.1 Yna dylid ystyried goblygiadau gofodol pob un o'r senarios twf/newid realistig. Elfen ofodol y strategaeth fydd elfen tymor hwy allweddol y cynllun a dylai fod yn ddigon cadarn a hyblyg i ddarparu ar gyfer amrywiadau o ran pa mor gyflym y mae datblygiadau yn cael eu cyflawni fel y bydd yn parhau i fod yn ddilys yn y tymor hwy drwy sawl cylch economaidd. Ni ddylid llunio opsiynau gofodol er eu mwyn eu hunain. Pan fo mwy o gyfle i ystyried dewisiadau amgen gellir ystyried yr opsiynau ar ddwy raddfa, sef:

- Strategaethau gofodol amgen ar gyfer ardal yr awdurdod, e.e. crynhoad twf mewn trefi penodol ac o'u hamgylch o gymharu â gwasgariad twf.
- Safleoedd amgen o fewn ardaloedd newid.

6.2.3.2 Mae angen i opsiynau realistig fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth dda o ardal y cynllun. Drwy ddadansoddi a chyfuno'r sail dystiolaeth yn broffiliau ardal/astudiaethau o aneddiadau sicrheir sail dryloyw ar gyfer datblygu opsiynau strategol sy'n adlewyrchu anghenion, cyfyngiadau, argaeledd seilwaith, cyfleoedd datblygu, rôl economaidd/manwerthu aneddiadau, adfywio, y goblygiadau o ran trafnidiaeth/hygyrchedd, ac ati.

6.2.3.3 Mae angen nodi lleoliadau bras ar gyfer twf yn glir (e.e. preswyl, cyflogaeth a defnydd cymysg). Er y dylai deialog gychwynnol ddigwydd ar lefel strategol, ac er na ddylai geisio archwilio elfennau manwl safleoedd penodol fel arfer, mae'n bwysig bod goblygiadau cyffredinol opsiwn yn cael eu deall. Fel arfer, byddai'r gwaith o brofi opsiynau amgen ar gyfer safleoedd yn cael ei wneud fel rhan o'r fethodoleg asesu safle ar ôl dod i benderfyniad ar y dewis strategaeth gyffredinol a fabwysiedir (lefel a dosbarthiad twf). Fodd bynnag, pan fo'n glir bod opsiwn yn dibynnu'n llwyr ar un neu ddau safle strategol penodol, bydd yn bwysig ystyried eu rhinweddau ar yr adeg hon.

6.2.3.4 Ar gyfer ardaloedd gwledig yn bennaf, nid yw graddfa ofodol ardaloedd unigol newid yn debygol o fod yn sylweddol. Ar gyfer yr ardaloedd hyn efallai y bydd lle i ystyried opsiynau ar gyfer "strategaeth wledig" fwy cyffredinol. Gallai hon ystyried opsiynau ac egwyddorion polisi bras o ran materion megis tai fforddiadwy, dyraniadau graddfa pentref, rôl a datblygiad trefi marchnad, arallgyfeirio ar ffermydd, hierarchaeth aneddiadau a rolau mewn perthynas â darparu gwasanaethau, ac ati.

### 6.2.4 Ceisio consensws

6.2.4.1 Dylai'r dystiolaeth, barn rhanddeiliaid (sy'n seiliedig ar dystiolaeth) ac amcanion integredig lywio'r broses o nodi opsiynau. I ryw raddau bydd y broses hon yn golygu lleihau opsiynau, dileu'r rhai yr ystyrir eu bod yn llai realistig neu'n amhriodol o ran polisi lefel uwch.

6.2.4.2 Mae awdurdodau wedi arfer ag ymgynghori ar gynigion, ond mae'r system CDLlau yn ceisio cyfraniad cynharach a mwy ystyrlon ar y cam opsiynau fel y gellir deall goblygiadau camau gweithredu amgen.

6.2.4.3 Mae Rheoliad 14 yn ei gwneud yn ofynnol i gynnwys y 'cyrff ymgynghori penodol' priodol a 'chyrff ymgynghori cyffredinol' perthnasol yn y broses o benderfynu ar ddewis strategaeth. Disgrifir y ffurf ar drafodaeth strwythuredig a argymhellir gyda rhanddeiliaid allweddol, partneriaid a grwpiau cynrychioliadol â buddiant yn adran 4.4.

6.2.4.4 Dylai CCC yr awdurdod nodi ffyrdd o geisio deialog ac iddo ffocws gyda buddiannau o'r fath. Er enghraifft, efallai y bydd yn briodol cynnwys cynrychiolwyr o grwpiau mantell o gynghorau cymuned a buddiannau masnachol mewn cyfres o ddigwyddiadau lle y caiff y dystiolaeth ei chyflwyno a chaiff opsiynau amgen ar gyfer yr ardal eu datblygu (gweler hefyd adran 5.4); hefyd, gellid nodi'r defnydd o ddatganiadau o dir cyffredin (gweler adran 6.4.2.18).

## 6.3 Asesu Opsiynau

### 6.3.1 Integreiddio

6.3.1.1 Wrth benderfynu ar restr fer o'r opsiynau mwyaf realistig i'w datblygu mae'n bwysig cofnodi'r rhesymau dros ddiystyru'r rhai nad ydynt yn cael eu cario ymlaen. Er enghraifft, mae'r problemau sy'n gysylltiedig â chyflawni cynlluniau a nodwyd mewn trafodaethau cynnar â datblygwyr yn y sector preifat neu ddarparwyr seilwaith.

6.3.1.2 Yn y gorffennol mae opsiynau wedi'u hasesu ar wahân at ddibenion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r CDLl. Er y gallai hyn yn aml esgor ar ganlyniadau gwahanol roedd yn fodd o sicrhau y câi materion cynaliadwyedd eu hystyried wrth baratoi cynlluniau ac, pan oedd yn briodol, y câi mesurau lliniaru neu fesurau eraill eu hymgorffori yn y cynllun. Mewn llawer o achosion tueddai ymarfer asesu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd fod yn fwy strwythuredig ac, felly, yn fwy tryloyw na'r asesiad at ddibenion llunio cynlluniau.

6.3.1.3 Gan fod gofyniad statudol a pholisi cliriach i hyrwyddo datblygu cynaliadwy bellach, mae cyfle i fabwysiadu un broses asesu integredig. Os gwneir hyn bydd yn bwysig sicrhau bod y broses a ddilynir a'r amcanion integredig a fabwysiedir yn bodloni gofynion AAS yn briodol yn ogystal â chyflawni amcanion ehangach a bod y canlyniadau yn cael eu cofnodi (Pen.3).

### 6.3.2 Rhagfynegi effeithiau opsiynau'r CDLl

6.3.2.1 Diben y dasg hon yw rhagfynegi effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yr opsiynau sy'n cael eu hystyried ar gyfer eu cynnwys yn y CDLl.

6.3.2.2 Y brif dechneg yw rhagfynegi effeithiau cadarnhaol a negyddol pob opsiwn yn erbyn amcanion integredig y CDLl sy'n cynnwys meini prawf perthnasol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Wedyn gellir cymharu perfformiad pob opsiwn, gan ystyried, lle y bo angen, y senario "gweithredu yn ôl yr arfer", h.y. sut y byddai'r ardal yn newid o dan y cynllun datblygu presennol os na chaiff polisïau newydd eu cyflwyno. Ar gyfer yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, dim ond yr effeithiau CDLl hynny y bernir y byddant yn cael effaith "sylweddol" ar yr amgylchedd fel y'u diffinnir yn y Rheoliadau AAS y dylai asesiad ganolbwyntio arnynt.

Y meini prawf ar gyfer nodi pa mor sylweddol y mae effeithiau yn debygol o fod (o Atodlen I i'r Rheoliadau AAS)

- tebygolrwydd, hyd ac amlder yr effeithiau ac a ellir eu gwrthdroi
- natur gronnol yr effeithiau
- natur drawsffiniol yr effeithiau
- y risgiau i iechyd pobl neu'r amgylchedd (e.e. oherwydd damweiniau)
- maint a graddau gofodol yr effeithiau (yr ardal ddaearyddol a maint y boblogaeth y mae'n debygol yr effeithir arnynt)
- gwerth yr ardal y mae'n debygol yr effeithir arni a pha mor agored ydyw i niwed oherwydd:
    - nodweddion naturiol arbennig neu dreftadaeth ddiwylliannol,
    - safonau ansawdd amgylchedd neu werthoedd terfyn yr aed y tu hwnt iddynt, neu
    - ddefnydd dwys o dir
- yr effeithiau ar ardaloedd neu dirweddau â statws gwarchodaeth cenedlaethol neu ryngwladol gydnabyddedig neu statws gwarchodaeth a roddwyd iddynt gan y Gymuned Ewropeaidd

6.3.2.3 O ystyried natur fras cynigion y cynllun a'r ffaith ei bod yn anodd gwahanu achosion eraill yr effeithiau, mae'n debygol mai dull ansoddol o weithredu a fydd y mwyaf ystyrlon ar hyn o bryd. Gellir mynegi rhagfynegiadau ansoddol bras sy'n seiliedig ar farn broffesiynol mewn iaith sy'n hawdd ei deall, megis "gwella neu waethygu", neu goch / ambr / gwyrdd, neu ar raddfa o ++ (cadarnhaol iawn) i -- (negyddol iawn), fel y dangosir yn Ffigur 6.2.

6.3.2.4 Fodd bynnag, nid yw ansoddol yn golygu "wedi'i ddyfalu". Dylid croesgyfeirio rhagfynegiadau at unrhyw dystiolaeth sylfaenol, data arolygon, ymchwil ragamcanu, canfyddiadau grwpiau o arbenigwyr, trafodaethau neu waith ymgynghori, a wnaeth helpu'r rhai a gynhaliodd yr asesiad i ddod i'w casgliadau.

6.3.2.5 Ar gyfer rhai amcanion efallai y bydd yn bosibl mesur yr effeithiau posibl. Fodd bynnag, i'r graddau y bo'n bosibl, dylid cynnal cydbwysedd o ran lefel yr asesiadau a gynhelir ar draws amrywiaeth o faterion. Ni ddylai'r amcanion hynny lle y gallai fod angen gwneud rhywfaint o feintoli wyro'r canlyniadau cyffredinol.

6.3.2.6 Dylid cofnodi unrhyw ansicrwydd neu gyfyngiadau o ran yr wybodaeth sy'n sail i ragfynegiadau meintiol ac ansoddol, gan gynnwys tybiaethau ynghylch tueddiadau sylfaenol.

6.3.2.7 O'u defnyddio'n briodol, gall matricsau helpu i sicrhau bod yr asesiad yn systematig a chynhwysfawr gan sicrhau y caiff effeithiau synergaidd a chronnol eu hystyried. Fodd bynnag, gallant hefyd ymddangos yn ailadroddus, a gallant fod yn hir ac yn anodd i'w dilyn. Er mwyn dod i gasgliadau mae angen dwyn y matricsau ynghyd, eu cyfuno ac wedyn eu cyflwyno. Ar lefel strategol gellid mabwysiadu dull gweithredu thematig i roi syniad go dda o berfformiad amgylcheddol y cynllun yn gyffredinol. Lle y bo'n briodol gellid cynnal yr asesiad ar sail pynciau gan grwpio sawl polisi gyda'i gilydd. Gallai'r canlyniadau gael eu cofnodi gan ddefnyddio fformat naratif sy'n canolbwyntio ar y pwyntiau allweddol gyda gwaith manylach yn cael ei gyflwyno mewn atodiadau.

6.3.2.8 Rhoddir enghraifft o asesiad traddodiadol o opsiynau yn Ffigur 6.2.

**Ffigur 6.2: Tabl enghreifftiol ar gyfer asesiad o opsiynau yn erbyn amcanion integredig y CDLl/Arfarniad o Gynaliadwyedd**

| Amcan | Opsiwn A – Datblygu ar Safle MOD, ar gyrion gogleddol y brif dref farchnad | | Opsiwn B – Datblygiad cyfartal o fewn tri phrif dref, gan flaenoriaethu tir llwyd | |
|---|---|---|---|---|
| | Perfformiad | Sylwebaeth/ eglurhad | Perfformiad | Sylwebaeth/ eglurhad |
| Amcan 1 – Cynnal a gwella ansawdd tirweddau a threfluniau | - | Gallai effaith weledol hirdymor parhaol y datblygiad, a newid yng nghymeriad y dref (e.e. lleoliad) fod yn sylweddol. Gallai dynodi ardal mor fawr o dir ar gyfer datblygiad olygu y byddai datblygu safleoedd tir llwyd eraill yn y dref yn dod yn anos. | ++ | Dros y tymor canolig byddai'n sicrhau bod safleoedd segur a diraddiedig, sydd ar hyn o bryd yn weledol hyll ar draws y tair tref, yn cael eu defnyddio unwaith eto. |
| Amcan 2 - Lleihau'r angen i deithio. | + | Yn yr hirdymor bydd maint y datblygiad yn | + | Gan fod safleoedd tir llwyd wedi'u |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | cynnal cyfleusterau lleol newydd a gwell gwasanaeth bysiau i ganol y dref. Yn agos at gyfleoedd cyflogaeth sy'n bodoli eisoes. | | lleoli'n ganolog, dylai alluogi datblygu a fyddai'n annog cerdded a seiclo, a llai o ddibyniaeth ar y car. |
| ac ati. | | | | |
| Allwedd ar gyfer perfformiad: + cadarnhaol – negyddol O niwtral ? ansicr +/– bach ++-- mawr. Gellid hefyd gwahaniaethu rhwng byrdymor, tymor canolig a hirdymor, lle y bo'n briodol. | | | | |

6.3.2.9 Yn yr enghraifft hon, bydd gradd perfformiad opsiwn penodol wedi ei seilio ar y math o asesiad a gofnodir yn y golofn Sylwadau. Dylai ystyried:

- Hyd yr effeithiau, h.y. p'un a ydynt yn fyrdymor, yn dymor canolig neu'n hirdymor, yn barhaol neu dros dro, e.e. gall seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus (neu brinder hwnnw) arwain at effeithiau niweidiol difrifol yn y byrdymor, ond rhai buddiol yn yr hirdymor.
- Ar bwy yr effeithir, h.y. y goblygiadau ar gyfer grwpiau gwahanol o bobl, e.e. preswylwyr gwledig a threfol; ifanc a hen; lleiafrifoedd ethnig; y rhai ag anableddau; pobl â cheir a'r rhai nad oes ganddynt geir; y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol.

6.3.2.10 Dylai'r ymarfer hwn o ragfynegi effeithiau hefyd egluro beth yn union a gynigir, a sut y mae'r opsiynau yn wahanol i'w gilydd, a/neu eu cydberthynas â'r cynllun cyfan. Gall hefyd arwain at drafodaeth ynghylch sut y gellid lleihau ansicrwydd, e.e. o ran y dulliau gweithredu y gallai'r cynllun eu cynnwys. Dylai'r dull hwn fel arfer gynnwys asesiadau effaith perthnasol ar lefel strategol.

6.3.2.11 Y canllawiau perthnasol ar gyfer rhagweld effeithiau opsiynau yw:

- Pan ddefnyddir symbolau neu ddulliau eraill o gyflwyno gwybodaeth, dylid bob amser egluro a chyfiawnhau'r dewis o symbol gan gyfeirio at y llinell sylfaen sy'n berthnasol i'r amcan hwnnw.
- Canolbwyntio ar effeithiau'r opsiwn yn hytrach na ffactorau eraill a allai ddylanwadu ar gyflawni'r amcan.
- Ystyried p'un a yw'r effaith yn debygol o fod yn barhaol neu dros dro, a'r cyfnod o amser tebygol y caiff yr effaith ei arsylwi ynddo; (e.e. tirlunio datblygiad newydd dros amser).
- Ategu rhagfynegiadau ansoddol gyda data lle y bo'n bosibl ond osgoi defnyddio mesuriadau annilys nad ydynt yn seiliedig ar dystiolaeth.

- Ystyried p’un a allai unrhyw opsiynau symud problemau sy’n gysylltiedig â chynaliadwyedd neu broblemau eraill i ardaloedd eraill.
- Cofnodi’n glir lle y mae’r asesiad yn cynnwys ystyried natur ddiamddiffyn, risg ac ansicrwydd.

6.3.2.12 Dylai’r dasg hon hefyd gynnwys cydnabod y potensial ar gyfer unrhyw effeithiau cronnol. Ymhlith yr effeithiau cronnol, fel y’u defnyddir yma, mae unrhyw effeithiau eilaidd a synergaidd. Ymhlith yr enghreifftiau o effeithiau o’r fath mae newidiadau yn y dirwedd, colli llonyddwch, dirywiad economaidd a newid yn yr hinsawdd. Mae’n anodd iawn ymdrin â’r effeithiau hyn ar sail prosiect-wrth-brosiect drwy Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol (AEA). Ar lefel strategol y cânt eu nodi ac yr eir i’r afael â hwy yn y ffordd fwyaf effeithiol.

6.3.2.13 Nodir enghreifftiau o’r tri math o effaith anuniongyrchol hyn isod:

**Eilaidd** - cynnig cynllun a fyddai’n hwyluso neu’n denu datblygiadau eraill, neu gynnig a fyddai’n newid lefel trwythiad ac felly’n effeithio ar ecoleg gwlypdir cyfagos.

**Cronnol** - cynigion cynllun a allai, ar eu pen eu hunain, ond gael effaith ansylweddol ond a fyddai, gyda’i gilydd, yn cael effaith sylweddol, e.e. sawl dyraniad tai bach a allai, gyda’i gilydd, effeithio ar gymeriad pentref; neu lle y gallai effeithiau cyfunol cynnig fod yn sylweddol, e.e. gweledol, traffig a sŵn.

**Synergaidd** - cynigion cynllun a allai ryngweithio i gynhyrchu cyfanswm effaith sy’n fwy na chyfanswm rhannau unigol. Er enghraifft pan fo cynigion ar gyfer trafnidiaeth, tai a chyflogaeth yn cyfuno i greu cymuned fwy cynaliadwy. Fel arall, mewn termau andwyol, lle y mae cynefin bywyd gwyllt yn dod yn fwy darniog nes y gallai cynnig terfynol wneud yr ardal yn rhy fach i gartrefu’r rhywogaethau o gwbl.

6.3.2.14 Dylid ystyried effeithiau cronnol posibl drwy broses asesu cam paratoi'r cynllun.

## 6.3.3 Gwerthuso effeithiau opsiynau'r CDLlau

6.3.3.1 Mae’r dasg hon yn gofyn am werthuso arwyddocâd yr effeithiau a ragfynegwyd uchod. Er mwyn llywio dyfarniadau o’r fath, dylai ACLlau ystyried tebygolrwydd, hyd ac amlder yr effeithiau, ynghyd â’r gallu i’w gwrthdroi, gan gynnwys effeithiau eilaidd, cronnol a synergaidd. Dylid hefyd ystyried maint a graddau gofodol yr effeithiau (ardal ddaearyddol a maint y boblogaeth y mae’n debygol yr effeithir arnynt). Gall gwerth a natur ddiamddiffyn ardaloedd a phoblogaeth benodol hefyd ddylanwadu ar yr arfarniad, yn enwedig lle y gellir rhagori ar drothwyon neu safonau.

6.3.3.2 Dylai arwyddocâd yr effeithiau:

- Gael ei bennu’n unigol ymhob achos - nid yw effeithiau sy’n arwyddocaol mewn un sefyllfa o reidrwydd yn arwyddocaol mewn un arall.
- Bod yn gymesur, h.y. yn neilltuo amser ac ymdrech resymol mewn perthynas â difrifoldeb disgwyliedig yr effaith.

- Cael ei gynnal mewn modd hyblyg, gan ddefnyddio meini prawf fel canllawiau nid rheolau.
- Osgoi cywirdeb annilys na fydd yn arwain at gynnydd mewn gwrthrychedd.

## 6.3.4 Ystyried ffyrdd o liniaru effeithiau niweidiol a sicrhau'r effeithiau mwyaf buddiol posibl

6.3.4.1 Mae’r dasg hon yn gofyn am ystyried mesurau lliniaru, h.y. p’un a oes unrhyw fesurau i atal, lleihau neu wrthbwyso effeithiau niweidiol sylweddol gweithredu’r CDLl. Mae hyn yn cynnwys cymryd camau i osgoi effeithiau niweidiol yn ogystal â’r camau a gymerir ar ôl sylwi ar effeithiau, o bosibl. Gall mesurau lliniaru hefyd gynnwys argymhellion ar gyfer gwella effeithiau buddiol.

6.3.4.2 Gall y broses liniaru gael ei chynnal ar amryw ffurf, gan gynnwys:

- Newidiadau i’r CDLl cyfan, gan gynnwys cyflwyno opsiynau newydd.
- Mireinio polisïau er mwyn gwella’r tebygolrwydd o effeithiau buddiol a lleihau effeithiau niweidiol, e.e. drwy gryfhau meini prawf polisïau (sydd fwyaf perthnasol i gam paratoi’r CDLl).
- Mesurau technegol i’w cymhwyso yn ystod y cam gweithredu, e.e. clustogfeydd, cymhwyso egwyddorion dylunio, cyfnewid neu wrthbwyso.
- Y gofynion neu'r cylch gorchwyl ar gyfer Asesiadau o’r Effaith Amgylcheddol sy'n ategu ceisiadau cynllunio.
- Cynigion ar gyfer newid cynlluniau a rhaglenni eraill.

6.3.4.3 Mae’r diagram canlynol yn rhoi eglurhad llawnach o’r materion i’w hystyried yn ystod y broses o werthuso opsiynau. Dylai defnyddio’r siart llif hwn ar gyfer pob opsiwn sicrhau bod y broses o ragfynegi, asesu a lliniaru yn gysylltiedig a bod amrywiaeth llawn o fesurau lliniaru yn cael eu hystyried a'u cofnodi.

6.3.4.4 Yn sgil y gwerthusiad hwn, gellir crynhoi perfformiad pob opsiwn yn erbyn yr amcanion integredig sy'n cwmpasu materion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd.

6.3.4.5 Dylai fod yn glir wedyn sut mae’r dewis strategaeth yn perfformio, a pham y gwrthodwyd rhai opsiynau. Dylid ymgorffori’r cofnod o’r gwaith hwn yn y papurau cefndir sy'n ategu'r cynllun a chyfeirio'n glir ato yn adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, gweler adran 6.4.4 isod. Gall y gwaith hwn lywio argymhellion ar newidiadau i’r dewis strategaeth.

**Ffigur 6.3: Fframwaith ar gyfer arfarnu effeithiau opsiwn mewn cynllun**

Pa fath o effaith a gaiff yr opsiwn, y polisi neu'r cynnig ar yr amcan hwn yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor? Ystyriwch effeithiau eilaidd, cronnol a synergaidd yn ogystal ag effeithiau uniongyrchol. Os bydd gennych amheuon, byddwch yn ofalus neu ceisiwch ragor o wybodaeth er mwyn lleihau'r ansicrwydd.

**Negyddol** →

A ellir lliniaru'r effaith? Yn arbennig os yw'r amcan yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn bwysig, os yw'r derbynnydd yn sensitif neu os na ellir gwrthdroi'r effaith, os nad yw'n amnewidiadwy neu os yw'n gronnol sylweddol?

- na → **Ystyriwch ddileu neu ddiwygio'r cynllun neu opsiynau'r cynllun**
- gellir → **Lliniarwch y cynllun neu opsiwn yn y cynllun yn unol â hynny a chofnodwch y newid hwn.**

**Cadarnhaol neu niwtral** →

A ellir cynyddu'r effeithiau?

- gellir → **Lliniarwch y cynllun neu opsiwn yn y cynllun yn unol â hynny a chofnodwch y newid hwn.**
- na → **Dim newid**

**Lliniarwch y cynllun neu opsiwn yn y cynllun yn unol â hynny a chofnodwch y newid hwn.**
Gallai mesurau lliniaru gynnwys y canlynol:

- Newidiadau i eiriad y cynllun neu opsiwn yn y cynllun;
- Dileu opsiynau'r cynllun sy'n anghynaliadwy neu nad ydynt yn hyrwyddo yr Arfarniad o Gynaliadwyedd / amcanion integredig;
- Ychwanegu opsiynau newydd at y cynllun;
- Llunio opsiynau newydd, cyfuniad o'r agweddau gorau ar opsiynau sy'n bodoli eisoes o bosibl; neu
- Nodi materion i'w hystyried mewn Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer datblygiadau penodol.

**Aneglur** →

Pa wybodaeth bellach sydd ei hangen er mwyn egluro'r effaith?

→ **Cadarnhewch a oes rhagor o wybodaeth sylfaenol ar gael yn hawdd neu a ellir trefnu ei bod ar gael cyn ailystyried y cwestiwn hwn**
Dylai Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd drafod 'unrhyw anawsterau (megis diffygion technegol neu ddiffyg gwybodaeth ymarferol) a wynebwyd wrth gasglu'r wybodaeth ofynnol'. (Atodiad I(h) i'r Gyfarwyddeb AAS) Gallai enghreifftiau o ansicrwydd gynnwys achosion lle nad yw'n glir sut y gallai datblygiad edrych ar lawr gwlad, pa wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a allai fod ar gael yn y dyfodol, neu pa dechnolegau rheoli llygredd a allai fod ar gael yn y dyfodol. Mae nodi'r lefel o sicrwydd sy'n gysylltiedig â'r effeithiau a ragfynegir, yn y golofn 'sylwadau/eglurhad' yn Ffigur 6.2, yn un ffordd o ymdrin ag ansicrwydd.

**Dibynnu ar weithredu** →

Beth fyddai angen ei wneud er mwyn sicrhau'r effaith gywir?

→ **Gweithredu er mwyn sicrhau'r effaith gywir.**
Bydd effaith y cynllun neu opsiynau'r cynllun yn aml yn dibynnu ar y ffordd y caiff y cynllun ei weithredu, felly ni fydd yn bosibl rhagfynegi'r effeithiau gyda sicrwydd.
Er mwyn lleihau'r math hwn o ansicrwydd – ac fel mesur lliniaru – dylai tîm yr Arfarniad o Gynaliadwyedd anelu at roi mesurau ar waith er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â'r mater yn briodol wrth weithredu'r cynllun.

### 6.3.5 Cynnig mesurau i fonitro effeithiau sylweddol gweithredu’r CDLl

6.3.5.1 Mae cyflawni gwaith monitro yn ei gwneud yn bosibl i brofi effeithiau sylweddol gwirioneddol gweithredu’r CDLl yn erbyn y rhai a nodir mewn tystiolaeth sylfaenol ac a ragfynegir yn yr asesiad o'r cynllun. Felly, mae’n helpu i sicrhau y gellir nodi problemau sy’n codi yn ystod y broses weithredu a llunio rhagfynegiadau mwy cywir ar gyfer y dyfodol. Gellir hefyd ei ddefnyddio i gasglu gwybodaeth a thystiolaeth sylfaenol at ddibenion adolygu'r CDLl yn y dyfodol. Gellir casglu gwybodaeth a dangosyddion ynghyd o ffynonellau presennol ar lefel genedlaethol, lefel ranbarthol a lefel isranbarthol er mwyn osgoi unrhyw ddyblygu diangen.

6.3.5.2 Dylid ystyried beth i’w fonitro a sut i’w wneud yn gynnar yn y broses o gynnal yr asesiad. Dylid cynnwys cynigion monitro cychwynnol yn adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, gweler adran 6.4.4 isod. Rhoddir rhagor o wybodaeth am sefydlu system fonitro ym Mhennod 9 isod.

## 6.4 Paratoi Dogfennau Cynigion Cyn-Adneuo

### 6.4.1 Negeseuon allweddol

6.4.1.1 Dylai dogfennau cynigion cyn-adneuo'r awdurdod (Rheoliad 15) gynnwys y weledigaeth, yr opsiynau gofodol strategol a ystyriwyd, y dewis strategaeth ofodol, polisïau allweddol, adroddiad yr arfarniad cychwynnol o gynaliadwyedd, y gofrestr o ddarpar safleoedd ac Adroddiad yr Adolygiad. Dylent hefyd drafod y goblygiadau ar gyfer datblygiadau yn sgil gweithredu’r strategaeth hon, gan gynnwys faint o dwf a ragwelir mewn lleoliadau penodol ac unrhyw safleoedd mawr y mae’r strategaeth yn dibynnu arnynt. Dylai'r ddogfennaeth hon gynnwys gwybodaeth gefndir allweddol (e.e. am yr angen am dai) y dylid ei chynhyrchu gyda chyfranogiad rhanddeiliaid, er mwyn helpu i hwyluso'r gwaith o lunio cynllun cadarn.

6.4.1.2 Nid oes angen drafft llawn o'r CDLl ond dyma'r prif gyfle i gyfranogi yn ystod y broses o lunio'r cynllun, sy'n galluogi'r awdurdod i gael adborth gan randdeiliaid er mwyn iddynt ymateb drwy fireinio cynigion ar gyfer y cynllun adneuo. Drwy gynnwys y polisïau allweddol sy'n hanfodol i weithredu'r cynllun bydd rhanddeiliaid yn gallu deall yr hyn a fwriedir a rhoi adborth gwerthfawr i'r awdurdod. Dylai'r gallu i fireinio polisïau ar gyfer y cynllun ar y cam adneuo olygu llai o wrthwynebiadau i gynnwys polisïau ar y cam hwnnw a llai o newidiadau penodol. Mae cam Rheoliad 15 yn gyfle i gymunedau a rhanddeiliaid ddylanwadu ar y dewis strategaeth a chynigion allweddol drwy awgrymu diwygiadau neu ddewisiadau amgen sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n amcanion a gweledigaeth y CDLl. **Yn dilyn y cam hwn, prin iawn yw'r cyfleoedd i'r ACLl newid y Cynllun Adneuo cyn ei gyflwyno mewn ymateb i sylwadau ffurfiol.**

6.4.1.3 Wrth baratoi Dogfennau Cynigion y Dewis Strategaeth bydd angen i ACLlau sicrhau y rhoddir digon o sylw i faterion **strategol** fel bod modd nodi pryderon ar y lefel hon a cheisio creu consensws ynglŷn â'r strategaeth gyffredinol, lefel y twf a phrif leoliadau newid ar gyfer y CDLl.

6.4.1.4 Er mwyn cael adborth gan randdeiliaid y gellir ei ddefnyddio i lywio'r cynllun adneuo bydd angen i'r ACLl geisio sylwadau ar ddarpar safleoedd realistig yn ystod cam Rheoliad 15. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r ACLl sicrhau cydbwysedd rhwng cael adborth ar yr adeg orau er mwyn i'r awdurdod ymateb a sicrhau bod rhanddeiliaid yn rhoi digon o sylw i'r materion ar lefel strategol.

6.4.1.5 Bydd angen i ACLlau ystyried y lefel fwyaf priodol o fanylder ar gyfer gwybodaeth am **gynigion sy'n benodol i safle**. Bydd prinder manylion yn golygu na fydd gan randdeiliaid na'r gymuned wybodaeth hanfodol, gan amharu ar ddefnyddioldeb yr ymarfer. Bydd cynnwys gwybodaeth am safleoedd a pholisïau yn ychwanegu at yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen i baratoi ar gyfer y cam hwn ac ystyried ac ymateb i sylwadau. Fodd bynnag, mae angen gwneud y gwaith hwn rywbryd ac os na chaiff yr wybodaeth hon ei chynnwys tan yn ddiweddarach ar y Cam Adneuo, bydd yn rhy hwyr i'r gymuned leol a rhanddeiliaid eraill ddylanwadu ar y cynllun ac i'r Awdurdod gynnal deialog adeiladol. Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn ystyried bod hwn yn ddull effeithiol o baratoi CDLl.

6.4.1.6 Gall cynnal ffocws strategol gynnwys pennu **throthwy o ran maint safle** sy'n briodol i'r ardal ac islaw'r trothwy hwnnw ni ellir ystyried safleoedd llai o faint fesul un na'u dyrannu yn y cynllun. Fodd bynnag, bydd angen i'r awdurdod fod yn ymwybodol o botensial datblygu cyffredinol safleoedd llai o faint nas dyrannwyd a gallu dangos y potensial hwnnw. At hynny, gallai fod achosion lle mae angen nodi effaith gronnol nifer o safleoedd bach ar gymeriad anheddiad.

6.4.1.7 Dylai awdurdodau ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd ar gam y darpar safleoedd (gweler 5.3.4) i lunio rhestr dryloyw o safleoedd canolig/mawr yr ystyria ei bod yn briodol eu dyrannu er mwyn cyflawni'r strategaeth. At hynny, dylai baratoi a chyhoeddi rhestr atodol o safleoedd wrth gefn allweddol y mae o'r farn y gellid eu rhoi yn lle darpar safleoedd fel dewisiadau amgen neu eu hychwanegu at y rhestr pe bai angen.

6.4.1.8 Dylai CDLlau fod yn strategol, ni ddisgwylir iddynt nodi dyraniadau safle bach na chynnwys polisïau ar gyfer popeth a allai ddigwydd ond dylai Dogfennau Cynigion y Dewis Strategaeth gynnwys gwybodaeth am yr egwyddorion polisi a'r meini prawf bras y bwriedir eu cymhwyso at y safleoedd llai o faint neu'r safleoedd anstrategol, a nodi safleoedd ar y gofrestr a fyddai'n bodloni'r meini prawf hyn.

6.4.1.9 Pan fo'r cynllun yn dibynnu ar gyfraniad cronnol safleoedd bach i ddiwallu anghenion a nodwyd dylai fod tystiolaeth gadarn i ategu'r honiad y bydd cyfleoedd datblygu yn parhau i gael eu darparu fel hyn.

6.4.1.10 Dylid cofnodi sylwadau ynghylch darpar safleoedd fel y gellir eu darparu ar y cam adneuo er mwyn i bartïon eraill allu cyflwyno unrhyw wrthymatebion.

### 6.4.2 Y Dewis Strategaeth

6.4.2.1 Yn y pen draw, cyfrifoldeb y rhai sy'n llunio cynlluniau yw nodi dewis opsiwn strategol, gan ystyried yr holl dystiolaeth (gan gynnwys barn rhanddeiliaid a'r arfarniad o opsiynau drwy'r asesiad integredig).

6.4.2.2 Mae'n rhaid i'r strategaeth ofodol adlewyrchu'r sail dystiolaeth a'r cyd-destun rhanbarthol er mwyn diwallu anghenion ehangach yr ardal mewn modd cynaliadwy. Dylai nodi'r cyfeiriad teithio bwriadedig yn y tymor hwy a bod yn ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer amrywiadau o ran anghenion a'r cylch economaidd. Dylai'r strategaeth gael ei mynegi mewn ffordd y gellir ei chario ymlaen yn y dyfodol os ystyrir ei bod yn briodol o hyd. Dylid ei chyflwyno ar ffurf crynodeb disgrifiadol byr o'r ymagwedd gyffredinol tuag at raddau'r newid a ragwelir a dosbarthiad gofodol y gwaith datblygu a gynigir. Gellid ei darlunio gan ddefnyddio diagram allweddol. Dylai polisi strategol nodi'n glir y disgwylir i unrhyw waith datblygu gyd-fynd â strategaeth y cynllun.

6.4.2.3 Er mwyn sicrhau bod datblygu’r dewis strategaeth yn bodloni profion cadernid, dylai’r ACLl sicrhau bod y sail dystiolaeth yn ategu'r dewis strategaeth yn glir a hefyd gymhwyso’r profion perthnasol fel hunanasesiad. Dylai trafod yr hunanasesiad hwn gyda Llywodraeth Cymru cyn cynnal ymgynghoriad ffurfiol o dan Reoliad 15 CDLl sicrhau bod unrhyw faterion yn cael eu nodi cyn i’r ACLl benderfynu'n derfynol ar y dewis strategaeth derfynol a'r cynigion allweddol er mwyn ymgynghori yn eu cylch.

6.4.2.4 Dylai CDLlau fod yn strategol eu cwmpas gan ymdrin â'r mathau pwysicaf o ddefnydd tir ac, felly, fel arfer disgwylir iddynt ddarparu ar gyfer tai, cyflogaeth a defnyddiau manwerthu. Bydd angen iddynt nodi ardaloedd lle y gellir cyfiawnhau cyfyngiadau ar ddatblygu neu lle y gall fod angen mesurau lliniaru. Gan ddibynnu ar amgylchiadau lleol bydd angen cynnwys mathau eraill o waith datblygu neu ddefnydd tir mewn cynllun, fel y nodir yn PCC.

6.4.2.5 Pan fydd anghenion defnydd tir swyddogaeth benodol wedi'u cyfleu'n glir ar y cam casglu tystiolaeth dylai cynlluniau geisio wneud darpariaeth briodol. Fodd bynnag, nid swyddogaeth y CDLl yw darparu tystiolaeth o angen a'r gofynion safle ar gyfer pob math o ddefnydd tir. Yr asiantaeth, yr adran neu'r fenter berthnasol sy'n gyfrifol am wneud hyn a disgwylir iddi gyflwyno tystiolaeth gadarn yn gynnar yn ystod y broses o lunio'r cynllun. Ni ellir gohirio'r broses o baratoi'r cynllun.

6.4.2.6 Gellid ystyried themâu datblygu cynaliadwy megis y rhai a ddefnyddir yng Nghynllun Gofodol Cymru wrth ddrafftio'r CDLl:

- Adeiladu cymunedau cynaliadwy.
- Hyrwyddo economi gynaliadwy.
- Gwerthfawrogi ein hamgylchedd.
- Cyflawni hygyrchedd cynaliadwy.
- Parchu natur unigryw Cymru.

6.4.2.7 Dylid hefyd ystyried themâu perthnasol o strategaethau eraill Llywodraeth Cymru neu strategaethau rhanbarthol eraill neu o PCC.

6.4.2.8 Bydd gweithredu’r CDLl, i raddau helaeth, yn dibynnu ar gamau gweithredu eraill. Ni all CDLl ar ei ben ei hun sicrhau y bydd datblygiad yn mynd rhagddo. Fodd bynnag, mae'n sicrhau bod cyfleoedd ar gael i hynny ddigwydd a bod gobaith

realistig y bydd y cyfleoedd hyn yn sicrhau elw priodol ar fuddsoddiad. Un o ddibenion ennyn consensws rhanddeiliaid yw sicrhau ymrwymiad eang i'r strategaeth gan y sefydliadau a'r grwpiau y bydd angen cyflawni'r strategaeth drwyddynt.

6.4.2.9 Er mwyn bodloni profion cadernid (adran 8.2.1) mae'n rhaid i ACLlau allu dangos, yn fras, y gellir cyflawni'r cynllun ac nad oes unrhyw rwystrau sylweddol i'w weithredu.

6.4.2.10 Mae gan y ffocws hwn ar gyflawni oblygiadau pwysig o ran cynnwys cynlluniau a'r modd y cânt eu llunio. Ni ddylai eu cyflawni fod yn ôl-ystyriaeth ond mae angen ei ystyried drwy gydol y broses o lunio CDLl.

6.4.2.11 Un o rolau pwysig y cam casglu tystiolaeth yw ystyried realiti'r farchnad a dichonoldeb. Wrth brofi opsiynau a dethol y dewis strategaeth, mae'n rhaid ystyried hefyd ofynion seilwaith, faint o adnoddau sector cyhoeddus sy'n debygol o fod ar gael a'r potensial i ddenu cyfraniadau preifat heb effeithio ar ddichonoldeb datblygiadau. Gweler PCC adran 3.7 ynghylch rhwymedigaethau cynllunio a'r Ardoll Seilwaith Cymunedol.

6.4.2.12 Ar raddfa llunio cynllun ni ddisgwylir i ACLlau allu darparu tystiolaeth ar gyfer pob safle bach neu fân fater ac ni fyddant yn gallu rhagweld newidiadau mawr yn y farchnad ychwaith. Serch hynny, mae'n rhaid iddynt allu dangos bod cynlluniau yn debygol o barhau i fod yn ddichonadwy ar ôl cymhwyso holl bolisïau perthnasol y cynllun megis tai fforddiadwy, mannau agored, gwaith ar briffyrdd ac ati, yn ogystal â bodloni gofynion eraill, e.e. newidiadau yn yr Ardoll Seilwaith Cymunedol. Bydd hyn yn cynnwys cadarnhau argaeledd seilwaith perthnasol a'r goblygiadau o ran cyflawni, amserlennu a dichonoldeb safleoedd.[14]

6.4.2.13 Mae'n rhaid i ddisgwyliadau o ran gwerthoedd tir gydnabod mai'r gofyniad cynllunio sylfaenol yw darparu datblygiadau cynaliadwy ac mai ar y sail hon y caiff dichonoldeb a gwerthoedd eu hasesu.

6.4.2.14 Yn yr un modd, dylai'r sail dystiolaeth gynnwys asesiad cyffredinol o'r gallu i farchnata'r math o ddatblygiad sy'n cael ei gynnig a pha mor debygol ydyw y caiff ei gyflawni yn ystod cyfnod y cynllun. Ni ddylai CDLlau ddyrannu tir ar gyfer defnydd lle nad oes unrhyw farchnad i gyflwyno datblygiadau nac unrhyw ffordd o wneud hynny. Er enghraifft, dylai'r ACLl allu dangos bod budd masnachol ynghlwm wrth gyflwyno a datblygu safleoedd yn yr ardal neu fod dull arall ar gael. Ni ddylid dyrannu safleoedd os nad oes unrhyw obaith y cânt eu datblygu. Wrth gyhoeddi'r cais ar gyfer enwebu darpar safleoedd a llunio'r gofrestr o ddarpar safleoedd, bydd ACLlau wedi ceisio gwybodaeth gan y cynigwyr am argaeledd y safle, ar ba sail y mae'n cael ei gynnig e.e. faint o seilwaith y mae'r datblygwr yn rhagweld y bydd yn ei ddarparu a chadarnhad eu bod yn ymwybodol o gostau unrhyw ofynion lliniaru a osodir ar y datblygiad a'u bod wedi cynnwys y costau hynny yn eu cyfrifiadau.

---

[14] Dwy ffynhonnell ddefnyddiol o ganllawiau ar ddichonoldeb, sydd ar gael ar wefan PAS www.pas.gov.uk/viability), yw:

- Adroddiad Harman: "Viability Testing Local Plans: Advice for planning practitioners" 2012.
- Financial viability in planning guidance (RICS, Hydref 2012)

6.4.2.15 Pan gynigir safleoedd strategol dylid ceisio rhagor o wybodaeth am y ffordd y caiff y safle ei ddatblygu fesul cam a/neu ei rannu er mwyn galluogi nifer o ddatblygwyr i fanteisio ar y cyfle i adeiladu yn yr ardal. Dylid cofnodi'r manylion a'u cynnwys mewn datganiad cyflawni neu CCAauau safle-benodol sy'n ategu'r cynllun fel bod cydsyniadau a rhwymedigaethau cynllunio yn adlewyrchu'r bwriadau.

6.4.2.16 Dylid llunio datganiad cyflawni, taflwybr tai neu ddogfen gyfatebol sy'n ymdrin â'r prif ddyraniadau safle, y gofynion cynllunio, unrhyw gyfyngiadau a'r ffordd y gellir eu goresgyn, darpariaethau o ran cyflawni datblygiadau fesul cam, statws wrth gefn, ac ati. Mae'n well ei gyflwyno fel dogfen gefndir ategol yn hytrach nag fel rhan o'r cynllun fel y gellir ei adolygu a'i ddiweddaru. Dylai ACLlau geisio mewnbwn gan randdeiliaid a cheisio nodi tir cyffredin wrth ddatblygu'r datganiadau hyn. Yn ddelfrydol, dylai ACLlau gydgysylltu a chytuno'n rhanbarthol ar y fformat er mwyn sicrhau cysondeb a thryloywder. Mae'n bwysig gallu dangos y bydd yr amrywiaeth a'r math o safleoedd a ddyrennir yn y cynllun yn darparu cyflenwad pum mlynedd o dai ar adeg ei fabwysiadu a thrwy gydol cyfnod y cynllun.

6.4.2.17 Dylai ACLlau gydgysylltu â darparwyr seilwaith yn gynnar yn ystod y broses o lunio'r cynllun er mwyn asesu'r lleoliadau hynny sydd â chapasiti dros ben neu lle y ceir cyfyngiadau sylweddol y byddai'n rhaid eu goresgyn. Bydd gwneud y defnydd gorau o seilwaith sy'n bodoli eisoes yn ffactor pwysig wrth benderfynu ar leoliadau. Lle mae seilwaith yn ffactor sy'n cyfyngu gryn dipyn ar waith datblygu mewn anheddiad penodol dylai'r ACLl asesu a fyddai'n ymarferol goresgyn y broblem drwy gyfraniadau datblygwyr gan gadw mewn cof y cyfyngiadau y mae'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn eu gosod ar gyfraniadau wedi'u cyfuno. Os na fydd hyn yn bosibl ac y byddai'r gwaith yn cynnwys ymrwymiad cyllidebol yn rhaglen darparwr seilwaith ar gyfer y dyfodol dylai'r ACLl asesu pa mor debygol ydyw y bydd yr arian hwnnw ar gael. Dim ond os gellir cadarnhau penderfyniad yn gynnar yn ystod cyfnod y cynllun y dylid dyrannu safleoedd o'r fath fel y gall gwaith datblygu fynd rhagddo neu er mwyn sicrhau bod amser i roi safleoedd wrth gefn a nodwyd yn eu lle. Os bydd arian/darpariaeth yn annhebygol o gael ei gadarnhau/chadarnhau yn gynnar dylai strategaeth y cynllun ystyried safleoedd neu leoliadau eraill lle mae mwy o sicrwydd. Dylai ACLlau ystyried datblygu amserlen seilwaith fyw ar gyfer ardal y cynllun fel dogfen gefndir y gellir ei diweddaru'n rheolaidd.

6.4.2.18 Gall cytuno gyda darparwyr seilwaith allweddol ar ‘ddatganiad o dir cyffredin’ y gellir ei fireinio wrth i waith ar y cynllun fynd rhagddo fod yn ffordd ddefnyddiol o ddangos ymrwymiad a bod modd ei gyflawni.

6.4.2.19 Ni ddylai ACLlau rhoi rhestrau hir o ddarpar safleoedd i ddarparwyr seilwaith ac ymgyngoreion eraill gyflwyno sylwadau arnynt. Dylid hidlo a blaenoriaethu safleoedd fel bod y ffocws ar y safleoedd hynny sydd â photensial rhesymol i gael eu dyrannu yn unol â'r strategaeth sy'n datblygu a'r fethodoleg asesu. Disgwylir i ddarparwyr seilwaith ymateb yn gadarnhaol ac yn amserol gan gynnig cyngor ystyrlon ar y rhagolygon ar gyfer datblygiadau a/neu eu hamseriad.

6.4.2.20 Mae hefyd yn bwysig bod yr ACLl ei hun yn asesu dichonoldeb gwaith datblygu o ran costau datblygu a gofynion cynllunio. Bydd dichonoldeb yn newid dros amser ac mae angen adolygu a diweddaru unrhyw astudiaethau yn rheolaidd ar

raglen dreigl gyda pholisïau yn ymateb yn unol â hynny. Lle y bo'n bosibl dylai gwaith ar ddichonoldeb gael ei wneud ar y cyd ag awdurdodau cyfagos â nodweddion tebyg er mwyn lleihau costau, sicrhau safbwynt ehangach a manteisio ar yr arbenigedd gorau.

6.4.2.21 Pan fo cynllun yn fwy dyheadol, dylai'r ACLl sicrhau y bydd strategaeth y cynllun yn parhau i fod yn gadarn a/neu fod dewisiadau amgen ar gael os na fydd dyheadau yn cael eu gwireddu er mwyn sicrhau nad oes unrhyw risg gyffredinol i'r cynllun.

6.4.2.22 Bydd y strategaeth yn ystyried amrywiaeth o faterion gan gynnwys llawer o'r rhai a nodir isod, os nad pob un:

**- Graddfa fras y datblygiad, ei leoliad a'r math o ddatblygiad, ar sail:**

- Mae ymagwedd bolisi y gellir ei chyfiawnhau tuag at ddatblygiadau a ragfynegir yn gofyn am raddfa a phatrwm cynaliadwy o ddatblygu a theithio.
- Gwneud y defnydd gorau o ardaloedd a ddatblygwyd eisoes a stoc adeiladu.
- Lleihau nifer yr adeiladau newydd/datblygiadau meysydd glas.
- Cynaliadwyedd y datblygiad adeiledig o ran y defnydd o ynni, technoleg ynni adnewyddadwy a'r defnydd o adnoddau.
- Y seilwaith angenrheidiol (e.e. cyfleusterau gwastraff, gwaith trin carthion ac ati) i leihau'r niwed amgylcheddol a achosir gan ddatblygiadau sy'n bodoli eisoes a rhai newydd, gan gynnwys amseru, cyflwyno fesul cam a chyflawni.
- Diogelu a gwella'r amgylchedd, gan gynnwys bioamrywiaeth.
- Diogelu a hyrwyddo seilwaith gwyrdd (er mwyn cyflawni amcanion ehangach, e.e. lleihau'r perygl o lifogydd, llygredd aer, buddiannau o ran iechyd a lles).
- Asesiad cyffredinol ba mor gyflawnadwy a dichonadwy yw safleoedd/opsiynau strategol.

**- Adfywio/hyrwyddo ardaloedd trefol a gwledig er mwyn:**

- Gwneud canol trefi a chanolfannau allweddol eraill yn fwy bywiog, yn fwy deniadol ac yn fwy dichonadwy.
- Hyrwyddo unrhyw broses ailstrwythuro economaidd angenrheidiol.
- Gwella ansawdd yr amgylchedd naturiol ac adeiledig.

**- Creu, cynnal a gwella cymunedau cynaliadwy i ddarparu ar gyfer:**

- Ardaloedd diogel, deniadol a sefydlog.
- Tai, tai fforddiadwy a chyfleusterau.

- Natur unigryw ardal leol, gan gynnwys anghenion a buddiannau diwylliant Cymreig a’r Gymraeg.

Ceir rhagor o gyngor ar bynciau sy'n dylanwadu ar y strategaeth yn PCC.

6.4.2.23 Dylai’r strategaeth nodi’r ardaloedd newid allweddol y mae’n dibynnu arnynt. Lleoliadau yw’r rhain lle y bydd newidiadau sylweddol yn digwydd yn ystod oes y cynllun, e.e. ardaloedd lle ceir datblygiadau preswyl mawr neu gymunedau newydd, ac ardaloedd penodol lle ceir newid economaidd/ffisegol e.e. drwy weld ffatri fawr yn cau, ymyriadau asiantaeth adfywio, neu ddarpariaeth seilwaith cyhoeddus.

6.4.2.24 **Dylai Dogfen Cynigion y Dewis Strategaeth gynnwys y canlynol:**

- Y cyd-destun rhanbarthol a lleol – materion polisi, daearyddiaeth ac ati.
- Gweledigaeth ac amcanion y CDLl.
- Cysylltiadau uniongyrchol â dogfennau statudol, megis Cynllun Gofodol Cymru, y Cynllun Integredig Sengl / Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, a dylai integreiddio â strategaethau / cynlluniau eraill fel y bo’n gymwys, e.e. strategaeth dai ranbarthol a lleol, strategaethau economaidd, cynllun trafnidiaeth lleol ac ati.
- Crynodeb o’r strategaeth arfaethedig, gan gynnwys safleoedd strategol sy’n angenrheidiol i’w gweithredu, ardaloedd newid neu warchodaeth arfaethedig.
- Nifer y tai, swyddi a ffactorau allweddol eraill sy'n ysgogi newid.
- Lleoliadau eang ar gyfer safleoedd anstrategol a meini prawf ar gyfer eu cynnwys.
- Polisïau perthnasol eraill a fyddai’n gweithredu’r dewis strategaeth e.e. strategaeth cyflogaeth ac economaidd; anghenion cymuned a gwasanaethau lleol; strategaeth mannau agored a hamdden; opsiynau o ran ynni, rheoli gwastraff a chyflenwi mwynau; dwysedd tai/parcio ceir; diogelu a gwella’r amgylchedd, a seilwaith gwyrdd/glas.
- Diagram allweddol yn dangos y dewis strategaeth ofodol, gan ystyried cysylltiadau allanol arwyddocaol ag awdurdodau cyfagos.
- Cynnig ar gyfer strwythur a chwmpas y CDLl adneuo, ac unrhyw CCAauau cyfredol. Asesiad cyffredinol o ba mor gyflawnadwy a dichonadwy yw safleoedd/opsiynau strategol.
- Cofrestr o ddarpar safleoedd, gan gynnwys safleoedd anstrategol, sy'n nodi’r rhai yr ystyrir eu bod yn cyd-fynd â’r dewis strategaeth a’r rhai nad ydynt.

6.4.2.25 Dylid hefyd **gynnwys:**

- Manylion trefniadau ymgynghori penodol, yn unol â’r Cynllun Cynnwys Cymunedau.

- Gwybodaeth am sut i ymateb.
- Ffurflen ymateb ar gyfer sylwadau.
- Cyfeiriadau at Dystiolaeth/Papurau Cefndir Technegol.
- Adroddiad yr Adolygiad (lle y bo'n briodol).
- Adroddiad Cychwynnol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (gweler 6.4.4).
- Cytundeb Cyflawni/Cynllun Cynnwys Cymunedau.
- Hunanasesiad o gadernid

## 6.4.3 Crynodeb o'r CDLl

6.4.3.1 Yn ystod yr ymgynghoriad ar y cynllun newydd dylai ACLlau ystyried llunio crynodeb rhad a syml o'u CDLl. Gallai fod yn un daflen, neu'n bamffled byr, gyda chrynodeb o'r cynigion a diagramau. Dylai gynnwys nodyn ar ble y gellir archwilio'r CDLl. Gellid paratoi fersiynau o'r crynodeb hwn mewn print bras.

6.4.3.2 Wrth baratoi'r cynllun, bydd yn bwysig ystyried rôl a natur diagramau ar gam cynnar.

## 6.4.4 Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

6.4.4.1 Dylai adroddiad cychwynnol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd adeiladu ar y gwaith cwmpasu a chrynhoi canlyniadau'r gwaith arfarnu a wnaed hyd yma, gan gynnwys rhagfynegi a gwerthuso effeithiau sylweddol opsiynau'r CDLl ar amcanion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Lle y bo'n briodol, dylai nodi lle yn y papurau cefndir y ceir yr elfennau hynny o waith asesu integredig y cynllun sy'n bodloni'r gofynion yn y Rheoliadau AAS, Atodlen 2 ar gyfer Adroddiad Amgylcheddol.

6.4.4.2 Dylai adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys asesiad strategol o'r safleoedd ar unrhyw gofrestr o safleoedd, neu groesgyfeirio ato, gan nodi, lle y bo'n bosibl, y rhai sy'n perfformio'n dda yn erbyn meini prawf sy'n adlewyrchu'r fframwaith asesu integredig ac a allai gyfrannu at y dewis strategaeth, a'r rhai nad ydynt.

6.4.4.3 Wrth benderfynu ar hyd, manylder a fformat yr adroddiad, mae angen i'r ACLl ystyried ei ddiben fel dogfen ymgynghori cyhoeddus. Mae'n debygol y bydd o ddiddordeb i ystod eang o ddarllenwyr, gan gynnwys ymgyngoreion statudol, awdurdodau eraill, sefydliadau anllywodraethol ac aelodau o'r cyhoedd. Dylai'r adroddiad fod yn fwy na chasgliad hir a dyrys o'r holl waith a wnaed sy'n berthnasol i'r AAS a dylai gymryd cam yn ôl o'r asesiad er mwyn rhoi gwybodaeth glir, cryno a hawdd ei deall am y broses a'i chanlyniadau allweddol. Dylai fod crynodeb annhechnegol hefyd a ddylai, yn ddelfrydol, fod ar gael fel dogfen ar wahân a fydd yn helpu i hwyluso cyfranogiad.

6.4.4.4 Ceir rhagor o ganllawiau ar gyflwyno'r adroddiad yn y rhestr wirio ar gyfer Sicrwydd Ansawdd yn Atodiad A o'r Llawlyfr hwn.

**Ffigur 6.4: Strwythur a chynnwys enghreifftiol ar gyfer Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd** (sy'n cynnwys yr Adroddiad Amgylcheddol ac sy'n dangos cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau AAS 2004 Rhif 1656 (Cy.170))

| Strwythur yr Adroddiad | Gwybodaeth i'w chynnwys |
|---|---|
| Elfennau Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | Tabl sy'n nodi'r elfennau o'r asesiad o'r cynllun sy'n ffurfio'r Adroddiad Amgylcheddol at ddibenion y Rheoliadau AAS. (D.S. Gweler Rheoliad 12 ac Atodlen 2 i'r Rheoliadau AAS; gweler hefyd Dabl 3.1 o adran 3.2 o'r Llawlyfr) |
| 1. Crynodeb a chanlyniadau | 1.1 Crynodeb annhechnegol (+ *fel dogfen ar wahân*).<br>1.2 Amlinelliad o ddiben a chynnwys y cynllun a datganiad o effeithiau sylweddol tebygol y cynllun.<br>1.3 Datganiad ar y gwahaniaeth y mae'r broses integredig wedi'i wneud hyd yma.<br>1.4 Sut i gyflwyno sylwadau ar yr adroddiad. |
| 2. Methodoleg yr Arfarniad | 2.1 Y dull gweithredu a fabwysiadwyd ar gyfer yr asesiad integredig.<br>2.2 Pryd y cynhaliwyd yr asesiad.<br>2.3 Pwy gynhaliodd yr asesiad.<br>2.4 Â phwy yr ymgynghorwyd, pryd a sut.<br>2.5 Yr anawsterau a wynebwyd wrth gasglu gwybodaeth neu gynnal yr asesiad. |
| 3. Cefndir | 3.1 Diben yr Asesiad ac Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd / Adroddiad Amgylcheddol.<br>3.2 Amcanion y cynllun ac amlinelliad o'r cynnwys.<br>3.3 Cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau AAS. |
| 4. Amcanion cynaliadwyedd integredig, llinell sylfaen a chyd-destun | 4.1 Cysylltiadau â pholisïau, cynlluniau a rhaglenni eraill ac amcanion cynaliadwyedd a sut yr ystyriwyd y rhain.<br>4.2 Disgrifiad o'r nodweddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd sylfaenol a llinell sylfaen y dyfodol o ran gweithredu yn ôl yr arfer.<br>4.3 Y prif faterion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd a'r problemau a nodwyd.<br>4.4 Cyfyngiadau'r wybodaeth, tybiaethau a wnaed ac ati.<br>4.5 Y fframwaith asesu, gan gynnwys amcanion, targedau a dangosyddion. |
| 5. Materion ac opsiynau'r cynllun | 5.1 Y prif opsiynau strategol a ystyriwyd - sut y'u nodwyd/y rhesymeg. Cymharu effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yr opsiynau.<br>5.2 Sut y llywiodd yr ystyriaeth a roddwyd i'r materion |

| | |
|---|---|
| | cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y broses o dethol y dewis opsiwn.<br>5.3 Pam y gwrthodwyd opsiynau eraill.<br>5.4 Unrhyw fesurau lliniaru arfaethedig. |
| 6. Polisïau'r cynllun | 6.1 Effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd sylweddol y dewis bolisïau.<br>6.2 Sut yr ystyriwyd problemau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd wrth ddatblygu'r polisïau a'r cynigion.<br>6.3 Mesurau lliniaru neu wella arfaethedig<br>6.4 Ansicrwydd a risgiau. |
| 7. Gweithredu | 7.1 Cysylltiadau â haenau eraill o gynlluniau a rhaglenni a lefel y prosiect (AEA, canllawiau ar ddylunio ac ati).<br>7.2 Cynigion ar gyfer monitro'r effeithiau sylweddol a nodwyd drwy'r Arfarniad o Gynaliadwyedd. |

6.4.4.5 Rhoddir strwythur a chynnwys awgrymedig Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn Ffigur 6.4 isod. Dylai ymdrin â chymaint o'r deunydd hwn â phosibl ar y cam hwn neu gyfeirio ato. Cofnodir prif allbwn cam yr Opsiynau Strategol a'r Dewis Strategaeth yn y bumed adran (materion ac opsiynau'r cynllun). Gellir datblygu Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn sgil allbynnau blaenorol yr asesiad. Bydd rhan helaeth o'r 4edd adran o Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (amcanion cynaliadwyedd, llinell sylfaen a chyd-destun) yn deillio o adroddiad cwmpasu cynharach yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.

6.4.4.6 Yna caiff Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ei ddiweddaru pan gaiff y CDLl adneuo ei baratoi (gweler adran 7.2.3 isod).

## 6.5 Ymgynghoriad Cyhoeddus ar y Dewis Strategaeth

### 6.5.1 Profi a mireinio'r dewis strategaeth

6.5.1.1 Rhagwelir proses agored o ymgynghori â'r cyhoedd gyda gwybodaeth glir am y broses a chyfleoedd i'r gymuned a phartïon â diddordeb gyflwyno sylwadau. Dylid rhoi digon o gyhoeddusrwydd i gynigion a dulliau yn y Cynllun Cynnwys Cymunedau er mwyn annog pob sector o'r gymuned i gymryd rhan. Dylai pawb sy'n cymryd rhan yn y broses baratoi sicrhau eu bod wedi mynegi eu barn a nodi safleoedd arfaethedig yn gynnar yn y broses (gweler 5.3.4 a 6.4).

6.5.1.2 Dylid ystyried barn y canlynol cyn penderfynu ar gynnwys y cynllun adneuo:

i. y ‘cyrff ymgynghori penodol’ i'r graddau y mae'r pwnc yn effeithio ar y cyrff hynny (h.y. Llywodraeth Cymru[15]; Cyfoeth Naturiol Cymru; Network Rail Infrastructure Ltd; yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol mewn perthynas â'r swyddogaethau a oedd yn arferadwy gynt gan yr awdurdod Rheilffyrdd strategol; cyngor unrhyw gymuned a gwmpesir gan y cynigion; unrhyw ACLl cyfagos - yng Nghymru neu Loegr); a

ii. y ‘cyrff ymgynghori cyffredinol’ hynny yr ystyria'r awdurdod eu bod yn briodol (h.y. cyrff gwirfoddol, cyrff sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau hiliol, ethnig, cenedlaethol a chrefyddol), a phobl anabl, busnesau a'r diwylliant Cymreig yn yr ardal).

6.5.1.3 Mae'n rhaid rhoi cyhoeddusrwydd i'r dogfennau cynigion cyn adneuo dros gyfnod o chwe wythnos (gan gymryd gwyliau cyhoeddus i ystyriaeth). Mae Rheoliad 15 o’r Rheoliadau CDLl yn egluro’r gweithdrefnau angenrheidiol ar gyfer cyhoeddi, hysbysu ac archwilio.

6.5.1.4 Dylid nodi'n glir yn yr ymgynghoriad ar y gofrestr o ddarpar safleoedd, pan nad yw safleoedd yn cael eu cynnig ar yr adeg hon gan yr ACLl, y gellid eu cyflwyno'n ddiweddarach yn ystod y broses o lunio'r cynllun neu'r broses o'i archwilio os bydd angen. Dylid hysbysu rhanddeiliaid mai dyma'r adeg briodol i gyflwyno sylwadau ar unrhyw un o'r safleoedd a nodwyd neu gyflwynio rhai newydd.

6.5.1.5 Os bu newid sylweddol mewn amgylchiadau sy’n effeithio ar safle a wrthodwyd yn flaenorol, neu os caiff safle cwbl newydd ei gyflwyno, cyfrifoldeb y cynigydd yw profi effeithiau ei safle gan ddefnyddio fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd yr ACLl. Dylai ACLlau roi canllawiau ar ofynion Arfarniad o Gynaliadwyedd y byddai disgwyl i’r cynigydd eu bodloni. Dylai ACLlau roi copi o’r wybodaeth/y dystiolaeth sylfaenol ac adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd i ACLlau, a’u hannog i ddefnyddio methodoleg gyson gan ystyried effeithiau AAS o fewn fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Dylai’r cynigydd neu’r ACLl roi copi o unrhyw waith perthnasol ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd i’r rhai sy’n gwrthwynebu cynnwys y safle. Gellir ystyried canlyniadau’r asesiad yn ystod yr archwiliad.

6.5.1.6 Ni chaiff sylwadau eu harchwilio er mwyn sicrhau eu bod yn foddhaol o ran yr Arfarniad o Gynaliadwyedd: caiff unrhyw broses archwilio ei chynnal fel rhan o’r archwiliad gerbron yr Arolygydd gan fod yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn rhan o’r sail dystiolaeth a ddylai ategu’r polisïau a’r cynigion yn y CDLl adneuo. Os na fu safle newydd neu amgen yn destun unrhyw Arfarniad o Gynaliadwyedd, mae’n annhebygol y bydd yr Arolygydd mewn sefyllfa i argymell ei gynnwys yn y CDLl.

6.5.1.7 Dylai’r awdurdod ddarparu ffurflen sylwadau gyda dogfen y dewis strategaeth, ar ffurf electronig a chopi papur. Er mwyn cofnodi sylwadau, argymhellir y dylai ACLlau sefydlu cronfa ddata ymgynghori ffurfiol.

6.5.1.8 Mae'n rhaid i awdurdodau ystyried yr holl sylwadau a gyflwynir yn unol â Rheoliad 16(2) o'r Rheoliadau CDLlau ar y cam ymgynghori â'r cyhoedd cyn adneuo cyn penderfynu'n derfynol ar gynnwys y CDLl adneuo. Ni fydd sylwadau a gyflwynir

[15] Ar y cam ymgynghori â'r cyhoedd cyn adneuo (Rheoliad 15), dylai awdurdod anfon pedwar copi o'r ddogfen/dogfennau allweddol i Lywodraeth Cymru; bydd angen o leiaf ddau gopi o unrhyw ddogfennau ategol eraill hefyd. Lle y bo'n ymarferol, dylid darparu un copi electronig o'r dogfennau hefyd.

ar y cam cyn adneuo hwn yn gyfystyr â sylwadau i'w hystyried yn yr archwiliad annibynnol. Dylai awdurdodau drafod unrhyw faterion sy'n codi sy'n codi amheuon ynghylch y dewis strategaeth y cynllun neu leoliadau allweddol penodol ar gyfer datblygu. Gallai fod yn ddefnyddiol gwirio'r canlyniadau yn erbyn safbwyntiau unrhyw grŵp rheoli a nodwyd yn y CCC (gweler adran 4.4.1.3).

6.5.1.9 Dylid rhoi disgrifiad cyffredinol o sut y mae'r sylwadau hyn wedi effeithio ar bolisïau a chynigion y CDLl i ymatebwyr a rhanddeiliaid.

### 6.5.2 Arfarnu newidiadau sylweddol i'r strategaeth

6.5.2.1 Os bydd canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus o blaid y dewis strategaeth i raddau helaeth, efallai na fydd y gwaith asesu sydd ar ôl i'w wneud yn sylweddol. Dylid adlewyrchu unrhyw waith mireinio a wneir i'r dewis strategaeth yn y papurau cefndir ac Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (gweler adran 7.2.3. isod).

6.5.2.2 Fodd bynnag, os bydd yr ACLl yn mabwysiadu strategaeth nas cynhwyswyd yn Nogfen Cynigion y Dewis Strategaeth neu sy'n opsiwn hybrid, mae'n rhaid iddo ei harfarnu yn erbyn y fframwaith asesu. Yna, byddai angen ategu Adroddiad terfynol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ehangach neu hyd yn oed ei ailysgrifennu. Os bydd strategaeth neu gynigion newydd yn deillio o sylwadau, byddai'n ddefnyddiol i'r ymatebwyr hynny roi'r wybodaeth berthnasol sydd ar gael am ei heffeithiau. Pan ystyrir safleoedd newydd mae'n rhaid rhoi sylw i'r effeithiau cronnol.

6.5.2.3 Dylai'r ACLl hefyd ystyried sylwadau ymgynghoriad ar Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a gwneud addasiadau lle y tybir bod angen gwneud hynny. Dylid hysbysu'r Cyrff Ymgynghori statudol am newidiadau i'r asesiadau ac Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.

## 6.6 Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol

6.6.1 Wrth baratoi ar gyfer y cam adneuo, dylai'r awdurdod ddechrau drafftio ei **Adroddiad Ymgynghori cychwynnol** (Rheoliad 16A – y weithdrefn lawn a Rheoliad 26A – y weithdrefn fer). Bydd yn sail i'r Adroddiad Ymgynghori dilynol y mae angen ei lunio pan gyflwynir y CDLl i'w archwilio gan gorff annibynnol. Dylai'r adroddiad nodi'r cyrff yr ymgysylltwyd â hwy, a hysbyswyd neu yr ymgynghorwyd â hwy ar y cam cyn adneuo, gan gynnwys ynghylch safleoedd, a'r prif faterion a godwyd a sut maent wedi dylanwadu ar y CDLl adneuo; dylai gynnwys crynodeb cyffredinol o'r sylwadau ac ymatebion yr ACLl, a'r camau a gymerwyd i roi cyhoeddusrwydd i'r broses o baratoi'r cynllun. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid gwyro oddi wrth y Cynllun Cynnwys Cymunedau a dylid eu cyfiawnhau'n llawn (Rheoliad 9(6)). At hynny, dylai fod rhestr o sylwadau neu awgrymiadau sy'n ymwneud â safleoedd unigol ar gyfer dyraniadau safle newydd. Dylid cyhoeddi'r adroddiad hwn ar wefan yr ACLl cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl y cam ymgynghori / ymgysylltu cyn adneuo.

## 6.7 Crynodeb o’r Opsiynau Strategol a’r Tasgau ar gyfer Paratoi’r CDLl

| **Tasgau Integredig y CDLl** | **Tasgau Penodol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd** |
|---|---|
| Bwrw golwg ar y materion a nodi opsiynau strategol realistig gyda phartneriaid gan gynnwys safleoedd strategol. Asesu'r opsiynau gan ddefnyddio amcanion integredig y cynllun. Ceisio consensws ar y dewis strategaeth.<br>-----<br>*Ar gyfer y weithdrefn ddiwygio fer:* Pennu cwmpas y broses ddiwygio a llunio opsiynau amgen; Hysbysu / gwahoddiad i gyflwyno sylwadau. Cais am ddarpar safleoedd ar y wefan os yw'n briodol. | Nodi, disgrifio a gwerthuso effeithiau amgylcheddol sylweddol ar gyfer “opsiynau rhesymol” (nodi rhesymau dros ddewis opsiynau) a'r senario gweithredu yn ôl yr arfer. Ystyried mesurau lliniaru. Ystyried canlyniadau wrth ddewis opsiwn.<br><br>Sicrhau y bodlonir gofynion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Rheoliadau AAS. |
| Llunio Dogfennau Cynigion Cyn Adneuo (y Dewis Strategaeth) gan gynnwys y gofrestr o ddarpar safleoedd ac adroddiad yr adolygiad.<br>Cyhoeddi ac ymgynghori (ynghylch y dewis strategaeth, yr opsiynau, y cynigion, y goblygiadau, y gofrestr o ddarpar safleoedd, adroddiad yr adolygiad, y dogfennau ategol gan gynnwys Adroddiad cychwynnol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd) (cyfnod statudol o chwe wythnos).<br>-----<br>*Nid oes angen y cam statudol hwn ar gyfer y weithdrefn ddiwygio fer.* | Trefnu bod Adroddiad cychwynnol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gael gyda'r dogfennau cyn adneuo (cyfnod gofynnol statudol yr AAS, sef pedair wythnos.) |
| Ystyried y sylwadau; ac unrhyw wybodaeth newydd. Dadansoddi ac adolygu gyda rhanddeiliaid allweddol. Ystyried profi’r sylwadau gyda grŵp rheoli.<br>Asesu unrhyw opsiynau newydd neu newidiadau arfaethedig i’r rhai a aseswyd. | Ystyried ymatebion yr ymgynghoriad ar agweddau amgylcheddol.<br>Mireinio'r asesiad a nodi unrhyw waith asesu ychwanegol sydd angen ei wneud ar gyfer opsiynau newydd neu hybrid. |
| Llunio cofrestr (wedi'i diweddaru) o ddarpar safleoedd a'r adroddiad ymgynghori cychwynnol. | |


*D.S. Os tybir bod y weithdrefn fer ar gyfer diwygio cynlluniau yn briodol efallai na fydd pob cam yn berthnasol - gweler 10.2.*
*Gweler Tabl 3.3 am y gofynion o ran ymgynghori.*

# 7. Paratoi ac Adneuo CDLlau

## 7.1 Cyflwyniad

7.1.1 Rhydd y bennod hon ganllawiau ar faterion sy'n ymwneud â fformat cynllun a'i gyflwyno. Mae hefyd yn ymdrin â'r tasgau sy'n gysylltiedig ag adneuo'r CDLl ac ymdrin â sylwadau dilynol.

**Ffigur 7.1: LDP Paratoi ac Adneuo**



## 7.2 Paratoi'r CDLl Adneuo

### 7.2.1 Strwythur

7.2.1.1 Bydd fformat y cynigion neu'r cynllun ar y cam adneuo yn amrywio gan ddibynnu ar b'un a yw'n cynllun newydd a fydd yn disodli'r un presennol neu'r fersiwn rannol ddiwygiedig o'r CDLl (gweler hefyd 10.2).

7.2.1.2 Ar gyfer cynllun newydd bydd strwythur y CDLl eisoes wedi'i ystyried. Er nad oes angen cynllun drafft llawn ar gam Rheoliad 15 dylid manteisio ar y cyfle i ymgynghori ynghylch strwythur cyffredinol a chynigion a pholisïau allweddol arfaethedig y cynllun adneuo. Ar y cam adneuo bydd yn fater o fireinio'r gwaith cynharach hwn ac ychwanegu ato.

7.2.1.3 Dylai'r cynllun adneuo gynnwys yr holl elfennau a restrir yn adran 2.4. Dylai'r ACLl ystyried mai hon yw'r fersiwn y mae'n bwriadu ei chyflwyno i'w harchwilio ac, yn ddiweddarach, ei mabwysiadu. Felly, dylid ei drafftio mewn ffordd sy'n sicrhau nad yw'n cynnwys unrhyw wybodaeth ddiangen; dylai unrhyw adrannau a gynhwysir at ddibenion ymgynghori yn unig ac a gâi eu dileu cyn i'r CDLl gael ei fabwysiadu gael eu nodi fel y cyfryw.

7.2.1.4 Pan fo'r dystiolaeth a'r casgliadau yn Adroddiad yr Adolygiad yn cyfiawnhau cario strategaeth CDLl a fabwysiadwyd ymlaen a dim ond diwygio'r cynllun yn rhannol sydd angen ei wneud, bydd y dogfennau adneuo yn cynnwys y canlynol:-

- Manylion y cynigion/newidiadau newydd a'r dystiolaeth ategol.
- Y gofrestr newydd o ddarpar safleoedd, asesiadau o safleoedd a manylion y sylwadau a ddeilliodd o'r ymgynghoriad ynghylch safleoedd (lle y bo'n berthnasol).
- Canlyniad asesiad integredig diwygiedig a fersiwn wedi'i diweddaru o Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.
- Adroddiad yr Adolygiad o'r CDLl yn nodi pam yr ystyrir bod y strategaeth wreiddiol, ac ati, yn gadarn o hyd, a chasgliadau ar y weithdrefn ddiwygio.

7.2.1.5 Bydd angen i bob ACLl benderfynu sut i sicrhau bod CDLlau yn strategol. Er enghraifft, gallai diffinio ffiniau datblygiad pentref, er ei fod yn fater manwl ynddo'i hun, fod yn rhan bwysig o weithredu strategaeth ar gyfer diogelu cefn gwlad os caiff y rhain eu hystyried ar draws yr awdurdod. Dylai'r strategaeth nodi prif gyfeiriad y cynllun o ran polisïau a dyraniadau arwyddocaol sy'n effeithio ar yr awdurdod cyfan.

### 7.2.2 Drafftio polisïau *(ceir canllawiau ar ddrafftio polisïau hefyd yn y bennod yn PCC sy'n ymdrin â CDLlau ac ym mhennod 2 o'r Llawlyfr hwn)*

7.2.2.1 Dylai CDLl fod yn ddogfen strategol sy'n canolbwyntio ar amcanion yr awdurdod ar gyfer defnyddio a datblygu tir yn ei ardal a'r polisïau cyffredinol ar gyfer eu gweithredu. Nid yw'n llawlyfr rheoli datblygiadau manwl. Dylai polisïau ddeillio o'r materion a'r amcanion allweddol a nodwyd o'r sail dystiolaeth a'r strategaeth. Ni ddylid eu hychwanegu ar ddiwedd y broses dim ond er mwyn darparu ar gyfer pob digwyddiad manwl.

7.2.2.2 Gellir defnyddio Canllawiau Cynllunio Atodol (CCAauau) er mwyn dangos yn fanylach sut y caiff polisïau cyffredinol y CDLl eu dehongli er na ddylai Canllawiau Cynllunio Atodol gynnwys polisïau newydd (gweler adrannau 2.4 7.3).

7.2.2.3 Mae PCC a PCMC yn rhoi cyngor ar gynnwys polisi cynlluniau. Yn arbennig, mae PCC yn nodi'n glir y polisïau hynny na fydd angen i’r CDLl eu cynnwys na’u diwygio, yn ogystal â nodi’r rhai y bydd angen eu dehongli ar lefel CDLl. Er na ddylai CDLlau ailadrodd polisi cenedlaethol dylai'r testun nodi'n glir lle y dylid dibynnu arno er mwyn penderfynu ar geisiadau.

7.2.2.4 Ni ddylai fod angen i gynllun gynnwys llu o bolisïau unigol. Lle y bo'n bosibl dylid grwpio pynciau penodol yn generig er mwyn lleihau dyblygu a nodi'n glir yr amrywiaeth o ofynion sy'n gymwys i ddatblygiad penodol.

7.2.2.5 Mae'n rhaid i bolisïau fod yn effeithiol ac mae'n hanfodol eu bod yn cael eu drafftio'n ofalus. Mae'r llysoedd wedi penderfynu y dylid dehongli polisïau fel y'u hysgrifennwyd ac nid fel y'u bwriadwyd neu y'u dehonglir gan yr ACLl. Dylid cynnwys swyddogion rheoli datblygu er mwyn helpu i sicrhau bod geiriad polisïau yn addas at y diben.

7.2.2.6 Er bod angen i bolisïau addasu i amgylchiadau lleol nid oes diben eu hamrywio dim ond er mwyn eu hamrywio. Gallai'r gwaith o lunio rhai polisïau gael eu cyflawni'n fwy effeithlon pe bai ACLlau yn cydweithio ac yn rhannau adnoddau, arbenigedd a chyngor cyfreithiol er mwyn datblygu polisïau enghreifftiol. Byddai'r rhain yn osgoi'r angen i ACLlau “ailddyfeisio’r olwyn”. Fodd bynnag, gallai gorddefnyddio polisïau o’r fath arwain at gynlluniau ‘unrhyw le’ y dylid eu hosgoi.

7.2.2.7 Mae gweithio gyda chymdogion hefyd yn bwysig er mwyn sicrhau lefel briodol o gysondeb trawsffiniol yn enwedig lle mae ardaloedd marchnad neu ardaloedd tirwedd yn gorgyffwrdd ffiniau awdurdodau.

7.2.2.8 Dylai cynlluniau gynnwys ddigon o ddarpariaeth wrth gefn er mwyn ymateb i amrywiadau mewn angen dros gyfnod y cynllun tra'n parhau â'r cyfeiriad teithio cyffredinol a nodir gan y strategaeth. Mae darparu ar gyfer amrywiadau yn lefel y ddarpariaeth neu ofynion y cynllun yn golygu y gallai fod angen llunio rhai polisïau mewn ffordd fwy ymatebol fel eu bod yn caniatáu rhywfaint o amrywio gan ddibynnu ar y galw a ddiffiniwyd neu feini prawf dichonoldeb. Pan fo hyn yn briodol mae'n bwysig bod y sail ar gyfer newid yn dryloyw a'i bod yn cael ei nodi'n glir.

7.2.2.9 Dylai pob cynllun gynnwys polisïau clir wedi'u hategu gan dablau manwl sy'n nodi'n glir wahanol elfennau'r galw a'r cyflenwad, megis ar gyfer tai a chyflogaeth. Dylent nodi'r anghenion a ragwelir gan gynnwys cynlluniau wrth gefn (drwy lwfansau hyblygrwydd) a'r ffordd y caiff yr anghenion hyn eu diwallu gan y cynllun o ran ymrwymiadau, dyraniadau, safleoedd ar hap a safleoedd bach, ac ati. Dylai ACLlau geisio cytuno'n rhanbarthol ar fformat y tablau hyn er mwyn sicrhau cysondeb. Bydd angen diweddaru'r tablau hyn yn ystod y broses o baratoi'r cynllun. Dylid egluro i bob rhanddeiliad bod diweddaru yn broses barhaus angenrheidiol ac y dylid llunio'r cynllun yn unol â hynny. Mae adran 7.6 yn cynnwys canllawiau ar newidiadau ar ôl adneuo, mewn perthynas â newidiadau penodol angenrheidiol a rhestrau o fân newidiadau. Dylai tablau fod yn gyfredol ar adeg cyflwyno'r cynllun; ni ddylid eu

diweddaru ar ôl cyflwyno'r cynllun ond efallai y bydd angen eu cywiro yn sgil yr archwiliad.

7.2.2.10 Yn gyffredinol,

- Ni ddylid ailadrodd polisïau cenedlaethol, ond dylid egluro sut y cânt eu cymhwyso at yr ardal leol lle y bo'n berthnasol.
- Dylai polisïau CDLl fod yn glir, yn gryno ac yn gadarnhaol.
- Yn aml bydd polisïau cyfunol neu gyffredinol yn briodol er mwyn sicrhau bod y cynllun yn gryno
- Ni ddylid ceisio llunio polisi ar gyfer pob posibilrwydd a dylid hepgor polisïau diangen.
- Gellir cyfuno testun ategol a dylai ond drafod materion sy'n hanfodol i gyfiawnhau polisi.
- Dylid cynnwys polisïau sy'n seiliedig ar feini prawf y gellir asesu safleoedd ar hap a safleoedd bach iawn yn eu herbyn. Efallai y bydd angen diffinio trothwyon er mwyn diffinio safle bach iawn a gwneud hynny ar wahân fwy na thebyg ar gyfer ardaloedd trefol a gwledig.
- Dylid nodi ardaloedd chwilio, yn enwedig ar gyfer seilwaith amgylcheddol megis cyfleusterau gwastraff, lle na nodwyd cynigion sy'n benodol i safle

7.2.2.11 Yn fanwl, dylai awdurdodau wneud y canlynol:

- Meddwl yn strategol a chofio bod y Cynllun yn un hirdymor.
- Sicrhau ei fod yn ddigon hyblyg er mwyn sicrhau, os bydd amgylchiadau yn newid, er enghraifft o ganlyniad i orfod addasu neu liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd, neu os nad yw safle mawr neu ddarn o seilwaith strategol yn cael ei gyflwyno fel y disgwyliwyd, bod polisïau cyffredinol yn bodoli ar gyfer dyfarnu dewisiadau amgen yn eu herbyn.
- Ystyried polisïau mwy cyffredinol, gan osgoi dyblygu meini prawf rheoli datblygiadau ar gyfer sawl math o ddatblygiad a nodi'r amrywiaeth o ofynion posibl sydd ynghlwm wrth ystyried cynnig.
- Hyrwyddo canlyniadau penodol, yn hytrach na mynegi polisïau fel cyfyngiadau.
- Cydweithio ag awdurdodau cyfagos er mwyn datblygu geiriad polisïau yn enwedig lle mae'n bwysig sicrhau cysondeb ar draws ffiniau.
- Ystyried natur unigryw'r ardal er mwyn ychwanegu gwerth lleol at bolisïau safonol.
- Llunio polisïau fel y gellir eu monitro ac fel eu bod yn gweddu i gylchoedd amrywiol o newid economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol, e.e. drwy bolisïau fesul cyfnod.

7.2.2.12 Dylai'r cyfiawnhad rhesymegol gynnwys esboniad o'r polisïau a'r cynigion yn y cynllun, gan roi canllawiau neu ymhelaethu ar ddiben y polisi neu ei nodau. Ni

ddylai ailadrodd yr hyn a ysgrifennir yn y polisi a dylai osgoi naratif sy'n hunanamlwg neu'n glir o'r polisi ei hun. At hynny, ni ddylai'r cyfiawnhad rhesymegol gynnwys datganiadau o bolisi.

### 7.2.3 Llunio fersiwn derfynol Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

7.2.3.1 Bydd y rhan fwyaf o'r gwaith caled wedi'i gwblhau wrth baratoi adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ar y cam cyn-adneuo (gweler adran 6.4.4 a Ffigur 6.4 uchod). Bydd wedi disgrifio'r arfarniad o'r prif opsiynau strategol a'r rhesymau dros y dewis strategaeth. (Mewn perthynas â diwygiadau i gynllun gweler adrannau 3.4.2 a 10.2 yn benodol.)

7.2.3.2 Ar y cam hwn, dylai Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys canlyniadau asesu unrhyw opsiwn diwygiedig neu newydd ar gyfer CDLl sy'n deillio o ymgynghoriad cyhoeddus, a diweddaru'r asesiad o'r strategaeth a gynhwysir yn y CDLl adneuo lle y bo angen.

7.2.3.3 Bydd hefyd angen iddo ystyried sylwadau perthnasol ar Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ar y cam cyn-adneuo a chofnodi newidiadau o'r fath.

7.2.3.4 Wrth baratoi'r CDLl adneuo efallai y bydd nifer o bolisïau ychwanegol a safleoedd llai wedi'u hychwanegu. Dylai Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ddisgrifio sut y mae'r rhain yn perfformio yn erbyn y fframwaith asesu integredig gan gynnwys unrhyw effeithiau cronnol (adran 5 o seilwaith Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn Ffigur 6.4). Dylid hysbysu'r Cyrff Ymgynghori statudol a rhoi cyfle iddynt gyflwyno sylwadau.

7.2.3.5 Dylai gynnwys disgrifiad o effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol polisïau'r cynllun neu lle y gellir dod o hyn i'r deunydd hwn. (adran 6 o strwythur Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd).

7.2.3.6 Dylid hefyd diweddaru'r Crynodeb Annhechnegol ac unrhyw ddeunydd cefndir arall.

## 7.3 Canllawiau Cynllunio Atodol

7.3.1 Mae'r pwyslais ar CDLlau mwy strategol a phenodol yn cynyddu'r defnydd posibl o CCAauau, a all roi rhagor o wybodaeth fanwl i ategu'r CDLl. Bydd yn bwysig ystyried rôl bosibl CCAauau mewn perthynas â strategaeth a pholisïau'r CDLl, a hefyd o ran y goblygiadau ar gyfer adnoddau, yr amserlen, a gwaith monitro. Mae'r CDLl yn cynnwys polisi; dim ond canllawiau a chyngor y mae CCAauau yn eu cynnwys. Dylai CCA ddeillio o bolisi cyffredinol neu - yn achos brîff - o ddyraniad safle. Ni ddylid defnyddio CCAau i bennu math, graddfa na lefel briodol datblygiad ar gyfer safleoedd penodol. Dylent fod yn destun ymgynghoriad a ddilynir gan y newidiadau angenrheidiol cyn eu mabwysiadu'n ffurfiol. Mae'n debyg mai ychydig o bwys a roddir ar CCAau nad ydynt yn bodloni'r meini prawf hyn mewn unrhyw apêl.

7.3.2 Dylai ACLlau adolygu effeithiolrwydd a pherthnasedd eu CCAau presennol ar ddechrau'r broses o baratoi'r CDLl. Dylid diwygio CCAau sy'n bodoli eisoes er mwyn

nodi pa bolisïau CDLl y maent yn eu hategu. Dylai'r CDLl nodi pa rai o'i bolisïau a ategir gan CCAau.

7.3.3 Dylai awdurdodau nodi CCAau allweddol sy'n hanfodol i weithredu'r CDLl (fel y trafodir yn 4.3.2). Gallai'r Cytundeb Cyflawni nodi ba CCAau a gaiff eu paratoi (neu eu diwygio) a phryd, a gallai'r amserlen hefyd nodi pryd y byddai CCAau yn cael eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad a hyd yr ymgynghoriad hwnnw. Pan gaiff Cytundeb Cyflawni ei lunio am y tro cyntaf neu pan gaiff un ei ddiwygio disgwylir iddo nodi'n briodol y gweithdrefnau a fydd yn gymwys i CCAau a'r dull o gynnwys cymunedau a fydd yn addas i fathau gwahanol o CCAau (gweler adran 4.4.2). Mae'n rhaid cadw at ymrwymiadau i ymgysylltu ac ymgynghori er mwyn i'r CCAau fod o werth. Ni roddir fawr o bwys ar CCAau, os o gwbl, oni chânt eu llunio yn unol â Chynllun Cynnwys Cymunedau. Dylai'r CDLl adneuo gynnwys gwybodaeth am CCAau cysylltiedig gydag amserlenni disgwyliedig ar gyfer eu mabwysiadu.

7.3.4 Er bod rhaid i CCAau ymwneud â pholisi penodol yn y CDLl ac er bod rhaid ymgysylltu'n lleol bydd rhai materion sy'n ymwneud â CCAau sy'n gyffredin i sawl awdurdod. Bydd yn fwy effeithlon os caiff CCAau eu llunio ar y cyd ag ACLlau eraill lle y bo'n bosibl. Fel arall, gallai grwpiau o ACLlau nodi ar y cyd enghraifft o arfer da i'w mabwysiadau fel dull gweithredu enghreifftiol, wedi'i deilwra i'r amgylchiadau lleol.

7.3.5 Ceir y polisi ar rôl CCAau a sut y'u paratoir yn y bennod yn PCC sy'n ymdrin â CDLlau. O ran rheoli datblygiadau, bydd gan CCAau ran allweddol i'w chwarae yn y gwaith o ddehongli polisïau cyffredinol yn y CDLl ac ymhelaethu arnynt. Gall CCAau wneud y canlynol:

- Rhoi canllawiau pwysig sy'n ymhelaethu ar bolisïau sy'n seiliedig ar bynciau er mwyn helpu i weithredu'r CDLl (e.e. polisi manwl ar ardal gadwraeth).
- Ymdrin â manylion a chanllawiau/trothwyon rhifol lle y gallant newid er mwyn sicrhau bod y CDLl yn parhau i fod yn gyfredol ac er mwyn hwyluso hyblygrwydd (e.e. safonau ar gyfer parcio ceir)
- Rhoi canllawiau manwl ychwanegol ar y math o ddatblygiad a ddisgwylir mewn ardal a ddyrannwyd ar gyfer ei datblygu yn y CDLl. Gallai hyn fod ar ffurf brîff datblygu neu brif gynllun â mwy o ogwydd dylunio.

7.3.6 Wrth baratoi CCAau, mae'n bwysig ystyried y materion trefniadol canlynol:

- Dylid cynnwys cydweithwyr rheoli datblygiadau.
- Dylid ymgynghori â'r ymgyngoreion perthnasol (CDLlau Cymru).
- Dylid cyflwyno drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.
- Dylid defnyddio proses 'sgrinio' Rheoliadau AAS os yw'n angenrheidiol (gweler 5.5.1).
- Dylai'r ACLl fabwysiadu CCAau yn ffurfiol, fel y gall Arolygwyr eu hystyried yn briodol wrth benderfynu ar apeliadau;
- Dylai CCAau a fabwysiedir gynnwys datganiad o ymgynghoriad ac unrhyw newidiadau a wnaed, neu gyfeirio atynt.

- Dylid gwerthuso eu heffeithiolrwydd ar y cyd â’r polisi y maent yn ei ategu fel rhan o’r broses fonitro flynyddol (gweler adran 9.4). (Gellir hefyd defnyddio’r broses fonitro flynyddol i nodi’r gofyniad am unrhyw CCAau newydd neu ddiweddar.)

7.3.7 Pan fydd CCAau yn ymwneud â goblygiadau’r cynllun neu bolisi penodol (CCAau allweddol), ac y byddent yn helpu i’w deall, dylid eu paratoi ac ymgynghori arnynt ar y cyd â’r CDLl. Ni chaiff CCAau eu harchwilio ond dylent fod yn gyson â pholisïau cenedlaethol. Ni ddylid eu mabwysiadu’n ffurfiol nes y derbynnir adroddiad yr Arolygydd ar y CDLl, a chadarnhawyd y polisi a ddilynir. Dylai unrhyw ddogfennau a fabwysiedir fel CCAau gydymffurfio â’r gweithdrefnau a dderbynnir ar gyfer CCAau (h.y. ymgynghori, diwygio a chymeradwyo).

## 7.4 Adneuo’r CDLl

### 7.4.1 Rhoi Cyhoeddusrwydd

7.4.1.1 Pan fydd awdurdod yn barod i adneuo'r CDLl er mwyn i'r cyhoedd ei archwilio mae'n rhaid iddo gyhoeddi hyn yn unol â Rheoliad 17. Ynghyd â dogfennau penodol eraill, rhaid ei anfon i Lywodraeth Cymru a’r cyrff ymgynghori y cyfeirir atynt yn Rheoliad 14, sef yr ymgyngoreion statudol ac unrhyw rai eraill a nodir yn y CCC, gan roi chwe wythnos (gan ddarparu ar gyfer gwyliau cyhoeddus) iddynt gyflwyno sylwadau (Rheoliad 18). Dylai'r ymgynghoriad fodloni gofynion y Rheoliadau AAS. Er mwyn diwygio'r CDLl yn rhannol gan ddefnyddio'r weithdrefn fer y Rheoliadau priodol yw 26BaC (gweler adran 10.2).

7.4.1.2 Dylai'r awdurdod anfon pedwar copi o'r cynllun adneuo a dau gopi o unrhyw ddogfennau eraill y cyfeirir atynt yn y datganiad cyhoeddedig i Lywodraeth Cymru; lle y bo'n ymarferol, dylid darparu un copi electronig o'r dogfennau hefyd.

7.4.1.3 Dylid darparu pob dogfen, gan gynnwys unrhyw grynodeb o’r CDLl, ar ffurf copi papur (am gost resymol) yn ogystal ag ar wefannau ACLlau.

### 7.4.2 Dogfennau ategol

7.4.2.1 Y dogfennau ategol o sylwedd yw:

- Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (gweler 3.2 a 7.2.3).
- Rhestr o ddogfennau ategol sy’n berthnasol i baratoi’r CDLl – mae hon yn cynnwys rhannau allweddol sail dystiolaeth y CDLl (mae’n bwysig bod ymatebwyr yn cael eu gweld ar gais, er mwyn llywio eu sylwadau).
- Y gofrestr o ddarpar safleoedd
- Manylion safleoedd amgen a gynigir gan y rhai sy'n cyflwyno sylwadau ar y cam cyn adneuo ac unrhyw sylwadau a gyflwynwyd ar ddyraniadau neu safleoedd arfaethedig a restrir yn y gofrestr o ddarpar safleoedd. Gall yr ACLl gofnodi ei sylwadau ei hun ynghylch pam nad yw'n cynnig y

safleoedd amgen yn y cynllun ar hyn o bryd ond mae'n rhaid iddo nodi'n glir y gallai hyn newid a bod angen i randdeiliaid fynegi eu barn ar y safleoedd amgen nawr.

- Adroddiad yr Adolygiad (lle y bo'n briodol)
- Yr Adroddiad Ymgynghori cychwynnol (gweler adran 6.6).

### 7.4.3 Defnyddio ffurflen safonol ar gyfer sylwadau

7.4.3.1 Wrth baratoi eu hymatebion, efallai y bydd cynrychiolwyr y gymuned ac aelodau o’r cyhoedd, lle y bo’n briodol, am gael cymorth gan Cymorth Cynllunio Cymru. Dylid annog pawb sy'n cyflwyno sylwadau (Rheoliad 18 / 26C o'r Rheoliadau CDLlau) i ddefnyddio ffurflen safonol sy'n nodi'n glir unrhyw sylw cefnogol neu wrthwynebiasd (h.y. sylw sy'n ceisio newid CDLl – adran 64(6) o Ddeddf 2004). Er nad oes angen gwneud hynny, dylid rhoi cyfle i wrthwynebwyr nodi pa un o'r profion cadernid y mae'r cynllun yn ei fethu, yn eu barn hwy. Dylid gofyn i wrthwynebwyr nodi sut y dylid newid y cynllun, yn eu barn hwy.

7.4.3.2 Mae ffurflen sylwadau enghreifftiol a ddarperir gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru ar gael ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio. Fe'i lluniwyd mewn ymgynghoriad ag Arolygwyr a Cymorth Cynllunio Cymru gan ddefnyddio profiad o archwiliadau blaenorol. Mae’r ffurflen yn annog cofnodi cefnogaeth i’r cynllun.

7.4.3.3 Ymhob achos, dylai ymatebwyr nodi’r rhan benodol o’r cynllun y mae eu sylw yn ymwneud â hi, yn ôl paragraff, rhif polisi, neu’r Map o’r Cynigion. Yn achos hepgoriad canfyddedig, dylai ymatebwyr nodi ble y dylai’r polisi newydd arfaethedig neu’r testun ategol gael ei roi. Dylai ymatebwyr nodi sut y mae’u sylw yn gweddu i’r strategaeth gyffredinol, a’r arfarniad a gynhaliwyd o dan fframwaith asesiad integredig yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Bydd hyn yn hanfodol lle y mae’r sylw yn ceisio cynnwys safle newydd neu estynedig. (Ar gyfer y weithdrefn ddiwygio fer gweler 10.2.10.)

7.4.3.4 Mae canllawiau'r Arolygiaeth Gynllunio yn rhoi esboniad pellach o'r gofynion gweithdrefnol, y tri phrawf cadernid a chwestiynau cysylltiedig.

### 7.4.4 Ymdrin â sylwadau

7.4.4.1 Mae'n rhaid i ACLlau gofrestru pob sylw a wnaed yn briodol (h.y. sylwadau a wnaed yn unol â'r hysbysiad cyhoeddedig) sy'n ymwneud ag ystyriaethau cynllunio, nid dim ond y rhai sy'n ymwneud yn benodol â chadernid.

7.4.4.2 Gall awdurdod dderbyn **sylwadau hwyr** yn ôl ei ddisgresiwn ond dim ond o dan amgylchiadu eithriadol y gellid eu hegluro yng Nghynllun Cynnwys Cymunedau'r awdurdod y dylid ystyried gwneud hyn. Dylai awdurdod hefyd hysbysu'r rhai sydd â hawl statudol i ymddangos gerbron Arolygydd yr archwiliad a chael gwrandawiad ganddo (h.y. gwrthwynebwyr, y rhai sy'n ceisio newid y cynllun – o dan Adran 64(6) o Ddeddf 2004) y gallant gyflwyno eu gwrthwynebiadau gan ddefnyddio'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig os nad ydynt am ymddangos yn yr archwiliad. Mae Arolygwyr

yn rhoi'r un pwys ar wrthwynebiadau a gyflwynir fel hyn ag y maent yn ei roi ar wrthwynebiadau a gyflwynir ar lafar yn yr archwiliad.

7.4.4.3 Nodir y weithdrefn ar gyfer sicrhau bod sylwadau ar gael i’w harchwilio yn Rheoliadau 19 a 26Ch. Dylid sicrhau bod pob sylw ar gael i’r cyhoedd ei weld cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol. Argymhellir y dylid rhoi rhestr gryno o’r rhain ar wefan yr ACLl gyda manylion am ble y gellir eu gweld.

7.4.4.4 Argymhellir y dylai’r ACLl greu **cronfa ddata ymgynghori** (a fydd, ar ôl ei chwblhau, ar gael i’r cyhoedd ei gweld) fel dull o brosesu’r sylwadau os nad ydynt wedi gwneud hynny’n barod. Dylai gwybodaeth gynnwys y meysydd canlynol, o leiaf:

- Manylion yr ymatebwyr.
- Y rhan benodol o’r cynllun y mae eu sylw yn ymwneud â hi.
- P’un a ydynt o’i blaid neu’n ei wrthwynebu.
- Unrhyw newidiadau arfaethedig i’r cynllun, gan gynnwys newidiadau sy'n ymwneud â safleoedd.
- Unrhyw gysylltiad ag ymatebwyr cyn yr archwiliad (gweler 7.5.1).

7.4.4.5 Dylid gallu archwilio’r gronfa ddata mewn modd sy’n caniatáu i sylwadau tebyg gael eu nodi, er mwyn caniatáu i’r Arolygydd grwpio gwrthwynebwyr yn yr archwiliad, lle y bo’n briodol.

7.4.4.6 Mae meddalwedd cronfa ddata ymgynghori yn bodoli ar amryw ffurf; efallai y bydd lle i rannu arfer da rhwng awdurdodau neu wahanol adrannau. Gallai gwersi a ddysgir drwy weithredu mentrau e-lywodraeth ehangach a chyflwyno ceisiadau cynllunio ar-lein fod o werth.

7.4.4.7 Os nad oes unrhyw brosesau statudol wedi'u cynnal ar gyfer safleoedd a gyflwynwyd yn hwyr yn ystod y broses baratoi, ni fyddai adroddiad yr Arolygydd yn gallu argymell eu cynnwys yn y CDLl. At hynny, pe bai newid o'r fath yn golygu nad yw'r CDLl yn gadarn, ni fyddai'r Arolygydd yn gallu argymell o'i baid. Felly, cyfrifoldeb y rhai sy'n hyrwyddo newidiadau o'r fath yw dangos bod y gweithdrefnau priodol wedi'u dilyn a darparu'r dystiolaeth angenrheidiol i ddangos y byddai'r cynllun yn gadarn pe bai'r safle yn cael ei gynnwys. Byddai hyn yn cynnwys dangos bod y safle yn cyd-fynd â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd.

## 7.5 Paratoi ar gyfer Cyflwyno

### 7.5.1 Diweddaru’r Adroddiad Ymgynghori

7.5.1.1 Lle ceir gwrthwynebiadau strategol a/neu sylweddol i’r cynllun adneuo, neu rai gan ymgyngoreion statudol, efallai y bydd yr ACLl am drafod ymhellach gyda’r ymatebydd/ymatebwyr, pa un a fyddant yn ailystyried eu gwrthwynebiad, a pha agweddau y gellir cytuno arnynt er mwyn lleihau’r anghytuno gymaint â phosibl. Byddai cynnwys meysydd lle ceir cytundeb/anghytundeb â gwrthwynebwyr o sylwedd, a all gynnwys cyfaddawd, mewn **“datganiad ar dir cyffredin”** ar gyfer yr

Arolygydd yn ddefnyddiol ar y cam hwn. Dylid nodi unrhyw gyswllt dilynol ag ymatebwyr yn y gronfa ddata ymgynghori.

7.5.1.2 Dylai'r ACLl ddiweddaru ei Adroddiad Ymgynghori cychwynnol drwy grynhoi'r sylwadau a wnaed ar y cam adneuo, a'i ymatebion. Nodir y gofynion o ran cynnwys yr Adroddiad Ymgynghori yn Rheoliad 22(2)(c). Dylai'r awdurdod gynnwys crynodeb o'r prif faterion a godwyd yn ystod y broses o baratoi'r cynllun ar y cam cyn adneuo a'r cam adneuo, gan gynnwys gan gyflwynwyr, a nodi sut yr ymdriniwyd â'r materion a godwyd ar y cam cyn adneuo yn y CDLl, yn ei farn ef, a sut y dylid ymdrin â'r rhai a godwyd ar y cam adneuo. Dylai'r adroddiad gynnwys rhestr o unrhyw newidiadau i'r cynllun adneuo a awgrymir gan ymatebwyr y mae'r ACLl yn cytuno â hwy. Dylai'r ACLl gynnwys crynodeb o unrhyw safleoedd newydd neu amgen yn ei Adroddiad Ymgynghori o ran pwy sydd wedi ymateb a barn yr ACLl ar y safleoedd.

7.5.1.3 Dylai'r ACLl lunio fersiwn terfynol ei gronfa ddata ymgynghori, gan ddangos yn y maes terfynol p'un a yw'n cytuno neu'n anghytuno â'r sylw neu pa gyfaddawd a allai fod ar gael.

7.5.1.4 Dylai'r ACLl lunio rhestr o'r holl bartïon y dylid eu hysbysu am wrandawiad yr archwiliad sydd ar fin cael ei gynnal, cyhoeddiad Adroddiad yr Arolygydd a mabwysiadu'r CDLl. Dylid llunio'r rhestr hon o blith rhestrau sydd ar gael o ymgyngoreion statudol a'r rhai a gyflwynodd sylwadau ar y cam cyn adneuo ac ar y CDLl Adneuo. (Rheoliadau 24 a 25 o'r Rheoliadau CDLlau)

7.5.1.5 Heblaw am gydnabod eu bod wedi eu derbyn, nid yw'n ofynnol i ACLlau ymateb i sylwadau unigol, er y gallai rhai ddewis gwneud hynny. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i bob ACLl hysbysu pob ymatebydd am wrandawiad yr archwiliad sydd ar fin cael ei gynnal.

### 7.5.2 Diweddaru Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

7.5.2.1 Dylai'r ACLl ystyried pob sylw ymgynghori ar y cam adneuo yn Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ac ystyried a oes angen gwneud unrhyw newidiadau. Gallai hyn gynnwys er enghraifft gwybodaeth ychwanegol ar gyfer y llinell sylfaen neu effeithiau newydd ar ardal leol nas nodwyd yn flaenorol. Dylid cofnodi unrhyw newidiadau sy'n deillio o hynny yn briodol.

## 7.6 Delio â Newidiadau Hwyr; Newidiadau Penodol

7.6.1 Dim ond os yw o'r farn bod cynllun yn gadarn y dylai'r awdurdod ei adneuo. Bydd angen iddo gyfiawnhau'r honiad hwn yn yr archwiliad ac oherwydd hynny mae'n rhaid iddo ystyried yn ofalus i ba raddau y bydd argymell newidiadau ar ôl i'r cynllun gael ei adneuo yn bwrw amheuaeth ar gadernid y cynllun adneuo a'i danseilio yn yr archwiliad.

7.6.2 Dylid osgoi gwneud newidiadau ar ôl adneuo'r cynllun lle y bo'n bosibl drwy baratoi'r cynllun adneuo yn ofalus, gan gynnwys rhanddeiliaid a'r gymuned yn y broses, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Nid yw'n debygol y bydd angen gwneud newidiadau ffurfiol i'r CDLl a adneuwyd cyn yr archwiliad os bu'r broses o gynnwys y gymuned yn barhaus yn effeithiol ac os cafodd pob dewis amgen realistig ei ystyried

yn briodol yn ystod y cam paratoi. Fel eithriad, efallai y bydd angen ystyried cynnig newidiadau er mwyn sicrhau bod y cynllun yn gadarn, er enghraifft, lle y bu newid mawr, sydyn mewn amgylchiadau lleol, lle mae polisi cynllunio cenedlaethol newydd wedi'i gyflwyno neu lle mae sylwadau ar y cynllun adneuo yn nodi mater sy'n ymwneud â chadernid nas rhagwelwyd.

7.6.3 Dylai hyn fod yn un set o nifer fach iawn o newidiadau penodol sy'n adlewyrchu darnau allweddol o dystiolaeth ond nad ydynt yn ganolog i'r cynllun, gan eu bod ond yn effeithio ar rai rhannau ohono. Mae'n rhaid i awdurdod ystyried yn ofalus yr effaith a gaiff unrhyw newidiadau ar gadernid y cynllun, ar yr adeg hon, gan ystyried pa mor gyson ydyw yn gyffredinol a'i strategaeth yn ogystal â phroses asesu integredig yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Dylid ymgynghori ar y newidiadau arfaethedig hyn cyn gynted â phosibl er mwyn osgoi peri oedi i'r broses archwilio.

7.6.4 Felly, er mwyn hwyluso'r broses o gyflwyno newidiadau rhesymegol a rhesymol i'r archwiliad yn y ffordd fwyaf priodol ac effeithlon o ran amser, rydym o'r farn, yn union cyn cyflwyno ei CDLl i'w archwilio, y dylai ACLl ddechrau rhoi cyhoeddusrwydd i atodiad i'r cynllun adneuo drwy ymgynghoriad cyhoeddus (cyfnod o chwe wythnos). Dylai'r atodiad hwn nodi'r newidiadau penodol y mae am eu gwneud, gan ddangos y polisïau a'r testun newydd / diwygiedig (er mwyn sicrhau bod yr Arolygydd mewn sefyllfa i'w hymgorffori yn yr 'adroddiad rhwymo'), ac wedi'i ategu gan y rhesymau a'r dystiolaeth gadarn dros y newidiadau. Dylai'r ddogfennaeth nodi'n glir mai dim ond ar y newidiadau penodol y dylid cyflwyno sylwadau ac nad yw hyn yn gyfle i ychwanegu at y sylwadau gwreiddiol.

7.6.5 Mae'n rhaid i'r awdurdod nodi beth yw goblygiadau'r newidiadau penodol o ran cadernid y cynllun, gan roi sylw i'r canlynol:

i. sut mae'r newid arfaethedig yn ymwneud â strategaeth y cynllun;

ii. sut mae'r newid arfaethedig yn ymwneud â'r Cynllun Integredig Sengl / Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol ar gyfer yr ardal;

iii. a yw'n ystyried polisi cenedlaethol, gan gynnwys Cynllun Gofodol Cymru;

iv a yw'n ystyried cynlluniau a strategaethau perthnasol eraill a fydd yn effeithio ar y ffordd y caiff y polisïau yn y cynllun eu cyflawni, e.e. Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol;

v. a oes iddo unrhyw oblygiadau economaidd, amgylcheddol neu gymdeithasol a fydd yn golygu bod angen diwygio'r Arfarniad o Gynaliadwyedd;

vi. pa waith ymgynghori pellach sydd wedi'i wneud gan yr awdurdod neu sy'n cael ei wneud ganddo.

7.6.6. Dylid ymgorffori'r canlyniadau yn adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd y dylid ei gyhoeddi a dylid hysbysu'r Cyrff Ymgorffori.

7.6.7 Byddai'r atodiad yn rhan bwysig o'r pecyn o ddogfennau a gyflwynir i Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio gyda'r cynllun adneuo i'w harchwilio. Ar yr amod bod yr atodiad newidiadau penodol wedi bod yn destun ymgynghoriad ac Arfarniad diwygiedig o Gynaliadwyedd (os oes angen) caiff ei dderbyn gan yr Arolygydd Cynllunio fel rhan o'r CDLl a gyflwynwyd; y CDLl a gyflwynwyd fel y'i

diwygiwyd gan y newidiadau penodol arfaethedig fydd y man cychwyn ar gyfer ystyried cadernid.

7.6.8 Dylai'r ACLl goladu'r ymatebion a gaiff a'u hanfon ymlaen cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ynghyd â chrynodeb, yn uniongyrchol at yr Arolygydd Cynllunio fel bod ganddo'r holl wybodaeth sydd ei hangen i ddechrau'r archwiliad; proses weithdrefnol yn unig yw hon ac nid yw'n gofyn am unrhyw benderfyniad pellach gan yr ACLl ar yr adeg hon. Nid oes angen i'r ACLl wneud sylwadau ar yr ymatebion a gafwyd. Ni fydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn archwilio'r cynllun nes i unrhyw newidiadau penodol arfaethedig gael eu cyflwyno.

7.6.9 Os bydd yr ACLl yn ystyried gwneud newidiadau sylfaenol sy'n effeithio ar y strategaeth a'u bod mor bwysig a sylweddol fel eu bod yn ganolog i'r cynllun, bydd angen iddo ystyried yn ofalus sut y gellir datblygu'r cynllun. Gallai newidiadau mor sylfaenol gael goblygiadau o ran 'cadernid' y cynllun. Bydd angen i'r ACLl ystyried i ba raddau y mae'r angen am newid sylfaenol o'r fath yn bwrw amheuaeth ar gadernid cyffredinol y cynllun adneuo.

7.6.10 Nid oes angen ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch mân newidiadau golygu i gywiro gwallau teipio a gwallau gramadegol ac ni ddylid eu cynnwys yn yr atodiad a gyhoeddir am fod gan yr Arolygydd ddigon o awdurdod i wneud newidiadau golygu o'r fath. Gellid rhestru'r newidiadau hyn fel atodlen i ategu'r CDLl pan gaiff ei gyflwyno i'w archwilio.

7.6.11 Ni ddylai fod angen diwygio Amserlen y CDLl. Ni fwriedir i'r cam hwn beri oedi i'r broses o gyflwyno'r CDLl na pheri oedi i'r broses archwilio yn gyffredinol; bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn trefnu dyddiad y cyfarfod cyn y gwrandawiad a dyddiad dechrau'r gwrandawiadau yn unol â hynny.

## 7.7 Crynodeb o'r Tasgau Adneuo


| Tasgau Integredig y CDLl | Tasgau Penodol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd |
|---|---|
| Paratoi'r CDLl adneuo / dogfennau diwygio. | Paratoi Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd sy'n nodi sut yr ymgorfforwyd gofynion AAS yn yr asesiad integredig a sut yr ystyriwyd elfennau'r AAS a'r ymgynghoriad cysylltiedig. |
| Adneuo ffurfiol; cyhoeddi dogfennau'r CDLl (h.y. y CDLl adneuo, Adroddiad wedi'i ddiweddaru yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, yr adroddiad ymgynghori cychwynnol, y gofrestr o ddarpar safleoedd, adroddiad yr adolygiad, dogfennau ategol) ac ymgynghori arnynt. (cyfnod statudol | Trefnu bod Adroddiad wedi'i ddiweddaru yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gael gyda'r cynllun adneuo (cyfnod gofynnol statudol yr AAS, sef pedair wythnos) |

| | |
|---|---|
| o chwe wythnos) | |
| Ystyried sylwadau ar y CDLl Adneuo ac unrhyw wybodaeth newydd. | Ystyried sylwadau ar Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd |
| Ailystyried amserlen y Cytundeb Cyflawni; cyflwyno amseriadau diffiniol ar gyfer camau'r cynllun sy'n weddill. | |
| Penodi Swyddog y Rhaglen ar gyfer yr archwiliad. | |
| Paratoi'r Adroddiad Ymgynghori wedi'i ddiweddaru. | Diweddaru Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. |
| Ystyried yr angen am Newidiadau Penodol eithriadol yng ngoleuni fframwaith asesu'r cynllun | Ymgorffori effeithiau AAS yn asesiad integredig yr Arfarniad o Gynaliadwyedd o newidiadau hwyr eithriadol. |
| Paratoi a chyhoeddi'r atodiad Newidiadau Penodol i'r cynllun gydag unrhyw ddogfennaeth ategol (chwe wythnos).<br>Paratoi'r crynodeb o sylwadau ar gyfer yr Arolygydd. | Cyhoeddi'r fersiwn ddiwygiedig o Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a hysbysu'r Cyrff Ymgynghori.<br>Crynhoi'r sylwadau ar gyfer yr Arolygydd. |

*D.S. Os tybir bod y weithdrefn fer ar gyfer diwygio cynlluniau yn briodol efallai na fydd pob cam yn berthnasol - gweler 10.2.*
*Gweler Tabl 3.3 am y gofynion o ran ymgynghori.*

# 8. Cyflwyno, Archwilio a Mabwysiadu

**Ffigur 8.1: Cyflwyno, Archwilio a Mabwysiadu**




## 8.1 Cyflwyniad

8.1.1 Rhydd y bennod hon ganllawiau ar y tasgau sy'n ymwneud â chyflwyno'r CDLl. Mae'n cynnwys rôl yr Arolygydd yn ystod yr archwiliad a'r hyn a ddisgwylir gan yr awdurdod ac eraill sy'n cymryd rhan yn yr archwiliad, a ddaw o ganllawiau'r Arolygiaeth Gynllunio[16]. Mae'r bennod hon hefyd yn trafod y broses o fabwysiadu'r CDLl yn derfynol ar ôl cael adroddiad rhwymo'r Arolygydd.

[16] Canllawiau PINS: "Archwiliadau Cynlluniau Datblygu Lleol: Canllaw Gweithdrefnol " [2015]; a, "CDLlau: Paratoi ar gyfer cyflwyno – Canllaw ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol" [2015]

8.1.2 Pan gyflwynir y CDLl i'w archwilio'n annibynnol, rhaid i'r awdurdod roi cyhoeddusrwydd i hynny ynghyd â rhoi cyhoeddusrwydd i'r ddogfennaeth berthnasol a sicrhau ei bod ar gael (Rheoliad 22 o'r Rheoliadau CDLlau).

## 8.2 Cyflwyno

### 8.2.1 Profion a gwiriadau cadernid

8.2.1.1 Mae cyflwyno'r CDLl i'w archwilio'n annibynnol yn golygu anfon y CDLl Adneuo a'r dogfennau ategol i Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio, yn unol â Rheoliad 22 o'r Rheoliadau CDLlau.

8.2.1.2 Cyn cyflwyno'r CDLl dylai ACLl sicrhau ei fod wedi cydymffurfio â'r **gofynion paratoi** a'i fod o'r farn bod y cynllun yn bodloni **tri phrawf cadernid**; gweler isod[17]; bwriedir i'r cwestiynau a restrir o dan bob prawf helpu i nodi'r materion a all fo yn berthnasol o dan bob prawf – nid yw'r rhestrau yn hollgynhwysfawr ac nid ydynt, o reidrwydd, yn gymwys ym mhob achos.

**Gofynion Paratoi:**

- A yw'r broses o baratoi'r cynllun wedi cydymffurfio â gofynion gweithdrefnol cyfreithiol a rheoliadol? (Rheoliadau CDLlau, y Cynllun Cynnwys Cymunedau, y Rheoliadau AAS, yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, ac ati?)

-----------------------------------------------------------------------------------------

**Profion Cadernid:**

**Prawf 1: A yw'r cynllun yn cydweddu?** (h.y. a yw'n amlwg bod y CDLl yn cyd-fynd â chynlluniau eraill?)

***Cwestiynau***

- A yw'n ystyried polisi cenedlaethol a Chynllun Gofodol Cymru
- A yw'n ystyried Nodau Llesiant[18]
- A yw'n ystyried Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru
- A yw'n gyson â chynlluniau, strategaethau a rhaglenni cyfleustodau lleol?
- A yw'n cyd-fynd â chynlluniau awdurdodau cyfagos?
- A yw'n adlewyrchu'r Cynllun Integredig Sengl neu Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol?

[17] Mae canllawiau archwilio PINS ar gael drwy wefan PINS (http://www.planningportal.gov.uk/planning/planningsystem/localplans)
[18] Fe'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Prawf 2: A yw'n cynllun yn briodol?** (h.y. a yw'r cynllun yn briodol i'r ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?)

***Cwestiynau***

- A yw'n ymwneud yn benodol â'r ardal leol?
- A yw'n ymdrin â'r materion allweddol?
- A yw'n cael ei ategu gan dystiolaeth gadarn, cymesur a chredadwy?
- A ellir dangos y sail resymegol i bolisïau'r cynllun?
- A yw'n ceisio diwallu anghenion a aseswyd a chyfrannu at sicrhau datblygu cynaliadwy?
- A yw'r weledigaeth a'r strategaeth yn gadarnhaol ac yn ddigon dyheadol?
- A yw'r dewisiadau amgen 'gwirioneddol' wedi'u hystyried yn briodol?
- A yw'n rhesymegol, yn rhesymol ac yn gytbwys?
- A yw'n gydlynol ac yn gyson?
- A yw'n glir ac yn benodol?

**Prawf 3: A fydd y cynllun yn cyflawni** (h.y. a yw'n debygol o fod yn effeithiol?)

***Cwestiynau***

- A fydd yn effeithiol?
- A ellir ei weithredu?
- A oes cymorth ar gael gan y darparwyr seilwaith perthnasol, o ran rhoi arian a helpu i gyflawni datblygiadau o fewn terfynau amser perthnasol?
- A fydd datblygiadau yn ddichonadwy?
- A ellir darparu'r safleoedd a ddyrannwyd?
- A yw'r cynllun yn ddigon hyblyg? A oes darpariaethau wrth gefn priodol?
- A yw'n cael ei fonitro'n effeithiol?'

8.2.1.3 Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro cysondeb â pholisïau cenedlaethol drwy gydol y broses o baratoi'r CDLl, ac mae'n debygol o annog ACLlau i beidio â chyflwyno CDLl os oes gwrthdaro sylfaenol. Os ystyrir nad yw cynllun yn sylfaenol gadarn caiff sylw'r ACLl ei dynnu at hynny fel y gellir cymryd unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol (h.y. ei dynnu yn ôl) cyn ei gyflwyno. Os bydd Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu ar sail cadernid yn y dull arferol, caiff ei ystyried yn ystod yr archwiliad. Ond ni ddylid cyflwyno cynlluniau nad ydynt yn sylfaenol gadarn i'w harchwilio.

### 8.2.2 Dogfennau i'w cyflwyno[19]

8.2.2.1 Yn unol â Rheoliad 22 o'r Rheoliadau CDLlau mae'n rhaid i awdurdod gyhoeddi a hysbysebu'r ffaith bod y CDLl wedi'i gyflwyno a chyhoeddi'r ddogfennaeth berthnasol a sicrhau eu bod ar gael. Mae'n rhaid iddo anfon copïau papur i'r Arolygiaeth Gynllunio ac Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru ar yr un pryd[20] a, lle y bo'n ymarferol, un copi electronig o'r **dogfennau canlynol**:

[19] Dylid cyfeirio at restr wirio PINS ar gyfer cyflwyno dogfennau; a geir yn "CDLlau: Paratoi ar gyfer cyflwyno – Canllaw ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol" 2015, PINS.

[20] Fel arfer, mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am ddau gopi o bob dogfen y cyfeirir ati yn y rhestr, ac eithrio copïau o sylwadau unigol na ddylid eu hanfon; dylai ACLlau holi'r Is-adran Gynllunio am ofynion penodol. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn gofyn am gopïau fel y nodir yn ei rhestr wirio ar gyfer cyflwyno dogfennau.

i. y CDLl adneuo;

ii. y rhestr o newidiadau penodol (lle y bo'n gymwys);

iii. adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd;

iv. adroddiad yr adolygiad (lle y bo'n gymwys - er mwyn diwygio'r CDLl);

v. y gofrestr o ddarpar safleoedd (lle y bo'n gymwys)

vi. yr holl ddeunydd sail dystiolaeth a dogfennau technegol ategol eraill megis yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, yr arolwg o anghenion tai;

vii. y Cytundeb Cyflawni sy'n cynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau;

viii. yr adroddiad ymgynghori (a ddylai ddiweddaru'r adroddiad ymgynghori cychwynnol ac ymhelaethu arno (gweler adrannau 6.6 a 7.5.1.2) gan gynnwys:

    a. crynodeb o'r ffordd y mae wedi cynnwys y gymuned a rhanddeiliaid yn y broses o baratoi'r cynllun a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd (gan gynnwys yr AAS),

    b. unrhyw wyro oddi wrth y Cynllun Cynnwys Cymunedau gydag eglurhad (Rheoliad 9(6)),

    c. crynodeb o'r prif faterion a godwyd ar y cam cyn adneuo a sut yr ymdriniwyd â hwy yn y cynllun, a sut y dylid ymdrin â'r materion hynny a godwyd ar y cam adneuo - bydd hyn yn rhoi arweiniad i'r Arolygydd, sy'n gyfrifol am benderfynu ar faterion o'r fath,

    ch. cyfanswm y sylwadau a gafwyd,

    d. y newidiadau a argymhellir gan awdurdod mewn ymateb i sylwadau perthnasol a/neu wybodaeth newydd a fyddai'n diwygio'r cynllun adneuo heb beryglu ei gadernid, ym marn yr awdurdod - dylent fod mor gryno a syml â phosibl, a dylent ddefnyddio deunydd a baratowyd yn flaenorol (e.e. cyfeiriad at adroddiad pwyllgor neu'r gronfa ddata ymgynghori);

ix. unrhyw ddatganiadau o dir cyffredin;

x. copi o'r holl sylwadau a wnaed ar y cynllun adneuo *(ar gyfer PINS yn unig)*.

## 8.3 Archwilio

### 8.3.1 Diben a therfynau amser

8.3.1.1 Diben yr archwiliad yw asesu a yw'r gofynion o ran paratoi CDLl wedi'u bodloni ac a yw'r CDLl a gyflwynwyd yn bodloni'r profion cadernid (gweler 8.2.1 ). Bydd yr Arolygydd yn ystyried gwrthwynebiadau unigol ar sail sut y mae'r rhain yn mynd i'r afael â chadernid cyffredinol y CDLl.

8.3.1.2 Dylai'r archwiliad fod yn rhan gyflym ac effeithlon o'r broses gyffredinol o lunio CDLl diweddar. Ni ddylai'r cyfnod o amser rhwng cyflwyno'r CDLl yn ffurfiol a chyhoeddi adroddiad yr Arolygydd gymryd mwy na 12 mis, a dylai fod gryn dipyn yn llai ar gyfer diwygiadau rhannol llai sylweddol i'r cynllun.

8.3.1.3 Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn penodi Arolygydd annibynnol neu dîm o Arolygwyr, ar ran Llywodraeth Cymru. Pan fydd y materion yn gymhleth neu pan geir nifer fawr o wrthwynebiadau, efallai y bydd angen penodi un neu fwy o Arolygwyr cynorthwyol er mwyn osgoi unrhyw oedi; gall cynorthwywyr cynllunio hefyd gynorthwyo'r Arolygydd a benodwyd.

8.3.1.4 Mae cynnal trafodaethau cynnar â'r Arolygiaeth Gynllunio yn ddefnyddiol i egluro'r amserlen ac agweddau trefniadol ar yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw angen i'r ACLl gynorthwyo'r Arolygydd/Arolygwyd a benodwyd gyda sylwadau a wneir yn Gymraeg. Dylai awdurdodau ofyn am ymweliad cynghori gan yr Arolygiaeth Gynllunio er mwyn trafod penodiad a rôl Swyddog y Rhaglen a'r broses o gynnal yr archwiliad.

8.3.1.5 Bydd yr ACLl yn penodi Swyddog y Rhaglen â phrofiad gweinyddol priodol. Mae'n bwysig penodi Swyddog y Rhaglen yn gynnar yn y broses, ar y cam Adneuo os yw'n bosibl. Ni fydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn dechrau archwiliad nes i Swyddog Rhaglen gael ei benodi. Mae Swyddog y Rhaglen yn gyfrifol am:

- Reoli trefniadau'r rhaglen o ddydd i ddydd cyn ac yn ystod y gweithrediadau.
- Cofnodi'r holl ddogfennau a chynlluniau a gyflwynwyd yn ystod y gweithrediadau.
- Trefnu i'r Arolygydd archwilio'r safleoedd.
- Ymdrin â gohebiaeth gwrthwynebwyr a'r awdurdod ar ran yr Arolygydd, gan gynnwys ceisiadau am bob datganiad a'u cyfnewid.

8.3.1.6 Mae'n fwyaf tebygol y caiff Swyddog Rhaglen profiadol ei ddewis o blith cronfa o swyddogion annibynnol ac mae gan yr Arolygiaeth Gynllunio restr ohonynt. Dylid penodi Swyddogion Rhaglenni ar ôl cael sylwadau adneuo.

8.3.1.7 Bydd effeithlonrwydd yr archwiliad yn dibynnu'n fawr ar gynnal gwefan gynhwysfawr lle y dylai holl ddogfennau'r archwiliad fod ar gael. Mae'n hanfodol bod yr ACLl yn darparu digon o ofod gwe a'r adnoddau i'w gwneud yn bosibl i'r wefan gael ei diweddaru'n gyflym yn enwedig yn ystod sesiynau'r gwrandawiad. Dylid hefyd darparu ar gyfer cyfieithu dogfennau lle y bo'n briodol.

8.3.1.8 Darperir adeilad ar gyfer y gweithrediadau ffurfiol gan yr ACLl. Rhaid gwneud trefniadau digonol ar gyfer cyfranogwyr, y cyhoedd a'r wasg yn ogystal â'r Arolygydd a Swyddog y Rhaglen. Dylai'r adeilad fod yn hygyrch o ran trafnidiaeth gyhoeddus a'i addasrwydd i bobl anabl. Yr Arolygydd fydd yn penderfynu a fydd angen cyfleusterau cyfieithu ond fel arfer bydd yn mabwysiadu dull gweithredu'r ACLl.

8.3.1.9 Rhaid i'r ACLl roi'r hysbysiad gofynnol o wrandawiadau'r archwiliad (a nodir yn Rheoliad 23 o'r Rheoliadau CDLlau); dylai nodi sut, ble, a phryd y cynhelir y gweithrediadau, eu diben, ac enw'r Arolygydd. Hefyd, rhaid i'r ACLl hysbysu'r rhai sydd â hawl i gymryd rhan yn yr archwiliad.

## 8.3.2 Cymryd rhan yn yr archwiliad a'i fformat

8.3.2.1 Ceir canllawiau manwl ar y broses archwilio yn “Local Development Plan Examinations: Procedure Guidance” a gyhoeddir gan PINS. Mae'r canlynol yn rhoi trosolwg.

8.3.2.2 Mae rôl yr Arolygydd yn un ragweithiol. Gan ddibynnu ar natur a chymhlethdod yr archwiliad bydd yn cynnal cyfarfod cyn gwrandawiad d fel arfer er mwyn nodi'r materion i'w trafod a fformat yr archwiliad, ac efallai y cynhelir cyfarfodydd rhaglennu a phennu agenda dilynol.

8.3.2.3 Ar ddechrau sesiwn agoriadol yr archwiliad, dylai'r Arolygydd egluro:

- Natur a diben yr archwiliad.
- Y caiff adroddiad dilynol ei gyflwyno i'r ACLl.
- Rôl unrhyw Arolygwyr cynorthwyol neu gynorthwywyr cynllunio.
- Yr hyn y cytunwyd arno yn y cyfarfod cyn y gwrandawiad.
- Amserlen yr archwiliad.
- Manylion y trefniadau ar gyfer unrhyw ymweliadau â safleoedd.

8.3.2.4 Efallai y bydd yr Arolygydd yn gofyn am ddatganiadau ysgrifenedig byr gan gyfranogwyr yn sesiynau'r gwrandawiad mewn ymateb i gwestiynau a nodwyd, neu broflenni tystiolaeth i'w cyflwyno erbyn dyddiad penodol, a chaiff trefniadau eu gwneud ar gyfer rhoi'r deunydd hwn i bawb sy'n cymryd rhan yn y sesiynau.

8.3.2.5 Dylai fod gan bob sylw ffocws a dylai osgoi ailadrodd deunydd cyd-destunol sydd ar gael i'r Arolygydd eisoes. Dylai gwrthwynebwyr, gan gynnwys y rhai a gaiff gwrandawiad yn yr archwiliad, ddibynnu ar eu cynrychioliad gwreiddiol oni bai bod ganddynt wybodaeth newydd ychwanegol a fyddai'n helpu'r Arolygydd. Ni ddylid cyflwyno unrhyw ddeunydd newydd sylweddol yn yr archwiliad nas ystyriwyd gan yr ACLl yn ystod y broses o baratoi'r CDLl, oni bai ei fod yn hanfodol i brofi gwrthwynebiad. Dylid ystyried y rhan fwyaf o wybodaeth newydd sylweddol mewn adolygiad o'r cynllun a fabwysiadwyd.

8.3.2.6 Mae'r Arolygydd yn rhoi'r un sylw i'r sylwadau ysgrifenedig â'r rhai yr ymdriniwyd â hwy ar lafar yn yr archwiliad.

8.3.2.7 Bydd sesiynau llafar y gwrandawiad ar ffurf trafodaeth gyhoeddus lle y caiff y materion a nodwyd ymlaen llaw gan yr Arolygydd eu trafod ac y gwahoddir y cyfranogwyr i gyfrannu. Gall Arolygwyr wahodd unrhyw un i fynychu'r archwiliad, gan gynnwys cefnogwyr, a, lle y bo angen, y rhai hynny na fu iddynt wneud unrhyw sylwadau, neu'r rhai hynny na fu iddynt ofyn am wrandawiad, os byddai hyn yn hanfodol i bennu cadernid y cynllun. Fodd bynnag, nid oes gan gefnogwyr y cynllun hawl i gael gwrandawiad.

8.3.2.8 Bydd yr Arolygydd yn sicrhau bod y rhai sydd wedi arfer eu hawl i gael gwrandawiad (adran 7.4.4.2) yn cael y cyfle i gymryd rhan yn yr archwiliad yn y dull mwyaf effeithlon ac effeithiol. 'Ystyr 'yr hawl i gael gwrandawiad' yn ei hanfod yw'r hawl i wneud sylwadau gerbron yr Arolygydd ac i ymddangos yn yr archwiliad. Mater i'r Arolygydd yw sut y cânt wrandawiad. Bydd yr Arolygydd yn grwpio gwrthwynebwyr gyda'i gilydd er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd mwyaf effeithlon o amser archwilio, er enghraifft os ydynt yn ymwneud â'r un safle neu grŵp o safleoedd, yr un anheddiad neu bolisi.

8.3.2.9 Bydd yr Arolygydd yn pennu'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn gwrando sylwadau ar lafar, gan ragdybio y byddant yn rhai anffurfiol. Gwrandewir ar y rhan fwyaf drwy drafodaeth ford gron, sy'n gymwys iawn o ran asesu'r strategaeth, neu wrandawiadau a allai, mewn rhai amgylchiadau, fod yn fwy priodol ar gyfer asesu dyraniadau sy'n benodol i safle.

8.3.2.10 Gellir defnyddio gwrandawiadau ffurfiol os bydd yr Arolygydd o'r farn eu bod yn angenrheidiol ac yn briodol, fel arfer lle y mae angen profi'r dystiolaeth mewn modd mwy ymchwiliol gyda chymorth eiriolwyr. Hyd yn oed wedyn caiff yr archwiliad ei arwain gan yr Arolygydd, gan fabwysiadu'r weithdrefn fwyaf effeithlon i'w alluogi/galluogi i benderfynu p'un a yw'r CDLl yn gadarn.

8.3.2.11 Caiff y drefn y caiff materion eu harchwilio ynddi ei phennu gan yr Arolygydd yn dibynnu ar natur y materion y dewiswyd eu trafod. Ar y cyfan mae archwilio'r strategaeth cyn dyrannu safleoedd o fudd, yn enwedig lle y mae'r strategaeth yn ddadleuol a gall yr Arolygydd gyhoeddi canfyddiadau interim.

8.3.2.12 Efallai y bydd lle i gynnal sesiynau ar y cyd o fewn archwiliad a arweinir gan wahanol aelodau o dîm yr Arolygydd lle nad yw materion a ddewiswyd ar gyfer y drafodaeth yn rhyngberthyn, yn dibynnu ar y staff sydd ar gael. Hefyd, efallai y bydd lle i gynnal archwiliadau ar y cyd neu archwiliadau rhannol ar y cyd, lle y mae gan awdurdodau cyfagos faterion tebyg y mae angen mynd i'r afael â hwy ac mae eu CDLlau ar gamau tebyg.

8.3.2.13 Bydd yr Arolygydd yn ymweld â'r rhannau hynny o'r ardal a gwmpesir gan y cynllun sy'n fwyaf perthnasol, a, lle y bo angen a gan ystyried y profion cadernid, dim ond y safleoedd hynny a fydd yn ei helpu i ddod i gasgliadau ar y profion hynny y bydd yr Arolygydd ond yn ymweld â hwy. Bydd yr Arolygydd yn ymweld â safleoedd ar ei ben ei hun oni bai bod angen iddo gael mynediad i dir preifat neu adeiladau. Pan gaiff ei hebrwng, dim ond arsylwi nodweddion ffisegol ac amgylcheddol a wna'r Arolygydd ac ni fydd yn trafod rhinweddau gwrthwynebiadau na chynigion. Gall yr Arolygydd ofyn am gadarnhad neu eglurhad o nodweddion penodol safle yn ystod ymweliad lle y caiff ei hebrwng.

8.3.2.14 Cyn neu yn ystod sesiynau'r gwrandawiad gall yr Arolygydd nodi'r angen am ddiwygiadau i'r cynllun er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni'r profion cadernid a gofyn i'r ACLlau gynnig 'newidiadau materion sy'n codi' priodol. Dylid cadw rhestr o'r newidiadau hyn a'i chyhoeddi ar wefan yr archwiliad.

## 8.3.3 Agweddau ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

8.3.3.1 Mater i'r ACLl yw bodloni ei hun ei fod wedi gwneud gwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn gywir. Rôl yr Arolygydd mewn archwiliad yw ystyried cadernid y CDLl gan ddefnyddio elfennau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd o'r gwaith fel rhan o'r sail dystiolaeth a'r cyfiawnhad rhesymegol.

8.3.3.2 Efallai y bydd amgylchiadau lle yr ymddengys i'r Arolygydd nad yw'r dystiolaeth yn Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ddigonol i ddod i gasgliadau boddhaol ynghylch cadernid y CDLl, neu fod yr asesiad integredig yn ddiffygiol mewn gwirionedd ac nad yw'n ategu'r CDLl fel sydd ei angen. Mewn achosion o'r fath efallai y bydd yn rhaid i'r Arolygydd ohirio'r archwiliad er mwyn i'r dystiolaeth sydd ei hangen ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd gael ei darparu, neu argymell na chaiff y CDLl cyfan neu ran ohono ei mabwysiadu nes i'r dystiolaeth sydd ei hangen gael ei chasglu a nes i'r asesiad integredig gael ei ddiwygio a nes i'r adroddiad amgylcheddol gael ei newid.

8.3.3.3 Os bydd gwrthwynebydd yn cynnig safle amgen a aseswyd eisoes fel rhan o'r gwaith a wnaed gan yr ACLl wrth baratoi'r cynllun, bydd yr Arolygydd yn ystyried rhinweddau sylwadau'r gwrthwynebydd sef bod asesiad yr ACLl yn ddiffygiol. Fodd bynnag, man cychwyn yr archwiliad yw bod y strategaeth a'r dyraniadau yn y CDLl yn gadarn ac na fydd yr Arolygydd yn edrych y tu hwnt iddynt oni ddeuir i'r casgliad nad ydynt yn gadarn.

8.3.3.4 Os oedd safle newydd neu amgen wedi cael ei awgrymu gan ymatebydd ar y cam cyn adneuo, mae'n bwysig bod yr wybodaeth ychwanegol o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi'i darparu i'r cyrff ymgynghori statudol.

8.3.3.5 Ni fyddai Arolygydd yn gallu argymell newid i'r cynllun adneuo oni bai bod digon o wybodaeth o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd i allu deall beth fyddai effeithiau'r newid. Byddai angen i'r Arolygydd fod yn fodlon y byddai cynnwys y safle yn arwain at gynllun cadarn. Mae'n rhaid i unrhyw newid o'r fath fod yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n dangos sut y byddai'r newid yn effeithio ar y cynllun o ran ei gynaliadwyedd.

## 8.3.4 Adroddiad yr Arolygydd

8.3.4.1 Pan fydd yn asesu cadernid CDLl, bydd yr Arolygydd yn arfer ei farn neu ei barn broffesiynol yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael, y sylwadau a wnaed, ac amgylchiadau penodol y CDLl a'r ardal. Nod cyffredinol yr Arolygydd, lle bo hynny'n bosibl, yw sicrhau bod y CDLl yn cyrraedd y cam lle bo'n gadarn a lle y gellir ei fabwysiadu'n ddiogel.

8.3.4.2 Ar ôl y gwrandawiadau bydd yr Arolygydd yn llunio adroddiad yn cynnwys argymhellion manwl sy'n nodi newidiadau sydd angen eu gwneud i'r CDLl (gan gynnwys i'r map cynigion) ynghyd â'r rhesymau dros y newidiadau (adran 64(7) o Ddeddf 2004). Ni fydd yr adroddiad yn crynhoi unrhyw achosion a gyflwynwyd i'r archwiliad ond bydd yn canolbwyntio ar y mater p'un a yw'r CDLl yn gadarn, y bydd casgliadau'r Arolygydd yn ymdrin ag ef.

8.3.4.3 Mae’n dilyn bod yn rhaid i unrhyw newidiadau i'r CDLl a gyflwynwyd a wneir gan yr Arolygydd yn ei adroddiad/hadroddiad fod yn gadarn ynddynt eu hunain. Mae'n rhaid i unrhyw newidiadau, er enghraifft:

- Gyd-fynd ar y cyfan â pholisi cenedlaethol a Chynllun Gofodol Cymru.
- Peidio ag effeithio’n uniongyrchol ar unrhyw un nad yw wedi cael y cyfle i wneud sylwadau.
- Bod yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael yn yr archwiliad.
- Cael eu hategu gan resymau clir yn seiliedig ar y dystiolaeth.
- Cyd-fynd â strategaeth y CDLl.
- Bod yn realistig a dylai fod yn bosibl eu cyflawni.

8.3.4.4 Ni fyddai Arolygydd yn gallu argymell cynnwys unrhyw safle newydd neu amgen yn y CDLl os byddai hyn yn golygu nad yw’r cynllun yn gadarn. Fodd bynnag, efallai y bydd yr Arolygydd yn argymell cynnwys safle newydd neu amgen os byddai gwneud hynny yn golygu bod y cynllun yn gadarn.

8.3.4.5 Mewn cyfyngder, pe na bai’r cynllun yn amlwg yn gadarn, efallai y byddai’r Arolygydd yn argymell y dylid ei dynnu’n ôl. Ni fydd Arolygydd sy'n ystyried nad yw cynllun yn sylfaenol gadarn yn argymell y dylid ei fabwysiadu. Fodd bynnag, gan dybio y gwneir y profion cadernid cyn cyflwyno (gweler adran 8.2.1.2 uchod), ni ddylai hyn fod yn debygol.

8.3.4.6 Fel arall, y canlyniadau mwyaf tebygol o’r asesiad o gadernid a gynhaliwyd gan yr Arolygydd yw:

- Mae angen gwaith ychwanegol cyn y mabwysiadu/archwilio’r CDLl ymhellach.
- Ystyrir bod y cynllun (gan gynnwys unrhyw newidiadau penodol arfaethedig) yn gadarn, yn amodol ar “newidiadau materion sy'n codi” y cytunwyd arnynt gan yr ACLl a/neu nifer fach o newidiadau ychwanegol gan yr Arolygydd.

8.3.4.7 Bydd casgliadau'r Arolygydd yn **gyfrwymol** ac **mae'n rhaid i'r awdurdod dderbyn y newidiadau a fynnir gan yr Arolygydd a mabwysiadu'r CDLl fel y'i diwygiwyd**.

8.3.4.8 Mae gan yr awdurdod gyfle, cyn i adroddiad yr Arolygydd gael ei gwblhau, i ofyn am i wallau ffeithiol gael eu cywiro. Ni all yr awdurdod herio casgliadau'r Arolygydd, er y gall geisio eglurhad ynglŷn ag unrhyw gasgliad yr ystyrir ei fod yn aneglur. Dylai awdurdodau gwblhau'r gwiriad ffeithiau o fewn pythefnos i gael adroddiad yr Arolygydd. Ar ôl i'r gwiriad ffeithiau gael ei gwblhau ac ar ôl i'r Arolygydd ymateb i unrhyw bwyntiau a godwyd, cyflwynir yr adroddiad terfynol i'r awdurdod ac Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru ar ffurf electronig a phapur. Cytunir ar yr amserlen ar gyfer adroddiad yr Arolygydd rhwng yr awdurdod a'r Arolygiaeth Gynllunio fel rhan o gytundeb lefel gwasanaeth.

8.3.4.9 O ran cyfieithu i'r Gymraeg, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn cydymffurfio â'i Chynllun Iaith Gymraeg, fel y'i heglurir yn ei chanllawiau gweithdrefnol cyhoeddedig ar archwilio CDLlau. Yr adroddiad diffiniol fydd yr adroddiad gwreiddiol fel y'i hysgrifennwyd gan yr Arolygydd, cyn iddo gael ei gyfieithu.

8.3.4.10 Daw'r archwiliad i ben yn ffurfiol ar ôl i'r Arolygydd gyflwyno ei adroddiad i'r ACLl.

## 8.4 Mabwysiadu

### 8.4.1 Cyhoeddi adroddiad yr Arolygydd

8.4.1.1 Mae'n rhaid i awdurdod gyhoeddi adroddiad yr Arolygydd a threfnu ei fod ar gael erbyn diwrnod mabwysiadu'r CDLl; mae'n rhaid iddo hefyd hysbysu'r rhai a ofynnodd am iddynt gael eu hysbysu ei fod wedi'i gyhoeddi (Rheoliad 24 o'r Rheoliadau CDLlau).

8.4.1.2 Mae cyhoeddi adroddiad yr Arolygydd yn golygu sicrhau bod copïau ar gael i'w harchwilio yn y lleoliadau yr adneuwyd y cynllun ac ar wefan yr awdurdod, yn unol â Rheoliad 24 o'r Rheoliadau CDLlau.

### 8.4.2 Datganiad mabwysiadu ac Adroddiad terfynol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

8.4.2.1 Oni fydd Llywodraeth Cymru yn ymyrryd, mae'n rhaid i'r awdurdod fabwysiadu'r CDLl drwy benderfyniad, o fewn wyth wythnos i gael adroddiad yr Arolygydd; mae'n rhaid iddo lunio datganiad mabwysiadu a, chyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, gyhoeddi'r ffaith bod y CDLl wedi'i fabwysiadu a lle y gellir ei archwilio (Rheoliad 25 o'r Rheoliadau CDLlau).

8.4.2.2 Mae'n rhaid i'r datganiad mabwysiadu nodi'r dyddiad mabwysiadu a'r her i'r Uchel Lys (sail a chyfnod). Dylai hefyd grynhoi'r modd y mae'r ACLl wedi ystyried canfyddiadau proses yr asesiad integredig a'r modd yr integreiddiwyd ystyriaethau cynaliadwyedd yn fwy cyffredinol â'r CDLl. Rhaid i'r crynodeb hwn egluro unrhyw newidiadau a wneir i'r CDLl o ganlyniad i'r broses asesu ac ymatebion i'r ymgynghoriad, neu pam na wnaed unrhyw newidiadau neu y gwrthodwyd opsiynau. Dylid paratoi fersiwn terfynol Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd er mwyn nodi goblygiadau unrhyw newidiadau sylweddol a argymhellir gan yr Arolygydd yn ei adroddiad/hadroddiad rhwymol. Dylai gyfeirio at y mesurau monitro integredig. Dylai Adroddiad terfynol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd / datganiad mabwysiadu gynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reoliad 16(4) o'r Rheoliadau AAS.

8.4.2.3 Nid oes angen i'r datganiad mabwysiadu ddyblygu llawer o'r deunydd sydd eisoes yn Adroddiad yr Arolygydd, Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Adroddiad Ymgynghori, ond gallai groesgyfeirio at y dogfennau hyn. Dylai hyn arwain at ddatganiad cymharol fyr o ddim mwy na 2 i 3 tudalen.

### 8.4.3 Cyhoeddi'r CDLl

8.4.3.1 Dylid trefnu bod copïau o'r CDLl a fabwysiadwyd, y datganiad mabwysiadu, adroddiad yr Arolygydd ac adroddiad terfynol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gael i'w harchwilio yn y lleoliadau lle yr adneuwyd y cynllun ac ar wefan yr awdurdod; mae'n rhaid anfon copïau o'r datganiad mabwysiadu at y rhai sydd wedi gofyn iddynt gael eu hysbysu o'r ffaith bod y CDLl wedi'i fabwysiadu (Rheoliadau 25 a 39 o'r Rheoliadau CDLlau).

8.4.3.2 Dylai'r dogfennau hyn hefyd fod ar gael i'w prynu am ffi resymol cyn gynted ag sy'n ymarferol. Dylid cyhoeddi'r CDLl yn derfynol cyn gynted â phosibl ac fel yr amlinellir yn y Cytundeb Cyflawni. Mae'n rhaid i'r awdurdod anfon pedwar copi o'r CDLl a fabwysiadwyd a'r datganiad mabwysiadu i Lywodraeth Cymru.

8.4.3.3 Argymhellir y dylai ACLlau gynhyrchu nodyn cryno o'u CDLlau (gallai hyn fod yn un daflen, neu'n bamffled byr – gweler 6.4.3).

8.4.3.4 Daw CDLl yn weithredol ar y dyddiad y caiff ei fabwysiadu neu, os caiff y cynllun ei alw i mewn, ar y dyddiad a gymeradwyir gan Lywodraeth Cymru. Caniateir cyfnod herio o chwe wythnos i'r Uchel Lys yn Neddf Cynllunio 2004 (adran 113). Esbonnir sail heriau a chanlyniadau posibl yn y bennod yn PCC sy'n ymdrin â CDLlau.

### 8.4.4Tynnu cynllun yn ôl

8.4.4.1 Gall ACLl dynnu CDLl sy'n datblygu yn ôl ar unrhyw adeg cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ac i'r Arolygiaeth Gynllunio am archwiliad annibynnol. Ar ôl i'r cynllun gael ei gyflwyno, dim ond os yw'r Arolygydd sy'n cynnal yr archwiliad yn argymell y dylid ei dynnu'n ôl y dylid gwneud hynny (ac nid yw Llywodraeth Cymru yn dyfarnu yn erbyn yr argymhelliad hwnnw), neu os bydd Llywodraeth Cymru yn mynnu y dylid tynnu'r cynllun yn ôl.

## 8.5 Crynodeb o'r Tasgau Cyflwyno, Archwilio a Mabwysiadu

| Tasgau Integredig y CDLl | Tasgau Penodol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd |
|---|---|
| Cyflwyno'r CDLl adneuo / fersiwn ddiwygiedig (fel eithriad, fel y'i diwygiwyd gan unrhyw newidiadau penodol arfaethedig), Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, y Cytundeb Cyflawni/Cynllun Cynnwys Cymunedau, yr adroddiad ymgynghori, y gofrestr o ddarpar safleoedd, copi o'r sylwadau adneuo, dogfennau ategol, papurau cefndir.<br>Pan fydd ar gael, anfon yr ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch newidiadau | Cyflwyno Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd yr Awdurdod gan gynnwys asesiad o unrhyw newidiadau penodol ac adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd y cynigydd ar unrhyw safleoedd newydd neu amgen nas aseswyd yn flaenorol. |

| | |
|---|---|
| penodol a chrynodeb ymlaen at yr Arolygydd. | |
| Archwiliad gan Arolygydd/Arolygwyr annibynnol gyda gwrandawiadau fel y bo'n briodol (darparu lleoliad / swyddog y Rhaglen).<br>Cyhoeddi'r archwiliad a sesiynau unrhyw wrandawiad a rhoi gwybod amdanynt.<br>Cyfarfod cyn gwrandawiad i nodi materion a fformat yr archwiliad.<br>Cytuno ar unrhyw ddatganiadau o dir cyffredin a'u cyflwyno (gweler adran 6.2.4.4, 7.5.1).<br>Llunio a chyflwyno datganiadau ar gyfer sesiynau'r gwrandawiad.<br>Ystyried unrhyw ofyniad o ran 'newidiadau materion sy'n codi'; cyhoeddi ac ymgynghori fel y bo'n briodol. (chwe wythnos) | |
| Cyhoeddi adroddiad rhwymo'r Arolygydd<br><br>Mabwysiadu o fewn 8 wythnos i dderbyn adroddiad yr Arolygydd.<br>Cyhoeddi'r CDLl a fabwysiadwyd.<br>Llunio'r datganiad mabwysiadu; cyhoeddi bod y CDLl wedi'i fabwysiadu; hysbysiadau. | Cyhoeddi Adroddiad terfynol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd / trefnu ei fod ar gael.<br>Hysbysu cyrff statudol a chyhoeddi hysbysiad cyhoeddus o'r broses o fabwysiadu'r cynllun a'i argaeledd, datganiad mabwysiadu o'r modd yr ystyriwyd ystyriaethau amgylcheddol a sylwadau, a mesurau ar gyfer monitro cynigion. |

*D.S. Os tybir bod y weithdrefn fer ar gyfer diwygio cynlluniau yn briodol efallai na fydd pob cam yn berthnasol - gweler 10.2.*
*Gweler Tabl 3.3 am y gofynion o ran ymgynghori.*

# 9. Monitro

## 9.1 Cyflwyniad

9.1.1 Mae monitro yn broses barhaus o ddiwedd un cylch o'r broses llunio cynllun hyd at ddiwedd yr un nesaf. Mae’n ddolen adborth allweddol o fewn y broses gylchol o lunio polisïau cynaliadwy. Mae'n cysylltu amcanion y cynllun â'r sail dystiolaeth a'r broses ddilynol o roi'r strategaeth ar waith. Dylai unrhyw adolygiad o'r cynllun ac unrhyw waith datblygu polisïau yn y dyfodol fod yn seiliedig ar y canfyddiadau yn y fframwaith monitro.

9.1.2 Mae Deddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau adolygu materion yn barhaus a allai effeithio ar y broses o gynllunio a datblygu eu hardaloedd. Nid yw'r gofyniad hwn yn un newydd a dylai fod yn swyddogaeth barhaus sy'n llywio'r gwaith o baratoi'r cynllun a'i fonitro wedyn. Mae gwaith monitro effeithiol yn agwedd hanfodol ar y gwaith o lunio polisïau sy’n seiliedig ar dystiolaeth (gweler adran 5.3.3).

9.1.3 Rhoddir pwys ychwanegol ar fonitro wrth wirio pa un a weithredir y symud tuag at ddatblygu cynaliadwy ai peidio (gweler adran 9.2.2). Mae’r Rheoliadau AAS yn benodol yn ei gwneud yn ofynnol i waith monitro nodi effeithiau andwyol nas rhagwelwyd a galluogi camau adferol priodol i gael eu cymryd. At hynny, dylai'r elfennau AAS o'r gwaith monitro helpu i wneud y canlynol:

- Nodi pa un a oedd y rhagfynegiadau o ran effeithiau cynaliadwyedd yn gywir ai peidio.
- Nodi pa un a yw’r cynllun yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni amcanion a thargedau integredig (gan gynnwys gofynion AAS).
- Nodi pa un a yw mesurau lliniaru yn perfformio cystal â’r disgwyl.
- Nodi pa un a yw unrhyw effeithiau andwyol o fewn terfynau derbyniol neu pa un a oes angen cymryd camau unioni;
- Llenwi bylchau mewn gwybodaeth sylfaenol AAS lle bo hynny’n berthnasol ac yn ddichonadwy.


9.1.4 Er mwyn osgoi dyblygu canlyniadau rhwng y gwaith monitro sy'n cael ei wneud ar gyfer yr AAS a'r cynllun datblygu, dylai'r ACLl geisio integreiddio dangosyddion cymaradwy er mwyn sicrhau effeithlonrwydd ac eglurder.

9.1.5 Mae'r bennod hon yn cynnwys canllawiau ar sefydlu fframwaith monitro, datblygu targedau a dangosyddion a llunio Adroddiad Monitro Blynyddol.

## 9.2 Egwyddorion ar gyfer sefydlu Fframwaith Monitro

9.2.1 Dylid dechrau meddwl am fframwaith monitro ar y cam casglu tystiolaeth (Pennod 5), a bydd angen ymgorffori dangosyddion yn y CDLl adneuo (Pennod 7) a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd (gweler adrannau 5.4, 6.4.4 a Ffigur 6.4) ac, os oes angen, eu hadolygu yng ngoleuni unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad.

**Ffigur 9.1: Monitro**



9.2.2 Dylai'r fframwaith monitro gael ei lunio i asesu perfformiad polisïau o ran cyflawni amcanion integredig y cynllun (gweler adran 5.4) sy'n cynnwys datblygu cynaliadwy a gofynion AAS. Dylai nodi darpariaethau allweddol y cynllun a dangosyddion, targedau a phwyntiau sbardun perthnasol a fydd yn dangos a yw'r cynllun yn effeithiol o ran cyflawni ei strategaeth ac a yw dyraniadau safle-benodol allweddol yn cael eu cyflawni. Gall hefyd nodi heriau, cyfleoedd a ffyrdd ymlaen posibl o ran diwygio ac addasu cynigion a pholisïau'r CDLl. Fodd bynnag, dylai hefyd gydnabod y cyfyngiadau a all fodoli o ran adnoddau, argaeledd data a therfynau amser.

9.2.3 Dylai'r fframwaith monitro fod yn seiliedig ar **bum egwyddor gyffredinol**, sef:

- **Canolbwyntio ar yr hyn sydd angen ei fonitro** h.y. lle mae effeithiau sylweddol yn debygol o fod (nid pob polisi) ac eglurder ynglŷn â'r math o wybodaeth sydd ei hangen;
- **Defnyddio gwybodaeth bresennol**, er mwyn osgoi dyblygu diangen â dulliau monitro eraill, e.e. asesiad o berfformiad y CDLl, y Cynllun Cynnwys Cymunedau / Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, dangosyddion cynaliadwyedd a gwaith arolygu;
- **Pennu targedau, dangosyddion a phwyntiau sbardun** er mwyn asesu'n ddi-oed pa un a yw polisïau yn cyflawni eu hamcanion datganedig;
- **Cysondeb â chanllawiau monitro cenedlaethol perthnasol**, e.e. o ran dangosyddion rhagnodedig a chraidd a diffiniadau cyffredin;
- **Mabwysiadu dull deongliadol sy'n seiliedig ar weithredu** yn unol â "chynllunio, monitro a rheoli". Mae hyn yn sicrhau nad dim ond ar gasglu gwybodaeth y mae'r pwyslais, ond ar ddehongli'r canlyniadau ac adeiladu arnynt bob blwyddyn er mwyn llywio adolygiadau o bolisïau lle bo angen. Gall hefyd nodi materion neu effeithiau newydd hollbwysig sy'n gofyn am ymateb wedi'i dargedu er mwyn llenwi bylchau yn y sail wybodaeth.

9.2.4 Mae'n bwysig cydnabod **cyfyngiadau posibl** ar waith monitro yn cynnwys:

- Prinder gwybodaeth gyson, cyfredol a pherthnasol mewn meysydd pwnc penodol, e.e. ar rai agweddau ar ddefnydd tir a newid cymdogaeth.
- Gall dibynnu ar ffynonellau data sy'n bodoli eisoes olygu na ellir monitro rhai dangosyddion mwyach neu y bydd angen eu diwygio, o bosibl, er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â dulliau wedi'u diweddaru o gasglu data. Dylid nodi hyn yn glir yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol.
- Cymhlethdod dylanwadau lluosog: anaml y gellir priodoli canlyniadau i bolisïau'r cynllun datblygu yn unig.
- Dewis terfynau amser addas: efallai na fydd yn bosibl asesu llawer o agweddau ar waith cynllunio nes i batrymau ddod i'r amlwg yn yr 2il neu'r 3ydd Adroddiad Monitro Blynyddol.

9.2.5 Lle y bo'n bosibl, dylid datblygu systemau data ar gyfer monitro gwaith cynllunio mewn modd integredig gan ddefnyddio diffiniadau, tybiaethau a seiliau daearyddol cyffredin a dylid cyflwyno tystiolaeth ar eu cyfer. Dylid osgoi mesurau rhy gymhleth y byddai'n anodd eu rhoi ar waith.

9.2.6 Mae'n ddefnyddiol cofnodi'r broses fonitro ar ffurf tablau yn y cynllun. Mae'n ddefnyddiol nodi a gwneud sylwadau ar y canlynol:

- Pryd y mae angen cynnal y broses fonitro (dyddiadau ac amlder).
- Sut y dylid cyflwyno canlyniadau ac ym mha fformat.
- Sut y caiff canfyddiadau'r agweddau AAS ar y gwaith monitro eu cynnwys a'u nodi yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol (gweler adran 9.4).
- Cysylltiad ag amcanion y cynllun ar gyfer pob dangosydd
- Polisïau strategol a lleol sy'n berthnasol i'r dangosydd
- Nodi dangosyddion, targedau a phwyntiau sbardun, lle y bo angen
- Y corff sy'n gyfrifol am gynnal y broses fonitro

## 9.3 Datblygu Targedau a Dangosyddion Monitro

### 9.3.1 Targedau

9.3.1.1 Dylai awdurdodau fabwysiadu'r ymagwedd "CAMPUS" tuag at ddiffinio targedau a dangosyddion, lle y bo hynny'n ymarferol. Golyga hyn eu bod yn Gyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol.

9.3.1.2 Mae angen dau fath o darged:

- Targedau polisi sy'n gysylltiedig â dangosyddion allbwn a fydd yn darparu meincnod ar gyfer mesur y graddau y gweithredir polisïau (er enghraifft, byddai ffigurau'r ddarpariaeth dai a gynhwysir yn y strategaeth gyffredinol neu mewn polisi tai yn darparu'r targed ar gyfer mesur cynnydd yn ei erbyn).
- **Targedau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd** sy'n mesur effeithiau sylweddol gweithredu polisïau. Bydd y rhain yn adlewyrchu'r gofynion AAS a ymgorfforwyd ym mhroses asesu'r cynllun integredig.

9.3.1.3 Dylai llawer o'r targedau hyn fod wedi cael eu diffinio ar gam cynnar yn y broses o baratoi CDLl, gyda chyfranogiad rhanddeiliaid. Gall rhai fod yn dargedau cyffredin sydd eisoes wedi eu cynnwys yn y Cynllun Integredig Sengl / Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol neu mewn strategaethau cenedlaethol perthnasol. Dylai targedau eraill gael eu pennu gan ACLlau yn unol ag agweddau allweddol ar y broses o gyflawni ei strategaeth.

## 9.3.2 Dangosyddion

9.3.2.1 Dylai awdurdodau ganolbwyntio ar ddangosyddion allbwn, a ddefnyddir i asesu perfformiad y CDLl. Bwriedir i'r rhain fesur gweithgareddau ffisegol mesuradwy sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithredu polisïau cynllunio. Dylai dangosyddion AAS fonitro effaith polisïau ar adnoddau amgylcheddol a, lle y bo'n bosibl, dylid eu hintegreiddio â dangosyddion cymaradwy. .

9.3.2.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno set o ddangosyddion Datblygu Cynaliadwy rhagnodedig cenedlaethol y gellir eu hintegreiddio â'r fframwaith monitro os yw'n briodol er mwyn cyflawni ei strategaeth.

9.3.2.3 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod dangosyddion allbwn craidd yn hanfodol i asesu'r broses o weithredu polisi cenedlaethol. Nodir dangosyddion craidd a ddylai gael eu monitro gan ACLlau isod ac maent yn cynnwys y ddau ddangosydd a ragnodir yn Rheoliad 37 o'r Rheoliadau CDLlau. Dylai ACLlau hefyd ddiffinio dangosyddion lleol pwysig ar gyfer eu CDLl.

9.3.2.4 Mae dangosyddion yn fwyaf defnyddiol pan fyddant yn gysylltiedig â tharged cyfatebol, hyd yn oed os yw hyn ond yn cael ei fynegi fel dewis cyfeiriad teithio.

## 9.3.3 Dangosyddion Craidd ar gyfer monitro CDLlau

9.3.3.1 Dangosyddion Craidd a Ragnodir yn Rheoliad 37 (ceir rhagor o wybodaeth yn TAN 1 a TAN 2):

- Y cyfenwad o dir ar gyfer tai, a gymerwyd o'r Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai bresennol. Caiff hyn ei fesur yn ôl cyflenwad blynyddoedd.
- Nifer yr anheddau fforddiadwy ychwanegol a marchnad gyffredinol net a adeiladwyd yn ardal yr ACLl (h.y. drwy'r system gynllunio). Dylai hyn nodi nifer y tai newydd a adeiladwyd, llai unrhyw dai a ddymchwelwyd, yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol ac ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu.

9.3.3.2 Dangosyddion Allbwn Eraill ar gyfer CDLlau:

- Cyfanswm yr unedau tai a ganiateir ar safleoedd a ddyrannwyd fel % o gyfanswm y ddarpariaeth dai
- Tir ar gyfer cyflogaeth a ganiateir (ha) ar safleoedd a ddyrannwyd fel % o'r holl ddyraniadau cyflogaeth.
- Faint o ddatblygiadau manwerthu, swyddfeydd a hamdden mawr (m sg) a ganiateir y tu mewn i ffiniau canol trefi ac ardaloedd sefydledig a'r tu allan iddynt.
- Graddau'r agregau sylfaenol ar y tir a ganiateir yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau a fynegir fel canran o'r capasiti gofynnol fel y nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (MTAN).

## 9.4 Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB)

9.4.1 Mae AMBau yn ddefnyddiol wrth wella tryloywder y broses gynllunio, ac maent yn hysbysu rhanddeiliaid, y gymuned a grwpiau busnes yn barhaus am faterion yn ymwneud â’r cynllun datblygu. Mae’n ofynnol i bob awdurdod baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol sy’n cwmpasu’r flwyddyn ariannol flaenorol rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth. Rhaid iddo gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref bob blwyddyn a’i gyhoeddi ar wefan yr awdurdod, yn unol â Rheoliad 37 y CDLl. Dylid cyflwyno’r AMB cyntaf erbyn 31 Hydref yn ystod y flwyddyn ar ôl mabwysiadu'r CDLl cyntaf, oni fyddai’r 12 mis hwnnw wedi pasio ers ei fabwysiadu, ac os felly dylid ei gyflwyno erbyn 31 Hydref y flwyddyn ddilynol.

9.4.2 Dylai'r AMB asesu i ba raddau y mae strategaethau, polisïau a safleoedd allweddol y CDLl yn cael eu cyflawni. Dylai'r adroddiad cyntaf sefydlu data ar yr amrywiaeth o ddangosyddion yn y fframwaith monitro y bwriedir eu defnyddio i fonitro polisïau. Dylai’r rhain gynnwys dangosyddion a nodwyd yn genedlaethol (adran 9.3.3). Dylai gwaith monitro nodi gwerthoedd data cyfredol a, lle y bo'n bosibl, adeiladu ar dueddiadau a nodwyd yn yr AMBau blaenorol.

9.4.3 Yr AMB yw’r prif ddull o adolygu perthnasedd a llwyddiant y CDLl a nodi unrhyw newidiadau angenrheidiol o dueddiadau sefydlwyd a nodwyd yn yr 2$^{il}$ neu'r 3$^{ydd}$ AMB. Er mwyn cyflawni’r swyddogaeth hon, dylai fod gan yr adroddiad ffocws pendant iawn yn hytrach na chynhyrchu crynodeb ystadegol.

9.4.4 Ymhlith yr agweddau a gynhwysir yn ddefnyddiol o fewn AMB mae:

- Canfyddiadau allweddol, ar ffurf Crynodeb Gweithredol 1-2 dudalen.
- Newidiadau cyd-destunol sylweddol, h.y. adolygiad o faterion strategol ehangach sy’n effeithio ar yr ardal leol a’r cyd-destun y mae’r CDLl yn gweithredu o fewn iddo, gan gynnwys ffawd unrhyw ddiwydiannau lleol sylweddol, canllawiau cynllunio cenedlaethol sydd ar ddod, cais cynllunio sylweddol.
- Gwaith monitro cynaliadwyedd sy'n ymwneud ag Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r broses asesu integredig (gweler adran 9.2.2).
- Monitro strategaeth, er mwyn asesu pa un a yw’r cynllun yn cyflawni ei brif amcanion, a pha un a yw “ar y trywydd iawn” o ran y lefel weithredu e.e. i ba raddau y datblygir tai newydd, faint o safleoedd mawr a lenwir.
- Monitro polisïau er mwyn nodi unrhyw bolisïau nad ydynt yn gweithio’n effeithiol a sut yr eir i'r afael â materion o'r fath.
- Casgliadau ac argymhellion; e.e. nodi unrhyw welliannau/newidiadau i rannau allweddol o’r cynllun y byddai angen eu hystyried drwy adolygu'r cynllun ac, o bosibl, ei ddiwygio yn y dyfodol. Gall ymatebion priodol eraill gynnwys nodi'r angen am CCAau neu'r angen i wneud rhagor o waith ymchwil a chasglu rhagor o dystiolaeth.

9.4.5 Nid yw'n realistig monitro pob polisi ac nid oes angen gwneud hynny – byddai hyn yn arwain at ddogfen sy'n fawr ac yn gymhleth, a hynny'n ddiangen. Bydd angen cynnwys rhai meysydd allweddol yn gyson bob blwyddyn a mater i'r Awdurdod fydd penderfynu ar hyn yn seiliedig ar yr elfennau hynny sy'n hanfodol i gyflawni strategaeth y cynllun.

9.4.6 Dylai strwythur eang yr AMB aros yr un fath o flwyddyn i flwyddyn er mwyn sicrhau rhwyddineb wrth ddadansoddi rhwng adroddiadau olynol ac adeiladu ar ganlyniadau blaenorol. Bydd gwneud defnydd da o ddeunydd esboniadol megis siartiau, graffiau a mapiau hefyd yn gwneud yr AMB yn haws ei ddeall.

9.4.7 Mae'n bwysig bod i'r AMB ddimensiwn dadansoddol. Mae hefyd yn werth ymgorffori gwybodaeth ansoddol o waith ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol, er enghraifft barn arweinwyr cymunedol am eu hardaloedd, ac asesiad y lluniwr cynlluniau o dueddiadau, amodau a materion sy'n sbarduno newid.

9.4.8 Mae'n bwysig ystyried pam bod angen gwybodaeth, a strwythuro'r dadansoddiad yn unol â hynny. Mae'n bosibl y bydd y cwestiynau canlynol yn berthnasol:

- Pa faterion newydd sydd wedi codi yn yr ardal neu mewn polisïau lleol/cenedlaethol (newidiadau cyd-destunol diweddar allweddol a newidiadau diweddar allweddol mewn polisïau cenedlaethol, rhagolygon ar gyfer y dyfodol)?
- Pa mor berthnasol, priodol a diweddar yw strategaeth y CDLl, ei bolisïau a'i dargedau allweddol?
- Pa safleoedd a ddatblygwyd ac y gohiriwyd eu datblygu mewn perthynas â disgwyliadau'r cynllun ar leoliad ac amseru?

9.4.9 Pa mor effeithiol fu'r gwaith o weithredu polisïau ac o ran atal gwaith datblygu amhriodol?


## 9.5 Crynodeb o'r Tasgau Monitro

| Tasgau Integredig y CDLl | Tasgau Penodol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd |
|---|---|
| Ystyried anghenion y fframwaith monitro o'r cychwyn; sefydlu'r fframwaith monitro gyda thargedau a dangosyddion.<br>Casglu data / monitro. | Pennu targedau a dangosyddion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd; Monitro effeithiau sylweddol a mesurau lliniaru. |
| Paratoi, cyhoeddi a chyflwyno Adroddiad(au) Monitro Blynyddol | Cynnwys canlyniadau gwaith monitro'r AAS yn yr AMB. Ystyried yr angen am gamau gweithredu adferol |

*D.S. Os tybir bod y weithdrefn fer ar gyfer diwygio cynlluniau yn briodol efallai na fydd pob cam yn berthnasol - gweler 10.2.*
*Gweler Tabl 3.3 am y gofynion o ran ymgynghori.*

# 10. Adolygu a Diwygio

**Ffigur 10.1: Adolygu**




## 10.1 Adolygiad ac Adroddiad yr Adolygiad

*- Ffactorau ysgogi adolygiad*

10.1.1 O dan Adran 69 o Ddeddf 2004 mae'n ofynnol i ACLl adolygu CDLl a chyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru ar y cyfryw adegau ag a ragnodir. Er mwyn sicrhau y cynhelir asesiad rheolaidd a chynhwysfawr o b'un a yw cynlluniau yn dal i fod yn gyfredol ac a oes angen newidiadau dylai awdurdod ddechrau adolygiad A69 llawn o'i CDLl cyn pen pob pedair blynedd o'r adeg y'i mabwysiadwyd i ddechrau ac wedyn o'r dyddiad y'i mabwysiadwyd ddiwethaf yn dilyn adolygiad o dan A69 (Rheoliad 41). Dylai adolygiad o gynllun ddefnyddio AMBau cyhoeddedig, tystiolaeth a gasglwyd drwy dystiolaeth wedi'i diweddaru o arolygon (fel y nodir yn A61 - gweler 5.3.1.1) a dangosyddion cyd-destunol perthnasol, gan gynnwys newidiadau perthnasol i bolisi cenedlaethol.  Gyda'i gilydd, dylai'r rhain ei gwneud yn bosibl i Adroddiad yr Adolygiad gael ei gyhoeddi'n gyflym, o fewn chwe mis i ddechrau'r broses adolygu.

10.1.2 Yn ogystal ag adolygiad llawn, mae Rheoliad 41 yn darparu ar gyfer cynnal adolygiad detholus o'r CDLl. Bydd amseriad ac amlder yr adolygiad o'r cynllun, heblaw am y gofyniad i'w gynnal bob pedair blynedd, yn dibynnu ar ganfyddiadau'r AMB a fydd yn cynnwys newidiadau ar lefel genedlaethol a lleol. Mae proses fonitro flynyddol a gwaith adolygu rheolaidd yn golygu y bydd cynlluniau yn parhau i fod yn gyfredol a chefnogi amcanion y system a arweinir gan gynllun i roi sicrwydd; sicrhau penderfyniadau rhesymegol a chyson; a lleihau nifer y ceisiadau a'r apelau cynllunio a luniwyd yn anghywir.

10.1.3 Felly, mae'r ffactorau ysgogi allweddol ar gyfer cynnal adolygiad a'r angen canlyniadol i lunio Adroddiad ar yr Adolygiad am fod tystiolaeth newydd a fyddai o blaid mabwysiadu dull gweithredu gwahanol, fel a ganlyn:

- Newid cyd-destunol mawr (e.e. i bolisi neu ddeddfwriaeth genedlaethol; yn y cyd-destun lleol e.e. safle cyflogaeth mawr yn cau sy'n tanseilio'r economi leol; ym mhwysau neu anghenion datblygu a strategaethau buddsoddi buddsoddwyr cyhoeddus a buddsoddwyr preifat mawr).
- Pryderon sylweddol o ganfyddiadau'r AMB o ran effeithiolrwydd polisïau, cyfraddau cynnydd, ac unrhyw broblemau gweithredu.
- A69 /Rheoliad 41 y gofyniad i gynnal adolygiad llawn.

*- Camau yn yr adolygiad*

10.1.4 Wrth gynnal unrhyw adolygiad o gynllun bydd angen i'r ACLl ystyried pa mor gadarn yw'r cynllun a fabwysiadwyd. Bydd hyn yn cynnwys ystyried canfyddiadau'r AMBau blaenorol, y sail dystiolaeth wedi'i diweddaru ac arolygon A61 sy'n mynd rhagddynt. Dylai'r adolygiad gynnwys ailystyried yr Arfarniad o Gynaliadwyedd neu yn achos CDLl mwy diweddar yr agweddau ar arfarniad integredig o'r cynllun sy'n ymwneud â'r AAS. Dylai hefyd gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol er mwyn helpu i benderfynu sut i symud ymlaen fel yr ystyrir yn briodol (gweler Atodiad B); dylai hyn helpu i gyfiawnhau casgliadau'r broses adolygu. Yn ddelfrydol, dylid integreiddio adolygiad o CDLl ag adolygiad o'r Cynllun Integredig Sengl / Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, er y cydnabyddir na fydd hyn yn briodol bob amser.

*- Adroddiad yr Adolygiad*

10.1.5 Dylai Adroddiad yr Adolygiad nodi'n glir yr hyn a ystyriwyd, pa randdeiliaid allweddol a gynhwyswyd yn y broses a pha newidiadau sydd eu hangen, yr hyn y mae angen iddo newid a pham, yn seiliedig ar dystiolaeth; gan gynnwys materion, amcanion, strategaeth, polisïau a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ogystal â goblygiadau diwygiadau disgwyliedig i unrhyw rannau o'r cynllun na fwriedir iddynt gael eu diwygio. Mae'n rhaid iddo ddod i gasgliad ynghylch y weithdrefn ddiwygio y dylid ei dilyn, h.y. y weithdrefn lawn neu'r weithdrefn fer. Er mwyn sicrhau bod y dull gweithredu mor gadarn â phosibl a lleihau'r potensial ar gyfer her gyfreithiol byddai'n fuddiol asesu'r sail dystiolaeth yn erbyn profion cadernid. Dylai hyn gyfiawnhau'r casgliad ynghylch pa broses ddiwygio yw'r un fwyaf priodol i'w dilyn, yn ogystal â pha elfennau o'r sail dystiolaeth sydd angen eu diweddaru ymhellach drwy'r adolygiad o'r cynllun. Mater i'r ACLl yw sicrhau ei fod wedi gwneud y gwaith yn drylwyr ac y gall amddiffyn ei gasgliadau os cânt eu herio. Efallai y bydd angen dadansoddi / adolygu dogfennau tystiolaeth penodol er mwyn llywio Adroddiad yr

Adolygiad. Os deuir i'r casgliad mai'r weithdrefn ddiwygio fer yw'r un fwyaf priodol argymhellir y dylid anfon y fersiwn ddrafft o Adroddiad yr Adolygiad, ynghyd â thystiolaeth berthnasol i gyfiawnhau'r casgliad, i Lywodraeth Cymru (y Gangen Gynlluniau) er mwyn cael barn 'heb ymrwymiad' anffurfiol yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd.

10.1.6 Dylai Adroddiad yr Adolygiad gael ei gymeradwyo'n anffurfiol gan yr ACLl, ei gyhoeddi ar ei wefan a'i anfon i Lywodraeth Cymru a dylid gwneud copïau ohono cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan yr ACLl; dylai tystiolaeth allweddol y mae'r Adroddiad yn seiliedig arni fod ar gael i'r cyhoedd. Mae'r Adroddiad yn rhan o'r ddogfennaeth sy'n ofynnol ar y cam cyn adneuo dilynol. Bydd hyn yn sicrhau bod cyfleoedd ymgysylltu cynnar yn ei gwneud yn bosibl i unrhyw safbwyntiau croes ar gwmpas diwygiad arfaethedig gael eu mynegi a'u hystyried gan yr ACLl yn gynnar yn y broses. Mae hefyd yn ofynnol fel rhan o'r ddogfennaeth adneuo a'r pecyn cyflwyno.

## 10.2 Diwygio

10.2.1 Mae Adran 70(1) o Ddeddf 2004 yn galluogi ACLl i lunio fersiwn ddiwygiedig o CDLl unrhyw bryd. Mae'n rhaid i unrhyw fersiwn ddiwygiedig gael ei rhagflaenu gan Adroddiad yr Adolygiad (Rheoliad 41).

10.2.2 Bydd y dyddiad y daw'r CDLl presennol i ben, yr angen i gynnal cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai a'r amser sydd ei angen i baratoi a mabwysiadu diwygiadau a pharatoi'r elfennau o'r sail dystiolaeth sy'n hanfodol i'r cynllun yn ystyriaethau pwysig wrth benderfynu a oes angen diwygio'r cynllun. Ar ôl iddynt gael eu mabwysiadu dylai fod gan CDLlau oes weithredol o 10 mlynedd o leiaf. Ni fydd ymestyn dyddiadau'r cynllun ac asesiadau cysylltiedig o'r gofynion o ran tir ychwanegol ac ati, o reidrwydd, yn tanseilio'r strategaeth oni chynigir newid y cyfeiriad teithio o ran twf neu'r cyfeiriad teithio gofodol yn sylweddol. Mae'n bwysig bod yr angen newydd sy'n deillio o'r amserlen hirach yn cael ei nodi, gan gadw mewn cof y bydd yr asesiadau o anghenion sy'n sail i'r CDLl a fabwysiadwyd yn ymwneud â chyfnod y cynllun fel y'i rhagwelwyd. Wedyn mae'n rhaid ystyried sut y caiff yr angen newydd hwn ei ddiwallu drwy'r cynllun ac a fyddai'n arwain at newidiadau sylweddol. Dylid egluro goblygiadau symud cyfnod y cynllun ymlaen yn Adroddiad yr Adolygiad a'r sail dystiolaeth ategol.

10.2.3 Ar gyfer y ddwy weithdrefn ddiwygio a ddisgrifir isod, bydd angen Cytundeb Cyflawni diwygiedig fel y nodir yn adran 4.5.2.3. Os bydd Llywodraeth Cymru wedi mynegi pryderon sylweddol 'heb ymrwymiad' ynghylch casgliad Adroddiad yr Adolygiad (adran 10.1.5), cyfeirir at hyn yn ymateb ffurfiol Llywodraeth Cymru i'r Cytundeb Cyflawni diwygiedig a gyflwynwyd, gan nodi'r lefel uchel o risg y gall yr awdurdod fod yn ei hwynebu.

10.2.4 Os cynigir diwygiadau o'r CDLl a'u bod yn cael eu cyflwyno i'w harchwilio gan y cyhoedd, dylai'r dogfennau ymgynghori nodi'n glir y newidiadau o'r polisïau a'r cynigion sy'n bodoli eisoes. Wrth benderfynu newid cynllun, dylai awdurdod ystyried y rhyngberthynas rhwng polisïau ac effeithiau posibl newid un polisi ar bolisïau eraill yn y cynllun. Dylid hefyd ystyried y gofynion o ran Arfarniad o Gynaliadwyedd ac

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Gall newidiadau detholus nad ydynt yn ystyried goblygiadau cysylltiadau rhwng meysydd polisi gwahanol yn y cynllun amharu ar gydlyniant ac effeithiolrwydd y cynllun yn gyffredinol a gallent effeithio ar gadernid y cynllun yn gyffredinol.

*- Y weithdrefn ddiwygio lawn*

10.2.5 Gall Adroddiad yr Adolygiad o'r CDLl ddod i'r casgliad bod y materion dan sylw yn ddigon pwysig i gyfiawnhau dilyn y weithdrefn ddiwygio lawn e.e. pan fydd y strategaeth wedi dyddio neu pan na fydd yn gweithio; ar wahân i'r Cytundeb Cyflawni, mae'r broses ddiwygio lawn yr un peth â'r broses a ddefnyddir i baratoi cynllun (Rheoliad 3(1) o'r Rheoliadau CDLlau) ac fe'i nodir yn Ffigur 2.1; fodd bynnag, gweler uchod (10.2.3) mewn perthynas â diwygio'r Cytundeb Cyflawni. Dylai'r gwaith adeiladu ar y profiad a gafwyd gyda'r CDLl gwreiddiol a dylai gymryd cryn dipyn yn llai na phedair blynedd i baratoi'r cynllun newydd.

*- Y weithdrefn ddiwygio fer*

10.2.6 Mae'r Rheoliadau CDLlau (Rheoliad 13A a Rhan 4A) yn darparu gweithdrefn ddiwygio fer ar gyfer amgylchiadau lle nad yw'r materion dan sylw yn ddigon pwysig i gyfiawnhau dilyn y weithdrefn ddiwygio lawn. Byddai angen i'r Awdurdod ddod i'r casgliad yn ei Adroddiad ar yr Adolygiad o'r CDLl, yn seiliedig ar dystiolaeth ac mewn ymgynghoriad ag ymgyngoreion priodol, ei fod o'r farn mai gweithdrefn fer yw'r ymateb mwyaf priodol ac na fyddai diwygiadau yn gwneud y canlynol:
- tanseilio cadernid y strategaeth, a/neu
- gwneud y strategaeth yn anghydlynol neu'n amhosibl ei hadnabod, a / neu
- arwain at gynllun sy'n amlwg wahanol i'r un a fabwysiadwyd.

10.2.7 Byddai'r dystiolaeth sydd ei hangen i ategu'r safbwynt hwn yn cynnwys canlyniadau'r AMB, unrhyw dystiolaeth gyd-destunol (megis newidiadau i bolisi cenedlaethol) a fersiynau wedi'u diweddaru o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Bydd y broses ddiwygio fer yn briodol, er enghraifft, os bydd angen gwneud newidiadau i bolisi neu drothwy rheoli datblygu penodol yn y cynllun (megis trothwyon tai fforddiadwy) neu os bydd angen safleoedd ychwanegol; byddai angen i unrhyw newidiadau o'r fath, gan gynnwys safleoedd newydd, gyd-fynd â strategaeth y CDLl a fabwysiadwyd. Fodd bynnag, os bydd yn rhaid dod o hyd i safleoedd cwbl newydd dylid cyhoeddi cais pellach am ddarpar safleoedd a bydd angen i'r ACLl ystyried i ba raddau y dylid cynnal cylch o waith ymgynghori cychwynnol ynghylch y darpar safleoedd hyn.

10.2.8 Os bydd yr ACLl yn penderfynu defnyddio'r broses ddiwygio fer mae'n rhaid i'r ACLl fod yn siŵr y gall gyfiawnhau ei ddull gweithredu yn llawn. Mae yna risg o waith yn mynd yn ofer ac oedi os ceir, yn ystod yr archwiliad, bod y materion dan sylw yn ddigon pwysig i gyfiawnhau dilyn y weithdrefn ddiwygio lawn. Mae Arolygydd yn debygol o gynnal cyfarfod archwiliol os bydd o'r farn bod y weithdrefn ddiwygio lawn yn briodol. Er na fyddai angen gofynion cyn adneuo llawn Rhan 4 o'r Rheoliadau o dan Ran 4A, gallai ACLl gynnal ymgynghoriad cyhoeddus o hyd er mwyn cyfiawnhau'r dull gweithredu pe bai o'r farn bod y risg yn rhy fawr.

10.2.9 Mae'r cam cyn adneuo yn gam mwy hyblyg nad oes fawr ddim gofynion deddfwriaethol yn gysylltiedig ag ef a lle nad oes angen cynnal "ymgynghoriad cyhoeddus cyn adneuo" fel yr un sy'n ofynnol o dan Reoliad 15. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r ACLl hysbysu'r cyrff ymgynghori penodol hynny y mae'r ACLl yn ystyried y gall fod ganddynt ddiddordeb yn y diwygiadau arfaethedig, ac unrhyw gorff ymgynghori cyffredinol yr ystyria'r ACLl ei fod yn briodol, a gwahodd pob un i gyflwyno sylwadau y mae'n rhaid i'r ACLl eu hystyried wedyn (cam Rheoliad 26A), a hynny er mwyn nodi i ba raddau y dylid diwygio'r CDLl a llunio opsiynau ar gyfer polisi a/neu safleoedd.  Bydd angen i gynllun cynnwys cymunedau'r Cytundeb Cyflawni egluro'r cam hwn.

10.2.10 Ar y cam adneuo (Rheoliad 26B), bydd angen i'r ACLl nodi'n glir y dylai unrhyw ymgynghoriad a sylwadau cysylltiedig ond ymwneud â'r newidiadau arfaethedig, neu eu cydberthynas â'r CDLl ac Adroddiad yr Adolygiad. Wrth adneuo diwygiadau i'r cynllun, dylai awdurdod nodi'r polisïau hynny yn y cynllun nad ydynt yn cael eu newid, ond y mae'n ystyried eu bod yn uniongyrchol gysylltiedig â'r rhai sy'n cael eu newid; dylai hefyd gyflwyno goblygiadau'r newidiadau hyn i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd. Bydd hyn yn helpu pobl i nodi cwmpas sylwadau posibl i'r diwygiadau arfaethedig. Nid yw'n ofynnol i awdurdodau ymateb i sylwadau nad ydynt yn ymwneud â'r diwygiad oni ellir ystyried yn rhesymol eu bod yn berthnasol i gadernid y diwygiad; egwyddorion cyffredinol cyfraith gyhoeddus fydd yn penderfynu a yw sylwadau yn berthnasol. Dylid cofrestru'r holl sylwadau a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori, gan gynnwys y rhai nad yw'r ACLl yn ystyried eu bod yn berthnasol i'r newidiadau arfaethedig, gyda'r ACLl. Wrth gyflwyno'r CDLl dylai'r ACLl gynnwys fel set ar wahân o sylwadau unrhyw rai y mae'n ystyried nad ydynt yn berthnasol i'r newidiadau y mae'n eu cynnig.

10.2.11 Dylai'r ACLl sicrhau y gall gadarnhau bod proses gynharach yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn dal i fod yn ddilys a'i fod wedi ystyried opsiynau wrth asesu'r cynigion newydd ac wedi cydymffurfio â'r Rheoliadau AAS a'r Rheoliadau Cynefinoedd.

10.2.12 Caiff y diwygiadau arfaethedig eu harchwilio yng nghyd-destun y cynllun a fabwysiadwyd; bydd yr Arolygydd yn ystyried casgliadau'r ACLl ynghylch a yw'r cynllun yn dal i fod yn gadarn (fel y nodir yn Adroddiad yr Adolygiad) yn ogystal â pha mor briodol yw'r newidiadau yng ngoleuni'r sail dystiolaeth fel y nodir yn y Rheoliadau CDLlau. Bydd yr Arolygydd yn gallu penderfynu a ddylid ystyried bod sylw ynghylch polisi a gadwyd neu bolisi cysylltiedig yn berthnasol ac a ddylai gael ei ystyried fel gwrthwynebiad sydd angen ei wrando yn yr archwiliad. Fodd bynnag, os bydd y sylw yn ymwneud â pholisi neu ddyraniad y mae'n amlwg ei fod y tu allan i gwmpas proses ddiwygio'r cynllun, fel y nodir yn Adroddiad yr Adolygiad a phan gaiff ei adneuo, ni châi'r sylw ei ystyried gan fod yr archwiliad ond yn ymwneud â'r elfennau o'r cynllun y cynigir y dylid eu newid.

10.2.13 Mae'n rhaid i'r Arolygydd fod yn fodlon bod y cynllun cyfan yn dal i fod yn gadarn er mwyn iddo gael ei fabwysiadu. Y CDLl diwygiedig yn ei gyfanrwydd y dylid ei fabwysiadu. Cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl ei fabwysiadu, dylai'r diwygiadau gael eu hymgorffori yn y CDLl a fabwysiadwyd. Ar ôl ei fabwysiadu bydd yn disodli'r CDLl presennol yn awtomatig (Rheoliad 24A).

10.2.14 Ni ddylai gymryd mwy na chwe mis i wneud y newidiadau angenrheidiol ac yn y rhan fwyaf o achosion dylai gymryd tua'r un amser i gwblhau'r archwiliad; os bydd angen cyhoeddi cais pellach am ddarpar safleoedd, mae hyn yn debygol o ymestyn yr amser sydd ei angen cyn cyflwyno'r CDLl i rhwng 9 a 12 mis

## 10.3 Crynodeb o'r Tasgau Adolygu a Diwygio

| **Tasgau Integredig y CDLl** | **Tasgau Penodol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd** |
|---|---|
| Adolygu'r CDLl mewn ymateb i ganfyddiadau'r AMB (ystyried a yw'n briodol cynnal adolygiad detholus), ac o leiaf bob pedair blynedd o'r adeg y'i mabwysiadwyd i ddechrau a'r tro diwethaf y'i mabwysiadwyd yn dilyn adolygiad A69. | Adolygu gwaith cwmpasu a fframwaith asesu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd. |
| Ystyried AMBau cyhoeddedig, newidiadau cyd-destunol sylweddol a'r angen i gynnal adolygiadau llawn statudol.<br>Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol; ystyried y sail dystiolaeth.<br>Paratoi Adroddiad yr Adolygiad, a fydd yn cynnwys y casgliad ynghylch gweithdrefn ddiwygio'r cynllun (yn seiliedig ar ba mor bwysig yw'r materion dan sylw).<br>Cael barn anffurfiol gan Gangen Gynlluniau Llywodraeth Cymru os bydd y fersiwn ddrafft o adroddiad yr adolygiad yn argymell dilyn y weithdrefn ddiwygio fer.<br>Cyhoeddi adroddiad yr adolygiad; ei anfon i Lywodraeth Cymru. Cyhoeddi tystiolaeth allweddol. | Ailystyried yr agweddau ar yr arfarniad integredig o'r cynllun sy'n ymwneud â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd / yr AAS. |
| Mynd ymlaen gan ddefnyddio'r weithdrefn ddiwygio lawn neu'r weithdrefn ddiwygio fer; llunio Cytundeb Cyflawni diwygiedig; ystyried yr angen i gyhoeddi cais pellach am ddarpar safleoedd. | Sicrhau y bodlonir gofynion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Rheoliadau AAS. |

# 11. Rôl Llywodraeth Cymru, Her yn yr Uchel Lys a Dirymu

## 11.1 Ymwneud Llywodraeth Cymru

11.1.1 Bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan ym mhroses y CDLl drwy'r canlynol:

**i.** ***Cytundeb Cyflawni*** *(Adran 63 o Ddeddf 2004):* Mae'n ofynnol i ACLl gyflwyno telerau ei amserlen ar gyfer paratoi a mabwysiadu cynllun a'i Gynllun Cynnwys Cymunedau (h.y. y Cytundeb Cyflawni – Rheoliad 9 o'r Rheoliadau CDLlau) i Lywodraeth Cymru er mwyn iddi gytuno arnynt. Mae gan Lywodraeth Cymru y pŵer i gyfarwyddo telerau'r dogfennau hyn os na ellir dod i gytundeb.

**ii.** ***Paratoi'r Cynllun Cyn Adneuo*** *(y Rheoliadau CDLlau):* Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghorai statudol ar gyfer CDLlau (gweler Atodiad B), gan gynnwys Arfarniadau o Gynaliadwyedd, a dylid ymgynghori â hi yn gynnar yn y broses o lunio'r cynllun. Dylai deialog barhaus â Llywodraeth Cymru osgoi'r angen i wneud ymyriadau mwy ffurfiol yn ddiweddarach yn ystod proses y cynllun.

**iii.** ***Adneuo*** *(Y Rheoliadau CDLlau):* Bydd Llywodraeth Cymru yn craffu ar gynlluniau, diwygiadau i gynlluniau a chynlluniau newydd sy'n disodli rhai sy'n bodoli eisoes er mwyn nodi a ydynt yn gyson â pholisi cenedlaethol ac a oes gwrthdaro yr ymddengys nad yw'n cael ei gyfiawnhau gan dystiolaeth gadarn o amgylchiadau lleol. Gall Llywodraeth Cymru gofrestru sylwadau ar y cynllun wedi'i adneuo, gan gynnwys gwrthwynebiadau iddo.

## 11.2 Pwerau Llywodraeth Cymru

11.2.1 O dan Ran 6 o Ddeddf 2004 mae gan Lywodraeth Cymru bwerau cyfarwyddo eang yn ogystal â phwerau diofyn mewn perthynas â CDLlau, fel y nodir yn PCC Pen2.

## 11.3 Her yn yr Uchel Lys

11.3.1 Gall unrhyw un herio dilysrwydd CDLl o dan adran 113 o Ddeddf 2004, fel y nodir yn y bennod o PCC sy'n ymdrin â CDLlau.

## 11.4 Dirymu

11.4.1 O dan adran 68 o Ddeddf 2004 gall Llywodraeth Cymru ddirymu CDLl ar gais yr ACLl unrhyw bryd. Mae'n rhaid i'r ACLl wneud trefniadau er mwyn sicrhau nad yw'r CDLl ar gael i'w archwilio mwyach, cyhoeddi'r ffaith a chymryd unrhyw gamau sydd eu hangen, yn ei farn ef, er mwyn tynnu sylw pobl sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal at y mater (Rheoliad 39(5)).

# 12. Darpariaethau Trosiannol ac Arbed

## 12.1 Darpariaethau Trosiannol ac Arbed (Darpariaethau 2015)

12.1.1 Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015 – O.S.2015/1598 (Cy.197) ("Rheoliadau Diwygio 2015") yn darparu ar gyfer y darpariaethau trosiannol canlynol (Rheoliad 3).

## 12.2 Rheoliad 20/21 Cam y Safleoedd Amgen

12.2.1 Diben y cam hwn yw cyhoeddi 'safleoedd amgen' sy'n deillio o sylwadau i'r cynllun adneuo a luniwyd o dan Reoliad 17 a chynnig cyfle i ymgynghori yn eu cylch. Nid yw'n cael ei ystyried yn angenrheidiol nac yn briodol mwyach. Pan fo'r ACLl neu'r Arolygydd yn bwriadu diwygio'r CDLl adneuo mewn perthynas â 'safle amgen' a gynigir gan gyflwynwyr i'r cynllun adneuo a luniwyd o dan Reoliad 17, yna cynhelir yr ymgynghoriad gan ddefnyddio'r weithdrefn 'newidiadau penodol' anstatudol (cyn cyflwyno) a / neu'r weithdrefn 'newidiadau materion sy'n codi' (MACs) anstatudol yn ystod yr archwiliad. Mae hyn yn rhoi cyfle i gyflwyno sylwadau o blaid ac yn erbyn y cynnig ac yn galluogi pobl i gael gwrandawiad o dan adran 64(6). Dim ond os bydd ACLl, pan fydd Rheoliadau Diwygio 2015 yn cychwyn, wedi dechrau ar y cam hwn y dylid parhau ag ef.

12.2.2 Felly, wrth baratoi unrhyw CDLl gan gynnwys fersiynau diwygiedig:

- i. Os bydd y cynllun adneuo yn cael sylwadau ar unrhyw gais ar gyfer safle o dan Reoliad 18, ac nad yw'r ACLl wedi cyhoeddi'r ceisiadau hynny ar gyfer safleoedd o dan Reoliad 20 cyn i Reoliadau Diwygio 2015 gychwyn, yna mae Rheoliad 19(2) yn gymwys iddynt ac, felly, ymdrinnir â hwy fel sylwadau adneuo.
- ii. Fodd bynnag, os bydd yr ACLl wedi dechrau ymdrin â sylwadau ar ddyraniadau safle o dan Reoliad 20 cyn i Reoliadau Diwygio 2015 gychwyn, mae'n rhaid iddo barhau o dan Reoliadau 20 ac 21.

## 12.3 Rheoliad Cyn-Adneuo 14

12.3.1 Mewn perthynas â'r weithdrefn fer ar gyfer diwygio CDLlau yn unig, mae darpariaethau trosiannol yn ei gwneud yn bosibl i waith paratoi cyn adneuo o dan Reoliad 14 a gwblhawyd cyn i Reoliadau 2015 gychwyn gael ei drin fel pe bai wedi cydymffurfio â gofynion cyn adneuo'r weithdrefn ddiwygio fer o ran y digwyddiadau hysbysu a gwahodd (adran 10.2.9). Mae gofyniad Rheoliad 14 yn ehangach na gofyniad cyn adneuo gweithdrefn ddiwygio fer Rheoliad 26A a byddai'n rhoi cyfle i gyrff priodol fynegi eu barn. Gall yr ACLl ddewis a yw am fynd ymlaen gan ddefnyddio'r weithdrefn lawn neu'r weithdrefn fer. Byddai angen ystyried unrhyw sylwadau a geid ac mae'n rhaid i'r ACLl lunio adroddiad ar gam Rheoliad 14 (yr adroddiad ymgynghori cychwynnol neu ran ohono).

## 12.4 Adroddiad yr Adolygiad

12.4.1 Mae darpariaethau trosiannol yn ei gwneud yn bosibl i unrhyw Adroddiad ar Adolygiad a gyflwynir i Lywodraeth Cymru cyn i Reoliadau Diwygio 2015 gychwyn gael ei drin fel pe bai wedi cydymffurfio â'r weithdrefn reoliadol. Oni fydd wedi gwneud hynny eisoes, dylai'r ACLl sy'n gweithredu o dan y ddarpariaeth hon hefyd gyhoeddi Adroddiad yr Adolygiad ar ei wefan a threfnu bod copïau ar gael.

## 12.5 Darpariaethau Trosiannol ac Arbed (Darpariaethau 2005)

12.5.1 Os nad oes unrhyw CDLl ar gyfer ardal, mae darpariaethau trosiannol ac arbed yn gymwys mewn perthynas ag ardal unrhyw awdurdod yng Nghymru nes i'r CDLl ar gyfer yr ardal honno ddod yn gwbl weithredol. Bydd unrhyw gynllun datblygu sy'n bodoli eisoes (h.y. Cynllun Datblygu Unedol, Cynllun Strwythur neu Gynllun Lleol) yn peidio â bod yn weithredol ar gyfer ardal yr awdurdod priodol pan ddaw CDLl yn weithredol ar gyfer yr ardal honno. Gwneir y ddarpariaeth hon o dan Orchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 6, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2005 – O.S.2005/2847(C.118).

-------------

# Atodiad A

## Rhestr Wirio Sicrwydd Ansawdd

*(gweler 2.1.2, 3.4.5, 4.5.12)*
*- Ni fydd pob gwiriad a restrir yn gymwys i'r weithdrefn ddiwygio fer.*
*- Nid yw'r rhestr wirio hon yn cynnwys y gofynion statudol o ran y cyfnodau ymgynghori ac argaeledd dogfennau.*

## Casglu Tystiolaeth

Wrth baratoi CDLl un o'r materion y mae'n rhaid i ACLl ei ystyried yw'r adnoddau sy'n debygol o fod ar gael wrth roi'r cynllun ar waith (Adran 62 (50)(f) o Ddeddf 2004). Dylai'r awdurdod ystyried hyn wrth lunio ei gytundeb cyflawni'r a'r rhaglen waith ar gyfer y broses o baratoi'r cynllun.

- A yw gwybodaeth sylfaenol a thystiolaeth yn cael eu casglu er mwyn sicrhau bod materion sy'n effeithio ar ddatblygiad yr ardal yn cael eu hadolygu'n barhaus (A61 o Ddeddf 2004)
- A yw'r dystiolaeth sylfaenol yn cael ei chasglu a'r dystiolaeth yn cael ei dwyn ynghyd er mwyn pennu'r fframwaith ar gyfer yr arfarniad o gynaliadwyedd (A62 (5) o Ddeddf 2004)
- A yw'r awdurdod wedi ystyried cydweithio ag awdurdodau eraill lle y bo'n bosibl er mwyn casglu tystiolaeth?

Gwybodaeth sylfaenol

- Disgrifir agweddau ar gyflwr presennol yr amgylchedd a'u datblygiad tebygol heb y cynllun.
- Disgrifir nodweddion ardaloedd y mae'n debygol yr effeithir arnynt yn sylweddol, gan gynnwys ardaloedd sy'n ehangach na ffin ffisegol ardal y cynllun lle y mae'n debygol y bydd y cynllun yn effeithio arnynt lle y bo'n ymarferol.
- Esbonnir anawsterau megis prinder gwybodaeth neu ddulliau.

## Y Cytundeb Cyflawni - Meini Prawf Asesu

- A ydych wedi ystyried y cyrff priodol y dylech ymgynghori â hwy?
- A yw'r gwaith yn cael ei reoli ar sail prosiectau?

Amserlen

- A yw'n hawdd i'r cyhoedd ei deall?
- A gwmpesir prif elfennau proses y CDLl?
- A ymgorfforwyd effeithiau prosesau ACLlau i'w cymeradwyo (e.e. cylchredau Cabinet)?

- A ydych wedi nodi amseriad camau gweithredu mewn perthynas â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn glir? E.e. ymgynghoriad pum wythnos â'r Cyrff Ymgynghori statudol ynghylch cwmpas a manylder yr wybodaeth amgylcheddol sydd i'w chynnwys yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (Rheoliadau 9 a 13 o Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004)
- Sut y caiff y Pwyllgor Cynllunio ei gynnwys?
- A oes digon o amser ar gyfer cynnwys y gymuned ar y camau cywir?
- A amcangyfrifwyd yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer pob cam/tasg?
- A ystyriwyd effaith cylchredau polisi a strategaeth ACLlau eraill a'u potensial ar gyfer rhannu adnoddau?
- A yw'r Arolygiaeth Gynllunio yn ymwybodol o hyn/yn fodlon ar hyn?
- A yw'r amserlen yn realistig ac yn gyflawnadwy ac a bennwyd cerrig milltir allweddol er mwyn cyflawni'r targed ar gyfer mabwysiadu'r CDLl?
- Os nad ydyw, beth yw'r amgylchiadau esgusodol (e.e. etholiadau lleol)?

Cynllun Cynnwys Cymunedau (CCC)

- A yw'r CCC yn gryno ac a yw'n hawdd i'r cyhoedd, sefydliadau gwirfoddol a busnesau uniaethu â'r broses a deall sut y cânt eu cynnwys ynddi?
- A yw'n nodi'n glir ymagwedd a safonau cynnwys yr awdurdod a'r modd y mae'r rhain yn gysylltiedig ag ymagweddau ymgynghori lleol perthnasol eraill?
- A yw'r dull gweithredu hwn yn cyd-fynd â'r egwyddorion allweddol yn 4.1.4 o'r Llawlyfr?
- A yw'n cynnwys y cyfnodau ymgynghori statudol a'r sefydliadau sy'n ymgyngoreion?
- A ydych yn ymgysylltu â rhanddeiliaid sy'n gyfrifol am gyflawni'r strategaeth?
- A ydych wedi crynhoi cyfranogiad y rhai yr effeithiwyd arnynt yn y gwaith o lunio'r CCC?
- A yw'r CCC yn cynnwys grwpiau rhanddeiliaid perthnasol, o gofio natur ardal yr awdurdod?
- A yw'n glir ynghylch y math o gyfranogiad a gynigiwyd ar gyfer pob cam a thasg berthnasol, ac a yw'r technegau/prosesau hyn yn ymddangos yn briodol i'r dasg/cam?
- A yw'r awdurdod yn dangos y gallu i ddarparu adnoddau ar gyfer y prosesau a'u rheoli?
- A oes rolau clir ar gyfer Aelodau, y Weithrediaeth a swyddogion?
- A oes dull o sefydlu croestoriad o safbwyntiau cynrychioliadol?
- A yw'n amlwg beth a ddisgwylir gan gyfranogion ar bob cam?

- A yw'n dangos y modd y caiff canlyniad y broses o gynnwys y gymuned ym mhob cam/tasg ei gyfleu i gyfranogion a phartïon â diddordeb (dulliau o roi adborth)?
- A yw'n glir sut y cofnodir y canlyniad fel pe bai'n dylanwadu ar y cynllun a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd?
- A yw'n nodi'r modd y bydd yr awdurdod yn monitro (ac yn newid) y CCC?

## Paratoi'r Cynllun – rhoi mwy o bwyslais ar y camau rhagarweiniol

Amcanion a chyd-destun

- Caiff diben ac amcanion y cynllun eu hegluro.
- Ystyrir materion yn ymwneud â chynaliadwyedd, gan gynnwys amcanion rhyngwladol ac amcanion y GE wrth ddatblygu amcanion a thargedau.
- Nodir amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn glir a'u cysylltu â dangosyddion a thargedau lle y bo'n briodol.
- Nodir cysylltiadau â chynlluniau, rhaglenni a pholisïau cysylltiedig eraill a'u hesbonio.
- Nodir gwrthdaro sy'n bodoli rhwng amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, rhwng amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r cynllun, a rhwng amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a chynlluniau eraill a'i ddisgrifio.

Cwmpasu

- Ymgynghorir â'r Cyrff Ymgynghori yn briodol ac ar adegau priodol ar gynnwys a chwmpas Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.
- Mae'r arfarniad yn canolbwyntio ar faterion o bwys.
- Trafodir anawsterau technegol, trefniadol ac eraill; eglurir tybiaethau ac ansicrwydd.
- Rhoddir rhesymau dros beidio ag ystyried materion ymhellach.

## Opsiynau Strategol a'r Dewis Strategaeth

Opsiynau/Dewisiadau amgen

- Dim ond dewisiadau amgen a ystyrir ar gyfer materion allweddol, a dogfennir y rhesymau dros eu dewis yn gryno.
- Mae dewisiadau amgen yn cynnwys senarios 'lle na wneir unrhyw beth' a/neu senarios 'busnes fel arfer' lle bo hynny'n berthnasol.
- Nodir effeithiau pob dewis amgen (niweidiol a buddiol) o ran cynaliadwyedd a'u cymharu.

- Nodir anghysondebau rhwng y dewisiadau amgen a chynlluniau/strategaethau, rhaglenni neu bolisïau perthnasol eraill a'u hesbonio.
- Rhoddir rhesymau dros ddewis neu ddileu dewisiadau amgen, gan nodi'r rhesymau dros unrhyw ddewisiadau amgen a ffefrir yn seiliedig ar y dystiolaeth.

- A ydych wedi ystyried pob cynllun/polisi/strategaeth/rhaglen berthnasol ac wedi dangos yn glir sut mae hyn wedi dylanwadu ar yr opsiynau/dewisiadau amgen?
- A ydych yn cydweithio ag awdurdodau cynllunio eraill er mwyn mynd i'r afael â materion trawsffiniol?

Rhagfynegi effeithiau sylweddol tebygol a'u gwerthuso

- Nodir effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd sylweddol tebygol, gan gynnwys y rhai a restrir yn y gyfarwyddeb AAS (bioamrywiaeth, poblogaeth, iechyd dynol, anifeiliaid, planhigion, pridd, dŵr, aer, ffactorau yn ymwneud â'r hinsawdd, asedau perthnasol, treftadaeth ddiwylliannol a thirwedd) fel y bo'n berthnasol.
- Ystyrir effeithiau cadarnhaol a negyddol, a lle y bo'n ymarferol, eir i'r afael â hyd yr effeithiau (byrdymor, tymor canolig neu hirdymor).
- Nodir effeithiau eilaidd, cronnus a synergaidd lle y bo'n ymarferol.
- Ystyrir rhyngberthnasau rhwng effeithiau lle y bo'n ymarferol.
- Lle y bo'n berthnasol, mae'r broses o briodoli a gwerthuso effeithiau yn defnyddio safonau, rheoliadau a throthwyon derbyniol.
- Disgrifir y dulliau a ddefnyddir i werthuso'r effeithiau.

Mesurau lliniaru

- Nodir mesurau a ragwelwyd i atal, lleihau a gwrthbwyso unrhyw effeithiau niweidiol gweithredu'r cynllun.
- Nodir materion i'w hystyried mewn caniatadau cynllunio.
- Mae'r modd y mae wedi ei gynllunio a'i gyflwyno yn glir ac yn gryno.
- Mae'n defnyddio iaith syml a chlir ac yn osgoi neu'n esbonio termau technegol.
- Mae'n defnyddio mapiau a lluniau eraill lle y bo'n briodol.
- Mae'n esbonio'r fethodoleg a ddefnyddiwyd
- Mae'n esbonio sut y gwerthuswyd opsiynau'r CDLl.
- Mae'n nodi ffynonellau gwybodaeth, gan gynnwys barn a safbwyntiau arbenigol.
- Mae'n cynnwys crynodeb annhechnegol.

Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hefyd)

- Mae'r modd y mae wedi ei gynllunio a'i gyflwyno yn glir ac yn gryno.
- Mae'n defnyddio iaith syml a chlir ac yn osgoi neu'n esbonio termau technegol.
- Mae'n defnyddio mapiau a lluniau eraill lle y bo'n briodol.
- Mae'n esbonio'r fethodoleg a ddefnyddiwyd
- Mae'n esbonio sut y gwerthuswyd opsiynau'r CDLl.
- Mae'n nodi ffynonellau gwybodaeth, gan gynnwys barn a safbwyntiau arbenigol.
- Mae'n cynnwys crynodeb annhechnegol.

Ymgynghoriad ar Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

- Ystyrir Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a barn y rhai yr ymgynghorwyd â hwy wrth baratoi CDLl adneuo.

## Paratoi CDLl Adneuo

- A ydych yn cyfiawnhau unrhyw newidiadau i'r strategaeth a'r polisïau allweddol ers y dewis strategaeth yn glir?
- A ydych wedi darparu'r dystiolaeth i ategu'r newid?

Cynnwys y CDLl Adneuo

- A yw'r cynllun yn glir ac mor fyr a chryno â phosibl?
- A yw'r polisïau wedi'u geirio'n briodol ac yn cyfleu'r hyn y dylent ei gyfleu?
- A yw'r polisïau yn cynnwys tasgau gweinyddol yn hytrach na pholisïau a fydd yn helpu'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau i benderfynu ar geisiadau cynllunio?
- A geir cyfeiriadau helaeth at y ddogfennaeth gefndir er mwyn osgoi dyblygu gwybodaeth.
- A yw'r holl wybodaeth i'w chael yn y ddogfennaeth gefndir yn hytrach na'r CDLl?

Adroddiad wedi'i ddiweddaru yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hefyd)

- Fel uchod ar gyfer Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.
- Mae'n esbonio pwy yr ymgynghorwyd â hwy a pha ddulliau ymgynghori a ddefnyddiwyd.
- Mae'n esbonio sut yr ystyriwyd sylwadau.
- Mae'n cynnwys canlyniadau asesu unrhyw opsiwn diwygiedig neu newydd sy'n deillio o ymgynghoriad cyhoeddus.

- Mae'n esbonio'r rhesymau dros y strategaeth a gynhwyswyd yn y CDLl adneuo.

Ymgynghori ar Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi'i ddiweddaru

- Rhoddir rhesymau dros ddewisiadau yn y cynllun adneuo, yng ngoleuni opsiynau rhesymol eraill a ystyriwyd.

## Cyflwyno, Archwilio a Mabwysiadu

Gwneud penderfyniadau a gwybodaeth am y penderfyniad

- Esbonnir y modd yr ystyriwyd canfyddiadau proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd) yn y datganiad mabwysiadu.
- Esbonnir unrhyw newidiadau a wnaed i'r CDLl o ganlyniad i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn y datganiad mabwysiadu.
- A ydych wedi paratoi eich CDLl yn unol â'r cytundeb cyflawni?
- Nodir goblygiadau unrhyw newidiadau sylweddol a argymhellwyd yn adroddiad yr Arolygydd yn Adroddiad terfynol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r datganiad mabwysiadu.

## Monitor ac Adolygu

Mesurau monitro

- Mae mesurau a gynigiwyd ar gyfer monitro yn glir, yn ymarferol ac yn gysylltiedig â'r dangosyddion a'r amcanion a ddefnyddiwyd yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.
- Defnyddir prosesau monitro, lle y bo'n briodol, yn ystod y broses o weithredu'r cynllun i wneud iawn am y prinder gwybodaeth sylfaenol yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.
- Mae monitro yn galluogi effeithiau andwyol anrhagweladwy i gael eu nodi ar gam cynnar. (Gallai'r effeithiau hyn gynnwys rhagfynegiadau sy'n profi i fod yn anghywir).
- Cynigir camau gweithredu mewn ymateb i effeithiau niweidiol sylweddol.

*Ffynhonnell: Rhestr Wirio Sicrhau Ansawdd yr AAS a geir yn Atodiad 9 (Ffigur 25) o "A Practical Guide to the Strategic Environmental Assessment Directive", y Cydweinyddiaethau, Medi 2005 - a addaswyd ac a ad-drefnwyd ar gyfer system y CDLl a'r CDL / Arfarniad o Gynaliadwyedd integredig.*

Atodiad B

# YMGYNGOREION AR GYFER CYNLLUNIAU DATBLYGU LLEOL

B1 Bydd ACLl yn penderfynu â phwy y bydd yn ymgysylltu ac yn ymgynghori ar wahanol gamau o'r broses o baratoi'r cynllun; caiff yr wybodaeth hon ei chynnwys yn ei gynllun cynnwys cymunedau (CCC) sy'n rhan o'i Gytundeb Cyflawni. Bydd angen i ACLlau gydymffurfio â gofynion Deddf 2004 a'r Rheoliadau CDLlau mewn perthynas â chynnwys y 'cyrff ymgynghori penodol' a'r 'cyrff ymgynghori cyffredinol' ac ymgynghori â hwy (gweler isod).

B2 **CYRFF YMGYNGHORI PENODOL** (a ddiffinnir yn Rheoliad 2 o'r Rheoliadau CDLlau)

Mae'n rhaid i ACLlau ymgynghori â'r cyrff canlynol yn unol â Deddf 2004 a'r Rheoliadau CDLlau:

i. Llywodraeth Cymru

   Yn ogystal â chynllunio, mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am amrywiaeth eang o faterion polisi gan gynnwys amaethyddiaeth, datblygu economaidd, addysg, yr amgylchedd, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, yr amgylchedd hanesyddol, tai, diwydiant, twristiaeth, trafnidiaeth a'r Gymraeg. Bydd **Is-adran Gynllunio** Llywodraeth Cymru **yn cydgysylltu ymgynghoriadau o fewn Llywodraeth Cymru**.

ii. Cyfoeth Naturiol Cymru

iii. Network Rail Infrastructure Limited (Western & Wales - Property)

iv. Yr Ysgrifennydd Gwladol – i'r graddau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cyflawni swyddogaethau a oedd yn arferadwy gynt gan yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol (Deddf Rheilffyrdd 2005). v. Awdurdod perthnasol (h.y. awdurdod cynllunio lleol neu gyngor cymuned neu dref), y mae unrhyw ran o'i ardal o fewn ardal yr ardal neu'n ffinio â hi

vi. Unrhyw un y mae'r cod cyfathrebu electronig yn gymwys iddo yn rhinwedd cyfarwyddyd a roddwyd o dan adran 106(3) o Ddeddf Cyfathrebu 2003

vii. Unrhyw un sy'n berchen ar gyfarpar electronig neu sy'n rheoli cyfarpar electronig a leolir mewn unrhyw ran o ardal yr awdurdod (lle y bo'n hysbys)

viii. Unrhyw un o'r cyrff o'r rhestr ganlynol sy'n cyflawni swyddogaethau mewn unrhyw ran o ardal yr awdurdod:

   a. Bwrdd Iechyd Lleol

   b. unigolyn y rhoddwyd trwydded iddo o dan adran 6(1)(b) neu (c) o Ddeddf Trydan 1989

   c. unigolyn y rhoddwyd trwydded iddo o dan adran 7(2) o Ddeddf Nwy 1986

   ch. ymgymerwr carthffosiaeth

   d. ymgymerwr dŵr

B3 **ADRANNAU LLYWODRAETH Y DU**

Dylai awdurdod ymgynghori ag adrannau Llywodraeth y DU pan ymddengys fod agweddau ar gynllun, neu gynigion ar gyfer ei newid neu roi cynllun newydd yn ei le, yn effeithio ar ei fuddiannau. Yn benodol, dylid ymgynghori â'r canlynol ynghylch y meysydd polisi a nodir isod:

| | | |
|---|---|---|
| i. | Yr Adran Drafnidiaeth | Polisi ar reilffyrdd, meysydd awyr a'r môr / porthladdoedd |
| ii. | Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd | Polisi ynni'r DU |
| iii. | Y Swyddfa Gartref | Materion sy'n ymwneud ag amddiffyn sifil; polisïau ar gyfer carchardai ac ati |
| iv. | Y Weinyddiaeth Amddiffyn | Materion sy'n debygol o effeithio ar ei daliadau tir a'i osodiadau neu lle y gellir ystyried gwerthu darnau mawr o dir y Weinyddiaeth Amddiffyn. |

B4 **CYRFF YMGYNGHORI CYFFREDINOL** (a ddiffinnir yn Rheoliad 2 o'r Rheoliadau CDLlau)

Nodir isod y 'cyrff ymgynghori cyffredinol' y dylid ymgynghori â hwy yn unol â Chytundeb Cyflawni awdurdod:

i. Cyrff gwirfoddol, y mae rhai o'u gweithgareddau neu bob un ohonynt o fudd i unrhyw ran o ardal yr awdurdod

ii. Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau hiliol, ethnig neu genedlaethol gwahanol yn ardal yr awdurdod

iii. Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau crefyddol gwahanol yn ardal yr awdurdod

iv. Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau pobl anabl yn ardal yr awdurdod.

v. Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau unigolion sy'n cynnal busnes yn ardal yr awdurdod.

vi. Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau diwylliant Cymru yn ardal yr awdurdod.

B5 **YMGYNGOREION ERAILL**

Dylai awdurdod hefyd ystyried yr angen i ymgynghori, lle y bo'n briodol, â'r asiantaethau a'r sefydliadau canlynol, yn unol â'i Gytundeb Cyflawni:

Anabledd Cymru
Arolwg Daearegol Prydain
Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)
Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Comisiwn Dylunio Cymru
Comisiwn Hawliau Anabledd
Comisiynydd y Gymraeg

Cwmnïau Dŵr
Cwmnïau Gweithredu Trenau
Cwmnïau Trydan, Nwy a Thelathrebu a Chwmni'r Grid Cenedlaethol
Cynghrair Diwygio'r Gyfraith y Teithwyr
Cyngor Chwaraeon Cymru
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Cyngor Sipsiwn
Cymdeithas Agregau Prydain
Cymdeithas Cynhyrchion Chwareli Cymru
Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru (sy'n cynrychioli'r diwydiant gwastraff)
Cymdeithas Trafnidiaeth Cludo Nwyddau
Cymorth Cynllunio Cymru
Cyrff Proffesiynol nas rhestrir yn benodol (e.e. Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig Cymru, y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru, Sefydliad Siartredig Tai Cymru, Sefydliad y Peirianwyr Sifil, y Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff)
Cyswllt Amgylchedd Cymru
Daliadau Eiddo Swyddfa'r Post
Fields in Trust
Grwpiau amgylcheddol yn lleol ac yn genedlaethol
Grwpiau cymunedol, cadwraeth ac amwynder lleol, gan gynnwys Agenda 21
Grwpiau/Cymdeithasau Dinesig
Gwasanaethau Tân ac Achub
Gweithredwyr Meysydd Awyr
Gweithredwyr Porthladdoedd
Gweithredwyr trafnidiaeth leol
Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
Ffederasiwn Busnesau Bach
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Pwyllgor Ymgynghorol ar Gludiant Pobl Anabl
Rail Freight Group
Siambrau Masnach, y CBI lleol a changhennau lleol Sefydliad y Cyfarwyddwyr
Swyddfa Ystad y Goron
Swyddogion Cyswllt Pensaernïol yr Heddlu
Un Llais Cymru
Undeb Amaethwyr Cymru
Undeb Amaethwyr Cymru
Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol
Y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg
Y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
Yr Asiantaeth Gwasanaethau Amgylcheddol (Gwastraff)
Yr Awdurdod Glo
Yr Awdurdod Hedfan Sifil
Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd, perchenogion camlesi ac awdurdodau mordwyo